



# Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD


This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



Bought from H. Williams, privately.

2106 e. 368



John Hughes

Valley Forge





# DARLITHIAU

GAN Y

Diweddar Barch. William Rees, D.D.  
(*Gwilym Hiraethog*).

---

*LUTHER,*

*GARIBALDI, PALMERSTON,*  
*WILLIAMS, o BANT-Y-CELYN.*

---

GEE A'I FAB, CYF., DINBYCH.

—  
1907.





## Y CYNNEWYSIAD.

---

LUTHER, t. d. 9—66.

Ei enedigaeth yn 1483—ei helyntion boreuol—ei awyddfryd am ddysg— yn taraw ei law ar hen Feibl yn Erffurt, a'r canlyniad—ei gystudd caled—hen offeiriad yn ei gysuro—yn ymuno â'r mynachod—ei gyfyngder meddwl—ei symmudiad i brifysgol Wittenburg fel dysgawdwr—ei ymweliad â Rhufain—Tetzel, masnachwr y llythyrau maddeuant—breuddwyd Frederic, Etholwr Saxony—Gosodiadau Luther, a'u heffeithiau—ymosodiadau Tetzel—heriad Dr. Eck—cymmanfa gyffredinol Worms—Luther yn cael ei wysio, ac yn ymddangos yno—ei gyffesiad ger bron y Cynghor—ei wrthwynebwyd yn ceisio ganddo i ym-ostwng, ond yn ofer—yn ymadael o Worms yn gongcwerwr.

GARIBALDI, t. d. 67—99.

Dante—ei ddisgrifiad o'r Eglwys Babaid—y milgi cryf—cyflwr y wlad—ymddangosiad Mazzini—y gwaith a gyflawnodd—Pio Nono yn ddiwygiwr—a'i edifeirwch wedi hyny—Garibaldi yn dyfod i'r golwg—ei wasanaeth yn cael ei wrthod—Rhufain mewn gwrthryfel—ffoedigaeth y Pab—ymosodiad Ffrainge ar Rufain—Garibaldi yn cilio oddi yno—marwolaeth ei wraig—yn sefydlu yn Caprera—cynnygiad Orsini at fywyd Louis Napoleon—rhyfel rhwng Sardinia ac Awstria—Garibaldi yn dyfod etto i'r golwg—yn rhyddhau Sicily—yn cyflwyno



iv.

## Y Cynnwysiad.

ffrwythau ei fuddugoliaeth i Victor Emmanuel yn Naples—yn dychwelyd i Caprera—Cavour—ei ragwelediad a'i wylidwriaeth—Garibaldi fel dyn—ei allu i ennill serch ac ymddiried—tynerwch ei galon—ei wrolfrydedd moesol—ei ffyddlondeb fel cyfaill.

### ARGLWYDD PALMERSTON, t. d. 100—131.

Y flwyddyn 1865 a'i digwyddiadau hynod—ei ethliad dros Newport tua 1807—yn Is-yŷgrifenydd Rhyfel hyd 1828—yn Ysgrifenydd Tramor yn ngweinyddiaeth Canning, ac yn parhau yn y swydd yn ngweinyddiaeth Wellington—ymddiswyddiad Huskisson, a Palmerston, ac eraill—ymddiswyddiad Wellington—Palmerston yn y Swyddfa Dramor etto—Mesur y Diwygiad Seneddol yn cael ei basio yn 1832—gweinyddiaeth Arglwydd Melbourne—Palmerston etto yn Ysgrifenydd Tramor—ymddiswyddiad Palmerston o herwydd iddo gymmeradwyo Louis Napoleon yn trawsgipio yr awdurdod yn Ffraingc—gweinyddiaeth Aberdeen—Palmerston yn Ysgrifenydd Cartrefol—Palmerston yn Brifweinidog yn 1859—ac yn parhau yn ei swydd hyd ei farwolaeth yn 1865—ei ymdrechion i ddileu y gaeth-fasnach—tystiolaeth Dr. Livingstone—ei ffyddlondeb fel cyfaill—ei rwyddineb yn trin pob achos—tystiolaeth Iarll Shaftesbury am dano yn ei ddyddiau olaf.

### WILLIAMS, PANT-Y-CELYN, t. d. 132—261.

Ei enedigaeth yn 1717—ei dröedigaeth dan weinidogaeth Howel Harris yn 1738—ei urddiad yn 1740—ei ymweliadau â Llangeitho i gynnorthwyo Daniel Rowlands—Howel Harris yn offerynol i gychwyn Williams i arfer ei ddawn prydyddol—pregethau Rowlands a chaniadau Williams yn hynodi eu hoes—

## Y Cynnwysiad.

v.

Williams yn teithio trwy Gymru fel efengylwr ynghylch hanner can mlynedd—y dystiolaeth am ei bregethau yn cyfatted i'r pregethau a esyd yn ngenau Evangelius—Golwg ar Deyrnas Crist—Detholion—Calfaria a'r Groes yn ganolbwngc a gorphwysfan yr awen - y Gân yn fêr duwinyddiaeth iachus—rhai ymadroddion estronol yn dolurio y llygaid—troseddau yn erbyn grammadeg a chystrawen - dylanwad y Gân yn anorchfygol.

*Theomemphus*—yn cyfranogi yn helaeth o ysbryd a theithi Golwg ar Deyrnas Crist—pregeth efengylaidd ac anghymmharol Evangelius—meistrolaeth y Gân ar y teimladau—yn gwresogi ac hefyd yn goleuo—ei athrawiaeth o duedd ymarferol ragorol.

*Ei Emynau*—yn swyno pob gradd a dosbarth fel eu gilydd—yn llefaru iaith natur gyda'r fath symledd pur a di-addurn—eu hysbryd efengylaidd yn rhoddi anadl bywyd anfarwol ynddynt—detholion o honynt—y Cyfryngwr a'r iachawdwriaeth trwyddo yn brif destyn, a chartref yr awen gyssegredig hon—holl nerthoedd ei hysbryd yn cael eu cynnull i ddisgrifio a chlodfori.

---

## G W A L L A U .

- t.d. 18, yn lle 'Bonaventure,' darllener 'Bonaventura.'
- t.d. 81, yn lle 'wrhydri fawr,' darllener 'wrhydri mawr.'
- t.d. 97, yn lle 'Navara,' darllener 'Novara.'
- t.d. 98, yn lle 'Cincinatus,' darllener 'Cincinnati.'
- t.d. 126, yn lle '1858,' darllener '1855.'
- t.d. 126, yn lle 'y tro cyntaf,' darllener 'yr ail dro.'
- t.d. 138, yn lle 'canol oed,' darllener 'ieuangc.'
- t.d. 153, yn lle 'adeiladid,' darllener 'adeiladwyd.'
- t.d. 156, yn lle 'Alethius,' darllener 'Aetheius.'
- t.d. 157, yn lle 'lifo,' darllener 'lifio.'
- t.d. 182, yn lle 'nghyd,' darllener 'nghyd.'
- t.d. 194, yn lle 'têr,' darllener 'fêr.'



## AT Y DARLLENYDD.

---

GYDA phleser y cyflwynir y gyfrol hon o ddarlithiau Gwilym Hiraethog, y rhai nad ymddangosasant drwy y Wasg hyd yn hyn, oddi gerth yr un ar "Williams, Pant-y-celyn," yr hon a ymddangosodd gyntaf yn y *Traethodydd* am 1847, ac wedi hynny yn y casgliad o *Ryddweithiau Hiraethog* yn 1872.

Tybygem nad ystyriaid y casgliad o'i ddarlithiau yn gyflawn heb gynnwys yr un ar "Williams, Pant-y-celyn," y gyntaf oll a draddododd Hiraethog; ac er ei bod yn hen, y mae ar destyn sydd fyth yn newydd; a thebyg hefyd y bydd y ddarlith arno yn newydd i'r mwyafrif o'r genhedlaeth bresennol o ddarllenwyr na chawsant y cyfleusdra i'w darllen mewn ffurf mor hylaw a'r hon y ceir hi ynndi yn awr.

Hyderir hefyd na fydd yr ymgais a wneir i ddiogelu y darlithiau eraill yn y llyfr rhag syrthio o honynt i hollol ebargofiant yn annerbyniol gan lawer yn ngolwg y rhai y mae enw a choffadwriaeth y darlithydd o werth; ac na fernir y darlithiau yn ddi-fudd nac yn annyddorol gan ddarllenwyr Cymreig yn gyffredinol.

Digwyddodd i ni dro yn ol grybwyll wrth y Parch. Griffith Ellis, M. A., fod y gwaith yn y Wasg; ac wedi iddo edrych dros ranau helaeth o hono,

## At y Darllenydd.

vii.

rhoddodd yn garedig iawn awgrymiadau a fuont o fawr gymmhorth i ni gyda'r gwaith, am ba rai y dymunwn ddadgan ein diolchgarwch gwresog iddo.

Drwg genym fod rhai brychau wedi diangc i mewn i'r gyfrol, fel y gwelir hwynt wedi eu nodi allan yn y rhestr o'r gwallau.

Dymunol fyddai i'r darllenydd ddal mewn côf amseriad traddodiad y darlithiau, sef:—

Ar "Williams, Pant-y-celyn," yn 1846—7.

Ar "Garibaldi," yn 1861.

Ar "Arglwydd Palmerston," yn 1866.

Ar "Luther," yn mlynnyddoedd olaf y darlithydd.

Y CYHOEDDWYR.

MEDI, 1907.





# Martin Luther

A'R

## Diwygiad Protestanaidd.



Y MAE ambell i ddyn yn dyfod i'r byd i aros yma byth ; yr hwn, er iddo farw, a fydd byw. Er gorwedd o hono gyda'r meirw yn y bedd, efe a rodia gyda'r rhai byw ar y ddaear. Erys ei enw yn accen gynnefin ar glustiau'r byd o genhedlaeth i genhedlaeth yn mhoblle y cyrhaeddodd hanes ei fywyd iddo. Pery y meddyliau a draddododd i'r byd i effeithio arno a gweithio ynddo o oes i oes, gan genhedlu meddyliau a theimladau ar eu llun a'u delw eu hun yn mynwesau eraill yn barhaus. Disgynai ei eiriau fel tân anni-ffoddadwy oddi ar ei wefusau ar glustiau y rhai a'u gwrandawent; a'r un modd oddi ar ei bin ar ei bapur i'r rhai a'u darllenent, gan losgi eu ffordd trwodd i waelodion y galon. Nid gwir am y math hwn o dân, na ellir ei gludo mewn papur; y mae genym lawer o lyfrau yn gyffelyb, mewn ystyr, i'r berth a welodd Moses yn llosgi gan y tân yma, a'r papur heb ei ddifa.

Mae ymweliadau dynion o'r fath hyn, fel ymweliadau angylion, yn ychydig, ac yn anaml. "Ar amserau," yr oedd yr angel yn disgyn i lyn Bethesda gynt, i gynnhyrfu y dwfr, ond pan ddisgynai deuai âg iechyd

i ryw glaf bob tro. “Ar amserau” hefyd y disgyna ysbrydion dynion anghyffredin i lyn y byd, i gynnhyrfu ei ddyfroedd llonydd, ac i ddwyn adnewyddol fywyd ac iechyd iddynt. “Ar amserau,” meddwn, ac mewn amgylchiadau neillduol ar gyflwr y byd, ac achos Duw yn y byd, y mae dynion arbenig yn cael eu codi a’u cymmhwysu i fod yn genhadau ato, ac i gyflawni gwaith arbenig ynddo.

Amserau enbyd a blinion, naill ai ar gyflwr gwladwriaethol a moesol cenedl neu genhedloedd, neu ar helyntion tymmhorol ac ysbrydol Eglwys Dduw—yn aml, bob un o’r ddau—fydd amserau ymddangosiad y cenhadau anghyffredin hyn ar y ddaear. Pan oedd nos caethiwed plant Israel yn yr Aipht yn ei hadeg dywyllaf y ganwyd Moses, “ac efe oedd dlws i Dduw.” Pan oedd crefydd ac addoliad Duw wedi syrthio i’r cyflwr iselaf, ei babell, ei allor, a’i aberth, wedi myned yn fathrfa dan draed yr offeiriadaeth fwyaf halogedig, y ganwyd y bachgen Samuel. Pan oedd teyrnas y deg llwyth, drachefn, wedi ymrododi i eilun-addoliaeth a llygredigaeth dan deyrnasiad brenin oedd wedi “ymwerthu i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd,” dyna Elias y Thesbiad, un o breswylwyr Giléad, yn sefyll ger bron y brenin hwnw, a’i wyneb yn ofnadwy fel wyneb angel Duw. Mewn amser tywyll ac isel iawn ar grefydd y torodd taran gweinidogaeth Ioan Fedydd-iwr allan, nes ysgwyd gwlad Palestina o’i chanolbarth hyd ei hamgylchoedd; ac y cyfododd Haul y Cyf-iawnder â meddyginiaeth yn ei esgyll, yn ymddangosiad y Messiah ei hun; ac yn nyfnder trueni, ac uchder



## a'r Diwygiad Protestanaidd. 11

neithaf rhyfyg, haerllugrwydd, a halogedigaeth y dwyll offeiriadaeth Babaid, yr ymddangosodd Martin Luther.

Yr oedd i'r Diwygiad Protestanaidd ar ei gy-chwyniad dri chanolbwngc, o'r rhai y torai ei oleuni allan ar Ewrop sef, Wittenberg, Geneva, a Zurich. Y tair lamp fawr a ddalient ac a dywynent y goleuni allan, oeddynt Martin Luther, John Calvin, ac Ulric Zuinglius; nid oedd un cyd-ddealltwriaeth rhwng y tri hyny â'u gilydd; ni wyddai y naill ddim am y llall ar y cyntaf. Yr oedd y tri wedi eu bedyddio â'r un ysbryd, cofleidio, a dechreu pregethu yr un athrawiaeth, yn annibynol y naill ar y llall. Yr oedd hefyd liaws o oleuadau llai eu maintioli yn cydlewyrchu â hwynt yn Germany, Ffraingc, a Switzerland, ond y cedyrn hyny a ystyrid y tri chyntaf a phenaf; ac o'r tri, i Martin Luther y perthynai cadair penaeth y tywysogion. Yn eu herbyn hwy, fel tri arch-heretic, a Luther yn benaf un, yr oedd tarw Rhufain yn rhuo ei regfeydd a'i fygythion, a'i felldithion, a'i lygaid yn bolwynu gan gynddaredd, yn rhwygo y cloddiau â'i gyrn, ac yn crafu y ddaear â'i draed; ond y cwbl yn aneffeithiol. Y gallu cryfaf dan y nefoedd oedd gallu Rhufain yr amser hwnw; canys yr oedd yr holl gyrn—yr awdurdodau gwladol—o'r un meddwl ac ewyllys, yn rhoddi eu gallu i'r bwystfil i'w ddefnyddio at ei bwrpas; ac etto, dyma'r Luther hwn, ac ychydig o bersonau eraill, yn sefyll i fyny yn erbyn yr holl nerthoedd mawrion hyn, heb olwg ar blaid na chymmhorth dynol i'w gwrthsefyll. Ni allasai rheswm dyn ddisgwyl dim amgen nag iddo

gael ei ysgubo ymaith fel plyfyn o flaen corwynt cyn-ddaredd Rhufain a'r ymherodraeth oeddynt mewn cynghrair yn ei erbyn. Ond, na, yr oedd gallu yn y nefoedd anfeidrol drech na'r holl alluoedd unedig hyny ; yr Hwn a wnai i'w cynddaredd hwy ei foliannu, ac a waharddai ei weddill. Yr oedd Ysbryd y gallu nefol hwnw yn Luther a'r diwygwyr, a phrofodd hwnw ei hun yn gryfach na'r hwn oedd yn Leo x. a Charles v.

Gallesid meddwl fod rhyfyg a haerllugrwydd uffern a Rhufain wedi eu gweithio allan i'w heithafion pellaf yn y dyddiau hyny. Yr oedd "y dyn pechod, mab y golledigaeth, yr hwn yr oedd ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan," wedi cynnyddu i'w lawn nerth a'i faintioli, o ran gallu a drygioni, "yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir, yn eistedd yn nheml Duw, ac yn ei ddangos ei hun mai Duw ydoedd." Yr oedd llygredigaeth yr eglwys a'i hoffeiradaeth megys wedi cyrhaedd perffeithrwydd ysgelerder a drygioni. Anfonid cenhadau allan trwy y gwledydd i werthu maddeuant pechodau, dan sêl y Pab—pechodau mewn meddwl a bwriad, mewn gair ac mewn gweithred—pechodau o bob rhyw a math, am wahanol brisiau, yn ol gwahanol natur y pechodau, a gwahanol amgylchiadau, sefyllfäoedd, a moddion y pechaduriaid twylledig a'u prynent. Yr oedd y nefoedd hefyd ar werth yn marchnadoedd y "Fabilon Fawr" hono. Pan ddigwyddai plâ neu haint mewn gwlad neu dref, cymmerid mantais yn uniongyrchol i wneyd arian i drysorfa'r eglwys oddi wrtho. Ni safai y dynion dychrynedig oeddynt yn meddu

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 13

arian am bris ar le yn Mharadwys, ac yr oedd y lleoedd goreu yn y nefoedd yn gwerthu am brisiau uchel iawn. Weithiau dychrynid dynion o'u synwrau yn mron drwy gyhoeddi fod dydd barn a diwedd y byd ger llaw; a byddai gwerthiant prysur anghyffredin ar leoedd yn Mharadwys ar adegau felly. Mewn gair, yr oedd yr hon a elwid yr "Eglwys Sanctaidd" wedi braenu trwyddi gan lygredigaeth a halogrwydd o bob math; ac etto, yr oedd ynddi ddegwm ambell un yn cadw ei ddillad heb eu llychwino gan yr aflendid cyffredinol; oedd, yr oedd ambell un i'w gael oedd yn galaru yn ei ddirgel fanau o herwydd anwiredd y ddinas fawr, ond yn methu anturio dwyn tystiolaeth gyhoeddus yn ei erbyn, nac ymadael o honi.

Ond yr oedd Teyrnas nefoedd yn nesâu; hir nos dywell y canoloesau ar fyned heibio, a'r wawr ar dori. Yr oedd rhyw swm megys yn mrîg y morwydd—swm ocheneidiau a dymuniadau yr ychydig yma ac acw, ac yr oedd rhyw gymmaint o dynerwch yn aros yn eu cydwybodau am weled diwygiad mewn crefydd a moesau, a hyny yn benaf yn mysg pendefigion a llëygwyr, ynghyd âg ambell offeiriad a mynach yma ac acw. Tua'r amser hwn y darganfyddwyd America gan Columbus; ac yr oedd Copernicus, Kepler, a Galileo yn olrhain ac yn chwilio allan ddeddfau'r nefoedd, ac yn synu'r byd â'u darganfyddiadau. Reuchlin ac Erasmus hefyd oeddynt yn ddiwyd ar waith yn adfywio dysgeidiaeth henafol, yr hon oedd wedi ei llwyr esgeuluso a'i chladdu er's oesau mewn anwybodaeth ac anghôf. Gwnaeth y ddau, ac yn enwedig Erasmus, lawer iawn i ragbarotoi y ffordd i'r

diwygiad mawr oedd yn nesâu, trwy alw sylw at ddysgeidiaeth beirniadaeth ysgrythyrol, a llefaru yn o gynnil yn erbyn drygfoesau a halogrwydd yr offeiriadaeth. Un meddal ac ofnus oedd Erasmus ; yr oedd gwialen. Duw ganddo yn ei law, ond yn rhy ofnus a diffygiol ei ffydd i daraw y graig â hi, i dynu y dyfroedd bywiol allan, pan oedd eneidiau wrth y miloedd yn galw ar drengu o syched am danynt. Ond yr oedd y Moses oedd i gyflawni y gwaith mawr ar ddyfod i'r golwg.

Ganwyd Martin Luther mewn treflan fechan yn Saxony, o'r enw Eisleben, ar y 10fed o Dachwedd, 1483—dydd gŵyl St. Martin, a dydd ei enedigaeth a roddodd i'r plentyn ei enw, Martin. Pe gwybuasai y Pab a'i gynghor y pryd hwnw fod plentyn wedi ei eni yn mhentref Eisleben a ysgydwai eu hawdurdod, ac a wnai rwyg anfeddyginiaethol yn eu heglwys cyn pen llawer o flynyddau, os cai fyw, buasai cymmaint o gyffro arno ef a hwythau yn Rhufain ag oedd ar Herod frenin, a holl Jerusalem gydag ef, pan glywsant gan y doethion fod Brenin yr Iuddewon wedi ei eni, a mynasent ddyfetha holl blant bychain Eisleben, fel y dyfethodd Herod blant bychain Bethlehem.

Pobl isel eu hamgylchiadau yn y byd, ond gonest, diwyd, a pharchus, oedd ei rieni. Yr oedd ei dad yn ddysgyblwr llym yn ei deulu—yn ormod felly, fel y barnai ei fab Martin. Yr oedd yn fwy felly oddi ar y barnai mai ei ddyledswydd ydoedd dal awenau ei lywodraeth ar ei blant yn dŷnion yn ei law, nag oddi ar ddiffyg serch tadol tuag atynt. Dodwyd Martin mewn ysgol yn y pentref cyn iddo fod yn alluog i



gerdded iddi ; a llywodraethwr caled iawn oedd ei athraw : “ dan y ddeddf,” ac nid dan ras yr oedd y plentyn druan ar yr aelwyd gartref, ac ar y faingc yn yr ysgoldy ; a gallem gymmeryd fod hyny megys yn rhag-awgrymu yn mywyd y plentyn yr hyn oedd etto yn ei aros fel gŵr ieuangc, pan y deuai i afaelion “ deddf arall” fwy llem a chaled na deddf yr aelwyd a deddf yr ysgoldy.

Dangosodd yn foreu iawn awyddfryd angerddol am ddysg a gwybodaeth, yr hyn a barai i'w dad fod yn awyddus i roddi manteision addysg a gwybodaeth iddo ; ond yr oedd ei amgylchiadau isel yn ei analluogi i wneyd hyny fel y dymunasai, canys gweithiwr ar gyflog bychan mewn gwaith mŵn oedd efe, druan !

Symmudodd ei riëni o Eisleben i Mansfeld, pan oedd efe tua phedair-ar-ddeg oed. Gwellhäodd arnynt yn eu hamgylchiadau i ryw fesur, mewn canlyniad. Dodwyd ef mewn ysgol rammadegol yn Magdeburg. Blwyddyn fu ystod ei arosiad yno, o herwydd nad oedd gan ei riëni etto mo'r moddion i'w gynnal yno. Symmudodd oddi yno i ysgol yn Eisenach, tref arall, lle yr oedd amryw o deulu ei fam yn byw ; ond ychydig o gynnorthwy a allasai, neu a fynasai y rhai hyny estyn iddo. Yr oedd, er yn blentyn, yn hoff iawn o gerddoriaeth a chanu ; a phan elai yn gyfyng iawn arno, ä'i allan gyda rhai o'i gydysgolheigion tlodion i ganu o heol i heol, gan gardota eu bara yn y ffordd hono. Un noson, wedi iddo ef a'i gymdeithion gael eu gyru ymaith gyda gerwindeb chwerw oddi wrth amryw ddrysau, safodd y bachgen

Luther ar yr heol, a'i enaid yn chwerw ynddo, gan feddwl ei bod wedi myned i'r pen arno—y buasai raid iddo roddi i fyny holl amcanion a gobeithion ei fywyd, a dychwelyd adref at ei dad i weithio yn y mwngloddiau.

Yn ei ofid dyna y bachgen, druan! tlawd, yn sefyll ar gongl yr heol, a'i ben yn ogwyddedig ar ei fynwes, a'i galon yn ymdoddi o'i fewn, a'i ocheneidiau yn ymgroni yn ei fynwes—y truan gofidus yna, a fydd cyn hir yn sefyll o flaen brenhinoedd, tywysogion, ac urddasolion penaf y ddaear, ger bron mawrhydi moesol yr hwn y bydd raid iddynt oll ymgrymu. Dyna y gŵr a ymeifl yn marf Llew Rhufain (Leo x.), ac a'i hollta ef fel yr holltid mŷn, megys y gwnaeth Samson gynt â'r llew a'i cyfarfu ar y ffordd ger llaw gwinllanoedd Timnath. Pan oedd efe yn sefyll felly ar dori ei galon ar yr heol, o flaen drws tŷ un o wŷr anrhydeddusaf y ddinas, gan gwbl gredu fod pob drws o ymwarded wedi cau yn ei erbyn, ac nad oedd un llygad yn ei weled, nac un galon yn tosturio wrtho, dyna ddrws gobaith yn agor iddo yn nyffryn Achor. Yr oedd llygad y Nef o hyd ar ei llestr etholedig, ac yn gofalu na chawsai ei ddryllio wrth ei guro yn erbyn creigiau trallodion a siomedigaethau. Yr oedd yr Hwn a roddodd yn nghalon y Sunamees hono i dderbyn a llettya Eliseus y prophwyd, wedi darparu gwraig anrhydeddus yn Eisenach i dderbyn a llettya Luther ieuangc. Torwyd ar ei brudd fyfyrdodau gan sŵn agoriad drws y tŷ y safai ar ei gyfer, a dyna angyles trugaredd yn mherson Ursula, gwraig Conrad Cotta, ynad yn y dref, yn gwneyd ei hymddangosiad, ac yn

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 17

galw arno yn garedig i ddyfod i mewn. Y canlyniad fu i ŵr y \*tŷ gymmeryd hoffder mawr yn y gŵr ieuangc a'i gymdeithas; ac yn lle dwrddio ei wraig am alw yr estron tlawd oddi ar yr heol i'w thŷ, fel y gwnaethai llawer un, efe a'i mawr ganmolodd hi, a mynodd ei gael i aros a llettya gyda hwynt: a'r tymmor y bu efe yn aros dan y gronglwyd garedig hono a gyfrifai efe y tymmor dedwyddaf o'i fywyd. Daeth bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano ar ben y wraig garuaidd hono; ac y mae ei choffadwriaeth yn aros yn fendigedig—y "Sunamees" y gelwir hi ar groniclau Eisenach byth.

Aeth yr hâf-ddydd hwnw o'i fywyd heibio yn fuan—nid heibio, chwaith, yr oedd adgofion hiraethus a melus am dano yn fyw yn ei feddwl drwy ei oes. Mewn cyfeiriad ato dywedai:—"Nid oes dim tynerach a phrydferthach dan y nefoedd na chalon benyw wedi ei thymmheru â gras."

Pan yn ddeunaw mlwydd oed cafodd ei dderbyn i'r brifysgol yn Erfurt, a dechreuodd cyfnod newydd yn ei fywyd. Ymroddodd yno â'i holl egni i ystorio ei feddwl â gwybodaeth yn mhob cangen o ddysgeidiaeth oedd i'w chael yno. Prifysgol Erfurt, y pryd hwnw, oedd y benaf a'r enwocaf o holl brifysgolion Germany, a Luther ieuangc oedd yr enwocaf am ei

---

\* Dywedir fod ty Cotta yn llwyd, ac yn gwyro gan henaint, etto (yn 1889), yn sefyll yn Eisenach, a gwahoddir pererinion i weled yr ystafell yn yr hon y cysgodd y bachgen o Mansfeld.

lafur, ei ymroddiad, ei athrylith, a'i gynnydd mewn dysgeidiaeth o'r holl fyfyrwyr.\* Dechreuodd mewn myfyrio athroniaeth y canoloesau yn ysgrifeniadau Occam, Scotus, Bonaventure, a Thomas Aquinas. Yr effaith a gafodd y fyfyrfaeth hon ar ei feddwl oedd cynnyrchu adgasrwydd mawr ynddo at y fath hono o ysgolheigiaeth. Yr oedd enw Aristotle, pan y crybwyllid ef yn ei glywedigaeth, yn ei gynnhyrfu i ddigofaint ; braidd na fuasai yn taeru mai cythraul, ac nid dyn, ydoedd. Yr oedd efe yr amser hwn yn bur grefyddol yn ei ffordd, yn foesol yn ei fuchedd, yn ofalus a defosiynol yn ei gyflawniadau a'i weddïau ; yn Babydd cydwybodol a difrifol o ran ei gredo ; coleddai y meddyliau mwyaf parchus am y Pab a'r eglwys sanctaidd ; nid oedd gan Rufain un mab a dysgybl mwy ufuddgar a ffyddlawn iddi nag ef y pryd hwnw, ac am beth amser wedi hyny.

Un diwrnod, yn llyfrgell y brifysgol, digwyddodd, yn ddamweiniol—damweiniol iddo ef, ond yr oedd rhywbeth uwch law damwain yn y tro—daraw ei law ar hen lyfr a fuasai heb ei gyffwrdd gan fysedd llaw dyn er's llawer o flynyddau—hen lyfr oedd wedi ei lwyr esgeuluso, ac wedi ei ollwng megys i dir anghôf, fel yr arch yn nyddiau Saul, yr hon nid ymgynghorid â hi yr holl amser hwnw ; a'r hen lyfr hwnw oedd copi o'r Beibl, yn Lladin. Ymaflodd ynddo, a dyna y tro cyntaf i Luther a'r Beibl ysgwyd llaw â'u gilydd.

---

\*“Felly y safai allan,” medd Melancthon, “yn ei ieuengctid, fel yr edmygwyd ei athrylith gan yr holl Brifysgol.

Cyn hyny yr oeddynt yn estroniaid y naill i'r llall ; ond o'r dydd hwnw allan, fel Jonathan a Dafydd, ymglymasant â'u gilydd byth. Yr oedd llys barn ar gyflwr ac achos y butain fawr megys yn agor pan agorodd Luther yr hen Feibl hwnw yn Erffurt. Disgynodd ei lygad yn gyntaf ar hanes Hannah a'r bachgen Samuel ; teimlodd yn union y fath ddyddordeb yn yr hanes fel y sugnwyd ei holl feddwl iddo, ac y penderfynodd wneyd ei hun yn gydnabyddus â'r holl lyfr. Gwnaeth Hannah megys yr un gymmwynas iddo mewn ystyr ysbrydol yn Erffurt, ag a wnaethai yr Ursula hono mewn ystyr dymmhorol yn Eisenach ; daeth megys at borth yr Ysgrythyr, a gwahoddod ef i mewn ; arweiniodd ef yn gyntaf i gydnabyddiaeth â'r bachgen Samuel, yr hwn, wedi hyny, a gododd yn brophwyd a diwygiwr mawr yn Israel ; ac mewn canlyniad, i gydnabyddiaeth â holl gynnwysiad y llyfr sanctaidd. O'r dydd hwnw allan ymroddodd i chwilio, darllen, a myfyrio yr Ysgrythyrau ; a pho fwyaf y gafaelai efe ynddynt hwy, mwyaf oll y gafaalent hwythau ynddo yntau. Profai Gair Duw ei hun yn ei brofiad ef yn "fywiol a nerthol, ac yn llymach nag un cleddyf dau-finiog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahanriad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymmalau a'r mêr, ac yn barnu meddyliau a bwriadau y galon." Ni allai gadw iddo ei hun yr hyn a welsai, a ddysgasai, ac a deimlasai yn a thrwy y Gair. Dechreuodd ddarlithio ar destynau ysgrythyrol mewn cyssylltiad â'r brifysgol, a gwrandewid ei ddarlithiau gydag awyddfryd a dyddordeb mawr gan laweroedd ; ond nid oedd ei wybodaeth yn athrawiaethau y Beibl ond bychan etto—megys goleuni toriad gwawr y boreu.



Gellid cymmhwyso ato y pryd hwnw yr hyn a ddywedir am y bachgen Samuel yn ei blentyndod:—  
“Nid adwaenai Samuel etto yr Arglwydd, ac nid eglurasid iddo ef Air yr Arglwydd etto.” Naddo, etto; ond yr oedd cymdeithas rhyngddynt wedi dechreu ag oedd i addfedu mewn amser yn gydna-byddiaeth ddofn a pharhäol; ac megys y dywedir am Samuel yn mhellach, “A'r Arglwydd a ymddangosodd drachefn yn Siloh, ac a ymeglurhäodd i Samuel yn Siloh trwy Air yr Arglwydd,” y gellir dyweyd yn briodol am Luther. Ymddangosodd yr Arglwydd iddo drachefn yn Erffurt yn y cyfnod hwnw o'i fywyd, ac a ymeglurhäodd drwy oruchwyliaeth arall—goruchwyliaeth cystudd caled, yr hon a'i dygodd i borth angau, a thrwy yr hon y gwasgwyd ei feddwl i gyfyngder dirfawr gan ofnau am ei gyflwr tragwyddol. Gwelai yn awr holl obeithion ei feddwl am fywyd o lwyddiant ac enwogrwydd mewn dysg a defnyddioldeb yn gwywo bob un, ac yr oedd canlyniadau marw yn ymddangos yn dywyll a bygythiol iawn i'w feddwl trallodus. Pan oedd yn y cyfyngder hwn, daeth hen offeiriad i ymweled âg ef un diwrnod, yr hwn oedd yn adnabod yr efengyl, fel yr ymddengys. Profodd yr hen offeiriad hwnw yn genad o ladmerydd i'w enaid oedd yn nesâu i'r bedd; cyfarwyddodd ef i edrych at Grist, ac at Grist yn unig, fel gobaith pechadur, a dywedodd wrtho am gymmeryd cysur—nad oedd i farw o'r cystudd hwnw, ei fod ef yn hyderus fod llawer o flynyddoedd a llawer o waith o'i flaen yn y byd. Disgynodd geiriau yr hen offeiriad fel balm tyner ar ei ysbryd clwyfus; adfywiodd ei feddwl yn fawr, a dechreuodd wella o'i glefyd y dydd hwnw.

Ond yr oedd goruchwyliaeth galed etto o'i flaen i fyned trwyddi. Yn fuan wedi ei adferiad o'i gystudd aeth oddi cartref ar ymweliad â'i rieni yn Mansfeld gyda chyfaill; ar eu dychweliad yn ol, pan oeddynt yn nesâu at Erffurt, goddiweddwyd hwy gan dymestl drom o fellt a tharanau; tarawyd cyfaill Luther yn farw yn ei ymyl gan fellten.\* Dychrynodd yn ddirfawr; syrthiodd i lawr ar y ddaear, gan ymdreiglo, a llefain mewn braw. Gwibiai y mellt o'i amgylch, a rhuai y taranau uwch ei ben, ac yr oedd tymmestl arall fwy ofnadwy o fellt a tharanau euogrwydd a dychrynfeydd yn ymderfysgu yn ei fynwes. Penderfynodd, os cai fyw, i ymgyssegru i fywyd mynachaidd, a cheisio tawelwch i'w feddwl trallodedig mewn gweddïau ac ymprydïau, a chyflawniadau crefyddol. Galwodd ei gyfeillion ynghyd un noson, ac amlygodd ei fwriad iddynt, ac ymunodd â'r mynachod o urdd Awstin dranoeth.† Ymroddodd yno i ymprydio, gweddïo, ymgystuddio, dwyn penydïau, gwasgu ei natur yn mhob modd, gan geisio gosod i fyny ei gyf-

---

\*Dywed Dr. Charles Beard, yn ei hanes, nad oes sail i'r ystori fod cyfaill Luther wedi ei ladd gan fellten; ond ar yr ochr arall, fod Melancthon a Mathesius yn crybwyll fod cydymaith agos iddo wedi cyfarfod âg angeu disyfyd.

† Bwriad ei dad oedd i Luther fod yn gyfreithiwr, a sicrhau ei sefyllfa gymdeithasol trwy briodas oludog ac anrhydeddus; ond ar yr 17eg o Orphenaf, 1505, ymddangosodd wrth borth mynachdy Awstinaidd yn Erffurt, i ddeisyfu derbyniad yno fel prawfiedydd. Yr oedd hyn yn dröad, nid yn unig yn ei fywyd ei hun, ond yn hanes Cristionogaeth Ewropaidd.—*Dr. Beard's Martin Luther*, tudalen 145.

iawnder ei hun, dilyn deddf cyfiawnder, ac yn methu ei chyrhaeddyd—pellhau yr oedd ei enaid fwy-fwy oddi wrth yr heddwch yr oedd yn ymofyn am dano, po fwyaf oedd ei ymdrech i ddyfod i fyny, dyfnaf oll yr oedd yn suddo yn mhydew ei drueni a chors ei anobaith, nes y penderfynodd o'r diwedd gau ei hun i fyny yn ei gell, a newynu ei hun i farwolaeth. Bu bedwar diwrnod heb archwaethu dim ymborth; o'r diwedd, torodd ei gyfeillion y drws, a chawsant ef yn gorwedd ar lawr fel yn farw. Meddyliodd rhywun am offerynau cerddoriaeth, ag yr oedd efe mor hoff o honi; ac yn sŵn y gerddoriaeth efe a ddadebrodd, a chafwyd ganddo gymmeryd ymborth. Cryfhäodd yn raddol o ran ei gorph, ond yr oedd ei gystudd ysbryd o hyd yn parhau; dan Sinai yr oedd ei enaid o hyd yn byw—dan y ddeddf, ac yn y ddeddf yr oedd yn aros. Bu penawg y mynachlog, Staupitz,\* yn ddyfal yn ceisio ei arwain o fynydd Sinai i fynydd Seion, i wneyd y dysgybl hwn i'r ddeddf yn ddysgybl i'r efengyl; a llwyddodd yn raddol, drwy fendith y Nef ar ei lafur, i'w ddenu o gymmydogaeth y mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân a thymmestl, a sain udgorn a llef geiriau, i fynydd Seion, ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd. Perffeithiwyd tywysog y diwygiad Protestanaidd fel hyn, yn gyffelyb fel y perffeithiwyd Tywysog ein hiachawdwriaeth, trwy

---

\* Yn 1542 ysgrifennai Luther am brofedigaethau "yn ngafael pa rai yr oeddwn yn cael fy nal yn gaeth; ac oni bae i Dr. Staupitz—neu o lawer yn hytrach, Duw trwy offerynoliaeth Dr. Staupitz—i'm cynnorthwyo allan o honynt, buaswn wedi fy moddi, ac yn uffern er's hir amser."—*Dr. Beard*, tudalen 153.

ddioddefiadau; ac yn gyffelyb i'r oruchwyliaeth y tynwyd Saul o Tarsus trwyddi, er ei gymmhwyso i'w swydd fel apostol y Cenhedloedd. Ac y mae yn debygol na wnaeth neb erioed waith mawr dros Dduw yn y byd heb ei ddwyn yn gyntaf drwy oruchwyliaeth o ddiioddefiadau ysbrydol llymion. Bellach, y mae Luther yn Gristion efengylaidd trwyadl a disglair, wedi marw i'r ddeddf, ac yn byw ac yn gorfoleddu yn Nghrist. Ond Pabydd yw efoetto; y mae ganddo y parch mwyaf i'r tad sanctaidd yn Rhufain, ac i'w eglwys; pell oddi wrth ei feddwl ydoedd ymadael byth o'i chymmundeb; ni fynasai er yr holl fyd dynu anfoddlonrwydd ac esgymmundod yr eglwys ar ei ben; ond yr oedd raid ei gael allan o'i gwersyll hi cyn y gallai gyflawni y gwaith oedd wedi ei drefnu iddo; ond pan oedd Rhagluniaeth megys yn gafael yn ei law i'w arwain allan, yr oedd mor hwyrfrydig i ymadael ag oedd Lot i ymadael o Sodom.

Symmudodd, wedi bod dair neu bedair blynedd yn Erffurt, i'r brif athrofa newydd oedd Frederic, etholwr Saxony, wedi ei sefydlu yn Wittenburg, lle y gwahoddwyd ef i gymmeryd cadair dysgawdwr. Yno traddodai ddarlithiau duwinyddol, a phregethai yn fynych yn un o'r eglwysydd i dyrfaoedd lliosog a ymgynnullent i'w wrandaw. Yr oedd ei weinidogaeth yn danllyd a nerthol anghyffredin. "Y mae Luther yn rhyfeddod yn mysg meibion dynion," meddai Melancthon; "y mae ei eiriau yn disgyn fel tân ysol i galonau dynion, ac yn gadael rhyw ddylanwad ac argraph annilëadwy arnynt."

Yn mhen rhyw faint o amser wedi iddo ymsefydlu, etholwyd ef yn genhadwr i Rhufain ynghylch rhyw gwestiynau yr oedd dadl yn mysg y mynachod arnynt. Mawr oedd ei awyddfryd am weled y ddinas sanctaidd ; cymmerwyd ef yn glaf iawn ar y ffordd, a syrthiodd ei enaid yn ysglyfaeth i ofnau anobaith. Yn ei gyfyngder a'i drallod ysbrydol, tywynodd yr ymadrodd, "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd," gyda goleuni a nerth anghyffredin ar ei feddwl, gan rwygo y tywyllwch, chwalu y niwl, ac "ymlid ofnau anghrediniaeth fel y nos o flaen y dydd." Gwnaeth y gair hwnw, bellach, ei gartref yn ei feddwl ; gwaith hawdd fuasai tynu calon Luther o'i gorph, ond ni allasai holl ddyfeisiau dynion a diaffiaid dynu yr ymadrodd hwnw o'i galon. Drwy y gair hwnw y parwyd iddo obeithio, pan ar ddarfod am dano mewn anobaith ; drwy hwnw y bywhäwyd ef, ac oblegid hyny, fel Dafydd, ni allasai byth ei anghofio. Gwellhäodd, ac aeth yn mlaen ar ei daith tua Rhufain. Pan ddaeth gyntaf i'w golwg safodd, tynodd ei het, dyrchafodd ei ddwylaw, a gwaeddai, "O Dduw ! achub Rhufain, gorseddfa y sanctaidd ; y ddinas driphlyg gyssegredig, oblegid gwaed apostolion a merthyron a dywalltwyd ynndi." Yno, yn mhrif ddinas Cristionogaeth, y disgwyliai fath o nefoedd ar y ddaear ; yno, yn ddiâu, dybygai ef, y cartrefai ac y teyrnasai purdeb, gwirionedd, a phob rhinwedd. Os oedd ei hoffeiriadaeth yn llygredig yn y wlad, yr oedd i'w chael yno yn ei ffynnonell wreiddiol, yn bur a dihalog. Ond, Och ! ei siomedigaeth ! Yno, yn hytrach, yr oedd gorseddfaingc Satan ac anwiredd ; oddi yno yr oedd lledrith yn myned allan trwy y



gwledydd ; o'r galon hono yr oedd meddyliau drwg, cyfeiliornus, a llygredig, yn rhedeg fel llifeiriant gwenwynig i ddifwyno ac andwyo y byd. Arweiniwyd ef yno megys yr arweiniwyd Ezeziel, o le i le, i edrych ar y ffeidd-dra a wneid yn y ddinas—o un ffeidd-dra i olwg ffeidd-dra arall, a mwy. Dychrynid ei enaid wrth weled y dull cellweirus a chabledus y cyflawnid y gwasanaeth crefyddol yn yr eglwys. Rhedent drwy y darllen a'r defodau am y cyntaf, yn y dull mwyaf ammharchus, fel y gallent ddychwelyd at eu pleserau. Clywai un offeiriad yn dyweyd wrth arall ar weinyddiad gwasanaeth y Sacrament, neu y *Mass*, am brysuro i orphen, fel y caffai y Mab (sef yr Arglwydd Iesu), fyned yn ol at ei fam. Drachefn, pan yn nghymdeithas lliaws o offeiriaid ar giniaw, clywai hwy yn eu gwaith yn cellwair gyda gwasanaeth eu crefydd yn yr eglwysydd, ac fel yr oeddynt yn gallu twyllo y bobl o flaen eu llygaid. Yr oedd pethau felly yn brawychu enaid difrifol Luther yn ofnadwy. Ymadawodd o Rufain â meddyliau tra gwahanol ynddo am dani, i'r rhai oedd ganddo yn myned yno. Yr oedd llaw Rhagluniaeth yn ei arweiniad yno, yn fwy neillduol felly nag yn arweiniad nemawr estron a dalodd ymweliad â'r ddinas hono erioed ; bu y tro yn un o'r amgylchiadau a gyd-addfedasant ei feddwl o'r diwedd i fyned allan o'i chymmundeb eglwysig hi, a chyhoeddi rhyfel tragwyddol yn ei herbyn.

Dychwelodd yn ol o Rufain ar ol cyflawni ei genhadaeth yno, ac ymroddodd i'w lafur yn y brifysgol gydag egni adnewyddol. Hyd yn hyn yr oedd Luther a Leo (y Pab) wedi byw yn un a chyttûn, ond

yr oedd y rhyfel-dymmor mawr yn agosáu. Yr oedd traul adeiladu eglwys St. Pedr, yn Rhufain, wedi di-hysbyddu coffrau Leo, fel y gallasai yntau ddyweyd ar y pryd hwnw yn ngeiriau yr hwn y cymmerai arno ei fod yn olynwr iddo, “Arian ac aur nid oes genyf.” Beth oedd i’w wneyd? Meddylodd Mab y pysgotwr (Pedr), fel y geilw y Pab ei hun, am wneyd rhwyd—ballegrwyd fawr—i fyned i bysgota am arian—gwerthu maddeuant pechodau i’r bobl, a gwaredu eneidiau o’r purdan, am symiau pennodol, yn ol amgylchiadau y prynwyr a gymmerent drugaredd ar eu perthynasau a’u cyfeillion a fuasent farw. Anfonwyd masnachwyr allan trwy wledydd Ewrop i bregethu a gwerthu y llythyrau maddeuant yn mhob man. Y prif fasnachwr oedd mynach o’r enw John Tetzel, un o’r dynion mwyaf beiddgar, rhyfygus, a halogedig, a welwyd yn y dyddiau hyny. Yr oedd nerth y behemoth yn ei gorph, a nerth y daran yn ei lais, a nerth y cythraul yn ei ryfyg; marchogai mewn rhwysg mawr yn ei gerbyd, wedi ymwisgo yn holl ddiwyg y butain fawr, mewn porphor ac ysgarlad, gan ddwyn croes fawr oreuredig gydag ef. Ar ei nesâd i ryw ddinas neu dref, udgenid mewn udgorn i rybuddio a galw y bobl; gadawai pawb ei fasnach a’i alwedigaeth, a rhedent allan am y cyntaf i’w gyfarfod, gan ddwyn croesau, a lampau, a changau palmwydd i’w groesawu. Codid y farchnadfa i fyny ar yr heol, lle y safai y gwerthwr oddi ar y bobl i arganmawl ac argymhell ei nwyddau arnynt. Dywedai ei fod yn agor teyrnas nefoedd o’u blaen—maddeuant llawn o’u holl bechodau am arian; taranai ddamnedigaeth dragwyddol arnynt os esgeulusent brynu yr iachawdwr-

iaeth oedd ef yn ei dwyn i'w cyrhaedd. "Wele yn awr ddydd yr iachawdwriaeth," meddai. Cyhoeddai nad oedd a wnelai Duw mwyach â maddeu pechodau —mewn ffaith, nad oedd efe yn Dduw yn awr; ei fod wedi trosglwyddo ei briodoliaethau a'i awdurdod i'r Pab! Sôn am Senacherib fel cablwr, beth oedd hwnw i'r cablwr hwn?

Yr oedd y sôn am dano yn cerdded o'i flaen i bob man trwy y wlad, a daeth y gair i glustiau Luther fod y masnachwr mewn maddeuant pechodau yn nesâu tua Wittenburg. Dechreuodd rybuddio'r bobl i ochelyd twyll ofnadwy y fasnach hono yn lled gynnil ar y cyntaf. Ychydig cyn i'r twyllwr Rhufeinig a'r Efengylwr o Wittenburg ddyfod i wrthdarawiad â'u gilydd, cafodd Frederic, Etholwr Saxony, freuddwyd hynod. Un boreu pan oedd efe a'i frawd, y Duc John, gyda'u gilydd wrthynt eu hunain, "Fy mrawd," ebe yr Etholwr, "rhaid i mi adrodd i chwi y breuddwyd a gefais neithiwr, yr hwn yr ewyllysiwn yn fawr wybod ei ddehongliad. Y mae wedi gwneyd y fath argraph ddofn ar fy meddwl nad allaf byth ei anghofio, pe byddwn byw fil o flynyddau; breuddwydiais ef dair gwaith drosodd, a bob tro dan amgylchiadau gwahanol."

"Pa un ai breuddwyd da neu ddrwg ydoedd?" gofynai ei frawd.

"Ni wn i, Duw a wŷr," oedd yr ateb.

"Na fyddwch anesmwyth o'i blegid, fy mrawd," ebe y Duc; "ond hoffwn ei glywed."

"Aethum i'r gwely neithiwr yn flinedig, ac yn isel fy meddwl; cysgais yn esmwyth am ddwy awr a

hanner, yna deffröais, a bum yn effro hyd hanner nos ; yr oedd pob math o feddyliau yn ymweithio ynof. Yn mysg pethau eraill, yr oeddwn yn pryderu ynghylch y modd y cadwn Wyl yr Holl Saint, sydd yn awr yn agos. Gweddiais dros yr eneidiau sydd yn y purdan, ac erfyniwn ar Dduw i'm cyfarwyddo a'm dysgu i a'm cynghorwyr a'm pobl, yn ol y gwirionedd. Syrthiais i gysgu drachefn, a breuddwydiais weled yr Hollalluog Dduw yn anfon mynach ataf, yr hwn oedd wir fab yr Apostol Paul. Daeth yr holl saint gydag ef, drwy orchymyn Duw, i ddwyn tystiolaeth i mi, nad oedd y mynach yn dyfod i gynllunio unrhyw fradwriaeth, ond ei fod yn gwneyd pob peth yn ol ewyllys Duw. Gofynasant i mi a welwn yn dda ganiatau i'r mynach ysgrifenu rhywbeth ar ddrws eglwys y Castell yn Wittenburg; yr hyn a wnaethum trwy fy Nghanghellwr. Yna gwelwn y mynach yn myned at yr eglwys, ac yn dechreu ysgrifenu mewn llythyrenau mor freision ag y gallwn ddarllen yr ysgrifen o Schweinitz (tref tua deunaw milldir o Wittenburg). Yr oedd y pin â'r hwn yr ysgrifennai mor hir fel yr oedd yn cyrhaedd yr holl ffordd o Wittenburg i Rufain, lle y codai ysfa ar glustiau hen lew oedd yn gorwedd yn ei ffau yno; a pharai i'r goron driphlyg oedd ar ben y Pab ysgwyd. Rhedai yr holl gardinaliaid a'r tywysogion i fyny gyda brys i ddal y goron rhag iddi syrthio. Ewyllysiwn i a chwithau, fy mrawd, eu cynnorthwyo; estynwn i fy llaw allan, ac ar y foment hono deffröais, a'm braich yn estynedig, yn synedig a digofus wrth y mynach am na buasai yn fwy gofalus gyda'i bin. Wedi ymbwyllo ychydig, deallais mai breuddwyd oedd. Cauais fy llygaid, a chysgais yn fuan drachefn. Dychwelai y

breuddwyd etto; dechreuai y llew, o herwydd y boen a barai y mynach â'i bin iddo, ruo yn ofnadwy, fel y cododd holl ddinas Rhufain, a thalaethau yr ymherodraeth, ac y rhedent allan i edrych beth oedd y mater. Archai y Pab iddynt rwystro y mynach i ysgrifenu, ac appeliai ataf fi yn neillduol, gan ei fod ef o fewn fy llywodraeth. Deffröais etto, adroddais Weddi'r Arglwydd, a gweddïais ar Dduw i gadw ei sancteiddrwydd, a syrthiais i gysgu drachefn. Yna breuddwydiais weled holl dywysogion Germany, a mi a chwithau yn eu mysg, yn prysuro i Rufain, ac yn ymdrechu, un ar ol y llall, i dori pin y mynach; ond po fwyaf yr ymgeisem, cryfaf oll yr oedd yn myned; yr oedd yn swnio fel pe buasai wedi ei wneyd o haiarn. Rhoddem yr ymdrech i fyny o'r diwedd, a gofynem i'r mynach, pa le y cawsai efe ei bin, a pha fodd yr oedd mor gryf, 'Y mae y pin,' meddai yntau, 'yn perthyn i hen wÿdd o Bohemia (John Huss) gan mlwydd oed; ac y mae ei gryfder i'w briodoli i'r amhossiblwrwydd i dynu ei fêr a'i ireidd-dra o hono. Yr wyf yn synu ato fy hun.' Yn ddisymmwth mi a glywn uchel swm llawer iawn o binau eraill a ddaethant allan o bin y mynach. Deffröais y drydedd waith, ac yr oedd yn ddydd."

Gofynai y Duc John i'r Canghellwr, beth oedd efe yn feddwl o'r breuddwyd. "Y mae eich uchelder yn gwybod," atebai y Canghellwr, "fod rhyw feddwl cuddiedig yn mreuddwydion merched ieuaingc, dynion dysgedig, ac arglwyddi. Ni allwn ni ddeall ystyr y breuddwyd hwn yn awr, ac am beth amser etto, hyd nes y delo y pethau i ben. Gan hyny, ein doeth-



ineb ydyw gadael y cyflawniad a'r dadguddiad o hono yn llaw Duw."

Y diwrnod hwnw oedd dydd Gŵyl yr Holl Saint; yr oedd yr Etholwr wedi gwneyd parotöadau mawrion i gadw yr ŵyl hono yn Wittenburg; wedi darparu creiriau a chroesau, a phob peth a ystyrid yn angenrheidiol i ddefodau yr ŵyl. Cyrchai lluoedd o bobl o bell ac agos i'r ddinas i gyflawni eu defosiynau. Nid oedd Tetzal a'i faddeuant-lythyrau wedi cyrhaedd Wittenburg etto, ond yr oedd sôn mawr am dano yno, ac yntau ei hun yn nesâu. Aeth yr Etholwr a'i frawd, y Duc John, a'i Ganghellwr Spalatin, tua Wittenburg i'r ŵyl; cyrhaeddasant yno yn gynnar ar y dydd. Ac, wele! er eu dirfawr syndod, yr oedd y mynach a welsai'r Etholwr yn ei freuddwyd y nos o'r blaen, wedi bod yn ysgrifenu â'i bin mawr ar ddrws eglwys y Castell y boreu hwnw, a'r bobl yn cyrchu yno ar draws eu gilydd i ddarllen y Gosodiadau ysgrifenedig yn erbyn twyll y maddeuant-lythyrau, ac yn y rhai y profid mai bendith a dderbynia yr edifeiriol yn rhad "trwy ffydd yn ei waed ef," heb arian ac heb werth, ydyw maddeuant pechodau. Yr oedd y ddinas yn ferw gwyllt trwyddi; ac yr oedd yr Etholwr a'i frawd, a Spalatin, yn synu yn aruthrol weled y breuddwyd yn dechreu cael ei gyflawni yn llythyrenol, cyn pen ychydig oriau. Aeth y Gosodiadau fel mellt drwy holl Ewrop. Cyn pen ychydig fisoedd yr oeddynt wedi treiddio drwy holl wledydd crêd, ac yn destynau siarad a dadleu yn mhob man yn Rhufain, yn mysg y Pab a'i gardinaliaid, yn mysg dysgedigion yn y prif ysgolion yn mhob gwlad; yn mhalasau y

boneddigion, ac yn swyddfeydd y masnachwyr; ar aelwydydd y werin bobl, ar hyd y meusydd, ac ar hyd y mynyddoedd yn mhlith bugeiliaid. Gallesid dyweyd am Luther y pryd hwnw yr hyn a ddywedir am ei Arglwydd o'i flaen, "A murmur mawr oedd am dano ef yn mysg y bobl." Rhai a ddywedent, "Gŵr da yw efe," ac eraill, "Nag ê, eithr twyllo y bobl y mae efe." Yr oedd yr eneidiau truain, tlodion, oedd yn newynu ac yn sychedu am gyfiawnder, yn mhobman yn llawenhau â llawenydd annhraethadwy, wrth yfed y dyfroedd bywiol a dywelltid iddynt o'r graig ysbrydol trwy bibellau y Gosodiadau. Yr oedd Rhufain mewn dychryn, yr offeiriadaeth yn mhobman mewn cyffro, y mynachod yn gwallgofi gan gynddaredd, a Tetzl fel tarw gwyllt mewn magl, yn rhüo ac yn bugunad llŵon a chabledau, yn ddeng mil gwaeth na Demetrius, y gôf arian, yn Ephesus, pan oedd yn gweled gobaith ei elw yn gwywo dan ddylanwad pregethau Paul.

Cyrhaeddodd Gosodiadau Luther i law Reuchlin, un o ddysgedigion penaf ei oes, a llawer o ysbryd diwygiwr ynddo. Yr oedd efe wedi tynu y mynachod a'r offeiriaid yn mhobman yn ei ben, o herwydd ei fod yn dynoethi eu hanwybodaeth a'u drwgfoesau. Gallasai ddywedyd, fel y dywedai y Salmydd am ei elynion, "Amgylchynasant fi fel gwenyn," ac yr oeddynt yn ei golynu yn ddi-arbed; ond nid oedd ganddo ef y ffydd a'r gwroldeb i ddyweyd, "Yn enw yr Arglwydd mi a'u toraf hwynt ymaith." Pan ddarllenodd Osodiadau Luther, adfywiodd a llônodd ysbryd yr hen ŵr yn fawr, a thorodd allan, gan

ddywedyd, "Diolch i Dduw, y mae y mynachod wedi cael dyn o'r diwedd rydd ddigon o waith iddynt, fel y câf fi lonydd ganddynt i derfynu fy hen ddyddiau mewn heddwch."

Ond nid oedd Luther etto wedi meddwl unwaith am adael cymmundeb Eglwys Rhufain; hi oedd y wir eglwys, yn ei dŷb ef, er fod llygredigaethau wedi dyfod i mewn iddi; credai yn y Pab a'r Babaeth yn ddiysgog. Un o heolydd y ddinas fawr oedd Wittenburg etto; ac yn yr heol hono yr oedd Luther yn trigo, ac yn bwriadu trigo tra fyddai byw; ac felly, yn wir, yr oedd holl ddinasoedd Ewrop hyd hyny. Yn y caethiwed yn Babilon yr oedd saint Duw yn aros; ond yr oedd yr amser yn nesâu i Udgorn mawr y Diwygiad udganu, a galw, "Ho! Ho! Deuwch allan o Babilon, ac achubed bawb ei enaid ei hun." Ar ddiwedd ei Osodiadau rhoddodd Luther hêr y byddai yn barod, y boreu dranoeth, i amddiffyn a phrofi eu gwirionedd mewn dadl gyhoeddus, os teimlai rhywun ar ei galon ddyfod yn mlaen i'w gwrthwynebu. Wedi eu hoelio ar ddrws yr eglwys dychwelodd i'w fyfyrgeir yn dawel ei gydwybod, ac yn llawen ei galon ddarfod iddo gyflawni y rwymedigaeth bwysig a deimlai arno i ddynoethi twyll dinystriol, a chyhoeddi i'r dyrfa fawr y gwirionedd y cawsai ei enaid ei hun fywyd a thangnefedd ynddo. Nid oes yn holl hanes yr oesau, enghraifft o'r fath effeithiau mawrion a chyffredinol wedi dilyn dim a gyhoeddwyd i'r byd yn y ffordd hon, na chyn nac wedi hyny.

Yr oedd gryn gyffelybrwydd rhwng amgylch-

iadau breuddwyd yr Etholwr, a gweledigaeth Pedr a'r llen llian fawr. Yr oedd y ddau yn arwyddion digwyddiadau cyffelyb oedd ar dori allan; y naill a'r llall wedi gwneyd argraphiadau cyffelyb ar feddyliau y ddau—yr Apostol a'r Etholwr; y ddau amgylchiad yn cymmeryd lle dair gwaith yn olynol o flaen y ddau dyst. “Hyn a wnaed dair gwaith,” &c.

Andwyodd Gosodiadau Luther farchnad Tetzal i raddau helaeth; yr oedd llygaid y bobl yn dechreu gweled allan o niwl a thywyllwch anwybodaeth a choel-grefydd, a'u meddyliau yn dechreu dyfod yn ammheus o werth y llythyrau maddeuant, ac o awdurdod y Pab i faddeu pechodau.

Disgwyliai Luther y buasai llawer yn dyfod allan i bleidio ei Osodiadau; yr oedd lliaws mawr o wŷr galluog, llen a llëyg, yn eu cymmeradwyo, ond yn rhy ofnus a meddal-galon i ddadgan hyny yn gyhoeddus; trôdd ei gyfeillion gwan-galon i'w berswadio ac i erfyn arno fod yn dawel, rhag creu terfysgoedd ac ymrysonau, a thynu gŵg a melldith y Pab arno, a pheri rhwyg yn yr eglwys; bu yn galed iawn ar ei feddwl am hir amser—yn ofni, yn petruso, ac yn arswydo wrth feddwl ddarfod iddo—nad oedd ond mynach tlawd—ryfygu cymmeryd arno y fath anturiaeth. Ewyllysiat dynu yn ol ac ymgilio i ddistawrwydd, ond yr oedd yn cael ei wthio yn mlaen megys o'i anfodd. Cyhoeddodd Tetzal rês o wrth-osodiadau i'w eiddo, yn llawn o eiriau gwrhydri a chabledd am awdurdod y Pab i faddeu pechodau, ac yn cynnwys ymosodiadau dirmygus a chwerwon ar Luther.

Teimlodd yntau ei hun dan rwymau i ateb ei wrthwynebydd; a dyna y fflam yn ail gynneu drachefn. Arferai yr awdurdodau gwladol ac eglwysig bob moddion i dawelu pethau; ceisient ddychrynu Luther â bygythion o un tu, a'i ddenu âg addewidion teg o'r tu arall. Tybient hwy, a thybiai yntau weithiau, fod heddwch wedi ei wneyd i fyny. Addawai ef fod yn ddistaw os byddai pleidwyr y maddeuant-lythyrau yn ddistaw. Wedi clytio math o heddwch ar yr ammod hono, dyna rhywun neu rhywrai o'r blaid wrthwynebol yn dyfod allan drachefn i gyhoeddi rhinwedd y maddeuant-lythyrau; a dyna Luther yntau, allan etto yn ngyddfau ei wrthwynebwy; a fflamau dadleuaeth yn ail ennyn mor angerddol ag erioed.

Cyn diwedd y dadleuon poethion, tua phen dwy flynedd wedi iddynt dori allan, gwasgwyd Luther i ddyfod allan o Babilon a'i chymmundeb; adnabu hi fel y butain fawr a'r Anghrist. Canodd yn iach iddi yn yr ymadroddion tanllyd a ganlyn:—"Yn iach, bellach, tydi Rufain gabledus, lygredig, ac aflan. Y mae digofaint Duw yn dyfod arnat o'r diwedd hyd yr eithaf, fel yr wyt yn llawn haeddu; er yr holl weddïau a gyflwynasom yn barhaus drosot, myned yn ffeiddiach, ffeiddiach yn dy fryntni a wnaethost. Mynasem iachau Babilon, ond nid aeth hi yn iach. Ciliwch allan o honi, fel yr elo yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwrfa pob ysbryd aflan, ac yn nythle pob aderyn aflan ac adgas. Bwystfilod gwylltion yr anialwch a fyddant yno; eu tai a lenwir o greaduriaid wylofus, y dyllhuanod a drigant yno; yr ellyllon a ddawnsiant ynddi; y pelican hefyd a'r ddraenog a'i meddiannant;



estyner arni linydd annhrefn fel y byddo lawn o eilun-addolwyr, anudonwyr, gwrthgilwyr, a llofruddion. Anwyl ddarllenydd, bydd wych : maddeu y poethder hwn y mae gofid a digofaint calon wedi llenwi fy ymadrodd âg ef."

—:o:—

## DARLITH II.

Dilynasom Martin Luther y tro o'r blaen trwy helyntion ei febyd a'i ieuengctid ar yr aelwyd gartref, ac yn yr ysgolion; ei drallodion ysbrydol yn nhymor ei efrydiaeth yn Mhrifysgol Erffurt, ei ymroddiad i fywyd mynachaid, a'i helbulon tymmhorol ac ysbrydol yn y cyfnod hwnw; ei sefydliad fel dysgawdwr yn y brif athrofa yn Wittenburg, ei daith i Rufain, a'r effeithiau a gafodd yr halogrwydd a welodd yno arno; y modd y tywynodd goleuni yr efengyl ar ei enaid, ei ymlyniad parhaus drwy y cyfan wrth yr Eglwys Babaid a'r Pab; ei ymdrechion gorchestol yn erbyn gwerthiant maddeuant-lythyrau, a'r effeithiau rhyfeddol a ganlynasant. Gwelsom ef, o'r diwedd, yn dyfod allan o Babilon, yn tori pob perthynas a chyssylltiad rhyngddo âg Eglwys Rhufain; ac wedi dyfod allan ei hun, yn dyrchafu ei lais fel udgorn i alw ar bawb oedd o'i mewn ag oeddynt yn caru gwirionedd a'u heneidiau eu hunain, i ddilyn ei esiampl, a ffoi am eu heinioes o'r ddinas fawr hono, yr hon oedd wedi ei diofrydu i ddinystro herwydd ei phechodau gwaeddfawr. Yn y fan yma y gadawsom ef, ac y rhaid i ni ei gymmeryd i fyny y tro hwn, a'i ddilyn yn mhellach etto.

Y mae genym ddyn rhyfedd ac ofnadwy o'n blaen i'w drafod. "Edrychwch faint oedd hwn!" Anhawdd, hwyrach, fyddai cael dyn yn holl hanesydd-iaeth dynion â chynnifer o elfenau yn cydgyfarfod yn nghyfansoddiad ei natur a'i nodwedd, a phob un o'r amrywiol elfenau hyny yn eu llawn nerth ynddo, hefyd. Yr oedd gwrolfrydedd y llew yn ei feddwl, cryfder elephantaidd yn ei benderfynolrwydd, angerddoldeb y ffwrn danllyd yn ei ysbryd, nerth y corwynt yn ei athrylith, y difrifoldeb dyfnaf yn ei enaid, llymder y fellten yn ei ddigllonedd, tynerwch yr oen yn ei galon, a chwareugarwch yr ebol yn ei dymmer. Pan ddarostyngid y dyn hwn i drallod meddwl, y mae yn suddo, megys wrth ei bwysau, hyd yn uffern isod; clywir ei riddfanau o'r dyfnder hwnw yn dyrchafu fel sŵn mynydd llosg mewn gwewyr pan fyddo ar fwrw allan ei losgfâl ysol o'i goluddion tanllyd. Pan fyddo ar uchelfanau y maes, a chyda'i gyfeillion, y mae yr un dyn mor llawen a'r gôg, ac mor ddigrif-chwareus a mŷn gafr. Pan gythruddid ef gan ei wrthwynebwy'r maleisus, y mae yn eu rhwygo â digllondeb arth wedi colli ei chenawon. Yn yr olwg ar drueni a gwasgfeuon eraill, y mae yn toddi mewn tosturi a chydymdeimlad fel plentyn. Pan y mae cymmylau a thywyllwch yn amgylchynu achos y Diwygiad, y buasai yn offeryn i'w gychwyn, a'r hwn a gredai ef ei fod yn achos Duw, ac iachawdwriaeth dynion, mor ddilys ag y credai y ffaith o'i fodolaeth ei hun, yr ydych yn teimlo fod nerth ei weddiau yn rhwygo yr awyr, yn treisio y nefoedd, ac megys yn ei gosod dan orfod i ddyfod allan i'w bleidio, ei amddiffyn, a'i lwyddo. Wele y dyn! Dyn a gawn

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 37

weithiau mor lariaidd a Moses, bryd arall mor danllyd ac arswydlawn ag Elias y Thesbiad. Daw yr elfenau hyn i'r golwg fel y daw amgylchiadau i'w galw allan, fel y cawn weled wrth olrhain ei hanes. Yr oedd yn beth amhossibl i ddyn o'r fath ag ydoedd Martin Luther fyned trwy y byd heb i'r byd gael teimlo oddi wrtho, pa gyfeiriad bynag a gymmerasai ei fywyd; yr oedd cyfeiriad a gwaith ei fywyd wedi ei rag-drefnu iddo cyn ei lunio yn y groth; nid eiddo y gŵr oedd ei ffordd; pe cawsai ef ei ffordd ddewisol ei hun, ni buasai byth yn tori ei heddwch â Rhufain, ac yn myned allan o'i chymmundeb, ond angenrhaid a osodwyd arno; dygwyd amgylchiadau arno i'w wasgu allan o'i ffordd ei hun i'r ffordd y mynai Duw iddo ef ei rhodio.

Pan welodd Rhufain a'i hattegwyr yr effeithiau rhyfedd a gynnyrchodd Gosodiadau Luther ar feddyliau y bobl yn mhob man trwy holl wledydd Ewrop, llanwyd hwynt gan fraw a synedigaeth; ymgynghorent â'u gilydd, gan ddywedyd, "Pa beth a wnawn ni i'r dyn hwn? Os gadawn ni ef fel hyn, fe ä y byd ar ei ol ef." Galwai y Pab drwy ymbiliau a bygythion ar Frederic, Etholwr Saxony, i arfer ei awdurdod i roddi taw arno, a chael ganddo dynu ei Osodiadau yn ol, ac ymostwng mewn sachlian a lludw mewn edifeirwch wrth draed yr Eglwys Sanctaidd, i ymbil am faddeuant a chymmod. Ac os na wnai efe hyny, ei anfon i Rufain fel y gallai ei Sancteiddrwydd ei ddysgyblu a'i gystwyo yn ol ei ddoethineb a'i ewyllys. Mynai eraill i'r Ymherawdwr Charles v. gymmeryd yr achos i'w law, a llosgi yr heretic cyndyn

a rhyfygus â thân. Prif foddion amddiffynol yr Eglwys Babaidd yn wastad fyddai dadleu â thân ; ac felly y dadleuai hi etto â'i gwrthwynebwy, pe goddefai ysbryd yr oes iddi wneyd, canys y mae ei hysbryd hi yn parhau yr un yn ddi-gyfnewid, er pob cyfnewidiad a gymmer le yn ysbryd yr oes. Cyngorai eraill alw Cyngor Cyffredinol i drefnu a phenderfynu yr achosion oedd mewn dadl, a symmud y drygau a'r llygredigaethau y cwynid yn gyffredinol o'u herwydd. Yr oedd llaweroedd yn eu calonau yn bleidwyr gwresog i fynach Wittenburg, ond yr oedd ofn yr awdurdodau yn eu hattal i gyffesu eu hunain, rhag iddynt gael eu "bwrw allan o'r synagog."

Yr hyn a barai syndod cyffredinol i garedigion yr eglwys yn mhob man oedd, na ddaethai rhyw arwr allan i wrthwynebu a dymchwelyd Gosodiadau y mynach. Pa beth, ai nid oedd gan yr eglwys neb rhyw un a ymaflai yn ei llaw o'r holl feibion a fagodd? Pa le yr oedd ei doctoriaid dysgedig, ei hesgobion, a'i chardinaliaid, ei hathrawon, a'i hoffeiraid? Ai teui â sôn a wnaent hwy ar y fath amser a hwn? Ai nid oedd o honynt gymmaint ag un a feiddiai ddyfod allan yn erbyn y cawr oedd yn gwaradwyddo byddin-oedd yr Eglwys Sanctaidd? A phwy oedd y cawr hwnw? Dim ond y mynach tlawd, di-nôd, na wyddai neb ddim am dano yn mron cyn hyny. O'r diwedd, dyna benrhuswr yr eglwys yn dyfod allan wedi ymwisgo â tharian a llurig, a helm o brês ar ei ben, a phaladr ei waywffon fel carfan gwehydd; bygythiai roddi cnawd y mynach yn fwyd i ehediaid y nefoedd ar fŷr dro, a gwaredu yr Eglwys Sanctaidd o'i

pherygl a'i thrallod. Yr arwr bostfawr hwnw oedd un Dr. John Maier Eck—gŵr â thafod a thalent ddigon ganddo i ffrostio pethau mawrion; cyfrifid ef yn ŵr dysgedig iawn, yn llawer mwy felly nag oedd efe, mewn gwirionedd; ond gwnai i fyny am bob diffyg mewn dysg a gwybodaeth drwy ei hyfdra a'i haerllugrwydd di-fesur.\*

Ond, hwyrach y dylesid crybwyll fod ambell un o'r mynachod wedi cynnyg ar y gorchwyl o gau genau yr heretic cyn i Eck wneyd ei ymddangosiad. Cynnygiodd Tetzal, gwerthwr maddeuant pechodau, rês o Osodiadau i wrthbrofi Gosodiadau Luther, ac atebodd Luther ef, a chauodd ei enau am byth. Nid oedd yr ambell fynach yma ac acw a gynnygiasant ei ateb ond rhy salw i wneyd sylw o honynt; atebodd hwynt mewn ychydig eiriau llymion, gan eu dileu, megys y diffoddir canwyll, âg anadliad ei wefusau. Gwysiwyd ef wedi hyny i ymddangos o flaen Cardinal Cajetan, cenhadwr y Pab yn Augsburg; ufuddhaodd yntau i'r wŷs; aeth yno, gan daflu ei hun megys i enau y llew, yr hwn a benderfynai y mynai gael ganddo i ymostwng a dadgyffesu, neu yr esgymmunai ef, ac y danfonai ef yn adyn esgymunedig, yn rhwym draed a dwylaw, i Rufain, i gael yno ei gondemnio a'i losgi fel heretic. Nid oedd dim siarad ac ymresymu i'w gael gyda'r

---

\* "He (Eck) leaves upon the mind the impression of a professional gladiator rather than of a serious theological controversialist. He is strident, arrogant, overbearing; his instincts are those of self-display; he fights more for victory than for truth."—*Martin Luther, Charles Beard, p. 277.*



Cardinal ; ymostyngiad a dadgyffesiad a fynai ef, neu esgymmundod a llosgi. Daliai cyfeillion Luther a'r Diwygiad eu hanadl gan bryder ac ofn tra yr oedd efe yn Augsburg. Ofnent yn fawr na welent ei wyneb, ac na chlywent ei lais byth mwy; ei fod yn awr mewn dalfa, o'r hon nad oedd dim gobaith y gallai ddiangc. Wedi ymddangos amryw weithiau o flaen y Cenhadwr, yr hwn ofynai ymostyngiad, ac a fygythiai ddialedd tân arno oni wnai efe hyny, ac yntau yn parhau yn gyndyn, ac anedifeiriol, penderfynodd y Cardinal gymmeryd gafael ar ei berson, a'i anfon i Rufain; ond erbyn ei fod yn barod i osod ei fwriad mewn gweithrediad, yr oedd yr aderyn wedi cymmeryd ei aden, a diangc ymaith. Annogodd a chynnorthwyodd ei gyfeillion yn Augsburg, Luther i ffoi am ei einioes. Un boreu cymmerodd ei farch, a marchogodd tua Wittenburg mor gyflym ag y gallai traed hwnw ei gludo; a chyn i genhadwr y Pab glywed gair am hyny, yr oedd efe yn rhy bell i erlyn ar ei ol. Ffromodd y Cardinal yn aruthr pan ddeallodd hyny; addawsai iddo ei hun yr anrhydedd o adferu heddwch i'r eglwys, a diogelwch i'r Babaeth, naill ai trwy ddychwelyd yr heretic a'r terfysgwr yn ol i'r ffydd, neu ynte ei ddistewi am byth drwy ei losgi â tân. Dychwelodd yn ol i Rufain yn siomedig, ac mewn digder llidiog; ac yn lle cael ei ganmawl am ei fedruswydd a'i ddoethineb, beiwyd arno yn fawr am ei anfedruswydd a'i fonglerwch. Yn y cyfwng hwn daeth Eck yn mlaen, gan addaw gwneyd y gwaith yr oedd Tetzel a'r Cardinal ac eraill wedi methu.

Yr oedd Carlstadt, un o gyd-lafurwyr Luther yn

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 41

Wittenburg, wedi ysgrifenu mewn amddiffyniad i Osodiadau ei gyfaill, a chyhoeddodd Eck attebiad. Attebodd Carlstadt yntau drachefn; ffromodd Eck, a hëriodd Carlstadt i ddadl gyhoeddus âg ef; derbyniodd Carlstadt yr hër; caniatodd y Duc George i'r ddadl gael ei chynnal yn ninas Leipsig, ond ni chaniateid i Luther, ar y cyntaf, gymmeryd rhan ynddi. Efe oedd nôd Eck; nid oedd yn prisio fawr yn Carlstadt; edrychai arno yn gymmaint îs-law iddo ef ei hun fel nad oedd ei drechu mewn dadl yn brin gwerth y drafferth iddo; baeddu a threchu Luther oedd nôd ei uchelgais. Wedi rhai dyddiau o ddadleu rhwng Carlstadt ac yntau, anfonodd hëriad i Luther, yr hwn oedd yn bresennol yn y ddadl, i gymmeryd lle Carlstadt; nid oedd dim yn well gan Luther na hyny. Addawodd yn rhwydd, os caniatâi y Duc George ei noddaeth iddo, yr hyn y llwyddwyd i'w gael. Yn un o'i lythyrau yr amser hwnw ysgrifennai:—"Yn awr, fy anwyl Eck, ymwrola; gwisg dy gleddyf ar dy glun, tydi, O! gadarn. Yr wyf yn barod i'th gyfarfod, nid yn gymmaint gan feddwl y gallaf orthrechu yr hwn a ennillodd gynnifer o fuddugoliaethau yn Hungary, Bavaria, a'r Eidal, os cymmerwn ei air ef ei hun ar y mater; ond mi a roddaf i chwi gyfleusdra i ennill yr enw o gongcwerwr Saxony a Misnia, fel y'ch anrhydeddir o hyn allan â'r teitl anrhydeddus Augustus."

Parhaodd y ddadl am ugain niwrnod—deuddeng niwrnod rhwng Eck a Carlstadt, ac wyth rhwng Eck a Luther. Yr oedd tyrfaoedd lluosog o bob gradd yn gwrandaw, a berw mawr yn y ddinas a'r wlad oddi

amgylch ynghylch y ddadl a'r dadleuwyr, a chymmerai dadl â dyrnau le yn fynych ar hyd yr heolydd rhwng pleidwyr y naill ochr a'r llall. Pyngciau y ddadl rhwng Eck a Carlstadt, yn benaf, oeddynt ewyllys rydd a rhagluniaethiad; a rhwng Luther ac Eck, uchafiaeth y Pab, y purdan, a maddeuantlythyrau. Pan ddaeth y pwngc o uchafiaeth y Pab yn mlaen, teimlid y dyddordeb mwyaf yn y ddadl, gan nad oedd neb, er dyddiau John Huss, wedi ammheu y peth; ac ni soniasai Luther ei hun etto ddim am dano; a phan lefarodd yn gynnil ar y cyntaf, yn y ddadl, mewn gwrthwynebiad syniad, parodd gyffro anghyffredin yn y gynnulleidfa; ystyriai y rhan fwyaf oedd yn bresennol fod y dyn yn gablwr rhyfygus, ac ofnai ei gyfeillion ei fod wedi myned yn rhy bell, a'i fod eisoes wedi tyuu dinystr sicr yn ei ben. Luther ei hun yn unig oedd yn dawel a digyffro.

Dygodd y ddadl ei ffrwythau, ennillwyd lliaws o bleidwyr enwog i'r Diwygiad trwyddi o'r rhai oeddynt cyn hyny yn elynion ffyrnig iddo, ac yn eu mysg Poliander, cyfaill mynwesol Eck, a'r hwn a ddygasai gydag ef fel ysgrifenydd a chynnorthwywr yn y ddadl. Daeth Luther allan o dân y ddadl wedi ei buro, a'i loywi, a'i gryfhau yn fawr fel Diwygiwr; gwelodd yn mhellach ac yn ddyfnach i dwyll a drygedd Pabyddiaeth nag y gwelsai erioed o'r blaen, a daeth yn fwy penderfynol i'w dynoethi. Yr oedd y gagendor rhyngddo â hi, bellach, wedi ei eangu yn fawr, a'i sicrhau am byth.

Hônai y ddwy blaid fuddugoliaeth ar ol y ddadl

hono, fel y bydd yn wastad ar ol pob dadl. Udganai Eck ei fuddugoliaeth yn mhob man, ond addefai mewn llythyrau cyfrinachol at gyfeillion, fod doctoriaid Wittenburg wedi ei drechu ar rai pyngciau ; ond ymesgusodai drwy ddyweyd eu bod hwy yn dwyn llyfrau gyda hwynt i'w cynnorthwyo, a'u bod yn ysgrifenu y ddadl bob dydd, fel y gallent rag-barotoi eu hunain erbyn y dydd nesaf ; a chyda hyny, eu bod hwy yn llawer, yn ei erbyn ef ei hunan. Yr oedd wedi hyderu gormod ar ddoctoriaid Leipsig i'w gynnorthwyo, meddai, ond y bu raid iddo ymladd y frwydr ei hunan. Tramgwyddodd hyn ddoctoriaid Leipsig, y rhai a ddywedent eu bod hwy wedi cael eu siomi yn eu harwr, ac y buasai ef wedi ei lwyr orthrechu yn y ddadl, a'i yru o'r ddinas dan ei warth, oni buasai iddynt hwy ei gynnorthwyo a'i waredu. Wedi i'r wâg ymffrost am fuddugoliaeth o du y Pabyddion dawelu, daeth yn bur amlwg i bawb i ba ochr y perthynai yr oruchafiaeth, yn effeithiau y ddadl ar laweroedd o'r rhai oedd yn bresennol : lefeiniodd athrawiaeth y Diwygiad ysbrydoedd llawer o'r myfyrwyr yn Mhrifysgol Leipsig, a daeth lliaws o honynt allan yn gyhoeddus i arddel ac amddiffyn yr athrawiaeth hono. Dechreuwyd beio Eck gan gyfeillion Rhufain yn mhob man, a chyhoeddi ei fod wedi gwneyd llawer mwy o niwed nag o les i achos yr eglwys. Yr oedd hyny yn peri iddo ymddigio ac ymgreuloni yn ddirfawr. Disgwylasai ennill iddo ei hun enw anfarwol, ac y cawsai ei ddyrchafu i'r swydd a'r anrhydedd uchaf yn yr eglwys, am y fuddugoliaeth fawr a addawsai iddo ei hun ar ei gelynion ; ond yn y gwrthwyneb i hyny y bu.

Yn y cyfamser hwn, etholwyd Charles v., Yspaenwr, gŵr ieuangc ugain oed, yn ymherawdwr Germany, ar ol Maximilian, yr hwn a fuasai, i fesur, yn bleidiol i Luther. Y peth cyntaf i'w wneyd—yr un peth angenrheidiol ar y pryd hwnw—ar ddechreuad teyrnasiad yr ymherawdwr newydd, oedd meddyginiaethu rhwygiadau yr eglwys, adferu tangnefedd ac undeb ffydd, diwygio yr annhrefn a'r llygredigaethau oedd wedi ei llenwi a'i hanurddo, y rhai a roddent y fath fanteision i'w gwrthwynebwyr i'w gwaradwyddo. Yr oedd galwadau uchel am i gymmanfa gyffredinol gael ei galw i gyd-ystyried a threfnu moddion diwygiad, a therfynu y dadleuon a'r ymrysonau. Yr oedd ar y Pab, a'r offeiriadaeth Babaidd yn gyffredinol, ofn y fath gymmanfa yn eu calonau, gan wybod y gwnaethid dynoethiad gwaradwyddus o lygredigaeth yr eglwys a'r offeiriaid ynddi, a gwnaethant eu goreu i'w hattal. Ond yr oedd y tywysogion gwladol, a'r werin-bobl yn gyffredin, yn unllais yn mron am dani. Penderfynodd yr ymherawdwr a'i gynghor i alw y gymmanfa, i ymgynnull yn ninas Worms, ar y 6ed o Ionawr, 1521. Erioed ni bu y fath gynnulliad o dywysogion, etholwyr, duciaid, ardalyddion, arglwyddi, barwniaid, archesgobion, esgobion, cenhadau llysoedd tramor, dirprwywyr dinasoedd, &c., ag oedd y cynnulliad hwnw yn Worms—yr oedd holl fawrwychedd a gogoniant yr ymherodraeth yn ymdywllt o bob cŵr i'r ddinas; yr oedd yr holl ffyrdd a arweinient i'r ddinas, o bob cyfeiriad, yn llawnion am ddyddiau o gerbydau, gwŷr meirch, milwyr, a gosgorddion y tywysogion, wedi eu gwisgo yn y modd gwyfach. Cyfarfod oedd hwnw v teimlai nefoedd, a daear, ac



uffern ddyddordeb byw ynddo, nid ar gyfrif y mawredd a'r gwycheder allanol a gweledig a'i gwisgent, ond ar gyfrif yr achos mawr oedd i fod dan ymdriniaeth ynddo: yno yr oedd gwirionedd a thwyll i gyfarfod wyneb-yn-wyneb, ac i fesur eu nerth mewn gwrthymdrech orchestol. Yno yr oedd Crist ac Anghrist i brofi eu galluoedd a'u hawliau yn erbyn eu gilydd. Gwysiwyd Luther i ymddangos ger bron y cynghor. Yr oedd yr Etholwr, a chyfeillion y diwygiwr yn mhob man, yn anfoddlawn iddo fyned, ac yn ceisio ei berswadio i aros gartref; ac o'r tu arall, yr oedd llawer iawn o gyfeillion calon Rhufain yn anfoddlawn iawn iddo ymddangos yno, a gwnaethant eu goreu i'w gadw oddi yno, gan ofni y canlyniadau. Yr oeddynt yn ei adnabod, ac wedi profi ei nerth erbyn hyn. Ofnai ei gyfeillion, os äi yno, na ddychwelai byth oddi yno yn fyw, ac ofnai ei elynion y rhoddasai glwyf dyfnach i'r eglwys drwy ei ddadleuon o flaen y cynghor, ac na allasent lwyddo i'w ddyfetha. Teimlai Luther, fel Paul o'i flaen, yn rhwym yn yr Ysbryd i fyned i Worms, heb wybod beth a ddigwyddai iddo, ac heb "wneyd cyfrif o ddim." "Ac nid gwerthfawr oedd ganddo ei einioes ei hun chwaith." Ystyriai fod y wŷs a gawsai i ymddangos o flaen y cynghor yn Worms yn alwad arbenig oddi wrth Dduw, a gadawai ei hun a'i achos yn dawel yn ei law Ef. Wedi cael nawdd-lythyr yr ymherawdwr, am un-niwrnod-ar-hugain, ymbarotôdd i'r daith. Yr oedd yn wael ei iechyd ar y pryd. "Os na allaf fyned i Worms fel dyn iach," meddai, "mi a fynaf gael fy nghario yno, gan fod yr ymherawdwr yn fy ngalw yno; ni allaf ammheu nad ydyw yn alwad oddi wrth Dduw ei hun.

Os ydynt yn bwriadu niwed i mi—fel y mae yn bur debygol eu bod—yr wyf yn gadael y mater yn llaw Duw. Y mae Efe, yr hwn a waredodd y llangciau yn y ffwrn dân, etto yn fyw, ac yn teyrnasu. Os na wêl Efe yn dda fy ngwaredu, nid yw fy mywyd i o fawr bwys ; yn unig na foed i mi oddef i achos yr efengyl gael ei warthruddo gan yr anwiriaid ; boed i ni roddi ein gwaed drosto yn hytrach na gadael iddynt hwy orfoleddu. Gweddïwn, beth bynag, na byddo i'n hymherawdwr ieuangc ddechreu ei deyrnasiad trwy drochi ei ddwylaw yn fy ngwaed i ; byddai yn fwy dewisol genyf o lawer drengu drwy gleddyf y Rhufeinwyr na hyny. Yr ydych yn cofio pa drychinebau barnol a syrthiodd ar yr Ymherawdwr Sigismund, wedi llofruddiad John Huss. Gellwch ddisgwyl pob peth oddi wrthyf fi, ond dau beth—ffoi a dadgyffesu. Ni allaf ffoi, ac ymguddio ; llawer llai y gallaf wadu y ffydd."

Yr oedd dinas Wittenburg yn fyw trwyddi y boreu yr oedd yn cychwyn ; codai y bobl, o'r hynaf hyd yr ieuengaf, allan o'u tai i'w weled yn ymadael. Ymadawodd yn nghanol ocheneidiau a dagrau, a gweddïau miloedd o gyfeillion ac ewyllys-wyr da, y rhai a ofnent yn fawr na chaent byth ei weled yn dychwelyd. Ychydig cyn iddo gychwyn cyhoeddodd y Pab Leo ei esgymmundod arno ; yr oedd rhwad tarw y Pab yn adseinio trwy holl Ewrop. Mýnai Aleander, Cenhadwr y Pab i'r cynghor yn Worms, drwy daer ymbiliau, gael gan yr Ymherawdwr Charles ddal Luther, a'i osod i farwolaeth, neu ei anfon i Rufain, i'w ddyfetha fel heretic ysgymmunedig ; ond yr

oedd Etholwr Saxony, a rhai eraill o dywysogion yr ymherodraeth, yn dadleu yn galed yn erbyn hyny, a llwyddasant i attal y trychineb. Yr oedd ar Aleander ofn i'r Diwygiwr ymddangos o flaen y cynghor yn fwy na dim; ni adawodd un gareg heb ei throï; un ddyfais na dichell a allai lunio, heb eu defnyddio i attal hyny; ond yr oedd raid i'r nefoedd ei gael yno, ac ni allasai holl allu a dyfais uffern a Rhufain ei rwystro. Yr oedd erbyn hyn tua chanol mis Mawrth; yr oedd y cynghor wedi agor yn mis Ionawr. Yr oedd amgylchoedd yr holl ffyrdd y teithiai Luther yn llawnion o bobl y pentrefi a'r wlad, y rhai a gyrchent i gael golwg ar y dyn rhyfedd yr oedd y fath sôn am dano; pan elai trwy dref, dodid heibio bob masnach a gorchwyl, amgylchynid ei gerbyd gan dyrfaoedd o gyfeillion a gelynion, a safai y bobl am oriau o flaen drws y gwestty lle yr arosai. Yr oedd rhai yn ei ofni fel dyn â phlâ arno; eraill yn ei ystyried yn un mewn cynghrair â'r cythraul, ac yn waeth na'r cythraul, a'r lleill yn ei fawrhau fel angel Duw.

Fel yr oedd efe yn nesâu i Worms, yr oedd dychryn Aleander a'i gyfeillion yn cynnyddu, a gwnaethant un ymdrech etto i ragflaenu yr aflwydd a arswydent, o'i ymddangosiad ger bron y cynghor. Llwyddasant i ddylanwadu ar nifer o gyfeillion adnabyddus iddo, i fyned i'w gyfarfod encyd o ffordd o'r ddinas, i'w berswadio i droi i gastell un o noddwyr y Diwygiad oedd ger llaw, fod Cenhadwr y Pab yn ewyllysio cael ymddiddan âg ef yno; ac fod pob gobaith y gellid gwneyd y mater i fyny rhyngddynt yn dawel, a bod yr ymherawdwr yn ewyllysio hyny yn

fawr. Yr oedd y tri chyfaill a ddaethent gyda Luther o Wittenburg yn petruso beth oedd oreu ei wneyd, ac yn hytrach yn gogwyddo i weithredu yn ol y cynghor. "Na," ebe Luther, "mi a äf yn mlaen i'r lle yr wyf wedi fy ngalw i ymddangos; ac os oes gan Genad y Pab ryw beth i'w ddyweyd wrthyf fi, deued ataf yn Worms;" ac felly, trôdd yr ymgais olaf hwn etto yn fethiant. Pan oedd ei gyfeillion mewn un dref ar ei daith, yn erfyn arno dan wylo i beidio myned yn ei flaen, a thafu ei hun i safn y llew, efe a attebodd, "Mi äf yno pe bae yno gynnifer o ddiarfiaid i ysgyrnygu arnaf ag sydd o lechi yn toi y tai." Ac yno yr aeth, a'r holl ddinas a gynnhyrfwyd; a dyna lle yr oedd pob llygad yn hylldremu, pob safn yn rhythu, pob calon yn curo ddwywaith ar unwaith, gan awydd i weled y dyn rhyfedd hwnw, oedd wedi troi Germany a Rhufain â'u gwyneb i waered; yr oedd cyfeillion Rhufain yn ei felldithio yn eu calonau, a chyfeillion y Diwygiad yn ei fendithio, fel yr oedd melldithion gelynyion a bendithion cyfeillion yn gwlawio am ei ben yn gymmysg â'u gilydd. Ni thalwyd hanner cymmaint o sylw i neb o'r tywysogion nac i'r ymherawdwr yn y ddinas, ag a dalwyd i fynach tlawd Wittenburg.

Dranoeth wedi iddo gyrhaedd y ddinas—dydd Gwener, Ebrill 17eg—gwysiwyd ef i ymddangos ger bron y cynghor am bedwar yn y prydawn. Ar yr awr nodedig hono daeth arf-swyddog yr ymherodraeth i'w gyrchu; buont dros ddwy awr cyn gallu gweithio eu ffordd yn mlaen drwy y tyrfaoedd oedd yn llenwi yr heolydd; yr oedd y bobl yn y ffenestri, ac ar benau y tai, yn finteioedd di-rif. Cafwyd Luther i mewn o'r

diwedd, a dyna lle yr oedd golygfa ar dyrfa fawreddog—yr ymherawdwr a'i frawd, yr Archdduc Ferdinand, chwech o etholwyr neu is-frenhinoedd, pedwar-arghain o dduciaid, wyth o ardalyddion, deg-arghain o archesgobion a phreladiaid, saith o genhadau tramor, nifer fawr o farwniaid, tywysogion, ac arglwyddi, cenhadau y Pab—yr oll uwch law dau gant o rifedi. Pan oedd Luther ar drothwy drws y llysdŷ yr ymgynullai y cynghor ynddo, daeth yr hen faes-lywydd enwog, George o Ffreundsburg. arwr cant o frwydrau, ato, a tharawodd ei law ar ei ysgwydd; a chan ysgwyd ei ben gwyn arno, dywedai yn ddistaw garedig yn ei glust, “Druan fynach! druan fynach! y mae genych i ymladd brwydr na welais i nac un swyddog milwr-aidd arall yr un gyffelyb iddi yn ein brwydrau mwyaf gwaedlyd; ond os yw eich achos yn dda, a chenych lawn hyder ynddo, ewch yn mlaen yn enw yr Arglwydd, ac nac ofnwch ddim. Ni edy Duw chwi.” Yna arweiniwyd ef i mewn, a disgynodd pob llygad o'r dyrfa fawr urddasol hono arno. Oedd, yr oedd mynach Wittenburg yr ennyd hono yn ddrych i'r byd, i angylion, cythreuliaid, a dynion i dremio arno. Teimlai fod ei sefyllfa yn un wir arswydlawn; yr oedd pryder yn gwelwi ei rudd, ac yn peri i'w llin a'i galon grynu. Sylwodd rhai o'r tywysogion oeddynt yn gyfeillion iddo, ei fod yn grynedig ac ofnus, ac aeth un ac arall o honynt ato i ddyweyd gair calonogol yn ddistaw wrtho. “Nac ofnwch y rhai a laddant y corph,” meddai un. “Pan y'ch dyger ger bron llywiawdwy'r a brenhinoedd, nid chwychwi sydd yn llefaru, ond ysbryd eich Tad sydd yn llefaru ynoch,” meddai un arall. “Calonogwyd ef felly â geiriau ei



Arglwydd drwy eneau tywysogion y byd hwn," medd D'Aubigné. Yr oedd ar y bwrdd o flaen y lle y safai tuag ugain o gyfrolau o'i waith. Anerchai John Von Eck\*, canghellwr Archesgob Treves, ef, gan ddywedyd, "Martin Luther, darfu i'w Oruchaf Fawrhydi yr Ymherawdwr eich gwysio yma o flaen ei orsedd, drwy gynghor talaethau yr ymherodraeth Rufeinig, mewn trefn i alw arnoch i ateb y ddau gwestiwn hyn:—Yn gyntaf, a ydych chi yn cydnabod mai chi a ysgrifennodd y llyfrau yna?" gan gyfeirio at y cyfrolau oedd ar y bwrdd. "Ac yn ail," eb efe, "a ydych yn barod i alw yn ol yr hyn a gyhoeddasoch ynddynt, neu a ydych yn penderfynu sefyll atynt?"

Wedi edrych dros deitl y llyfrau, cyfarchodd yr ymherawdwr a'r cynghor, a dywedodd:—"Gofyna ei Fawrhydi ymherodrol ddau gwestiwn i mi. Mewn perthynas i'r cyntaf, yr wyf yn cydnabod mai myfi a ysgrifennais y llyfrau hyn—ni allaf wadu."

"Yn mherthynas i'r ail, A ydwyf yn barod i'w galw yn ol, neu yn benderfynol i sefyll atynt? Gan ystyried pwysigrwydd y cwestiwn fel y mae yn dal cyssylltiad â Gair Duw, ac iachawdwriaeth dynion, byddai yn annoeth ynof ateb heb ddwys ystyriaeth yn gyntaf. Gallwn ddyweyd llai nag y mae yr achos yn ofyn, neu fwy nag y mae y gwirionedd yn galw am dano, a thynu arnaf fy hun yr euogrwydd a gollfarna y Gwardwr, pan y dywed ef, 'Pwy bynag a'm gwado i

---

\*Nid ydyw hwn i'w gamgymeryd am y dadleuydd o'r un enw y soniwyd am dano o'r blaen.

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 51

yn ngŵydd dynion, minnau a'i gwadaf yntau yn ngŵydd fy Nhad.' Gan hyny, yr wyf yn erfyn ar eich Uchel-der ymherodrol ganiatau i mi amser, fel y gallwyf ateb yn ofalus a phwyllog."

Caniatäwyd iddo amser hyd dranoeth. Gorfol-  
eddai caredigion Rhufain wrth ei weled yn oedi ei  
ateb, gan gredu yn sicr ei fod yn petruso, fod ei  
wroldeb yn pallu, ac y byddai yn sicr o ystwytho a  
dadgyffesu dranoeth ; cysurent eu hunain a'u gilydd y  
noson hono â'r hyder y caent lawn fuddugoliaeth ar  
eu gelyn dranoeth ; a'r noson hono, yn ei letty, oedd  
Gethsemane Luther. Bu ei enaid mewn gwëwyr a  
dirdyniadau annhraethadwy am oriau. Dygai ofn, ac  
yr oedd yn petruso wrth feddwl am y gynnulleidfa  
urddasol yr oedd efe etto i ymddangos o'i blaen  
dranoeth ; yr oedd y meddwl ei fod yn anufuddhau  
i ddynion a wisgasai Duw â chleddyf yr awdurdod  
wladol yn peri iddo bryder dwys. Ar foreu y 18fed  
o Ebrill—y diwrnod yr oedd i roddi ei ateb pender-  
fynol i'r cynghor—yr oedd ei ysbryd yn drallodus, a'i  
ffydd fel yn llewygu. Clywid ef yn ei ystafell yn  
tywallt ei enaid fel rhaiadr mewn gweddi. "Dduw  
Hollalluog ! Dduw tragwyddol ! mor ofnadwy yw y  
byd hwn fel y mae yn agor ei safn i'm llyngcu i !  
Mor sigledig yw fy hyder ynot ti ! Mor wan yw y  
cnawd ! Mor alluog yw Satan ! Os rhaid i mi osod  
fy ngobaith yn y peth a eilw y byd yn fawr a chadarn,  
derfydd am danaf—y mae y cwbl drosodd. O Dduw !  
O Dduw ! O tydi, fy Nuw ! cynnorthwya fi yn erbyn  
holl ddoethineb y byd ! Gwna felly ; rhaid i ti ei  
wneyd—tydi dy hun—oblegid dy waith di ydyw, nid

yr eiddof fi. Ni allaf fi wneuthur dim yma ; beth a allaf fi yn erbyn cedyrn y ddaear. Carwn innau hefyd dreulio fy nyddiau yn dawel a difyr. Ond dy achos di ydyw—achos cyfiawn a thragwyddol. O Arglwydd! bydd yn gymmhorth, ffyddlawn ac anghyfnewidiol Dduw. Nid wyf yn ymddiried mewn dyn. Ofer fyddai hyny—cyfnewidiol yw dyn. O Dduw! O Dduw! ai nid wyt yn clywed? Fy Nuw! a fuost di farw? Na, ni elli farw. Cuddio dy wyneb yr ydwyf. Ti a'm dewisaist i i'r gwaith hwn, yr wyf yn gwybod hyny. Ymddangos ynte, O Dduw! Sâf yn fy ymyl, er mwyn dy anwyl Fab, Iesu Grist, yr hwn yw craig fy amddiffyn a'm tarian."

Wedi ennyd o ddistawrwydd torai allan drachefn. "Arglwydd, pa le yr wyt? O fy Nuw! pa le yr ydwyf? Tyred, tyred, wele fi yn barod—yn barod i roddi fy einioes i lawr dros dy Air di, mor dawel a'r oen. Y mae yr achos yn dda—dy achos di ydyw. Nid ymadawaf â thi yn awr, na byth bythoedd. Pe llenwid y byd o ddiafiaid, a phe gwesgid fy nghorph, gwaith dy ddwyllaw, i'r llwch, pe dirdynid ef ar y glwyd, a phe dryllid ef yn falurion a'i falu yn llwch, eiddot ti yw fy enaid, dy Air di yw fy awdurdod, eiddot ti yw fy enaid, ac yn dy fynwes di y bydd ef byth. Amen. O Dduw! cynnorthwya fi. Amen."

Offrymodd Luther yntau ei weddi hon trwy lefain cryf a dagrau, a chafodd ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd. Ffôdd y cymmylau, diflanodd ei ofnau, nerthwyd ef o wendid, fel yr oedd bellach yn alluog i gau safnau llewod, diffodd angerdd y tân, a gyru

byddinoedd estroniaid uffern a Rhufain—y diafol a'r Pab—i gilio. Wedi codi o'i weddi, aeth at fwrdd oedd yn yr ystafell â Beibl agored arno, dododd fŷs ei law aswy ar y Beibl agored, a dyrchafodd ei law ddeheu a'i olwg tua'r nef, ac ymdyngodd i sefyll yn ffyddlawn i'r efengyl, a chyffesu y ffydd yn ddibetrus, a selio ei dystiolaeth â'i waed, os buasai raid. Yr oedd yn awr yn barod ac yn awyddus i ymddangos o flaen y llys; gorchfygasai y cnawd a'r diafol yn yr ystafell, ac yr oedd yn awyddus i'r frwydr yr oedd efe i'w hymladd â'r byd, yn ei holl allu a'i awdurdod, yn llawn hyderus yr ennillai y fuddugoliaeth arno yntau hefyd. Tywynodd y goleuni a'i nerth ar ei feddwl ychydig funydau cyn i'r swyddog ddyfod i'w gyrchu i ymddangos o flaen y cynghor. Profodd nerth yr ymadrodd hwnw yn ei hoff Salm, y 26ain, "Duw a'i cynnorthwya yn foreu iawn"—yn ddigon boreu, byth yn rhy ddiweddar.

"Y boreu byddo mwy na mwy  
O bob gwasgfeuon arnynt hwy,  
Ceir gwel'd 'i addewid ef yn llawn."

Arweiniwyd ef i'r llys; yr oedd calonau gelynion a chyfeillion y gwirionedd yn fwy pryderus yn awr nag oeddynt y dydd o'r blaen; disgynai cawodydd o olygon digllawn a chariadlawn yn gymmysg arno. Ceisiai y naill a'r llall ddarllen ei benderfyniad oddi wrth wedd ei wyneb. Ymddangosai yn dawel a digyffro, fel un wedi gwneyd ei feddwl i fyny yn llwyr benderfynol beth a wnelai. Teyrnasai distawrwydd tir cysgod angeu yn y llys pan alwyd arno i roddi ei ateb penderfynol. Gwyliai pob llygad symmudiad ei wefusau,

gogwyddai pob clust i wrandaw. Yr oedd achos mawr teyrnas y goleuni, a theyrnas y tywyllwch, achos gwirionedd Crist a thwyll yr Anghrist, tynged achos y Diwygiad y buasai efe yn brif offeryn i'w gychwyn, fel yn dibynu ar yr hyn a wnai y mynach tlawd y funyd hono. Os gwadai ef y ffydd, os bradychai efe yr athrawiaeth a gyhoeddasai yn y llyfrau hyny oedd ar y bwrdd o'i flaen, buasai tân y Diwygiad oedd wedi ei ennyn yn cael ei ddiffodd yn Germany, ac i raddau yn Ewrop yn gyffredinol, ac iau y dwyll offeiriadaeth Rufeinig yn cael ei hail sicrhau a'i chadarnhau am yddfau cyrph ac eneidiau y cenhedloedd am ganrif-oedd, hwyrach.

Ond pell o feddwl Luther oedd gwadu a thynu yn ol; na, efe a gyffesodd, ac ni wadodd; ac fel hyn y cyffesodd efe, pan alwyd arno gan y Canghellwr i roddi ei ateb. Cyfododd, ac edrychodd yn dawel ac yn barchus ar y gynnulleidfa urddasol oedd o'i amgylch, a chyfarchodd y cynghor mewn llais hygryw a di-gryn:—"Ardderchocaf ymherawdwr, dywysogion urddasol, ac arglwyddi," ebe fe, gan droi ei wyneb at yr ymherawdwr, "yr wyf yn ymddangos ger eich bron y dydd hwn yn ol y gorchymyn a gefais ddoe; ac er mwyn trugareddau Duw, yr wyf yn erfyn ar eich mawrhydi, a'ch arglwyddiaethau urddasol, i wrandaw yn ddioddefgar fy amddiffyn i'r achos y mae yn gwbl sicr genyf ei fod yn achos cyfiawn a da. Os o herwydd anwybodaeth y ceir fi yn ddiffygiol o gyd-weddu â ffurfiau a defodau llysoedd, maddeuwch i mi, oblegid ni'm dygwyd i fyny yn mhalasau brenhin-oedd, ond yn neillduedd y fynach-gell.



“Gofynwyd i mi ddau gwestiwn ddoe ar ran ei fawrhydi ymherodrol. Yn gyntaf, ai myfi oedd awdwr y llyfrau hyn ; ac yn ail, a oeddwn yn barod i alw yn ol, ynte i amddiffyn yr athrawiaeth a ddysgir ynddynt. Attebais y cwestiwn cyntaf ddoe, ac yr wyf yn sefyll at yr ateb hwnw.

“Mewn perthynas i'r ail, cyfansoddais lyfrau ar amrywiol a gwahanol faterion. Mewn rhai yr wyf yn traethu ar ffydd a gweithredoedd, mewn modd mor syml ac eglur, fel y mae hyd yn oed fy ngelynion mor bell oddi wrth eu beio, yn addef fod y llyfrau hyn yn rhai buddiol, ac yn deilwng o gymmeradwyaeth dynion da a duwiol. Y mae *bull* y Pab ei hun yn cydnabod hyn. Pe bawn i, gan hynny, yn galw yn ol y rhai hynny, byddwn yn adyn ysgymmun yn mysg dynion—yn wadwr gwirioneddau, y rhai y mae llais unfrydol fy nghyfeillion a'm gelynion yn eu cymmeradwyo, a gwadwn felly yr hyn y mae yr holl fyd yn ei gyffesu.

“Yn yr ail le, cyhoeddais lyfrau yn erbyn y Babaeth, yn y rhai yr ymosodais ar y rhai, drwy eu hathrawiaethau cyfeiliornus a'u bucheddau drygionus, sydd yn anrheithio y byd Cristionogol, ac yn dinystrio cyrph ac eneidiau dynion. Ai nid yw y ffaith hon yn cael ei phrofi yn nghwynion parhaus yr holl ddynion sydd yn ofni Duw? Ai nid yw yn eithaf eglur fod deddfau ac athrawiaethau dynol y pabau yn maglu, yn arteithio, ac yn merthyru cydwybodau y ffyddloniaid, tra y mae gor-hawliau a threisiadau di-ddiwedd Rhufain yn traflyngcu cyfoeth a meddiannau gwledydd crêd, ac yn neillduol yr eiddo ein gwlad ardderchog ein hunain.

“Pe galwn yn ol yr hyn a ysgrifenis ar y mater hwn, beth a wnawn drwy hyny? Pa beth ond cadarnhau y gorthrymder hwnw, ac agor y drws yn lletach etto i'r drygau hyn ddyfod i mewn? Torai y dynion allan mewn canlyniad yn fwy hŷf a haerllug nag erioed, ac ymroddent i dreisio ac ysbeilio yn fwy-fwy ymroddgar, a byddai i'r iau sydd yn gwasgu mor drom eisoes ar Gristionogion, drwy fy ngwadiad i, nid yn unig i wasgu yn drymach, ond i ymddangos hefyd fel yn fwy cyfreithlawn; oblegid drwy fy ngwadiad i ger bron y cynghor hwn byddai iddi dderbyn cadarnhâd eich mawrhydi, a holl awdurdod talaethau y Llywodraeth. Dduw daionus! byddwn felly megys yn glôg ddirmygus i orchuddio pob math ar drawsder a gorthrwm.

“Yn drydydd, ac yn olaf, ysgrifenis lyfrau yn erbyn personau neillduol, y rhai a geisient bleidio ac amddiffyn trawsder Rhufain, ac anrheithio y ffydd. Yr wyf yn cydnabod yn rhwydd ddarfod i mi ymosod arnynt, fe allai, gyda gerwinder nad oedd yn gwbl gydweddol â'm swydd eglwysig; nid wyf yn hōni perffeithrwydd sant, ond ni allaf alw y llyfrau hyny yn ol chwaith, oblegid drwy wneyd hyny myfi a gymmeradwywn anfoesrwydd fy ngwrthwynebwy, ac a roddwn fantais ac achlysur iddynt i orthrymu pobl Dduw gyda mwy o greulonedd.

“Etto, nid wyf fi ond dyn, ac nid Duw, ac amddiffynaf fy hun fel y gwnaeth Iesu Grist. Dywedai, ‘Os drwg y dywedais, tystiolaetha o'r drwg’ (*Ioan* xviii. 23). Pa faint mwy y dylwn i, yr hwn nad

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 57

wyf amgen na llwch a lludw, ac mor agored i gyfeiliorni, ofyn i bob un i amlygu yr hyn a allo efe yn erbyn fy athrawiaeth?

“Gan hyny, yr wyf yn attolwg i chwi, er trugareddau Duw, chwychwi oruchaf ymherawdwr, a chwychwi dywysogion urddasol, a phawb eraill o uchel ac isel radd, i brofi i mi drwy awdurdod y prophwydi a'r apostolion fy mod wedi camsynio a chyfeiliorni; mor gynted ag y gwneir hyn, galwaf fy nghyfeiliornadau yn ol yn ddiattreg, a byddaf y cyntaf nn o bawb i ymaflyd yn fy ysgrifeniadau, a'u taflu i'r tân.

“Y mae yr hyn a ddywedais yn dangos yn eglur, mi dybiaf, fy mod wedi dwys ystyried a phwyso y peryglon yr wyf wedi gwneyd fy hun yn agored iddynt; ond, mor bell ydwyf o gael fy nychrynu ganddynt, y mae yn llawenydd mawr i mi fod yr efengyl yn awr, fel mewn amserau o'r blaen, yn effeithio er peri anghydfod yn y byd. Hwn ydyw nodwedd a thynged Gair Duw. ‘Mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear—nid heddwch, ond cleddyf,’ medd Iesu Grist. Y mae ‘Duw yn ofnadwy yn ei weithred.’ Gochelwn rhag i ni, dan gymmeryd arnom attal ymrysonau, wrthwynebu ac erlid Gair Duw, a dwyn drwy hyny arnom ein hunain ddiluw o aflwydd a pheryglon presennol, a dinystr tragwyddol. Gofalwn na byddo i deyrnasiad y tywysog ieuangc ac urddasol hwn, yr Ymherawdwr Charles, ar yr hwn, dan Dduw, yr ydym yn gosod y fath obeithion uchel, ddechreu a dibenu mewn trychineb ac aflwydd. Gallwn gyfeirio at esamplau

yn Ngair Duw. Gallwn eich adgofio am Pharaoh, brenhinoedd Babilon ac Israel, y rhai na lafuriasant erioed yn fwy effeithiol er eu dinystr eu hunain na phan y byddent yn actio drwy gynghorau a ymddangosent yn ddoeth iawn. Tybient hwy eu bod yn cadarnhau eu brenhiniaethau. Ond, 'y mae Duw yn symmud mynyddoedd heb yn wybod iddynt.'

“Yr wyf yn llefaru fel hyn, nid am fy mod yn meddwl bod ar y fath dywysogion galluog angen am fy nghynghorion i, ond oblegid y dymunwn adferu i Germany yr hyn y mae ganddi hawl i'w ddisgwyl oddi wrth ei meibion. Fel hyn yr wyf yn cyflwyno fy hun i'ch mawrhydi ymherodrol, a chwithau anrhydeddus dywysogion. Yr wyf yn gostyngedig erfyn arnoch na chaniatewch i'm gelynyion ddwyn arnaf ddistryw nad wyf yn ei haeddu.”

Yr oedd y cynghor megys yn dal ei anadl tra yr oedd efe yn llefaru. Ocheneidiodd Rhufain ac uffern, gallem dybied, pan dawodd, a rhyddhawyd cyfeillion y diwygiad o'r pryder mawr yr oeddynt ynddo, pan welsant ddiysgogrwydd penderfynol y Cyffeswr ; a diau fod angylion y nef yn cyd-lawenhau â'r gwirionedd a'i garedigion yn y cynghor.

Trôdd y Canghellwr yn sarug ato, a dywedodd nad oedd wedi ateb y cwestiwn yn eglur, a gwasgodd arno i roddi attebiad uniongyrchol a phennodol—ie, neu nagê. “A wnewch chwi alw yn ol, ai ni wnewch?” gofynai. “Gan fod eich mawrhydi ymherodrol, a chwithau dywysogion, yn gofyn i mi roddi ateb syml

a phenderfynol," atebai Luther, "yr wyf yn ei roddi, a hyn ydyw—ni allaf ddarostwng fy ffydd i awdurdodau Pab, nac i gynghorau, oblegid y mae mor eglur a'r dydd eu bod wedi cyfeiliorni, ac hyd yn oed i wrthddywedyd eu hunain lawer gwaith. Gan hyny, os na wrthbrofir fi allan o'r Ysgrythyrau, neu drwy resymau digonol—os na argyhoeddir fi drwy y rhanau hyny o'r Gair y darfu i mi eu crybwyll, yr wyf yn rhwym o gydwybod i ymostwng i awdurdod Gair Duw; ac ni allaf dynu dim yn ol, oblegid nid diogel ydyw i Gristion wneyd dim yn erbyn ei gydwybod." Yna, gan edrych o'i amgylch ar y gynnulleidfa, yr hon oedd mewn ystyr yn dal ei fywyd yn ei llaw, medd D'aubigné, dywedai:—"*Wele fi, nid allaf wneyd yn wahanol. Cynnorthwyed Duw fi! Amen.*"

Safai y cynghor am ennyd mewn mud syndod, a chiliai Luther o'r neilldu. Wedi dadebru, megys, a dyfod atynt eu hunain, a chydymgynghori, galwyd arno i ymddangos o'u blaen etto; yr oedd yn anhawdd iawn gan bleidwyr Rhufain, a chanddynt yr ymherawdwr a'r rhan fwyaf o'r tywysogion wrth eu cefnau, roddi eu pwngc i fyny, ac i'r mynach tlawd ar ei ben ei hun eu gorthrechu oll gyda'u gilydd. "Martin," dywedai y Canghellwr, "ni lefarasoch gyda'r gwylder sydd yn gweddu i'ch swydd. Yr oedd y gwahaniaeth a wnaethoch rhwng eich gwahanol lyfrau yn gwbl ofer; os gelwch chwi yn ol y rhai hyny sydd yn cynnwys cyfeiliornadau, ni oddefir i'r lleill gael eu llosgi. Y mae yn haerllugrwydd ynoch ofyn am gael eich gwrthbrofi drwy yr Ysgrythyrau, pan yr ydych yn adnewyddu hen heresiau a gondemniwyd



gan gynghor cyffredinol Constance. Y mae yr ymherawdwr, gan hyny, yn gorchymyn i chwi ddyweyd mewn gair—A ydych yn penderfynu sefyll at yr hyn a ddywedasoch, neu a ydych yn barod i alw yn ol ryw ran o hono? Ië, neu nagê?” “Nid oes genyf ateb amgen na'r un a roddais eisoes,” atebai Luther yn dawel, ac mor ddiysgog a'r graig. Felly terfynodd brwydr fawr y diwrnod hwn—y frwydr fwyaf a ymladdwyd bron erioed rhwng ffydd ac awdurdodau a bydol lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn; a ffydd a drechodd. Yr oedd y gelynion yn barod i gnoi eu tafodau gan ofid a chynddaredd, a chyfeillion Luther a'r Diwygiad ar ymdori o lawenydd. Ennillwyd llawer o gyfeillion galluog o'r newydd i achos yr efengyl y diwrnod hwnw; teimlent ei nerth hi ar eu calonau drwy y gyffes ogoneddus a ddygodd Luther iddi o flaen y cynghor, ac yn eu mysg Philip, Ardalydd Hesse, yr hwn a ddaeth ar ol hyny yn un o brif golofnau y Diwygiad. Yr oedd Frederic, etholwr Saxony, yn bryderus iawn nes i'r cyfarfod fyned drosodd; ei ofn mwyaf ef oedd, nid y buasai Luther yn galw yn ol, ond rhag y buasai yn llefaru yn rhy gryf a thanllyd. “Fe siaradodd ein doctor yn ogoneddus,” ebe fe wrth ei Ganghellwr Spalatin, ar ddiwedd y cyfarfod. Penderfynodd yr Etholwr arddel ac amddiffyn Luther yn fwy cyhoeddus a phenderfynol o hyn allan.

Crybwyllwyd mai brwydr fawr y Diwygiad Protestanaidd oedd hono yn Worms; ac felly yr oedd, mewn gwirionedd. Priodol iawn y dywedai yr hen Faeslywydd hwnw wrth Luther, pan oedd efe yn myned i faes y gâd hono, fod ganddo frwydr galetach

## a'r Diwygiad Protestanaidd. 61

i'w hymladd na'r un a welsai ef nac un cadfridog arall erioed. Mor ddiddym yw gogoniant buddugoliaeth maes y gwaed mewn cymmharfaeth i fuddugoliaeth Luther yn Worms? Beth oedd gorchestau milwraidd Alexander, Cesar, Napoleon, a Wellington wrth yr orchest hon? Na sonier byth am danynt yn agos ati. Un mynach tlawd yn sefyll ei hunan yn erbyn y galluoedd cryfaf a feddai y ddaear i'w dwyn i'w erbyn, ac yn eu trechu; ond nid ei hunan, chwaith, canys yr oedd yr Hwn a safasai gyda Phaul pan ddygwyd ef i sefyll ger bron Cesar, wedi i bawb ei adael, yn sefyll gyda Luther pan oedd yntau yn sefyll o flaen Charles, a thywysogion yr ymherodraeth, yn Worms. Nid Luther oedd yn llefaru, ond Ysbryd Crist oedd yn llefaru ynddo a thrwyddo gyda'r fath nerth a doethineb nas gellid eu gwrthsefyll.

“Wel,” ebe y Canghellwr yn sarug, “os na wnewch chwi alw yn ol eich heresia, bydd i'r ymherawdwr, ac awdurdodau yr ymherodraeth, ystyried pa foddion fydd raid iddynt eu harfer tuag at heretic cyndyn.” Cwynai cyfeillion Luther wrth glywed hyn; ond atebai ef yn hollol ddi-gryn, “Cynnorthwyed Duw fi, ni allaf alw dim yn ol.” Felly terfynodd y cyfarfod mawr bythgofiadwy y diwrnod hwnw—y cyfarfod mwyaf bendithiol i Ewrop yn ei effeithiau a'i ganlyniadau, drwy yr holl oesau ar ei ol, o'r un cyfarfod a gynnaliwyd o'i mewn erioed cyn a byth wedi hyny.

Aeth Luther i'w letty yn flin a lluddedig iawn ar ol holl bryder dirfawr, a llafur caled y dydd, etto yn

siriol a llawen ei galon. Yn wir, nid oedd neb mor llawen ei galon yn Worms y noson hono ag efe. Yr oedd ei gyfeillion oll yn llawen o'i blegid, ond yr oedd dyfnder a dirgelwch yn llawenydd calon Luther nad allasai yr un galon arall fod yn gyfranog o hono. Nid oedd yr ymwybyddiaeth fod dwrn yr awdurdod ymherodrol megys yn gauedig uwch ei ben, yn barod ac yn awyddus i'w daraw i'r llwch—gwybod nad oedd iddo ond gobaith gwan y diangai o Worms â'i einioes yn ysglyfaeth ganddo—yn peri anesmwythder na chythrudd i'w feddwl yn y mesur lleiaf. Ond os oedd ei galon ef yn llawen, yr oedd calonau ei elynion yn dristion a gofidus; ni allai eu gwleddoedd a'u gwin-oedd foddi eu trallod a'u tristwch. Deallent yn burion fod eu heglwys a'u hawdurdod wedi cael ergyd gwaywffon dan y bummed ais y dydd hwnw, a derbyn archoll anfeddyginiaethol; a deallai Luther yntau hyny hefyd, ac nid oedd dim a allasai roddi cymmaint o foddhâd i'w feddwl.

Wedi iddo eistedd i lawr gyda'i gyfeillion yn y gwestty y llettyai, daeth trulliad un o'r tywysogion i mewn, a pail arian yn llawn o gwrw Eimbech, yr hwn oedd yn enwog ei glod yn Germany yr amser hwnw—gan gyflwyno y pail i Luther, dywedai:—“Y mae fy meistr yn erfyn arnoch adloni eich ysbryd â'r ychydig fir hwn.” “Pwy yw eich meistr?” gofynai Luther. “Ei Uchelder y Duc Eric, o Brunswick,” atebai y trulliad; a chwanegai, “Profodd ei Uchelder y ddiød cyn ei hanfon i chwi,” fel na buasai i Luther betruso rhag ofn fod gwenwyn wedi ei ddodi ynddi. Cymmerodd Luther y ddogn yn awyddus, canys yr oedd

yn dra sychedig; ac ebe, "Fel y cofiodd y Duc Eric am danaf fi y dydd hwn, cofied Iesu Grist am dano yntau yn yr awr olaf." Aeth y trulliad ac adroddodd i'w feistr yr hyn a ddywedasai Luther. Cofiodd yr hen dduc y geiriau hyny yn ei funydau olaf, a galwodd ar un oedd yn ei ystafell, ac archodd iddo ddarllen y geiriau hyny yn yr efengyl—"Pwy bynag a roddo i chwi i'w yfed gwpanaid o ddwfr oer yn fy enw i, am eich bod yn ddysgyblion i mi, yn wir meddaf i chwi, ni chyll efe ei wobr," a llonodd yr hen dduc yn fawr wrth eu gwrandaw.

"Daeth i ni iachawdwriaeth trwy eitha' chwÿs a gwaed," medd hen bennill Cymraeg. Yn ngardd Gethsemane, y nos y bradychwyd Ef, aeth enaid y Gwardedwr drwy wëwyr esgor iachawdwriaeth y byd, pan ddirwasgodd poenau ymdrech meddwl, chwÿs a gwaed a ddisgynai yn ddefnynau ar y ddaear. Y nos hono, cyn ei ymddangosiad o flaen y cynghor yn Worms, fel y sylwyd o'r blaen, aeth enaid Luther yntau drwy loesau gwëwyr esgor y Diwygiad mawr yr oedd efe yn llestr etholedig y nef i fod yn brif offeryn yn ei gychwyniad. Yfodd Luther, y noson hono, mewn ystyr, "o'r un cwpan" ag yr yfasai ei Arglwydd o hono, a "bedyddiwyd ef â'r un bedydd" ag y bedyddiwyd yntau. Trwy ddiodefaint ac aberth rhywun, neu rywrai, y pwrzaswyd ac y dygwyd pob peth o wir a mawr werth i'r byd erioed.

Ni adawodd ei wrthwynebwyr lonydd i Luther dros yr ychydig ddyddiau y bu yn Worms, ar ol y dydd y safasai ac y cyffesai ger bron y cynghor.

Deuent ato i'w letty bob dydd—a llawer gwaith yn y dydd—gan geisio ei ddarbwylo i ymostwng, a thynu ei gyffes yn ol, weithiau drwy daer ymbiliau, bryd arall drwy addewidion teg a gweniaith, yna, trwy fygythion, carchar, a thân ; ac felly yr oedd y gwyntoedd yn rhuthro, a'r llifeiriant yn curo ar y *ty hwnw* ; ond ni syrthiodd—naddo! “Ni syrthiodd y *ty hwnw*, canys sylfaenesid ef ar y graig.” Yr oedd enaid Luther wedi ymaflyd yn, ac ymblethu am y gwirionedd a gyffesasai, fel nad oedd holl nerth gwyntoedd bygythion nac addewidion yn gallu ysgogi dim arno.

Ni wyddai ei elynion beth i'w wneyd ; mynai Cenhadwr y Pab, a lliaws o bleidwyr y Babaeth, i'r ymherawdwr dynu yn ol ei nawdd-lythyr iddo, a gorchymyn ei ddal a'i drin fel heretic cyndyn, trwy ei osod i farwolaeth ; ond yr oedd dylanwad y tywysogion Protestanaidd ar y ffordd. Yr oedd ar Charles eisieu eu cymmhorth yn ei ryfel yn erbyn y Twrc, yr hwn oedd yn dychrynu Ewrop yr amser hwnw ; ac heb law hyny, yr oedd yn gweled y buasai cymmeryd y ffordd hono yn debyg iawn o daflu Germany i derfysg a rhyfel gwladol. Yr oedd y bobl yn mhob man yn barod i ymaflyd yn y cleddyf, os dodid Luther mewn dalfa, a rhai o'r tywysogion Protestanaidd wedi taflu awgrymiadau lled gryfion y cymmerent gweryl y Diwygiwr i fyny, os erlynid ef yn y ffordd hono ; ac felly, rhag ofn y Twrc, ac ofn y tywysogion Protestanaidd, ac ofn y bobl, ni feiddiodd yr ymherawdwr gyd-synio â chais y blaid Rufeinig.

Yr oedd ei gyfeillion yn awyddus iawn am iddo



## a'r Diwygiad Protestanaidd. 65

ymadael o Worms mor gynted ag y byddai bossibl, rhag ofn i'w elynion lwyddo o'r diwedd i berswadio yr ymherawdwr i'w draddodi i'w dwylaw; ac yr oeddynt hwythau, bellach, yn awyddus iawn am ei gadw yno cyhyd ag y byddai modd, yn y gobaith y gallent lwyddo yn eu hamcan drwy daerineb a dyfal barhâd.

O'r diwedd, daeth i'r penderfyniad nad oedd ganddo ddim yn chwaneg i'w wneyd yn Worms, a pharotodd i ddychwelyd yn ol i Wittenburg. Y dydd cyn iddo gychwyn dyblwyd yr ymdrechiadau i geisio ei ystwytho i alw yn ol o leiaf ryw bethau ag oedd yn fwyaf tramgwyddol i'r eglwys yn ei ysgrifeniadau. Deuai cenhadon ato i'w letty y naill ar ol y llall trwy y dydd, ond y cwbl yn ofer; ni syflai gam oddi ar y tir cyssegredig y gosodasai ei draed arno; sef, Goruchaf awdurdod Gair Duw. Yn yr hwyr daeth Canghellwr yr ymherawdwr a Changhellwr Archesgob Mentz ato, gyda'r genadwri ganlynol:—

“Martin Luther! Y mae ei fawrhydi ymherodrol, etholwyr, tywysogion, ac awdurdodau yr ymherodraeth, wedi eich annog drachefn a thrachefn i ymostwng, ond yn hollol ofer—teimla yr ymherawdwr dan rwymau ei swydd fel noddwr ac amddiffynwr yr eglwys i arfer moddion eraill tuag atoch. Gan hyny, y mae efe yn gorchymyn i chwi ddychwelyd i'ch cartref o fewn ystod un-niwrnod-ar-hugain, ac yn gwahardd na byddo i chwi aflonyddu ar yr heddwch cyhoeddus ar y ffordd drwy bregethu nac ysgrifenu.”

Deallai Luther a'i gyfeillion yn dda beth oedd

ystyr ac amcan y genadwri fygythiol hono; sef, mai rhagymadrodd ydoedd i fesurau treisiol—goruchwyliaeth y cleddyf—yn erbyn y Diwygiwr a'r Diwygiad. Deg o'r gloch y boreu dranoeth, gadawodd Worms, yn nghwmni ei frawd James, a'i gyfaill Amsdorff. Cylchynid ei gerbyd gan ugain o foneddigion ar feirch, a lliaws mawr o bobl, y rhai a'i hebryngent ef ran o'r ffordd. Gadawodd Worms â chydwybod dawel, a chalon lawen yn ei fynwes—yn gongcwerwr, ac yn fwy na chongcwerwr, ar holl alluoedd yr ymherodraeth, a Rhufain, ac uffern.

Dranoeth, ar ol gadael Worms, ysgrifennodd at gyfaill yn Wittenburg i roddi gair o hanes y gynadleddd yn Worms iddo:—"Disgwylaswn," medd ef, "y buasai yr ymherawdwr yn galw i Worms ryw hanner cant o ddoctoriaid i'm distewi ar unwaith; dim o'r fath beth. 'Ai chwi a ysgrifennodd y llyfrau hyn? Ië. A wnewch chwi eu galw yn ol? Na wna. Wel, o'r goreu, ewch i ffwrdd ynte.' Dyna sylwedd yr holl ystori. . . Yr wyf yn eich cyflwyno oll i nawdd y Tragwyddol. Gwareder ni rhag dannedd bleiddiau a dreigiau Rhufain. Amen."

## Garibaldi.



Y MAE yn agos i chwe' chant o flynyddau wedi myned heibio er pan oedd yr anfarwol Dante, Jeremiah ei oes, yn tywallt ei enaid allan mewn cwynion gofidus uwch ben trueni gwladwriaethol a moesol ei anwyl Italy. Yr oedd y wlad annedwydd hono y pryd hwnw, megys y parhaodd hefyd hyd o fewn ystod y misoedd diweddaf, yn cael ei chystuddio gan awdurdodau estronol, a'i rhwygo gan ymbleidiau mewnol, a chan drawslywodraeth dymmhorol ac ysbrydol y Pab ac Eglwys Rhufain. Mawr oedd syched a dymuniad Dante am ymddangosiad Gwardedwr a Gwardigaeth iddi o'i thrallod, a gweled ei holl dalaethau yn cael eu cyfuno yn un wladwriaeth dan lywodraeth oleuedig, rydd, a chyfiawn, a fyddai "yn ofn i weithredoedd drwg, ac yn fawl i weithredoedd da."

Yr oedd Dante yn un o'r ysbrydoedd hyny nad ydyw eu hymddangosiad yn y byd ond yn ychydig, ac yn anaml, a'r rhai ydynt yn debycach i angylion ymgnewdoledig nag i'r cyffredin o feibion Adda—dynion a wnant argraph annilëadwy ar y byd wrth fyned trwyddo; ac y bydd eu henwau yn aros, a'u dylanwad yn parhau yn fyw ynddo, am oesau a chenedlaethau ar eu hol.

Pan oedd afagddu y canoloesau yn gorchuddio y

ddaeaf, anwybodaeth, ofergoelion, a llygredigaeth yn teyrnasu yn farwolaeth gyffredinol tros Ewrop, cyfododd y Goleuad disglaer hwn yn y ffurfafen dywell, gan fflachio ei belydrau tanllyd ar wyneb ac yn llygaid y byd cysglyd a marwaidd, a thafu goleuni ar ei gyflwr alaethus, oedd yn braenu yn mhydedw erchyll difaterwch meddwl, a halogrwydd buchedd. Yr oedd wedi ei wisgo megys âg ysbryd a nerth hen brophwydi Israel gynt, i ddynoethi twyll a thrawsder llywodraethwyr anghyfiawn, a phabau ac offeiriaid halogedig ac anfoesol ; ac yr oedd ei adnabyddiaeth o wirioneddau yr efengyl yn äang a goleuedig, ag ystyr-ied yr oes yr oedd yn byw ynddi.

Yn nechreu ei *Inferno* efe a ddisgrifia drawsder rheibus yr Eglwys Babaid dan yr arwyddlun o fleiddes newynllyd a gwangcus. Wedi disgrifio Francis y Cyntaf o Ffraingc dan rith llew, yr hwn oedd yn blâ tost ar Italy ar y pryd, efe a ddywed :—

A Bleiddes hefyd, lawn o wanc a rhaib  
 A ymddangosai'n gûl gan newyn llym,  
 Parasai ddinystr i fyrddiynau heb rif,  
 Creulonedd daniai yn ei llygaid certh  
 Ac yna llethid f'enaid dan fath bwys,  
 O! fraw a dychryn. A phob gobaith ffoes  
 Wrth wel'd y bwystfil ataf yn nesau.

Y mae Ysbryd Virgil, wrth yr hwn y traetha y bardd ei drallod a'i ofnau, yn ei gysuro, gan ddywedyd :—

Y bwystfil acw, yr hon a'th leinw â braw,  
 Ni oddef hi i neb i groesi ei ffordd,

Ond ysglyfaetha'r cwbl a ddelo o'i blaen,  
 Y cyfryw yw ei natur front a'i naws.  
 Ei hangenrheidiau ni ddigonir byth:  
 Po fwyaf fwyty, mwyaf oll ei gwangc  
 Cyfathrach â bwystfilod eraill wna ;  
 Ac nes y delo'r milgi cryf i'w lladd  
 Ag angeu poenus, difa wna o hyd,  
 Ni phrisia ef ar dir nac aur na gwobr :  
 Doethineb, caredigwydd, rhinwedd, fydd  
 Ei ymborth ef.

Y fath ydoedd ysbryd a nodwedd yr Eglwys Bab-  
 aidd y pryd hwnw, ac a fu o hyny hyd heddyw. Yn  
 yr ymadrodd, "Cyfathrach â bwystfilod eraill wna,"  
 golygir ei hymgyssylltiad âg awdurdodau gwladol i  
 ysbeilio a gorthrymu y bobl. Credai Dante, a dy-  
 wedai hyny yn groyw, mai yr Eglwys Babaidd oedd y  
 butain, ac mai Rhufain ydoedd Babilon, yn Llyfr y  
 Dadguddiad, er ei fod yn perthyn i gymmundebyd yr  
 eglwys hono ei hun. Ymddengys y llinellau olaf fel  
 prophwydoliaeth. Yr oedd llygad y bardd, fe dybir,  
 ar Henry o Luxemburg, y doethaf a'r goreu o benau  
 coronog ei oes, ac a fu farw yn yr ymdrech i uno  
 Italy, a'i gwaredu o'i gorthrymder, trwy gael ei wen-  
 wyno gan fynach cyflogedig gan y Pab Clement ; ac  
 felly siomwyd gobeithion Dante am waredigaeth ei  
 wlad y pryd hwnw. Ond y mae y Milgi wedi ym-  
 ddangos o'r diwedd, ac y mae y disgrifiad o hono yn  
 y llinellau :—

"Ni phrisia ef ar dir nac aur na gwobr :  
 Doethineb, caredigrwydd, rhinwedd, fydd  
 Ei ymborth ef,"



yn ddarluniad i'r byw, ac i'r dim, o gymmeriad Joseph Garibaldi. Rhedodd dros Sicily a Naples gyda chyflymder y milgi; pan dybiai y gelynion ei fod yn ddigon pell oddi wrthynt byddai ar eu sodlau, ac yn eu dal. Ni ddengys hanesyddiaeth yr oesau enghraifft o fuddugoliaethwr mwy, os un mor ddi-hunangais. Yr oedd ei hunan megys wedi ei guddio yn llwyr allan o'i olwg, yn ei gariad at ei wlad, a'i awyddfryd i'w gwaredu o'i chaethiwed, ac ennill iddi ei hannibyniaeth a'i rhyddid. Nodweddid ei holl symmudiadau gan ddoethineb a medrusrwydd milwraidd o'r radd uchaf; a choronid ei holl fuddugoliaethau âg addfwynder, tynerwch, a rhinwedd y dyngarwr a'r Cristion; a byddai yn anhawdd penderfynu pa un ai gwroldeb a medrusrwydd y milwr a'r maeslywydd, ynte gonestrwydd, symledd, anhunangarwch, a hynawsedd y dyn a'r gwladgarwr sydd yn disgleirio fwyaf ynddo. Yn ei gymmeriad fel rhyfelwr yr ydym yn ei edmygu; ac yn ei gymmeriad fel dyn a gwladgarwr yr ydym yn cael ein rhwymo i'w fawrhau a'i garu. Amgylchynid ef bob dydd gan brofedigaethau cryfion oddi wrth gynghorwyr pleidiol, ac amgylchiadau dyrus, ond daeth allan o honynt oll heb gymmaint a brycheuyn ar ei enw. Yr oedd golwg fawreddog ac ardderchog arno yn cyflwyno teyrnas gyfan, a ddygasai o grafangau un o'r gorthrymwyr mwyaf cigyddlyd, "â'i gleddyf ac â'i fwa," i'w frenin, Victor Emmanuel; yn troi ei gleddyf i'w wain, ac yn dychwelyd adref i'w fferm fechan, yn ynys fechan Caprera, heb ofyn na disgwyl na thâl na gwobr am ei lafur a'i orchestion dihafal, enghraifft o fawrfrydigrwydd meddwl na fedd hanesyddiaeth odid un i'w gosod yn gyfochrog iddi.

Yr oedd yn cael ei ddilyn gan fendithion miliynau o Italiaid y buasai yn brif offeryn eu gwardigaeth o bair haiarn eu gorthrymder, a bendithion holl garedigion cyfiawnder, rhyddid, ac iawnderau dynoliaeth yn holl Ewrop, ac yn yr holl fyd; a'r ystyriaeth y bydd ei goffadwriaeth yn anwyl gan galon, a'i enw'n fiwsig ar glust pob gwir Italiad hyd derfynau'r oesau—yr oedd y pethau hyn yn ddigon o daledigaeth a gwobrwy i lawn ddigoni ei feddwl ef.

Gadawn Garibaldi bellach am ysbaid, i fwrw golwg frâs dros amgylchiadau Italy yn y blynyddau diweddaf. Bu y wlad hyfryd ond annedwydd hono yn fathrfa am oesau dan draed galluoedd estronol, a rhanau o honi yn safn y Fleiddes, ys dywed Dante, yn cael eu cnoi gnawd ac esgyrn ac ysbryd rhwng ei deubar dannedd, ei gallu tymmhorol ac ysbrydol. Do, bu yn y cyflwr hwn am fwy na deuddeg cant o flynyddau bellach. Yfodd ei daear fwy o waed dynol na daear un wlad arall yn Ewrop. Bu Ffraingc ac Awstria yn yr oesau diweddaraf â'u cleddyfau yn ngyddfau eu gilydd ar ei meusydd, mewn gwrthymdrech am feddiant o'r awdurdod ar ei thiriogaethau, a hithau'n cael ei malu rhyngddynt, megys rhwng dau faen melin. Yr oedd y bywyd cenedlaethol megys wedi trengu, ac wedi ei gladdu allan o'r golwg, er's hir, hir amser. 'Roedd y bobl yno, ond yr oedd eu bodolaeth cenedlaethol wedi darfod am dano; ac yn marn holl hen wragedd cyfarwydd Ewrop, nid oedd y gobaith lleiaf am adgyfodiad ac adferiad iddo yn dragywydd.

**Tua deng mlynedd ar hugain yn ol ymddangosodd**

dyn yno—dyn ag yr oedd rhywbeth yn ei lygad a delweddu ei wynebpryd yn taraw pob meddwl ar yr olwg gyntaf arno fod rhyw ddyfnderau yn guddiedig yn ei fynwes, yr hyn a barai iddynt deimlo eu bod yn mhresenoldeb gŵr mawr ac anghyffredin. Safodd y llygad dwfndreiddiol hwnw uwch ben cyflwr truenus ei wlad ; aeth ei holl galon i mewn iddo ; cynnhryfid ei enaid hyd ei waelodion gan ei hadfyd ; a thra yr oedd yn myfyrio, ennynodd tân eiddigedd drosti o'i fewn, nes aeth ei fynwes yn ffwrnes ferwedig o deimladau, ac awyddfryd i'w gwaredu. Offrymodd ei hun gorph ac enaid, amser, a meddiannau, ar allor gwasan-aeth ei rhyddid. Y nôd a osodwyd o'i flaen ydoedd tori iau Awstria oddi ar wddf ei Italy ; llwyr ymlid yr estroniaid allan o'i therfynau ; dymchwelyd awdurdod dymmhorol y Babaeth, ac uno yr holl dalaethau Italaidd yn un wladwriaeth dan lywodraeth weriniaethol. Daliodd ei lygad yn sefydlog ar y nôd hwnw ; cyrchodd ato heb wyro ar y llaw ddeheu nac ar y llaw aswy. Defnyddiodd bob moddion yn ei gyrhaedd, yn benaf yr argraphwasg, i lefeinio meddyliau ei gyd-wladwyr—i hau hadau bywyd cenedlaethol yn eu mynwesau. Gwreiddiodd ac eginodd yr hadau hyny cyn hir. Cynnhesodd y galon genedlaethol a fuasai yn oer a marw am oesau, a dechreuodd guro yn wanaidd dan fron y wlad ; ymliwiai arwyddion bywyd yn ei hwyneb ; ffurfid cymdeithasau dirgelaidd yn y dinasoedd a'r trefi, a thyngai yr aelodau ffyddlondeb i achos y genedl ac i'w gilydd, a rhyfel bythol yn erbyn eu gorthrymwyr. Daeth y peth i glustiau'r awdurdodau yn y man ; cadwent lygad gofalus ar bob symudiad ; cyflogent ysbïwyr i wyllo yn mhob cŵr o'r

wlad, ac i fynegu iddynt bob peth a welent ac a glywent, neu a ddychymygent. Cymmerid dynion i fyny yn unig ar ammheuaeth, a thraddodid hwy i'r carchar a'r daeardŷ heb rith o sail cŵyn yn eu herbyn, a dienyddid lluoedd heb rith o brawf ar eu hachos ; bu ugeiniau a channoedd o oreugwyr y wlad yn ochain ac yn braenu yn mynwesau lleithion, oerion, ac afiach, ei daeardai, a bedyddiwyd hi o gŵr i gŵr â gwaed llaweroedd o honynt. Ond diangodd tad ac athraw y symmudiad rhwng dwylaw ei elynion lawer gwaith mewn modd gwyrthiol, yn mron ; daeth trosodd i'r wlad hon, noddfa y gorthrymedig yn amser trallod ; ond ni roddodd ei amcan i fyny, na'i waith o'i law. Cyfrifid ef gan lawer a fynent ystyried eu hunain yn oraclau doethineb yn ynfyttyn penboeth—yn amcanu at beth oedd anghyrhaeddadwy byth, a hollol afresymol i neb feddwl am dano. Ceisiai rhai ei gynghori, eraill ei wawdio, eraill ei hwtio a'i ddirmygu, a'r lleill ei dduo a'i gablu ; ond ni chymmerai efe arno glywed y Sanbalatiaid hyny, ond awgrymai iddynt ambell waith, megys â chil-edrychiad ei lygad treiddlym :—“Gwaith mawr yr wyf fi yn ei wneuthur ; ni allaf ddyfod i waered atoch chwi.” Ond er hyn oll ni ddigalonodd ac ni lwfrhaodd Joseph Mazzini, canys efe yw y gŵr ; daliodd at ei waith, ac yr oedd ei ffydd yn ei lwyddiant o hyd yn cryfhau. Daliai gymmundeib trwy lythyrau â meddyliau ei gydwladwyr yn barhaus ; ac o'i gell neillduedig yn Llundain gweithredai ddylanwad a ysgydwai deimpladau ei wlad o gŵr i gŵr, ac a barai i galonau y penaduriaid gorthrymus grynu gan ei ofn, ac ymlosgi mewn cynddaredd tuag ato.

Erbyn dechreu y flwyddyn 1848 yr oedd yr hadau a hauodd Mazzini, a'i gydlafurwyr, y rhai oedd-ynt wedi eu hir fwydo gan ddagrau a gwaed merthyron i'r achos, wedi tyfu ac addfedu i'r cynhauaf. Ychydig cyn hyn yr oedd yr hen Bab Gregory xvii. wedi rhodio ffordd yr holl ddaear. Yr oedd ofn y Feibl Gymdeithas a'r rheilffyrdd wedi poeni llawer ar enaid yr hen greadur druan; ac wedi prysuro ei farwolaeth, fe ddichon. Esgymmunodd, rhegodd, a melldithiodd lawer arnynt yn ei ddydd, ond nid oedd dim yn tycio i attal eu gweithrediadau a'u cynnydd. Etholwyd Pio Nono, y Pab presennol, yn olynydd i Gregory; ac wele, er syndod Ewrop, Bab yn cymmeryd arno fod yn ddiwygiwr am unwaith. Agorwyd y carcharau, a gollyngwyd lluoedd o wladgarwyr a fwriesid iddynt am ddadleu achos diwygiad, yn rhyddion. Caniatawyd graddau dymunol o ryddid i'r Wasg, ac annogai y Pab dywysogion Italy i ganiatau ffurflywodraethau cynnrychioledig i'w deiliaid. Dychrynai gorthrym-wyr y gwledydd wrth hyn. Yr oedd Louis Philippe o Ffraingc, Ferdinand Bomba o Naples, a Ferdinand arall o Awstria, a'u tad hwy oll, yr hen Metternich, yn barod i gnoi eu tafodau gan ofid. Ymbilient yn daer ar y tad sanctaidd i beidio myned yn mlaen yn y llwybr hwnw; ac weitniau gwgent a bygythient; ond am dymmor ni wrandawai Pio ar eu hymbiliau na'u bygythion; yr oedd wedi meddwi ar y poblogrwydd a ennillasai drwy ei fesurau rhyddion, canys yr oedd yr Italiaid yn ei hanner addoli. Yr oedd Italy erbyn hyn yn fyw, ac yn fywyd trwyddi; gobeithion y bobl orthrymedig wedi cyfodi i'r nôd uchaf. Gwefreidd-iwyd Ffraingc a Germany gan yr un ysbryd. Torodd



y ddamchwa fawr allan yn Paris, yr hon a chwythodd Louis Philippe oddi ar ei orsedd, a'i orsedd i'r tân, a lliaws o'i frodyr-orthrymwr ar ei ol, y rhai a fföent y naill ar ol y llall i'r wlad hon, fel eu dinas noddfa, a'u gobaith olaf. Dychrynodd y Pab druan erbyn hyn, ac edifarhaodd yn chwerw am iddo erioed chwareu rhan y diwygiwr, a dechreuodd fesur ei gamrau yn ol. Ond, ni thröai Italy yn ei hol ; ni fuasai waeth ceisio troi llifeiriant ei mynyddoedd yn ol na cheisio ei pherswadio hithau i ymattal ac ymlonyddu yn awr. Un teimlad o gasineb at Awstria a'i thrawslywodraeth oedd yr uchaf, ac yn deimlad llywodraethol yn mhob calon. Daeth Charles Albert, tad Victor Emmanuel, allan i gymmeryd y flaenoriaeth yn yr ymgyrch yn erbyn Awstria, gan gael ei orfodi mewn rhan gan amgylchiadau, ac mewn rhan gan awydd i ennill enw a dylanwad, er helaethiad ar derfynau ei frenhiniaeth, fe ddichon ; ond credwn fod ynddo elfenau a theimladau gwir wladgarwr hefyd yn ei gymmhell. Gyda bod amgylchiadau yn addfedu i ymdoriad cyffredinol, daeth Joseph Garibaldi i'r golwg. Yr oedd ef wedi llyngcu egwyddorion ac ysbryd gwladwriaethol Mazzini yn gyfangwbl. Yr oedd wedi ei feddiannu yn gwbl oll ganddynt, ac yr oeddynt yn llosgi yn ei galon a'i esgyrn megys tân, fel na allai fod yn llonydd. Ymdyngodd i wasanaeth rhyddid ac iawnderau dyn yn erbyn gormes a gormeswyr ; pa le bynag y caffai gyfleusdra i gynnorthwyo y gorthrymedig yn erbyn ei orthrymwr, cyrchai yno rhag ei flaen. Pan oedd yr anghenfil Rosas, trawslywydd gweriniaeth Buenos Ayres, yn Neheudir America, yn blino ac yn baeddu Uruguay, gweriniaeth fechan gyfagos, aeth

Garibaldi a mintai fechan o Italiaid i gyn-northwyo y gorthrymedig yn erbyn y treisiwr. Cyflawnodd y fath anturiaethau milwraidd gorchestol yno nad oes hanes am eu cyffelyb ar lechres cofnodau rhyfeloedd y byd. Gorchfygodd fyddinoedd cryfion mewn amryw frwydrau gyda dyrnaid bychan o filwyr; cymmerodd longau rhyfel y gelyn, heb ganddo ond cychod pysgota i droi allan i ymosod arnynt. Y mae ei enw yn ddychryn i laweroedd, ac yn anwyl gan eraill yno hyd heddyw; a chredai ei elynion a'i gyfeillion mai bôd annaearyl yn ddiau ydoedd. Dywedent fod fflaglau tân yn neidio o'i lygaid, a fflamau cochion yn gwau o'i amgylch yn nydd y frwydr; ac nad oedd un dyben ceisio ei ladd—ei fod yn anfarwol.

Pan ddaeth i Italy, yn 1848, cynnygiodd ei wasanaeth i Charles Albert; ond yr oedd ar hwnw ei ofn, a gwrthododd ef yn oerllyd; a bu hyny yn chwerw iddo yn y canlyniad. Llwyddodd i raddau helaeth yn ei ryfel-dymmor cyntaf, a bu agos iddo lwyddo i lwyr ymlid yr Awstriaid allan o Lombardy; a phe buasai yn dilyn ei fuddugoliaethau cyntaf yn egniol heb laesu dwylaw, a gadael amser i'w elyn cyfrwys i ymadferthu, a chasglu ei adnoddau ynghyd, buasai'r gwaith wedi ei gwblhau. Yn yr ail ryfel-dymmor cafodd ei lwyr orthrechu, a gorfodwyd ef i roddi ei goron a'i orsedd i fyny, ac ymddeol yn alltud o'i wlad: a bu farw yn fuan o doriad calon. Yn ol pob tebyglrwydd, pe cymmerasai Charles Albert Garibaldi i'w wasanaeth, y buasai agwedd arall ar bethau; ni fuasai ef byth yn gadael hamdden i'r gelyn godi ei gefn, ac

ymgadarnhau, wedi unwaith iddo ei ysigo. Sylwai un o swyddogion byddin Awstria wrth swyddog o'r fyddin Sardiniaidd a gymmerasid yn garcharor, "Nad oeddynt hwy, y Sardiniaid, yn deilwng o lwyddo yn eu hamcan, gan na feddent ddigon o synwyr i ddefnyddio yn eu gwasanaeth yr unig ddyn a allasai ei ddwyn yn mlaen yn effeithiol, sef Garibaldi." Yr oedd yr Awstriaid yn adnabod y dyn yr amser hwnw.

Yn nechreu llwyddiant Charles Albert yn Lombardy, cynnhyrfodd Rhufain a thalaethau y Babaeth yn erbyn awdurdod Pio Nono, yr hwn oedd, erbyn hyn, wedi ymddiosg o'r cymmeriad o ddiwygiwr, ac ymddangos yn ei liw priodol ei hun—blaidd yn nghroen dafad ydoedd ef yn y cymmeriad hwnw, fel y profodd yn awr. Gwrthododd adael i'w fyddin gyn-northwyo y Lombardiaid yn erbyn Awstria, ac amlygodd ei benderfyniad i sefyll o blaid y gorthrymwyr yn erbyn y bobl; syrthiodd croen y ddafad oddi ar y blaidd, ac adnabuwyd ei wir nodwedd; aeth Rhufain a'r talaethau yn un oddaeth fawr o wrthryfel. Aeth Mazzini drosodd i Rufain, a gosodwyd ef yn flaenor ar y symmudiad. Cyfeiriodd Garibaldi yntau tuag yno. Syrthiodd ofn angeu ar Pio Nono; ac am unwaith, mewn un peth, y mae yn wir olynwr Pedr ar un amgylchiad; sef, yn ei waith yn tyngu ac yn rhegi yn ei ddychryn; diangodd am ei einioes i Gaeta, a bu am dymmor yn udo ac yn wylo yn chwerw dost: ond nid mewn edifeirwch am ei droseddau, ond mewn cynddaredd yn erbyn y bobl. Cyhoeddwyd talaethau yr eglwys yn werin-lywodraeth, drwy unol bleidleisiad yr holl bobl, yn nghanol banllefau llawenydd y ddinas

fawr; ac etholwyd Mazzini, a Manin, a thywysog Canino yn driwriaid y Llywodraeth. Dechreuodd Rhufain ymddyrfhafu i'w hurddas a'i gogoniant cyntaf dan y werin-lywodraeth. Yr oedd troseddau yn lleihau bob dydd. Garibaldi oedd ei chleddyf a'i tharian. Cychwynodd yr hen Bomba o Naples gyda byddin gref i ymosod arni; aeth Garibaldi âg ychydig wŷr i'w gyfarfod; disgynodd arno fel barcud ar gyw; dychrynodd Bomba druan, a rhedodd yn ei ol adref, ac ni feiddiai edrych drach ei gefn gan ei fraw; a buasai Garibaldi wedi canlyn ar ei ol, a gwneyd dyben arno, oni buasai iddo gael ei alw yn ol ar frys i amddiffyn Rhufain rhag perygl oedd yn ei bygwth o le arall; a'r lle hwnw, er ei gwarth tragwyddol, ydoedd Ffraingc, a hono ar y pryd yn werin-lywodraeth ei hun! Y mae y tro hwnw wedi gadael chwydiad gwarthus ar anrhydedd Ffraingc na olchir mo hono ymaith tra y byddo byw hanesyddiaeth. Ond cafodd y Ffrangcod orchwyl caled i weithio eu ffordd i Rufain. Arferasant bob twyll a dichell, yn gystal a grym milwraidd cryf iawn, ond llwyddodd Garibaldi i'w cadw allan heb eu gwaethaf am ragor na mis o amser, a chollasant rai miloedd o wŷr yn yr ymdrech. Ennillodd Garibaldi enwogrwydd mawr yn ei fedrusrwydd yn amddiffyn Rhufain, yn chwanegol at ei anrhydedd milwraidd blaenorol. Ciliodd o'r ddinas pan roddwyd hi i fyny i'r Ffrangcod, gydag ychydig o ganlynwyr ffyddlawn, gan gyfeirio tua'r mynyddoedd. Erlidiwyd ar ei ol, yn gyntaf gan y Ffrangcod, wedi hyny gan yr Awstriaid; amgylchynwyd ef a'i wŷr gan y gelyn lawer tro, ond pan y deuent yn rhy agos ato, efe a dröai arnynt fel llew, gan eu llarpio a pheri

iddynt gadw draw ; pan elent o'i flaen i un o fylchau y mynyddoedd, gan feddwl ei ddal, efe a rwygai adwy trwyddynt â'i gleddyf, ac a'i yn ei flaen. Gweithiodd ei ffordd trwy amgylchiadau o beryglon a chyfyngderau ag y bydd yr hanes am danynt yn ymddangos fel diangfâau gwyrthiol. Yr oedd ar Ragluniaeth ddwyfol ei eisieu at wasanaeth mawr etto, a gofalodd am ei llestr etholedig yn ei holl gyfyngderau, a dygodd ef yn ddiangol rhwng dwylaw a thrwy ddwylaw ei holl elynion. Yn yr hynt hon y collodd ei anwyl a'i ffyddlawn briod, yr hon yn mhob ystyr oedd yn deilwng wraig i Garibaldi. Bu farw mewn amaethdy bychan, wedi gorweithio ei natur yn y ffœdigaeth, ac wedi marchogaeth pedwar ugain milldir o ffordd mewn un dydd yn y cyflwr mwyaf tyner. Yr oedd yr Awstriaid yn ymyl y lle ar y pryd ; ac ni chafodd Garibaldi ond cloddio bedd, a'i doddi ynndo, gyda'r brys mwyaf, a gwneyd y goreu o'i ffordd i ddiangc ymaith. Yr oedd yn claddu rhan o'i galon ei hun yn y bedd neillduedig hwnw. Yr oedd ei ofid a'i alar ar yr amgylchiad y tu hwnt i ddagrau, ac yn drymach na'i ocheneidiau ; ac y mae ei feddwl yn aml yn distaw ddiangc i'r llecyn neillduedig hwnw lle gorwedda llwch ei anwyl Annite. O'r diwedd, glanioedd yn Genoa, gan fyned trwy ganol llongau a than yr Awstriaid oedd yn gwylio y porthladd ; ac oddi yno diangodd i ynys fechan Caprera, lle y sefydlodd ei gartref. Gwnaeth fferm fechan o'r creigdir yno i gynnal ei hun a'i deulu, a bu yn cario marsiandiaeth yn mlaen gyda llong fechan o borthladd i borthladd. Collwyd ef o olwg y byd am hir dymmor, ac anghofwyd ef bron yn llwyr, oddi gerth ambell waith y



byddai yn ymrithio ar gyffiniau Italy, yr hyn a barai ddychryn nid bychan i Awstria bob tro.

Wedi i Awstria ail ymsefydlu yn Lombardy ac yn Hungary, trwy gynnorthwy Rwssia, taflwyd Ewrop yn ei hol i gadwynau gorthrymder a thrais; collwyd holl ffrwyth y chwyldröadau yn 1848. Dyna ben Ffraingc dan gesail Napoleon; Hungary wedi ei mathru i'r llwch yn ei gwaed; Italy wedi ei hail rwymo â gefynau heiyrn, gorph ac enaid; y Pab wedi ei adfer i'w gadair; yr holl benaduriaid wedi eu hadferu i'w hawdurdod; ac mor fuan ag y teimlent eu traed danynt, torasant bob addewid a llŵ a wnaethant i'r bobl yn nydd eu hofn a'u trallod, gan ddychwelyd i'w hen ffyrdd gorthrymus a chreulawn; ac yn llawer mwy celyd a chreulawn nag oeddynt cyn hyny. Ail ymgauodd tywyllwch y nos am y gwledydd; nid oedd dim i'w glywed ond sŵn cadwynau cenedloedd caethion yn tingcian, ac ocheneidiau trueiniaid yn dyrchafu o ddyfnderau daear dai. Llawengyfarchai y gorthrymwyr eu hunain a'u gilydd eu bod wedi cael eu gwynfyd, a phenderfynent ddal eu traed yn dŷn ar yddfau y bobl, fel na allent gyfodi mwyach.

Ond yr oedd Mazzini ac eraill o hyd yn gweithio yn ddistaw, a Garibaldi yn gwyllo, a Cavour a Victor Emmanuel yn llefaru, ac Awstria a'r Pab yn ffyrnigo, a'r blaidd Bomba yn ysglyfaethu yn waeth na'r lleill. Deallodd Napoleon, yn y cynnygiad a wnaeth Orsini at ei fywyd, fod ei orsedd a'i einioes mewn perygl, ac na fyddai iddo ddiwrnod o ddiogelwch tra byddai

cyflwr Italy fel yr oedd, a phenderfynodd gynnorthwyo Sardinia i ymlid yr Awstriaid o Lombardy. Achubodd Awstria y blaen i ymosod ar Sardinia; aeth Napoleon a'i fyddin yno, a'r canlyniad fu rhyddhau Lombardy, a gwneyd heddwch, pan oedd y gwaith ar ei hanner, gan adael Venice yn meddiant Awstria.

Daeth Garibaldi yn union i'r golwg; cynnygiodd ei wasanaeth, a'r gwirfoddoliaid oedd yn ei ganlyn; ond edrychai Louis Napoleon yn gibog ac eiddigus arno, a Victor Emmanuel a Cavour yn ammheus, ond yr oedd arnynt awydd cael ei gymmhorth yn yr ymdrech. Addawent fagnelau a châd iddo i weithredu wrtho ei hun, ond ni chyflawnwyd yr addewid hono. "Wel," meddai, "chwi ganiatewch i ni gymmeryd magnelau oddi ar yr Awstriaid"—trôdd allan, ac ni bu yn hir heb wneyd ei air yn dda; cymmerodd fagnelau oddi ar yr Awstriaid, a baeddodd hwynt bob tro y cyfarfyddent. Collid ef weithiau, na byddai hanes am dano am ddyddiau, a thaenid pob chwedlau am dano—ei fod wedi ei lwyr ddyfetha, dro arall ei fod wedi ffoi i Switzerland, a rhoddi ei arfau i lawr; ond yn y man dyma Garibaldi yn y golwg drachefn, ac wedi cyflawni rhyw wrhydri fawr ar ei elynion. Yr oedd yn gwneyd ffyliaid o honynt yn ngŵydd eu llygaid; ac yr oedd yr Awstriaid, fel yr Americanaid, wedi myned i gredu mai bôd cythreulig ydoedd, ac nad oedd un dyben ceisio ei ladd—fod peleni yn syrthio yn gacenau i'r llawr pan darawent yn erbyn ei dalcen. Efe a ddaeth allan anrhydeddusaf o bawb o'r rhyfel-dymmor hwnw; ac yr oedd ei enw yn

llawer uwch yn y diwedd nag oedd cyn hyny, ac yn cuddio gogoniant enwau Napoleon a Victor Emmanuel.

Yn nghysgod y rhyfel yn Lombardy neidiodd Tuscany, a Modena, a Parma ar eu traed, a rhoddasant rybudd i'r crach dduciaid, cynghreiriaid Awstria, i ymadael o'u cyffiniau, a hawliasant eu rhyddid. Aeth y tân yn mhellach nag yr oedd Napoleon yn meddwl iddo fyned; cododd ysbryd na fedrai ei lywodraethu na'i roddi i lawr; prysurodd i wneyd heddwch âg Awstria, aeth adref gan adael y gwaith ar ei hanner; ac ar ei hanner y buasai yn aros oni bae fod un dyn etto—Garibaldi—ar gael. Nid oedd ef yn meddwl i bethau sefyll; ceisiai rhai ei gynghori, eraill ei berswadio, a'r lleill ei fygwth; ond nid oedd na chynghor, na rhesymau, na bygythion a'i hattalient. Penderfynodd ymosod ar Sicily, er ei gwaredu o grafangau y Bomba bach, gwir olynwr i'r Bomba fawr, a fwytawyd gan bryfaid. Cychwynodd yno gyda mintai fechan o wirfoddolwyr, gan ddiangc yn lladrad-aidd oddi ar y rhai a fynasent ei attal. Synodd Ewrop at ryfyg a gwallgofrwydd y dyn; prophwydid ei ddinystr; credid ei fod yn rhuthro i safn dinystr anocheladwy, ac na fuasai waeth iddo daflu ei hun bendramwnwgl i lawr gwddf tanllyd Vesuvius na rhuthro felly gydag ychydig wŷr, heb fawr o offerynau rhyfel na chât-ddarpariadau, i ganol byddinoedd lliosog, yn meddu ar bob manteision mewn arfau ac amddiffynfeydd. Ond yn hollol groes i'r holl ddaroganau y troes pethau allan; ni safodd gŵr yn ei wyneb; gwasgarwyd ei elynion fel soff; tynodd Sicily

yn rhydd o'i chaethiwed. Hwylodd drosodd i Naples drachefn; prophwydwyd ei ddinistr etto; ond gweithiodd ei ffordd; dychrynodd Bomba bach, a ffwrdd âg ef i Gaeta, a chauodd ddrws yr amddiffynfa ar ei ol. Daeth Victor Emmanuel yn mlaen erbyn hyn i orphen y gorchwyl. Cyflwynodd Garibaldi holl ffrwyth ei fuddugoliaethau ysblenydd iddo; gweiniodd ei gleddyf am dymmor, ac aeth adref i'w ynys fechan, heb brin ddigon o arian ar ei helw i dalu ei ffordd adref.

Ond nid ydyw yn meddwl aros gartref yn hir; ni all gael llonydd yn ei ysbryd tra y byddo yr Awstriaid yn Venice, a'r Pab yn Rhufain. Nid ydyw yn gwneuthur cyfrif o gadernid amddiffynfeydd yr Awstriaid, a chadernid ei byddinoedd, nac o'r Ffrangcod sydd yn amddiffyn y Pab, a holl allu Napoleon sydd wrth eu cefn; ni phetrusa foment yn ngolwg rhwystrau a ymddangosant i bawb arall yn anorfod; ac fe ddichon mai gor-gryfder ei feddwl a'i ysbryd anturiaethus ydyw ei wendid, a'i berygl ydyw myned i ganlyn yr ysbryd hwnw yn rhy bell, a dinystrio y cwbl yn y canlyniad. Yr un sydd fwyaf ar ei ffordd ydyw Cavour; ac oni buasai ei ragwelediad a'i wyladwriaeth ef, dichon y buasai Garibaldi wedi tynu Napoleon a'r Ffrangcod yn ei ben cyn hyn; ac nid oes neb a wŷr beth fuasai y canlyniadau o hyny i Italy. Y mae y ddau, er mor wahanol i'w gilydd, ac er mor wrthwynebol i'w gilydd ydynt, er hyny, yn angenrheidiol i achos ymwarded a rhyddid Italy. Dyrysodd y naill lawer ar amcanion y llall, ac etto y mae y naill a'r llall yn cyd-wasanaethu yr achos y

mynai y ddau ei weled yn llwyddo ; ac yn aml iawn, wrth a thrwy ddyrysu amcanion eu gilydd y gwasanaethant yr achos hwnw yn fwyaf effeithiol. Yn groes i feddwl Cavour yr aeth Garibaldi i Sicily—neu, o leiaf, rhwng bodd ac anfodd. Tafodd lawer o rwystrau yn ei ffordd ; ymdrechodd â'i holl egni i'w attal i ymosod ar Naples, gan ofni y canlyniadau. Yr oedd ganddo ef ofal am yr *international laws*, a'r hen *Treaties*, a ffydd mewn *diplomacy* ; ond torodd Garibaldi y ffordd â'i gleddyf trwy y pethau hyny, a chwalodd y cwbl gyda phedwar gwynt y nefoedd, ac felly trechodd y Gweinidog ; ond gweithiodd y llall ei gynlluniau mor fedrus nes cael Sicily a Naples oddi dan ei awdurdod yn gynt nag yr oedd yn eu rhodd i fyny, ac felly llwyddodd Cavour yntau i attal amcan Garibaldi i ymosod ar Rhufain ; a rhwng y ddau, diogelwyd achos Italy rhag y perygl mawr oedd yn ei bygwth.

Y mae yn ymddangos fod yr ymdrech fwyaf ar ol etto. Beth a ddaw o Venice, a beth a ddaw o Rufain, ydyw y ddau gwestiwn mawr—ie, enaid yr achos. Os na ollynga Awstria ei gafael yn heddychol o Venice, nid ydyw yr holl drychineb a fu yn Italy yn y ddwy flynedd ddiweddaf ond bychan mewn cymhariaeth i'r hyn sydd ar ddyfod, yn ol pob tebygolrwydd. Y mae Ewrop yn dal ei hanadl mewn pryderus ddisgwyliad ; calon Awstria yn crynu, a chalon Italy yn dychlamu, a'i chlust yn gogwyddo i ymwrandaw am alwad Garibaldi arni i gyfodi a gwregysu ei harfau ; ni raid iddo ond chwibanu na bydd ar ei thraed, ac yn barcd i'w ganlyn i ba le



bynag yr ewyllysia ei harwain, pa un bynag ai i Venetia, neu ynte i Rufain, neu i Hungary; ac os na ragflaenir yr aflwydd ofnadwy trwy gyttundeb heddychol—os bydd iddo etto orfod myned allan i'r anturiaeth, boed i'r Nefoedd nerthu ei freichiau, gwregysu ei lwynau, cuddio ei ben yn nydd y frwydr, rhoddi iddo warau ei elynion, a choroni ei amcan â llwyddiant i yru yr Awstriaid ymaith o Venetia, y Pab a'i gardinaliaid, a'r Ffrangcod i'w canlyn, o Rufain, a'i ddychwelyd yn ol yn ddiogel i'w ynys neillduedig, ac estyn iddo hir ddyddiau ac amllder o heddwch, a phob dawn a da i'w mwynhau, a'i wneyd yn etifedd coron anniflanedig y bywyd a bery byth; a dywedded yr holl bobl—Amen, ac Amen.

—:o:—

## PENNOD II.

Fel y dywedo dyn:—"Diau fod Duw a farn ar y ddaear." Y mae dyn erioed yn dueddol iawn i anghofio, i anghredu, ac i wadu y gwirionedd mawr hwn, ac y mae efe yr Hwn sydd yn barnu ar y ddaear yn dwyn goruchwyliaethau oddi amgylch yn awr a phryd arall i ddwyn hyn ar gôf i ddynion, i'w wasgu at eu hystyriaethau, nes y gorfyddant ei gyd-nabod. Adwaenir yr "Arglwydd wrth y farn a wna," pan y cyfodo i farnu yr amddifad a'r gorthrymedig, fel na chwanego dyn daearol beri ofn mwyach, ac fel "y gwypo y cenedloedd mai efe yr Hwn yn unig sydd Jehofa wrth ei enw, sydd oruchaf ar yr holl ddaear."

Geilw y Salmydd dymhorau goruchwyliaethau o'r fath hyn "Blynyddoedd deheulaw y Goruchaf"—tymmhorau ag y bydd amlygiadau anghyffredin o law goruchaf lywodraethwr y byd yn cael eu harddangos ynddynt. Trwy y goruchwyliaethau hyn y mae Efe yn dal ei afael yn y byd megys—yn cydio yn ei gydwybod, yn cadw ei goffadwriaeth yn fyw ynddo, ac yn gosod ofn ac arswyd ei fawredd arno. "Y mae Duw yn gwneuthur hyn fel yr ofno dynion ger ei fron Ef."

Pan y mae trawsder a chreulondeb, gorthrymder ac anghyfiawnder, yn cael hir rwysg yn y byd, treiswyr tra-awdurdodol yn cael eu goddef i fathru gwledydd a chenhedloedd dan eu traed, dagrau y gorthrymedig yn llifo, a hwythau heb neb i'w cysuro am dymmor maith, y mae hyn yn brofedigaeth hyd yn oed i ddynion da a duwiol i betruso ac ammheu ynghylch llywodraeth y Bôd Goruchaf ar amgylchiadau y byd. Y mae y naill a'r llall o ddynion sanctaidd yr Hen Destament yn ymliw yn fynych â'u Duw yn yr achos. "Ymresymaf â thi am dy farnedigaethau," medd Jeremiah. "Pa ham y llwydda ffordd yr anwir, ac y ffyna yr anffyddloniaid oll?" "Pa ham y tewi tra y llyngca yr anwir un cyfiawnach nag ef ei hun?" medd prophwyd arall. Nid ydyw y Brenin Mawr byth ar frys gyda'i waith. Y mae yn tewi, ac yn oedi yn hir iawn yn gyffredin yn ein golwg ni. Gadawodd Italy yn hir iawn dan draed y bwystfilod mwyaf creulawn, anghyfiawn, a gwaedlyd a warthruddasant ddynoliaeth erioed. Y dynion goreu a mwyaf rhinweddol a feddai y talaethau oeddynt yn llenwi carcharau Rhufain, Tuscany, Naples, a Sicily trwy y blynydd-

oedd ; ac nid llawer gwell oedd cyflwr Awstria na chyflwr Italy, yn enwedig talaethau Italaidd y Llywodraeth hono.

I wastadhau pethau fel hyn y dygir goruchwyliaethau hynod, nerthol, ac anghyffredin yn mlaen, yn y rhai y mae Barnwr yr holl ddaear yn galw gorthrym-wyr i gyfrif, ac yn talu iddynt eu haeddedigaethau.

Pan y mae efe yn dyfod allan i gyflawni gwaith anghyffredin, y mae yn codi ac yn cymmhwysu dynion anghyffredin yn offerynau yn ei law i'w gyflawni. Creaduriaid amgylchiadau, i fesur helaeth iawn, ydyw y cyffredin o ddynion ; a'u doethineb hwy ydyw dal ar amgylchiadau, a gwneyd y goreu o honynt. Ond y mae dynion anghyffredin yn tori trwy amgylchiadau, yn greawdwyr amgylchiadau, neu yn hytrach, yn offerynau yn llaw y Brenin Mawr i'w creu—i newid amgylchiadau teyrnasoedd a chenhedloedd.

Un o ddynion anghyffredin oesau y byd, yn ddiâu, ydyw Garibaldi ; odid y gellir cael un arall a dorodd ac a weithiodd ei ffordd trwy gynnifer o amgylchiadau gwrthwynebus ag efe, yn enwedig yn ei anturiaethau diweddaf yn Sicily a Naples. Yr oedd pob ymddangosiad yn ei erbyn. Yr oedd pawb yn Ewrop yn meddwl ei fod yn hanner gwallgof, ac yn rhedeg rhag ei flaen i ddinistr. Crynai ei gyfeillion, a llawenhâi ei elynion—y naill gan ofn, a'r lleill yn y rhagddisgwyliad sicr o'i gwmp ; ond siomwyd y naill a'r llall yn y canlyniad—trowyd ofn ei gyfeillion yn llawenydd, a gobaith ei elynion yn chwerw ofid a galar.

Y mae y dyn hynod hwn wedi bod yn foddion i greu amgylchiadau newyddion yn Ewrop, a hyny c dan yr amgylchiadau mwyaf anfanteisiol a gwrthwynebus, fel y mae llaw oruwch-lywodraethol Duw i'w gweled yn amlwg ac ofnadwy iawn yn y digwyddiadau. Rhoddodd wêdd newydd hollol ar wyneb teyrnas gyfan; ac y mae hyny yn effeithio er newid amgylchiadau pethau mewn talaethau a theyrnasoedd eraill hefyd. Y mae sefyllfa Rhufain a'r Pab yn wahanol i'r hyn oeddynt cyn hyny. Y mae Louis Napoleon yn dechreu gweled a theimlo y bydd raid iddo yn fuan bellach, dynu ei fyddin o Rufain, a Pio Nono a'i gyfeillion yn dechreu edrych tua Jerusalem am noddfa. A'r Awstriaid yn gweled y bydd raid iddynt hwythau ymadael o Venetia cyn hir. Trwy oresgyniad Sicily a Naples tynwyd un o golofnau y Babaeth, ac un o ategion awdurdod Awstria, i lawr. Yr oeddynt yn deall hyny yn dda yn llysoedd Rhufain a Vienna, pan hyd eithaf eu gallu y ceisient gefnogi, annog, a chynnorthwyo Francis II. i ddal allan yn Gaeta hyd yr eithaf, gan obeithio y deuai rhyw ddigwyddiad ffodus o'i du i'w waredu a'i adferu i'w frenhiniaeth. Ceisiai y Pab a'i gynghoriaid â'u holl egni gyffroi gwrthryfel o'i blaid yn nhalaethau Naples, ond yn fethiant y troes pob cais; syrthiodd Gaeta, a syrthiodd gobaith olaf y Babaeth yn ei chwmp hi.

Y mae dynion anghyffredin yn wrthddrychau prophwydoliaethau am danynt yn yr Ysgrythyrau. Prophwydwyd am Samson gan angel o'r nef; am Dafydd trwy Samuel, y byddai yn frenin ar Israel, pan nad oedd etto ond bugail defaid; am Josiah, y

diwygiwr mawr erbyn ei enw cyn ei eni, gan y gŵr Duw o Judah; am Cyrus, gwaredwr y genedl o Babilon erbyn ei enw gan Esaiah, ddau càn mlynedd cyn ei eni yntau; felly Alexander Fawr gan Daniel, dan yr arwyddlun o fwch gafr; Ioan Fedyddiwr, ac eraill, yr un modd. Os cywir deongliad esbonwyr, y mae llawer o'r angylion yn Llyfr y Dadguddiad yn arwyddo dynion oedd i gyfodi i fod yn offerynau hynod yn llaw Rhagluniaeth i gyflawni bwriadau yr ewylllys ddwytol ar y ddaear. Pa un a ydyw Garibaldi yn un o'r angylion hyny ai nid yw, ac os ydyw, pa un o honynt ydyw, ydynt ofyniadau na chymmeraf fi arnaf eu hatteb, ond yn unig crybwyll y dichon ei fod. Beth bynag am hyny, y mae y dyn mwyaf hynod a chyhoeddus yn y byd yn awr—dyn y mae ei enw yn adseinio trwy wledydd a theyrnasoedd y ddaear fel taran yn nghlust pob gorthrymwr, ac fel peroriaeth felus yn nghlust pob gorthrymedig, a phawb a garant gyfiawnder a rhyddid.

Y mae o werth i ni chwilio i nodwedd y dyn hynod hwn, i weled pa elfenau sydd yn cyfansoddi ei gymmeriad. Y mae ambell i ddyn mawr yn ddirgelwch i'r byd, yn anhawdd iawn ei adnabod, a chael allan pa le y mae cuddiad ei gryfder; beth sydd yn cyfansoddi ei fawredd, neu yn mha bethau y mae yn rhagori ar ddynion eraill. Ceir ambell un yn rhagori mewn rhyw un gallu, neu ddawn—mawr yn yr un peth hwnw yn unig ydyw, ac hwyrach yn llai na llawer o ddynion cyffredin mewn pethau eraill. Ambell un arall heb fod yn fawr na hynod mewn unrhyw beth neillduol, ond yn bur gyflawn mewn



llawer o bethau ; ac ambell i un arall yn ymweithio i fawredd ag y tybid am dano yn hir nad oedd yn meddu ar un o elfenau mawredd. Dyna Louis Napoleon, er enghraifft. Tybid hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol mai asyn ydoedd ; cyttunai doethion yn gyffredin mai i un o'r dosbarth hir-glustiog y perthynai, yn ddiâu ; ond ammheuwyd hyny yn mhen amser, a thaerid mai llwynog oedd ; mynai rhai wneyd blaidd o hono. Daeth wedi hyny yn llew, ac wedi hyny yn rhyw anghenfil cymmysgryw, nad oes enw i'w gael arno, na disgrifiad i'w wneyd o hono ; y mae pawb yn ei ammheu, a phawb yn ei ofni, ond nid oes neb yn ei adnabod. Ond am Garibaldi, o'r tu arall, y mae yn hawdd i bawb ei adnabod ; nid oes un ddadl nac ammheuaeth yn ei gylch—dim ond un farn am dano. Dyn ydyw, medd pawb—dyn cywir, dyn da, dyn mawr, dyn anghyffredin.

1.—Dyn cywir, gonest, syml, di-hoced, di-dwyll. Dyn i'w weled trwyddo, y mae yn dryloyw, ei feddwl mor agored a'i wyneb—nid oes dim dichell yn ei ysbryd, na thwyll yn ei galon, na chelwydd ar ei dafod ; dyn yn meddwl bob amser yr hyn y mae yn ei ddywedyd, ac yn dyweyd yr hyn y mae yn ei feddwl. Yr un gwaelaf o bawb i wneyd *diplomatist* o hono fuasai, oblegid ei symledd a'i onestrwydd. Cyfrwysdra llwynogaidd i dwyllo â geiriau teg, ac ammwys, medr i ddyweyd anwiredd yn llyfn ac yn daclus, ydyw y cymmhwysderau gofynol at y swydd.

“Yr wyf fi yn myned drosodd i'r Cyfandir i ymryson dyweyd celwydd â gweinidogion llysoedd eraill,”

ebe un o'r swyddwyr hyn yn amser Iago 1. Y mae y disgrifiad o ddau frenin yn mhrophwydoliaeth Daniel yn cynnwys sylwedd hanes *diplomacy* yr oesau. "Calon y ddau frenin hyn sydd ar ddrwg, ar yr un bwrdd y traethant gelwydd;" dan rith cyfeillgarwch a chariad, ceisient dwyllo a maglu y naill y llall. Ni thalai Garibaldi ddim oll at y swydd hon, ac y mae yn gâs gan ei enaid am dani hi a'i dichellion a'i chelwyddau. Y mae Cavour yntau yn *ddiplomatist* go wych; gall ef ddyweyd ambell i gelwydd gwyn yn lled rigl i wasanaethu yr amcan yr ewyllysia ei gyrhaedd.

Hon ydyw un o brif elfenau nodwedd Garibaldi fel dyn da, a dyn anrhydeddus. Gellir dyweyd am dano yn ngeiriau y Salmydd:—"Yr hwn a ddywed wir yn ei galon, ac ni thyngodd i dwyllo." Ni cheisiodd dwyllo ei elynion, ond efe a fynega iddynt yn mlaen llaw beth a fwriada wneuthur; cyhoedda ei holl amcanion yn eu herbyn, a rhydd bob mantais iddynt i ymbarotoi rhagddo.

2.—Y gallu sydd ganddo i ennill serch ac ymddiried holl galon pob un a ddelo o dan ddylanwad ei bresennoldeb. Y mae hon yn rhyw ddawn ddofn, guddiedig—yn rhyw swyn a rhîn yn y dyn nad ellir ei ddisgrifio, a dyweyd pa beth ydyw. Y mae yn rhywbeth sydd yn deimladwy ac effeithiol—bron yn anorchfygol. Peth yr edrycha dyeithriaid iddo arno fel dychymyg yn unig, heb ddim yn wirioneddol ynddo, ond peth yr argyhoeddir hwy o hono yn union pan ddelont i gyrhaedd ei ddylanwad.

Un o'r cymmhwysderau y cynnysgaeddwyd ef â hwy gan Ragluniaeth ddwyfol, fel offeryn at y gwaith y bwriadwyd ef i'w gyflawni ydyw, yn ddiâu. Y mae hwn yn allu mawr ynddo, ac yn allu mawr iddo. Y mae gan ei filwyr nid yn unig yr ymddiried llwyraf ynddo, ond hefyd y serch gwresocaf ato, fel pe byddai gan bob un o honynt gant o fywydau yr aberthent hwy yn wirfoddol drosto. Hyn a barai iddynt anturio yn galonog a llawen dan ei arweiniad i wyneb amgylchiadau a ymddangosant yn wallgof-rwydd mewn dynion i wynebu arnynt; ond tybiant hwy nad oes dim yn ormod i gynnyg arno ag y bydd Garibaldi yn amcanu ato.

3.—Y mae yn ddyn o ffydd. Hyder yn naioni a chyfiawnder yr achos a'r amcan fydd ganddo mewn llaw. Ni wisgodd ei arfogaeth erioed ond i ymladd dros achos a gredai ei fod yn achos da, yn achos cyfiawnder, ac achos rhyddid—achos Duw a dynoliaeth. Y mae ganddo ffydd ynddo ei hun, hefyd, fel offeryn etholedig i gyflawni gwaith mawr dros yr achos hwn, ac y mae hyn yn ei wneyd yn hŷf megys llew. Y ffydd hon a wnaeth Luther, a Cromwell, a'u cyffelyb, yn gedyrn mor nerthol yn eu dydd. Ni all dynion cyffredin ddeall dynion fel hyn; y maent yn ddirgelwch iddynt; penboethiaid, gwallgofion, rhyfygus, ofergoelus, a thwyllledig ydynt yn eu golwg hwy. Y mae y dyn sydd yn llawn o ffydd, yn llawn o Dduw neu yn llawn o'r cythraul, medd un; os achos drwg fydd ganddo llawn o'r ysbryd drwg fydd y dyn, ac fe wna dyn felly ddrygau ofnadwy yn y byd; ond ni ddywedai neb mai y ffydd hon yw ffydd Garibaldi,

ond caredigion trawsder a gorthrymder. Nid yw ei weithredoedd yn weithredoedd dyn â chythraul ganddo. Gweithredoedd y mae dynion goreu yr oes yn llawenhau o'u plegid, yn bendithio ei enw, ac yn diolch i'r Nefoedd am ei godi a'i lwyddo. Dirgelwch ei wrolder a'i anturiaethau rhyfeddol ydyw ei ffydd—y ffydd sydd yn symmud mynyddoedd. Y mae y gwahaniaeth rhwng dyn yn gweithredu yn ol ei reswm, yr hyn a ymddangoso yn gall a doeth yn wyneb amgylchiadau, a dyn dan ddylanwad ffydd, i'w weled oddi wrth y ddammeg am y ddau frenin—un â deng mil yn cyfarfod â'r llall oedd yn dyfod yn ei erbyn âg ugain mil. Y mae yr hwn â'r deng mil yn eistedd i lawr mewn cynghor i ystyried a all efe yn rhesymol ddisgwyl llwyddo dan yr anfantais, ac yn dyfod i'r penderfyniad i anfon am ammodau heddwch. Nid yw dyn ffydd byth yn eistedd i lawr i fwrw y draul felly. Ni wnaeth Garibaldi erioed mo hyny: fel y dywed un o swyddogion ei fyddin, nad yw byth yn cyfrif ei elynion, nac yn ystyried dim beth all fod eu rhif a'u cryfder, pe ddeg yn mhen un; ond ymosod arnynt a'u gorchfygu ydyw ei bwngc ef; ac y mae ei ffydd wedi ei gario allan yn fuddugoliaethus yn ei holl anturiaethau.

4.—Ei graffder gwyliadwrus i gymmeryd gafael yn mhob mantais a ddigwyddo iddo gael ar ei elynion. Nid ffydd a hyder dall ydyw, diofal ynghylch ei symmudiadau, gan adael y cwbl i ddamwain. Dwl ni rhyfygus fyddai hyny. Y ffol sydd ffrom a hyderus, a ffyliaid felly a ânt rhagddynt, ac a gospir. Ond y mae efe bob amser yn ddoeth, a'i lygad yn ei ben, yn

gwylio holl ysgogiadau y gelyn, ac yn gafael yn mhob mantais a gaffo, yn bwylllog a thawel yn nghanol cyffro y frwydr. Y mae rhyw wrthdarawiad ynddo sydd yn hynod—allan o faes y frwydr, y mae mor syml a'r plentyn—y creadur mwyaf diniwed a diddichell yn y byd; ond yn nydd y frwydr, yn nhwrf yr ymladdfa, y mae y llwynog cyfrwysaf a mwyaf castiog ar y ddaear. Y mae Louis Napoleon ac yntau yn gwbl wahanol i'w gilydd yn hyn. Ni phrofodd Napoleon ei hun yn llwynogaidd a chyfrwys, yn graff a medrus ar faes y frwydr; yn ystafell y cyngor y mae efe yn ddwfn, yn guddiedig, yn gyfrwys, a gwagelog. Garibaldi yntau yn blentyn syml a diniwed yn mhob man, ond ar y maes; unwaith yno, y mae yn ddyn arall hollol, ac yn llawn o gastiau ac ystrywiau, ac y mae cyfrwys droion yn gyfreithlawn yno.

5.—Tynwrwch ei galon sydd yn elfen nodedig arall yn ei gymmeriad. Er ei fod mor wrol a'r llew, y mae mor dyner ei deimladau a'r oen. Nid gŵr gwaedlyd mewn un modd ydyw Garibaldi. Dangosodd y tynerwch mwyaf bob amser tuag at ei elynion pan syrthient i'w ddwylaw, a hyny lawer gwaith dan y profedigaethau cryfaf i ad-dalu mewn dialedd arnynt am droion traws a chreulawn. Ni chafodd neb erioed le i achwyn arno am fod yn rhy lym a chaled, ond beiwyd arno lawer gwaith am fod yn rhy dyner a meddal.

6.—Y mae ei wrolfrydedd moesol hefyd yn ardderchog, ac mor enwog a dim yn ei nodweddiad.



Cyn gadael Naples, ar ol ei gwaredu o'i thrueni, trôdd y câd-flaenor enwog yn bregethwr—yn bregethwr gwirionedd ; ac ni arddangosodd Luther ei hun, nac un pregethwr arall, fwy o wrolder moesol nag a ddangosodd Garibaldi ar yr achlysur hwnw. Safodd o flaen y miloedd ar ganol heol y ddinas fwyaf Pabyddol ar y ddaear. Gwelai o'i flaen ugeiniau a channoedd o offeiriaid a mynachod, lliaws mawr o fonedd a phendefigion, a llu mawr o werin ofergoelus. Dyrchafodd ei lef fel llais udgorn, a chyhoeddodd yn groyw mai y Babaeth yw prif felldith y byd, mai gelyn Crist a gelyn dynoliaeth yw y Pab—ïe, mai efe yw yr Anghrist, ac erfyniodd ar bawb oedd yn ei glywed i ddyweyd a chyhoeddi hyny o'i enau ef yn mhob man. Pwy byth fuasai yn gallu tybied, ddau fis cyn hyny, y cyhoeddased y fath eiriau yn y fath le a hwnw gan un dyn, heb iddo gael ei ddryllio yn ddarnau gan gyn-ddaredd yr offeiriaid a'r bobl ofergoelus ; ond ni symudodd ci ei dafod. Yr oedd wedi archolli awdurdod dymhorol y Babaeth â chleddyf ei law, a tharawodd ei gallu ysbrydol o dan y bummed ais wrth droi ei gefn ar faes ei lafur.

7.—Ei ffyddlondeb fel cyfaill. Y mae llawer iawn o esiamplau nodedig o ffyddlondeb, serchog-rwydd, a thynerwch ei galon fel cyfaill. Pan goffâ, fel y gwna, am gymdeithion a chyd-filwyr iddo a syrthiasant o'i amgylch, y mae ei holl enaid yn ymgynnhyrfu ynddo. Collodd chwech o gyfeillion ffyddlawn, y rhai oeddynt Italiaid, mewn llongdrylliad unwaith yn ystod ei anturiaethau milwraidd yn America ddeheuol. Ysgrifena ei deimladau a'i adgof-

ion am danynt yn mhen deuddeng mlynedd wedi hyny. Rhydd enwau pump o'r chwech. "Ond," medd ef, "yr wyf wedi anghofio enw y chweched. Maddeued fy ngwlad i mi yr anghôf hwn; y mae ysbaid o ddeuddeng mlynedd wedi myned heibio er hyny. Yn ystod y tymmor hwn cyfarfum â digwyddiadau o'r fath fwyaf gofidus a galarus. Gwelais wlad yn syrthio (Italy). Ymdrechais yn ofer i amddiffyn dinas rhag ei llofruddion, Rhufain rhag y Ffrangcod, tra yr erlynid ac yr helid ar fy ol fel bwystfil rheibus. Dodais yn ei bedd y wraig, yr hon oedd calon fy nghalon; a phrin y cefais hamdden i gau y bedd hwnw na orfu i mi ffoi ymaith fel damnedigion Dante, y rhai a ddisgrifir fel yn rhedeg yn eu blaenau yn unionsyth, ond â'u penau wedi eu nydd-droi, ac yn edrych o'u holau; o'r parth eithafol hwn (yn Affrica yr oedd pan yn ysgrifenu hyn), yr wyf yn edrych yn ol ar Ewrop, yr hon a'm bwriai oddi wrthi fel carn-leidr; myfi, yr hwn na bu genyf erioed ond un meddwl, un serch, un nôd—Fy ngwlad, fy ngwlad! Yr wyf yn gwybod hyn oll yn dda; ond er hyn oll, dylaswn gofio yr enw hwnw; ond, och! nis gallaf!"

Daethai i gydnabyddiaeth yn America âg Italiad o'r enw Anzani, yr hwn oedd foneddwr o radd uchel, ond oedd yn flöadur, fel llawer eraill o oreugwyr Italy, o herwydd ei egwyddorion rhyddfrydig. Y munyd cyntaf y gwelsant eu gilydd, ymglymodd enaid y naill wrth y llall. Teimlent yn y fan eu bod yn gyfeillion nad allasai dim ond angeu eu dattod a'u hysgaru oddi wrth eu gilydd. Buont yn gyd-ymdrechwyr mewn llawer anturiaeth yn America. Daethant gyda'u

gilydd drosodd i Italy yn 1848, ond yr oedd Anzani yn nychu mewn darfodedigaeth, a bu farw yn mhen ychydig ddyddiau wedi tirio yn Nice. Ni sonia Garibaldi byth am enw Anzani nad yw ei galon yn ymgynnhyrfu, ac yn toddi fel cŵyr o'i fewn. "Ar farwolaeth dyn fel Anzani," medd ef, "yr wyf yn dywedyd wrthyt ti, O! Italy, y dylai y genedl a roddodd enedigaeth iddo ddyrchafu gwaedd alarus o waelod ei chalon; ac os na theimla, os na alara fel Rahel yn Rama, nid yw y gyfryw genedl yn deilwng o dosturi a chydymdeimlad, gan na fedd hi deimlad yn achos ei merthyr mwyaf ffyddlawn a gwladgarol. Merthyr? Ië. Merthyr ganwaith drosodd oedd ein hanwylaf Anzani. O! Anzani, pe buasai athrylith a doethineb fel yr eiddot ti yn llywyddu yn Lombardy, yn mrwydr Navara, ac yn ngwarchau Rhufain, ni buasai troediad yr estron yn gwarthruddo dy wlad enedigol, ac yn sarhau esgyrn dy wroniaid heddy!"

Dyna, debygaf, rai o brif elfenau nodwedd y dyn hynod hwn. Cyflwynna hanesyddiaeth lawer o ddynion cyffelyb iddo mewn rhyw bethau, mewn amrywiol oesau, hen a diweddar. Yn rhai o elfenau ei nodwedd yr oedd Epaminondas, y Theban, yn debyg iddo—Thebes oedd Nazareth tir Groeg; nid oedd un dyn enwog uwch law y cyffredin wedi codi yno. Edrychai y dinasoedd a'r talaethau eraill arni gyda dirmyg, a gorthrymid hi yn dost gan y naill a'r llall o honynt o bryd i bryd, yn enwedig gan Sparta uchelfrydig. Gwardodd y ddinas, trybaeddodd Sparta falch yn y llwch. Yr oedd yn ddyn o nodweddiad diargyhoedd, a rhinweddol, yn ddoeth yn y cyngor, yn

wrol, galluog, a medrus ar y maes fel rhyfelwr, yn gymmedrol mewn llwyddiant, yn galonog mewn adfyd—yn lleng o ddynion ynddo ei hun yn mhob ystyriaeth, ac yn ddi-hunangais yn ei holl weithredoedd. Un cyffelyb iddo oedd Cincinnatus, y Rhufeinwr. Cromwell, hefyd—fe allai mai efe a Garibaldi yw y ddau debycaf i'w gilydd, ond fod eu hamgylchiadau yn wahanol.

Mewn rhai pethau yr oedd Cromwell a Washington yn rhagori ar Garibaldi, yn neillduol fel gwladlywyddion. Y mae calon a theimladau Garibaldi yn rhy dyner i wneyd gwladlywydd cadarn a galluog. Y mae y gerwindeb a'r llymder oedd yn Cromwell, pan fyddai angen am hyny, yn eisieu ynddo ef. Mewn gair, y mae yn gymmeriad mwy hawddgar nag un o'r dynion mawrion hyny.

Edrycher arno yn gyferbyniol â dynion mawrion o fath arall etto. Dyna Napoleon Bonaparte, yr oedd hwnw yn ddyn mawr, yn rhyfedd a thra anghyffredin—dyn a wnaeth bethau mawrion iawn yn y byd, ac a adawodd ei ôl ar y byd. Yr oedd ei fywyd yn fath o dymmestl ofnadwy, yn ysgubo pob peth o'i blaen yn mhob man, yn dryllio adeiladau, yn diwreiddio coedydd, ac yn rhwygo magwrydd ac amddiffynfeydd. Gŵyrodd hen gedrwydd brenhiniaethau Ewrop o flaen cynddaredd y rhyferthwy. Ond dyn heb wirionedd ynddo ydoedd, heb barch i'r gwirionedd, na gofal am dani: di-egwyddor, a difeddwl am dani—dyn â llon'd ei ben o ymenydd, a llon'd ei ymenydd o ystrywiau, ond heb fymryn o

galon yn ei fynwes. Addefai ei hun nad oedd wedi caru un dyn erioed fel cyfaill, ond, hwyrach, ei frawd Joseph ; nid oedd yn prisio dim mewn dynion yn ddim pellach nag y gwasanaethent ei amcanion uchelgeisiol ef. A gellir dyweyd yr un peth am ei nai, Louis Napoleon. Y Duc o Wellington ydoedd yn wahanol, i raddau ; yr oedd ganddo ef gydwybod i wirionedd ; yr oedd llawer o onestrwydd ynddo, ac o anrhydedd o ryw fath ; yr oedd yn ddyn o egwyddor, a glynai yn galed wrth ei egwyddorion ; ond nid oedd dim tynerwch na charedigrwydd yn hyny o galon oedd ganddo, a bechan iawn oedd hono.



## Arglwydd Palmerston.



YNTAU, hefyd, a fu farw. Nid oes dim yn rhyfedd yn hyny, mewn byd y mae pawb yn marw ynddo, a myrddiynau yn marw bob dydd; etto, y mae rywfodd yn rhyfedd yn ein golwg ni, ac yn chwith genym feddwl, fod un a fu dros gyhyd o amser mor uchel, mor gyhoeddus yn ein Llywodraeth a'n senedd, yn ein gwlad, ac yn y byd yn gyffredinol, wedi diflanu, a'i guddio o'r golwg am byth yn nhir cysgod angeu. Ni allasai hen aelodau y Tŷ ar eu hymgynnulliad ddechreu y tymmor presennol lai na thafu golwg hiraethus ar le gwâg eu hen batriarch urddasol, a'u harweinydd medrus. Cymmerwyd o'r Tŷ hwnw "y brawdwr a'r synwryol, yr henŵr a'r anrhydeddus, a'r areithiwr hyawdl," y bu ei bresennoldeb a'i lais mor gynnefin i'w lygad a'i glust am yr ystod faith o drigain mlynedd! "Y mae yn sŷn genym feddwl," medd un ysgrifenydd, "fod y bedd newydd guddio gweddillion un a anwyd yn mhen tridiau wedi i Napoleon I. adael Coleg Milwrol Brienne, ac a fu byw i gynnadledda â Napoleon III. Un oedd yn y byd cyn i Washington gael ei ethol yn Arlywydd yr Unol Dalaethau, ac a fu yn lladmerydd cydymdeimladwy y wlad hon âg America ar achlysur marwolaeth Lincoln. Un oedd yn fachgen heinyf pan wnaed Nelson yn îs-gadben yn y llynges yn yr India Orllewinol, cyn fod



Wellington wedi dyfod i sylw, a'r hwn er hynny a gyfarwyddai egnion y wlad hon yn rhyfeloedd y Crimea, a gwrthryfeloedd India, gyda hoender ac yni ieuengaidd megys."

Hynodir coffadwriaeth ambell i flwyddyn am byth yn hanesyddiaeth y byd gan amgylchiadau pwysig a ddigwyddant ynddi. Treigla rhai blynyddau heibio yn dawel a distaw, heb un weledigaeth eglur— unrhyw ddigwyddiad o bwys neillduol i'w hynodi. Gadawant y byd yn llonydd i ddilyn ei orchwylion cyffredin yn dawel a di-ofal; ni ddygant un oruchwyliaeth ar ei draws a bâr iddo godi ei ben, synu, a chyffroi. Y mae gweinidogaethau blynyddau eraill yn rhuthro drosto fel corwynt, gan ddymchwelyd teyrngadeiriau brenhinoedd, a diwreiddio hen sefydliadau gwladol ac eglwysig, a fuasent fel hen dderw y goedwig yn gynnyich tyfiant a meithriniaid llawer oes; a pheri felly gyfnewidiadau pwysig yn nghyflwr gwladwriaethol a chymdeithasol gwledydd a chenhedloedd. Bu yr oes hon yn dyst o amryw flynyddau felly. Nid un o'r rhai lleiaf yn mysg ei chwirydd hynod ydoedd y flwyddyn ddiweddaraf. Esgorodd ar un, beth bynag, o'r digwyddiadau pwysicaf yn hanesyddiaeth yr oesau diweddaraf. Ni raid hysbysu mai at derfyniad y rhyfel gwladol yn America, a rhyddhâd pedair miliwn o drueiniaid dynol yno o rwymau trawsder y gaethwasiaeth, y cyfeirir. Meithrinodd y wlad hono, am hir dymmor, sarph yn ei mynwes, yr hon, o'r diwedd, a'i brathodd hyd yr enaid. Hauodd wynt, a medodd y corwynt. I'r flwyddyn 1865 y daeth yr anrhydedd o ollwng y

miliynau caethion heb na gwerth na gwobrwy—blwyddyn y bydd ei henw a'i choffadwriaeth yn fendigedig hyd byth gan bob Negröad. Y mae caethwasiaeth America, bellach, yn mhlith y pethau a fuont, ac nid ydynt, ac ni byddant mwy. Teyrnasodd yr oes hon i farwolaeth liaws o bethau melldithiol o'r fath; a byddai gan hawdded i'r rhai sydd yn galaru ar eu hól alw yn ol yr amser a aeth heibio ag a fyddai iddynt eu hadferu hwy drachefn. Y mae y byd yn dyfod yn well; yn araf a graddol, y mae yn wir, ond y mae yn dyfod. Llwyddodd i ysgwyd llawer gwiber wenwynig oddi wrth ei law i'r tân yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf; ac ni bydd yn esmwyth hyd nes y bwria y gweddill o honynt, sydd yn ei boeni, yr un ffordd.

Digwyddiad pwysig arall, mewn cyssylltiad â'r llall, ydoedd brâd-lofruddiad yr Arlywydd Abraham Lincoln, cyfaill a rhyddhäwr y caethion—yr hwn y gellir yn briodol ei alw yn ferthyr i achos gogoneddus cyfiawnder a rhyddid. Gyda bod yr ergyd ddialeddol olaf wedi treiddio trwy fywyd trefniant anghenflaidd y gaethwasiaeth, dyna ddagr y brâd-leiddiad yn treiddio i ffynnonell bywyd y prif oruchwyliwr yn nygiad y gwaith mawr i ben. Gwelodd ddymuniadau dyfnaf ei galon wedi eu cyflawni—y gwrthryfel wedi ei ddarostwng—yr undeb wedi ei ddiogelu; ac i goroni y cwbl, y caethion wedi eu rhyddhau. Pren bywyd oedd y dymuniadau hyny iddo wedi eu dyfod i ben, ond cyn iddo gael ond prin estyn ei law ato, a phrofi ei ffrwyth, cipiwyd ef oddi wrth ei enau gan law ysgeler y bradwr! Pan oedd cyfeillion cyfiawnder a

rhyddid drwy y byd yn llawenhau yn nghwmp y gaethwasiaeth, mallwyd eu gorfoledd, a thröwyd ef yn dristwch gan y newydd alaethus fod y llywydd anrhydeddus, y gonest, y di-dwyll, a'r ffyddlawn Abraham Lincoln wedi syrthio yn aberth i gynddar-edd dirgel lofrudd. Disgynodd ef mewn anrhydedd i'r bedd, ac anwesir ei lwch yn mynwes bendithion dyngarwch a Christionogaeth o oes i oes, hyd nes y'i dadebrir gan sain udgorn y dydd olaf, i dderbyn gwobr y gwas da a ffyddlawn, gan yr Hwn a farna y byd mewn cyfiawnder. Dodwyd y gaethwasiaeth hithau yn ei bedd, a phydra ei henw a'i choffadwriaeth hithau yno o dan garneddi o felldithion yr oesau. Gadawodd yr esgymmunbeth hwnw lawer o gyfeillion i alaru ar ei ol, y mae yn wir—a gwirionedd galarus mewn gwirionedd ydyw. Nid yn America yn unig chwaith, ond yn Lloegr hefyd. Ni feiddia neb yma gymmeryd arno bleidio caethwasiaeth, ond yr oedd yma laweroedd yn pleidio y rhai oedd yn ymladd drosto yno, gyda'r amcan o'i sicrhau, ac äangu ei derfynau, ä'u holl egni, trwy y wasg, a thrwy gynnorthwyon arianol hefyd. Curent eu dwylaw mewn gorfoledd uwch ben pob newydd a ymddangosai yn ffafriol i achos y gwrthryfelwyr, a bwrient lysnafedd eu bustl chwerw yn ddi-baid ar Lincoln, a Llywodraeth yr undeb a'i byddinoedd. Oes—ysywaeth yr oedd—y mae yn Nghymru *un* misolyn, beth bynag, y bydd ei golofnau yn warth i enwau a bysedd y gwŷr a ysgrifenant y pethau sydd yn argraphedig arnynt tra fyddont ar gael, ac wrth eu gilydd.

Gŵr mawr ac anrhydeddus arall a gwymppodd y

flwyddyn ddiweddfaf ydoedd Richard Cobden, enw adnabyddus, fel y gwron a ddattododd rwymau masnach y byd. Iddo ef, fel y prif offeryn, y perthyn yr anrhydedd o ddileu yr hen ddeddfau anwir a ymchwelent y tlodion oddi wrth farn, gan ddwyn barn anghenogion y bobl oddi ar ddeddf-lyfrau Prydain Fawr. Gŵr oedd efe a wasanaethodd ei genhedlaeth yn ffyddlaw ac effeithiol iawn; ac ni ellir byth brisio gwerth y gwasanaeth a gyflawnodd. Talodd Ewrop oll, o'r rhai a wisgant goronau mewn llysoedd brenhinol, hyd y rhai a wisgant y bratiau mewn bythynod llwydion, ddyledus deyrnged i enw a gwasanaeth Richard Cobden ar ei farwolaeth. Anfynych y claddwyd na brenin, na thywysog, na gwladweinydd, ag y dangoswyd y fath deimlad o edmygedd a pharch tuag ato ag ef. "Hwy a wnaethant iddo gynneu mawr iawn."

O fewn corph yr un flwyddyn etto y newidiodd Leopold, hen frenin doeth a da Belgium, ei lys am y bedd. Brenin yn eistedd ar orsedd barn oedd efe; yn caru cyfiawnder, a heddwch, a rhyddid—yn esampl deilwng i holl benaduriaid Ewrop i'w ddilyn. Teyrnasodd yn serch ei ddeiliaid, a daeth teyrnas fechan Belgium, dan ei lywyddiaeth ddoeth ac un-iawn, i fod y wladwriaeth dawelaf, ddedwyddaf, a mwyaf llwyddiannus ar y Cyfandir. Yr oedd efe yn ynad heddwch i'w teyrnasoedd, yn gynghorwr doeth ar bob achos dyrus a gyfodai rhwng y llysoedd. Heddwch i'w lwch, ac anrhydedd i'w goffadwriaeth.

Yr un flwyddyn, hefyd, y bu farw Arglwydd



Palmerston, enw arall adnabyddus iawn i glustiau y byd yn mhob man—un y bu ei ddwyllaw cyfarwydd yn trin ei achosion gwleidiadol, mor belled ag y dalient gyssylltiad âg achosion y deyrnas hon, ac yn mhellach na hyny weithiau, am ysbaid mwy na hanner can mlynedd. Ysgrifenu hanes Arglwydd Palmerston yn gyflawn fyddai yn mron yr un peth ag ysgrifenu hanes Ewrop, a rhanau eraill o'r byd, am yr hanner canrif diweddaf.

Nid oedd efe, medd rhai o deilwriaid y wasg a fuont yn cymmeryd arnynt ei fesur i wneyd dillad i wisgo ei gymmeriad a'i goffadwriaeth ynddynt, yn ddyn mawr, o feddwl gwreiddiol, a dealltwriaeth gref a dwfndreiddiol, nac yn areithiwr o'r dosbarth uchaf; nid oedd i'w gymmharu yn y pethau hyny â Pitt, Fox, Burke, Canning, a'u cyffelyb. Nid ydym am ddadleu dim â'r teilwriaid hyny ynghylch y pethau hyn; dichon eu bod yn gywir, ond beth bynag, rhaid i bawb addef fod Palmerston yn un o ddynion hynotaf ei oes, ar amryw gyfrifon. Bu ei ddylanwad yn drymach yn nghlorian amgylchiadau Ewrop na'r un o'r gwŷr hyny, heb eithrio Pitt ei hun, fe ddichon. Nid neb llai na'r llwynog cyfrwysgall hwnw, Talleyrand, a ddywedai am dano ei fod yn drech ei graffder a'i fedrusrwydd diplomatyddol na phob un o wladweinyddion ei oes, hyd yn oed Metternich fawr ei hun. Yr oedd raid, os felly, debygem ni, fod rhyw fawredd mawr iawn o ryw fath yn y dyn y dywedai y fath ddyn y fath beth am dano.

*“ Yr ydym oll yn falch o hono,”* ebai Syr R.

Peel am dano mewn araeth yn y Tŷ, yn yr hon y ceisiai berswadio y Tŷ i basio cynnygiad a gynnwysai gondemniad ar weinyddiaeth dramor y Llywodraeth, yr hon oedd yn nwyllaw Palmerston ar y pryd. Felly, yn wir, yr oedd y senedd a'r wlad bob amser *yn falch o hono*. Dangosid anghymeradwyaeth cryf i'w fesurau yn fynych yn y Tŷ ac yn y wlad; etto, yr oeddynt *yn falch o hono*. Achwynai Torïaid a Diwygwyr yn drwm arno yn aml; er hyny, yr oedd y ddwy blaid *yn falch o hono*, rywfodd. Pa un bynag ai Torïaid ai Whigiaid fyddent mewn awdurdod, byddai y naill blaid fel y llall yn *falch* o'i gael i'w Chyfrin-gynghor. Yr oedd Palmerston fel yn elfen hanfodol i gyfansoddi gweinyddiaeth bob amser. Ofnid a daroganid llawer yn y senedd, ac yn y wlad, ac nid heb seiliau o bossibl, y buasai iddo dynu holl deyrnasoedd Ewrop yn mhen y deyrnas hon, a gyru y byd yn goelcerth wyllt o ryfel trwyddo oll, os na cheid ef allan o'r Swyddfa Dramor; ond wedi y ceid ef allan unwaith, ni fyddai'r senedd na'r wlad yn foddolawn nes ei gael yno drachefn. Rhuthrodd y Torïaid yn greulawn ar ei weinyddiaeth dramor lawer tro; a cheisient fantais oddi wrtho i ddisodli y Whigiaid; ond pan gaent awenau y Llywodraeth i'w dwylaw, un o'r pethau cyntaf a wnaent fyddai cynnyg y swydd o Ysgrifenydd Tramor i Arglwydd Palmerston.

Bu yn aelod etholedig o Dŷ y Cyffredin mewn un-ar-bymtheg o Seneddau; ac etholwyd ef i'r 17eg. Bu yn dal swyddi yn y Llywodraeth dan bedwar pen coronog—Sior III., Sior IV., William IV., a Victoria;

ac o dan ddeg o Brif Weinidogion—y Duc o Portland, Mr. Percival, Iarll Liverpool, Mr. Canning, Arglwydd Goderich, y Duc o Wellington, Iarll Grey, Arglwydd Melbourne, Arglwydd J. Russell, ac Arglwydd Aberdeen; a llanwodd swydd Prifweinidog ei hun am ddau senedd-dymmor. Nid oes yn aros hyd yr awr hon o'r rhai y bu efe yn gweini gyda hwynt ond Arglwydd J. Russell, yr hwn, yn ei dro, a fu yn gweini tano yntau, o'i ddyrchafiad cyntaf i'r swydd hyd ei farwolaeth, a'r hwn sydd yn awr yn olynydd iddo yn y swydd hono.

Henry John Temple, îs-Iarll Palmerston, oedd y trydydd a'r olaf o'r teulu a wisgai y teitl hwnw. Ganwyd ef yn 1784. Ymsefydlodd ei hynafiaid yn yr Iwerddon tua'r amser y torodd y Diwygiad Protestanaidd allan yn Ewrop. Dringasant yn raddol i gyfoeth ac anrhydedd. Bu farw ei dad pan oedd efe yn fachgen tan oed; cafodd ei feithriniad ysgolaidd yn Harrow; bu yn efrydydd wedi hyny yn Mhrif Athrofa Edinburgh, dan yr ysgolhaig a'r athronydd enwog Dugald Stewart, a thrachefn am dair blynedd yn Mhrifysgol Caergrawnt.

Yn ystod y tymmor y bu yn Nghaergrawnt ennillodd lawer o gyfeillion yn mysg athrawon a phenau y colegau; ac yn fuan wedi ei ymadawiad o'r Brifysgol gwahoddwyd ef ganddynt i sefyll yn ymgeisydd am yr anrhydedd o'i chynnrychioli yn y senedd; ei wrthwynebydd ydoedd Arglwydd Henry Petty, wedi hyny Ardalydd Lansdowne, yr hwn oedd newydd ei appwyntio i'r swydd o Ganghellydd y

Trysorlys, ac oblegid hyny dan yr angenrheidrwydd o sefyll am ail etholiad. Digwyddodd hyn yn 1806, yn union wedi marwolaeth Pitt. Aflwyddiannus fu ei gais y tro hwnw. Yr oedd dylanwad enw a swydd Canghellydd y Trysorlys yn rhy gryf i'r ymgeisydd ieuangc; ond ni ddigalonodd. Bu etholiad cyffredinol drachefn y flwyddyn nesaf (1807), a daeth yntau allan etto fel ymgeisydd am gynnrychiolaeth y Brifysgol. Collodd etto; ond o ddwy bleidlais yn unig. Yr oedd dychryn rhyddfrefniad y Pabyddion yn drwm iawn ar galonau clerigwyr a llaweroedd yn y wlad y pryd hwnw; ac yr oedd yntau yn cyhoedd addef ei fod yn bleidiol i'r mesur hwnw; ac yn y fath amgylchiad, yr oedd yn syndod iddo gael cynnifer o bleidleisiau drosto. Yr oedd ei fryd ar fyned i'r senedd; ac yno yr aeth dros fwrdeisdref fechan Newport, yn yr Isle of Wight. Dodwyd ef yn fuan mewn swydd dan y Llywodraeth fel îs-Ysgrifenydd Rhyfel. Ymddattododd gweinyddiaeth y Duc o Portland yn fuan wedi hyn; ac nid rhyfedd oedd iddo syrthio o ddwyllaw y cysgadur hwnw, yr hwn na allai wneyd dim i bwrpas ond cysgu. Hyd yn oed pan fyddai ymosodiad yn cael ei wneyd ar ei Weinyddiaeth yn y Tŷ gallai ef gysgu yn ddigon di-daraw, a chodi pan ddeffroid ef, i wneyd rhyw fath o amddiffyniad mewn attebiad i araeth na chlywsai, fe allai, hanner dwsin o eiriau o honi; ac yna eistedd i lawr a chysgu drachefn. Bob tro yr elid i ymofyn am dano yn ei swyddfa, ceid ef yn cysgu ac yn chwyrnu yn nghanol ei baprau; ac felly cysgodd ei Weinyddiaeth i farwolaeth mewn bŷr dymor.

Yn yr Etholiad Cyffredinol a ganlynai ddattodiad Gweinyddiaeth y Duc o Portland llwyddodd Palmerston ieuangc i gyrhaedd nôd ei ymgais; sef, cynrychioli Prifysgol Caergrawnt. Enillodd fuddugoliaeth rwydd ar ei wrthwynebydd, Mr. Smith y tro hwn. Daliodd ei gyssylltiad seneddol â'r Brifysgol hyd 1830.

Glynodd yn ei swydd fel is-Ysgrifenydd Rhyfel dan weinyddiaeth fêr Mr. Percival, olynydd y Duc o Portland. Wedi llofruddiad Mr. Percival yn nghyntedd Tŷ y Cyffredin, gwnaed Iarll Liverpool yn Brifweinidog. Glynodd Palmerston yn ei swydd dano yntau, a thrwy bob cyfnewidiad a fu yn y Llywodraeth hyd 1828, pan ddaeth awenau y Weinyddiaeth i law y Duc Wellington. Y Torïaid oedd mewn awdurdod trwy yr holl flynyddau hyny. Yr oedd blâs swydd wedi myned yn ddyeithr iawn i safnau y Whigïaid, druain, er's llawer o amser bellach. Yr oedd y blaid wrthwynebol wedi hen ymgartrefu yn y swyddfâau, ac yn gallu edrych gyda dirmyg ar egnïon annhyciannus y Rhyddfrydwyr i'w troi allan. Ond yr oedd elfenau rhwyg yn ymweithio yn ddistaw yn y cyfansoddiad Torïaidd ei hun. Torodd allan yn gyhoeddus yn 1827—28. Blaenor uchel-Dorïaidd yn y Llywodraeth ydoedd y Prifweinidog, Iarll Liverpool; a chefnogid ef gan Arglwydd Eldon, Duc Wellington, a Mr., wedi hyny Syr, R. Peel, a rhai eraill. Blaenor y Torïaid mwy cymmedrol oedd Mr. Canning, a chefnogid yntau gan Mr. Robinson (Arglwydd Goderich wedi hyny), Syr J. Copley, Mr. Huskisson, ac Arglwydd Palmerston. Yr oedd



Canning a'i gyfeillion yn bleidiol i ryddfreniad y Pabyddion, mesur yr ystyriai y gweinidogion uchel Doriaidd yn bechod anfaddeuadwy i feddwl cynnyg y fath beth—mesur, meddent hwy, a fuasai yn ddinystriol i ffurf-lywodraeth Brotestanaidd y wlad hon; ac a barasai ddymchweliad buan a llwyr iddi pe cawsai unwaith ei basio. Ymdynghedasant yn y modd mwyaf difrifol a phenderfynol i wrthwynebu ac attal y fath fesur peryglus i gael byth drwydded trwy y senedd. Yr oedd y cwestiwn o ddiwygiad seneddol, hefyd, yn dechreu gwthio ei ben i'r golwg, ac yn pericryn flinder i'r ddwy blaid Doriaidd fel eu gilydd, yn enwedig felly yr uchel-Doriaid. Cyttunai y ddwy blaid i wrthwynebu y mesur hwnw; ond yr oedd anghyttundeb anghymmodlawn rhyngddynt ar bwngc rhyddfreniad y Pabyddion a'r Ymneillduwyr. Ni fynai Canning a'i gefnogwyr fyned gam pellach yn mlaen ar ffordd diwygiad seneddol na difreiniobwrdeisdref fechan neu ddwy oedd wedi myned yn ddiarhebol gywilyddus am eu llwgrwobrwyath, a rhoddi yr etholfraint i dref boblogaidd neu ddwy yn eu lle. Ni fynai yr uchel Doriaid wneuthur felly ar un cyfrif. Ar farwolaeth ddisymwth Iarll Liverpool, galwyd ar Canning—y mwyaf galluog a thalentog yn y Llywodraeth a'r Tŷ—i ffurfio gweinyddiaeth. Gwrthodai ei gyd-swyddwyr uchel Doriaidd yn Llywodraeth Iarll Liverpool gymmeryd swyddi o dano, am ei fod yn bleidiwr i ryddfreniad y Pabyddion, yn benaf; ac felly, bu raid iddo ddethol rhai i lenwi uchel swyddau ei Lywodraeth o blith yr îs-swyddwyr, y cyntaf o ba rai oedd Arglwydd Palmerston, yr hwn a osodwyd yn swydd Ysgrifenydd Tramor—swydd y

## Arglwydd Palmerston. 111

bu yn ei llenwi am flynyddau lawer wedi hyny, ac y gwnaeth i Ewrop a'r byd deimlo ei fod ynddi. Gwesgid Canning yn ei gyfyngder i estyn ei ddeheulaw am gymmhorth at yr ochr arall i'r Tŷ—at y Whigiaid—a llwyddodd i gael gan Ardalydd Lansdowne a Mr. Lamb (Arglwydd Melbourne wedi hyny) i gymmeryd swyddau dano. Ond ni allesid ffurfio gweinyddiaeth rymus a safadwy o elfenau anghydnaws felly. Nid oedd grym na chalon ynddi i sefyll o flaen ymosodiad unol ac egniol y blaid wrthwynebol. Daeth ei thymmor hi, a thymmor bywyd Canning hefyd, i ben yn fuan. Bu ef farw—mewn rhan, beth bynag—o doriad calon o herwydd erledigaeth ffyrnig Eldon, Wellington, Peel, a'u pleidwyr. Cynnygiodd Arglwydd Goderich daclu y cerbyd wedi marwolaeth Canning; ond taffodd yr awenau o'i law mewn digalondid gydag iddo ymaflyd ynddynt. Yr oedd gwrthwynebiad y blaid uchel Doriaidd yn rhy gryf iddo allu sefyll o'i flaen. Y "Duc haiarn," Wellington, oedd y nesaf a ymaflodd yn y llyw. Yr oedd yr holl gyfnewidiadau hyn yn araf arloesi y ffordd, ac yn addfedu amgylchiadau i ddwyn i mewn wladweinydd mwyaf goleuedig a galluog ei ddydd; sef, Iarll Grey. Ond cyn i hyny gymmeryd lle, mynai Rhagluniaeth doi hen wrthwynebwyr Canning â gwarth am y pryd, a'r hwn sydd, i raddau, yn glynu wrth eu henwau hyd y dydd hwn.

Daeth Wellington a Peel i awdurdod dan yr ymrwymadau tynaf a chryfaf i attal rhyddfrefiniad y Pabyddion. Arosodd rhai o ddysgyblion Canning—Mr. Huskisson, Arglwydd Dudley, Mr. Grant, a

Palmerston—yn eu swyddau dan weinyddiaeth y Duc; ac nid bychan fu y beio arnynt am fradychu eu hegwyddorion felly, a rhoddi eu dwylaw i wasanaethu dan y rhai a erlidiasant eu hen flaenor, Canning, i'w fedd. Ceisient amddiffyn eu hunain yn y Tŷ. Esgus Palmerston ydoedd, nad oedd amgylchiadau etto wedi addfedu i ddwyn rhyddfrefiniad y Pabyddion yn llwyddiannus trwy y senedd—ei fod ef a'i gyfeillion yn gymmaint pleidwyr i'r mesur hwnw yn awr ag erioed, ac y byddent yn barod i sefyll a dadleu drosto yn y Tŷ pan ddelai yr amser cyfaddas. Edrychai Wellington â llygad eiddigus ar y Canningiaid hyny, a da fuasai ganddo gael achlysur i gael gwared o honynt; ac nid yn hir y bu heb ei gael. Yn mhwnge rhyddfrefiniad y Pabyddion yr oedd Huskisson, Palmerston, a'u canlynwyr, yn un â'r Whigiaid. O'r tu arall, yr oeddynt yn un â'r uchel Doriaid yn eu gwrthwynebrwydd i ddiwygiad seneddol. Ewyllysient hwy wneyd cymmaint a hyny yn unig o ddiwygiad ar gynnrychiolaeth y Tŷ a dybient fuasai yn foddion i ragflaenu ac attal mesur cyffredinol, y cyfryw fesur ag a gynnygiai Arglwydd J. Russell droion ei ddwyn i mewn. Barnai Huskisson y buasai estyn yr etholfraint i Manchester a Birmingham yn ateb y pwrpas hwnw. “Yr wyf yn awyddus i amlygu fy nymuniad ar fod i'r etholfraint gael ei rhoddi i dref fawr boblog,” meddai Palmerston yn y Tŷ, “nid am fy mod yn gyfaill i ddiwygiad, ond am fy mod yn wrthwynebwr penderfynol iddo, yn hytrach. Yr wyf yn golygu mai trwy estyn yr etholfraint i ambell dref fawr fyddai yr unig ffordd effeithiol i'r Tŷ er gochelyd gorfodaeth i basio mesur

---

cyffredinol o ddiwygiad ryw bryd.” Dyna oedd efe ar bwngc y diwygiad seneddol y pryd hwnw, a dyna oedd efe ar y pwngc hwnw pan gynnygiodd Arglwydd J. Russell ei ail fesur o ddiwygiad. Llwyddodd i gadw hwnw o’r Tŷ hyd ei farwolaeth ; ac nid oedd neb ond efe y goddefai y Tŷ a’r wlad y fath beth ganddo. Daeth achos bwrdeisdref lygredig Retford dan sylw y Tŷ, ac aeth yn destyn anghydfod rhwng y ddwy blaid yn y Llywodraeth. Mynai Wellington a Peel helaethu cylch yr etholfraint yn y lle, trwy gymmeryd y gantref i mewn at y dref, ac nid ei difreinio. Dadleuai Huskisson a’i gyfeillion dros ei difreinio, a rhoddi ei hetholfraint i Birmingham. Ar ymraniad y Cyffredin ar y cwestiwn, pleidleisiodd Huskisson yn erbyn ei feistriaid, Wellington a Peel. Ffromodd y Duc yn fawr am hyn. Anfonodd Huskisson i gynnyg rhoddi ei swydd i fyny, ond nid oedd yn meddwl myned allan, chwaith ; disgwyliai y buasai Wellington yn edrych dros y peth, ac yn ei gymmhell i aros, ond nid oedd yn ei fryd ef wneyd y fath beth ; yr oedd yn rhy dda ganddo am y cyfleusdra i garthu allan o’i weinyddiaeth y rhai y tybiai ef fod dim o sawyr diwygwyr arnynt. Gwyddai yn burion, ond cael Huskisson allan, y rhoddai y lleill eu swyddi i fyny, ac y gellid cael cyfansoddiad y weinyddiaeth felly yn Dorïaeth bur trwyddi oll. Anfonodd Huskisson Arglwydd Dudley yn gyntaf, ac Arglwydd Palmerston drachefn, at y Duc i wneyd yr esgusawd mai mewn camgymmeriad y pleidleisiasai fel y gwnaethai. “ Na, nid oedd dim camgymmeriad i fod ; ni allasai fod, ac ni chaiff fod,” oedd yr ateb ; ac felly, gorfu i Huskisson droi allan yn bur groes i’w

ewyllys. Yr oedd efe yn ddyn galluog, yn meddu cryn ddylanwad yn y Tŷ bob amser ; ond yr oedd yn ddjarhebol am ei drwstaneiddiwch fel dyn, a'r un modd fel gwladweinydd. Nid a'i byth allan i'r heol, braidd, na byddai yn myned ar draws rhywun neu ryw-beth yn wastad. Mesurodd ei hŷd ar y llawr laweroedd o weithiau yn ei oes ; ac aeth ei fywyd yn aberth i'w drwstaneiddiwch yn y diwedd, pan y tarawyd ef gan y gerbydres ar ddydd agoriad y llinell rhwng Liverpool a Manchester.\*

Yn yr ail senedd-dymmor o weinyddiaeth Wellington, wedi iddo wneyd i fyny yr adwyon a dorasid ynddi drwy ymadawiad Huskisson, Grant, Dudley, a Palmerston, drwy osod Toriaid o'r iawn waed oll yn eu lleoedd, a'i chyfanu yn Llywodraeth oedd

---

\* Rhydd ei fywgraphydd y rhestr ganlynol o anffodion a ddigwyddasant i Mr. Huskisson o dro i dro yn ei oes :—

- 1.—Pan yn blentyn torodd ei fraich.
- 2.—Ychydig o ddyddiau cyn ei briodas syrthiodd ei geffyl dano, ac anafwyd ef yn dost.
- 3.—Yn fuan wedi hyny tarawyd ef i lawr gan bols yn cerbyd yn ymyl y fynedfa i'r *Horse Guards*.
- 4.—Yn Nghalangauaf 1801, pan yn Ysgotland, cam-fesurodd pan yn ceisio llamu dros ffôs, ac ysigodd ei ffêr, a bu am rai wythnosau cyn gallu symmud. Yr oedd effeithiau y ddamwain hon yn weledig arno ar hyd ei fywyd.
- 5.—Torodd ei fraich drwy syrthio oddi ar ei geffyl yn Petworth ; ac etto, yn 1817, drwy ddymchweliad ei gerbyd : ac er gwaethaf pob meddyginiaeth, ni chafodd lawn wasanaeth ei fraich wedi hyny.

Yr oedd beunydd yn cyfarfod â damweiniau llai eu pwys, ac yr oedd eu hamledd, ynghyd â'r afiechyd trwm a ddioddefasai yn ei flynyddoedd diweddaf, yn achosi rhyw ammhenderfynoldeb yn ei symmudiadau, yr hyn, fe allai, i ryw raddau, a arweintodd i'r ddamwain olaf ac angeuol ar agoriad y llinell o Liverpool i Manchester.



wrth fodd calon Eldon ei hun, arch-Doriad ei oes, disgwyliai bellach, fel cryf arfog, y gallai gadw ei neuadd yn ddiogel, a phob un mewn heddwch o'i mewn, a chadw pob cynnydd a diwygiad allan o'r senedd hefyd. Ond daeth y pwngc o ryddfreniad y Pabyddion i wasgu ar wynt y weinyddiaeth yn galetach nag erioed. Cyfododd y teimlad cyffredin drosto mor uchel, mor gryf, mor benderfynol, fel nad oedd dim i'w wneyd ond naill ai troi o'r ffordd, trwy ymgilio o'r Llywodraeth, neu ynte plygu ac ymostwng i ddwyn y mesur hwnw yn mlaen eu hunain. Yr oedd yn gyfyng arnynt o'r ddeutu. Yr oedd yn anhawdd iawn ganddynt feddwl rhoddi eu swyddi i fyny, a rhoddi lle i'w hen elynion, y Whigiaid, i ddyfod i mewn. O'r tu arall, yr oedd yn anhawdd iddynt gynnyg gosod ger bron y senedd y mesur hwn o ddiwygiad, yr ymdyngasant laweroedd o weithiau ger bron y wlad i'w wrthwynebu a'i attal hyd yr eithaf—mesur y cyhuddasant bawb o'i bleidwyr bob amser fel gelynion a therfysgwyr eu gwlad a'i Llywodraeth. Yr oedd raid iddynt feddu ar wynebau o brês a chalonau o haiarn cyn y gallent gynnyg gwneyd y fath beth. Ond gwnaethant ef! Dewisasant y gwarth cyssylltiedig â'r gorchwyl yn hytrach na'r golled o ymadael o'u swyddau. Pan ddygodd y Llywodraeth fesur y rhyddfreniad i Dŷ y Cyffredin, traddododd Palmerston araeth rymus ac effeithiol iawn o'i blaid, a cheisiai amddiffyn y Llywodraeth am ei gymmeryd mewn llaw, gan ddadleu nad oedd o ddim gwarth iddynt dderbyn argyhoeddiad a newid eu golygiadau ar y pwngc hwnw mwy na rhyw bwngc gwleidyddol arall. Ond y gwir yw, nid oedd y gwŷr

wedi newid dim yn eu golygiadau ar y mater, ac ni chymmerent arnynt chwaith eu bod, ond cydnabyddent eu bod o'r un syniadau a chynt, ond bod angenrhaid yn cael ei osod arnynt gan lais a theimlad cyffredinol y wlad. Gan hyny, llawer anrhydeddusach fuasai iddynt roddi eu swyddau i fyny, a gadael i gyfeillion y mesur—y Whigiaid—ei gario allan. Gwnaethant eu hunain yn euog, yn ol fel y credent ac y llefarent bob amser, o ddwyn i mewn a chario allan trwy y senedd y fath fesur ag a ddymchwelai gyfansoddiad y ffurflywodraeth, ac a ddygai aflwydd ar y wlad mewn canlyniad. Argyhoeddedig oeddynt hwy nad oedd dim i'w wneyd ond cymmeryd y pwngc i fyny, neu roddi eu lleoedd i fyny; a dewisasant y blaenaf, gan fwyta a llyngcu eu hegwyddorion, eu hareithiau, a'u hymrwymiaidau oll.

Ond er i Palmerston geisio amddiffyn y gweinidogion yn wyneb y cyhuddiad o fradychu eu hegwyddorion yn achos y rhyddfreniad, ni ddaeth ef a hwythau byth i gymmod â'u gilydd, wedi i Huskisson ac yntau ymadael â'r weinyddiaeth, ond yn hytrach yr oeddynt yn ymbellhau fwy-fwy oddi wrth eu gilydd, yn enwedig ar bob cwestiwn o wleidyddiaeth dramor. Ymneshâodd at y Whigiaid o hyny allan. Yn ystod tymmor gweinidogaeth Wellington torodd rhyfel gwladol allan yn Portugal, rhwng y ddau frawd Don Pedro a Don Miguel. Mynai yr olaf hawlio yr orsedd yn lle merch ei frawd hynaf, Don Pedro, yr hwn oedd yn ymherawdwr y Braziliaid; hawliai yntau yr orsedd i'w ferch. Ewyllysiai Llywodraeth Wellington gydnabod hawl Don Miguel i'r orsedd; ac ar y

cwestiwn hwnw y daeth Palmerston allan fel gwrthwynebydd penderfynol i'r gweinidogion. Tarawodd ei araeth y Tŷ â syndod, gan na chlywyd dim tebyg iddi erioed o'r blaen ganddo mewn nerth a hyawdledd. Y mae y byd oll, meddai, yn echrydu at y Don Miguel hwn ; ac etto, yr oedd y dinystriwr hwn ar ryddid ac iawnderau dyn, y trawshônwr diegwyddor, gorthrymwr ei wlad, ymgeisydd am fywydau gwragedd di-amddiffyn—yr oedd yr adyn hwnw, yn marn holl Ewrop, yn ddyledus am hyny o lwyddiant fuasai ar ei achos, yn benaf oll, i'r gred gyffredinol fod Llywodraeth Lloegr yn edrych yn ffafriol arno ; ac nid oedd y Llywodraeth etto wedi ceisio gwadu hyny. Gwadaï nad oedd efe am i'r wlad hon ymyraeth trwy nerth arfau âg achosion a chwerylon mewdol teyrnasoedd eraill, ond dadleuai yn gryf y dylasai ein Llywodraeth amlygu mwy o gydymdeimlad â chenhedloedd gorthrymedig Ewrop yn eu hymdrechion dros eu hiawnderau nag a amlygid ganddi, a dywedai yn groyw fod y gweinidogion yn eu calonau yn dymuno llwyddiant Don Miguel, er na feiddient addef hyny. O hyny allan daeth Palmerston yn allu mawr yn y Tŷ. Anfynych y cymmerasai ran mewn unrhyw ddadl dros yr ugain mlynedd cyntaf o'i fywyd seneddol, ond yn unig yn y pethau a berthynent i'w swydd yn y weinyddiaeth dramor. Pwngc rhyddfrefiniad y Pabyddion a'i tynodd allan gyntaf i gymmeryd rhan gyhoeddus yn achosion gwleidiadaeth gartrefol. Yr oedd efe bob amser yn wrthwynebwr y gaethfasnach, ac o blaid diddymiad y gaethwasiaeth yn ynysoedd yr India Orllewinol, er nad oedd mor gyhoeddus felly yn y Tŷ ag oedd rhai aelodau eraill. Wedi iddo unwaith ym-

ollwng i gymmeryd rhan yn nadleuaeth achosion cartrefol cyffredin, daeth megys i deimlo ei nerth yn fwy-fwy, a pharodd i'w gyfeillion a'i wrthwynebwyr i feddwl yn uwch am dano fel gwladweinydd nag y tybient ei fod cyn hyny. Ni ddeuai un cwestiwn o bwys o flaen y Tŷ na lefarai efe arno wedi hyn.

Ni chafodd gweinyddiaeth Wellington fawr o lonydd a mwyniant, fel y gobeithient, wedi iddynt basio gwaredred y Pabyddion, canys yr oedd Arglwydd J. Russell yn codi y bwgan o ddiwygiad seneddol yn barhaus o'u blaen. Llwyddent i roddi y drwg ysbryd hwnw i lawr am y tro amrywiol weithiau, ond cyfodai drachefn a thrachefn, ac yn gryfach, gryfach bob tro; ac erbyn 1830, yr oedd wedi dyfod yn brif gwestiwn y dydd. Cyfododd y deyrnas ar ei thraed fel un gŵr drosto. Yn y flwyddyn hono bu farw y Brenin Sior iv., a daeth William iv. i'r orsedd. Nid oedd efe yn agos mor ammhoblogaidd a'i frawd. Iachawdwriaeth i goron a gorsedd Lloegr ydoedd marwolaeth y teyrn llygredig Sior iv. Yr oedd y wlad wedi ei syrffedu ar frenhiniaeth a brenin dan ei deyrnasiad ef. Edrychid ar William fel rhyw lwdn lled ddi-ddrwg ddi-dda; ond yr oedd teimladau dinasyddion Llundain mor gyffrous ar y pryd fel y cynghorodd y gweinidogion y brenin i beidio myned i'r Guildhall ar wahoddiad yr Arglwydd Faer a'r cynghor dinesig, fel yr oedd wedi addaw a bwriadu, am yr ofnent y gwnaethid ymosodiad ar ei berson. Parodd hyny siomedigaeth ddirfawr, gan i'r holl barotoadau drudfawr a wnaethid i'w dderbyn a'i groesawu fyned yn ofer. Trôdd hyn allan yn achlysur cwymp uniongyrchol i'r weinydd-

iaeth. Yr wythnos ganlynol gadawyd y gweinidogion yn y lleiafrif o un bleidlais ar raniad Tŷ y Cyffredin ar bwngc o bwys, a rhoddodd Wellington a holl aelodau y weinyddiaeth eu swyddi i fyny dranoeth. Yn awr, dyma ddydd y Whigiaid wedi gwawrio. Galwyd Iarll Grey i ffurfio Llywodraeth, yr hon a wneid i fyny o'r blaidd hono. Asiodd Palmerston â hi, a dodwyd ef unwaith etto yn ben yn y Swyddfa Dramor. Rhoddai Iarll Grey ar ddeall i'r brenin mai ar yr ammod iddo ganiatau iddo ddwyn mesur o ddiwygiad seneddol yn unig yr ymgymmerai ef â'r weinyddiaeth, â'r hyn y cyttunai ei fawrhydi. Yr oedd yr holl wersyll Toriaidd mewn berw a dychryn; cnöent eu tafodau gan ofid; ni welsent y fath amser o flinder a thrallod erioed o'r blaen; credent fod diwedd pob peth yn nesau. Penderfynent ymgnïo hyd yr eithaf i attal y trychineb ofnadwy. Safent hwy a gwlad wedi deffro hyd waelodion ei chalon wyneb-yn-wyneb; ond dysgwyd hwy yn fuan i deimlo cywirdeb yr hen wireb, "Trech gwlad nag arglwydd." Dygwyd y mesur o flaen Tŷ y Cyffredin, bu dadleuaeth danllyd arno rhwng y ddwy blaidd, yn yr hon y cymmerodd Palmerston ran fel pleidiwr iddo. "Yr oedd y cyfnewidiad yn nghyfansoddiad y Tŷ y gelwid am dano," meddai, "yn beth na ddylesid ei wneyd ond gydag ystyriaeth bwyllus. Pan y mae y cyfryw gyfnewidiad," fe chwanegai, "yn cael ei ofyn, nid gan goeg-areithwyr ar yr heolydd, fel yr haerai yr aelod anrhydeddus a anerchai y Tŷ ddiweddaf, ond gan ddynion ystyriol a phwyllus, dynion o wybodaeth a dylanwad, ac mewn sefyllfaoedd uchel a pharchus—pan y mae llais dynion felly yn galw yn uchel ac yn



barhaus am gyfnewidiad, ofer ydyw i ni geisio perswadio ein hunain nad oes rhyw wallau a diffygion gwirioneddol yn hanfodi, y rhai y dylai y senedd ymroddi o ddifrif ac yn ddioed i'w diwygio. Y mae y Llywodraeth, a'r wasg, a'r bobl yn cydolygu am hyn. Ië, yr wyf yn haeru fod y bobl yn gyffredinol yn galw am gyfnewidiad yn nghyfansoddiad y Tŷ hwn; ac y mae y ffaith ein bod ni yn eistedd ar yr ochr hon i'r Tŷ, a gwrthwynebwyd y diwygiad ar yr ochr acw, heb sôn am ddim arall, yn ddigon i brofi hyn."

Ond collwyd y mesur ar raniad y Tŷ, a dyfnhodd y teimlad cyffrous drosto yn mynwes y wlad. Dadgorphorwyd y senedd, a dodwyd gwŷs etholiad cyffredinol allan, yr hwn a gymmerodd le yn nghanol teimladau berwedig trwy y wlad oll. Ac er gwaethaf holl ymdrechion y Torïaid, dychwelwyd mwyafrif o'r blaid ddiwygiadol i'r senedd newydd. Cariwyd y mesur drwy Dŷ y Cyffredin, ond tafwyd ef allan o Dŷ yr Arglwyddi drwy fwyafrif o 41. Tafodd hyn y wlad drachefn i'r cyffro mwyaf, hyd nes oedd ar fin chwyldroad. Cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar yr achlysur yn Birmingham, yn yr hwn y bernid fod cant a hanner o filoedd yn bresennol—deuai cenhadwyr o bob cwr o'r deyrnas iddo; a chredid pe rhoddasai Iarll Grey ei swydd i fyny y buasai y deyrnas yn goelcerth o wrthryfel trwyddi oll. Addawai ef i'r bobl y ceid y mesur cyn hir, a llareiddiodd hyny lawer ar eu teimladau cynnhyrfus. Bu peth terfysg mewn rhai manau. Ymosodwyd yn sarhaus ar archesgob Caergaint pan oedd yn llywyddu mewn cyfarfod cyhoeddus y "Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth

Gristionogol," yn Croydon, ac ar esgob Bath a Wells pan yn cyssegru eglwys newydd yn un o drefydd ei esgobaeth. Gorfu i Syr C. Wetherell, un o wrthwynebwyr ffyrnicaf y mesur, pan oedd wedi myned i Bristol yn rhwysg barnwr i agor y frawdlys yno, hel ei daclau, a diangc am ei einioes oddi yno yn gynt na chynted ag y gallai.

Ar y 12fed o Ragfyr dygodd Arglwydd J. Russell ei fesur i'r Tŷ drachefn, gydag ychydig gyfnewidiadau arno. Pasiodd drwy Dŷ y Cyffredin. Ar y 26ain o Fawrth cyflwynid ef i Dŷ yr Arglwyddi; ac ar raniad y Tŷ, collwyd y mesur unwaith etto—yr oedd 35 o fwyafrif yn ei erbyn. Cynnhyrfodd hyn y wlad drachefn yn fwy nag o'r blaen; yr oedd yn awr yn addfed i ymdoriad cyffredinol. Rhoddodd Iarll Grey a'r gweinidogion eu swyddi i fyny. Anfonodd y brenin i alw Arglwydd Lyndhurst i ffurfio gweinyddiaeth newydd. Gwnaeth y cynnyg, ond torodd ei galon; yr oedd golwg rhy fygythiol ar wedd pethau; digalonodd, a chiliodd o'r neilldu. Gwnaeth y Duc o Wellington ei ymddangosiad ar heolydd Llundain ar ddydd blwydd-gylch brwydr Waterloo, ac o'r braidd y diangodd â'i einioes yn ysglyfaeth ganddo. Bu raid i'r Duc haiarn ei hunan—*the hero of a hundred fights*—droi ei gefn, a ffoi. Bu raid galw Iarll Grey drachefn at y llyw. Yr oedd y Torïaid wedi eu baeddu erbyn hyn, hyd nes nad oedd ynddynt na nerth na chalon i sefyll brwydr arall. Pasiodd Mesur y Diwygiad trwy y ddau Dŷ yn bur rwydd y tro hwn (yn 1832); ennillodd y wlad gyflawn fuddugoliaeth, gostegodd y cyffro, a bu tawelwch mawr.

Ymwrthododd Prifysgol Caergrawnt â Palmerston fel ei chynnrychiolydd, am iddo bleidio Mesur y Diwygiad. Syrthiodd yntau yn ol ar fwrdeisdref Bletchingley. Yn yr etholiad cyffredinol yn 1832, dychwelwyd ef i'r Tŷ dros South Hants. Collodd hono drachefn yn 1834. Etholwyd ef yn fuan wedi hyny dros Tiverton; ac yno y bu mwyach hyd ddydd ei farwolaeth.

Yr amser a ballai i ni olrhain holl helyntion ei fywyd prysur am y gweddill o'i oes, ond yn unig gwneyd ychydig o frâs grybwyllion o rai o'r pethau pwysicaf. Wedi i Iarll Grey roddi ei swydd i fyny, o herwydd henaint a llesgedd, yn Gorphenaf, 1834, ymgymmerodd Arglwydd Melbourne â'r dasg o ffurfio gweinyddiaeth newydd. Dadgorphorodd y Brenin William y Llywodraeth hono yn mis Rhagfyr canlynol, ac anfonodd am y Duc o Wellington, yr hwn a'i cynghorodd i alw Syr R. Peel, yr hwn oedd, y pryd hwnw, yn ymdeithydd yn Rhufain. Anfonwyd am dano adref allan o law. Uchel iawn oedd gobeithion y Torïaid, a mawr iawn oedd eu llawenydd yn awr. Cafodd eu prif wron y derbyniad mwyaf croesawus ganddynt. Ffurfiodd weinyddiaeth, ond yr oedd yn rhy lesg a gwan i sefyll ei thir; ymddattododd oddi wrth ei gilydd yn fuan. Adsefydlwyd Arglwydd Melbourne yn y brif weinyddiaeth drachefn, a dodwyd Palmerston yn ei hen swydd o Ysgrifenydd Tramor. Cafodd lonaid ei ddwyllaw o waith y blynyddau canlynol, canys amseroedd blinion ar amgylchiadau y gwledydd oedd yr amseroedd hyny. Gwyliai holl symmudiadau y llysoedd a'r teyrnasoedd

â llygad barcut. Yr oedd yn wastad mewn rhyfel diplomaticaidd â rhai o honynt, ac â'r oll o honynt yn aml gyda'u gilydd. Bu yn mesur ei alluoedd â Metternich, o Awstria; Talleyrand, Guizot, a Louis Philippe, o Ffraingc; Nesselrode, o Rwssia; yn achosion Twrci a'r Aipht, Yspañ, Portugal, a Switzerland; ac fel Saul, wedi cymmeryd y frenhiniaeth ar Israel, yn ymladd â'r Philistiaid, a meibion Ammon ac Edom, a Sobah; ac yn erbyn pwy bynag yr wynebodd, efe a orchfygodd. Felly yr ymladdodd yntau â diplomatyddion cyfrwysaf a galluocaf ei ddydd; ac yn y cyffredin, gorchfygodd hwynt oll, fel yr addefai Talleyrand—na fethodd Palmerston â llwyddo i ennill ei amcan mewn un pwngc a gymmerodd mewn llaw. Heb law yr ymosod a fyddai arno oddi allan, byddai pleidiau gartref yn chwerw yn ei erbyn yn aml, gan ei gyhuddo o fod yn ymyrwr prysur âg achosion na pherthynent iddo—ei fod yn cymmeryd rhyw gi gerfydd ei glustiau beunydd na byddai dim achos iddo gyffwrdd âg ef. Pa fodd bynag, ni ollyngai ef byth glustiau un ci yr ymaflai ynddo nes cyflawni ei ewyllys arno. Yn nghanol y cwbl, pan fyddai y gwrthwynebiadau tramor a chartrefol i'w fesurau gryfaf, ac amgylchiadau pethau fwyaf tywyll a gwngus arno, ymddangosai mor llon a'r fwyalchen, mor hoyw a'r brithyll, ac mor chwareus a'r oen yn Mehefin.

Ar un achlysur ymosododd Iarll Derby â'i holl nerth yn Nhŷ yr Arglwyddi ar weinyddiaeth dramor Palmerston. Yr oeddynt yn dra hyderus y gallasant ddisodli gweinyddiaeth Arglwydd J. Russell—efe

oedd y Prifweinidog ar y pryd—drwy gario pleidlais gondemniol ar yr oruchwyliaeth dramor. Llwyddodd Iarll Derby yn Nhŷ yr Arglwyddi. Parhaodd y ddadl yn Nhŷ y Cyffredin am bedair noson; ac un o'r dadleuon caletaf a fuasai yn y Tŷ hwnw erioed. Cymmerodd y siaradwyr galluocaf o'r ddwy blaid ran ynndi, a thynasant allan eu holl egnïon i'r eithaf. Amddiffynodd Palmerston ei fesurau mewn araeth a barhâodd am bedair awr, a chariodd y Tŷ o'i flaen megys â chorwynt. Cynnygiodd Mr. Roebuck, mewn attebiad i bleidlais yr Arglwyddi, benderfyniad yn galw ar y Tŷ i basio pleidlais gymmeradwyol o fesurau y gweinidog, y rhai a gondemnid gan y blaid arall. Cariwyd y cynnygiad trwy fwyafrif mawr—y mwyaf a gawsai y Llywodraeth ar un cwestiwn; a daeth Palmerston ar y pryd y dyn mwyaf poblogaidd yn y deyrnas. Ond yn y flwyddyn ganlynol rhoddodd ei swydd i fyny, er syndod cyffredinol, a chryn anfoddlonrwydd. Buwyd yn hir cyn cael allan yr achos a barai iddo ymgilio o'r swydd; ond o dipyn i beth deallwyd mai cymmeryd yn ei ben ei hun, heb ymgynghori â neb, i gymmeradwyo gwaith Louis Napoleon yn trawsgipio awdurdod y werinlywodraeth yn Ffraingc i'w law ei hun ydoedd yr achos. Tramgwyddodd hyny ei Mawrhydi Victoria a'r Tywysog Albert yn fawr, a'r Prifweinidog Arglwydd J. Russell yr un modd, a galwodd arno i roddi ei swydd i fyny. Yr oedd teimlad cyffredin y wlad hon yn yr achos hwnw o du y llys a'r Prifweinidog, ac yr oedd llawer o edmygwyr penaf Palmerston yn teimlo yn siomedig a dig wrtho. Haerai ef y ceid gweled yn y canlyniad mai y peth goreu i Ffraingc ei hun, a



heddwch Ewrop, oedd i ddyn call a galluog fel Louis Napoleon fod yn ben arni. A chaniatau hyny, nid oes fodd cyfiawnhau ei ymddygiad prysur ef, fel gweinidog yn Llywodraeth y wlad hon, yn rhedeg o hono ei hun o flaen pawb i gymmeradwyo a chyd-nabod y trawsder anfad hwnw. Y gwir yw, yr oedd efe mor wrthwynebus i werinlywodraeth ag ydoedd i unbenaeth. Hoffai ef weled holl Lywodraethau Ewrop ar ddelw Llywodraeth y wlad hon, yn gyfansawdd o frenin a senedd. Yr oedd y meddylddrych hwnw yn wastad ger ei fron, ac yn un o egwyddorion llywodraethol ei fywyd cyhoeddus. Ni chafodd gwerinlywodraeth Ffraingc, na'r werinlywodraeth a osodwyd i fyny yn Rhufain ar ol fföedigaeth y Pab yn 1848, ddim swcwr ganddo. Ymdrechodd yn egniol a llwyddiannus, y mae yn wir, i waredu Kossuth o grafangau Awstria pan oedd yn ymnoddwr yn Twrci.

Cafodd gyfle i dalu y pwyth i Arglwydd J. Russell yn fuan. Cynnygiodd welliant ar un o'i fesurau yn Nhŷ y Cyffredin, a chafodd bleidlais y Tŷ drosto, yr hyn a orfododd Russell i roddi ei swydd i fyny. Mewn canlyniad i hyn daeth Iarll Derby i awdurdod, ond ni bu ei dymmor ond bŷr. Palmerston, yr hwn a agorasai y drws i'w ollwng i mewn, a agorodd y drws i'w droi allan drachefn. Dygodd benderfyniad i'r Tŷ, er sicrhau egwyddorion masnach rydd. Safai Mr. Disraeli yn erbyn y penderfyniad; rhanwyd y Tŷ; cariodd Palmerston ei bwngc, a thafwyd y weinyddiaeth Doriaidd â'i gwadnau i fyny. Dilynwyd Iarll Derby gan Iarll Aberdeen, a gosodwyd Palmerston am y waith gyntaf yn y Swyddfa Gartrefol, yr hon a

lanwodd yn fedrus ac effeithiol iawn. Ymddangosai mor gartrefol gydag achosion cartrefol ag a fuasai bob amser gydag achosion tramor, yn groes i ddisgwyliadau a daroganau llawer o'i gyfeillion a'i wrthwynebwyr. Collodd gweinyddiaeth Iarll Aberdeen y dydd yn 1858, ar y cwestiwn o drafodaeth wleidiadol y Llywodraeth âg achosion China, a daeth Iarll Derby i mewn unwaith etto. Yn y flwyddyn ganlynol disodlwyd Iarll Derby etto, ar y cwestiwn o ddiwygiad seneddol. Yna, am y tro cyntaf, galwyd Palmerston i mewn i ffurfio gweinyddiaeth, yr hon a barhaodd yn gadarn hyd ei farwolaeth. Daroganai llawer etto, gan nad pa faint oedd ei gymmhwysderau i swyddau eraill yn y Llywodraeth, nad oedd yn meddu y cymmhwysderau i lenwi swydd y Prifweinidog. Profodd hollol gamsyniad y daroganwyr hyny. Erioed ni ddangosodd un Prifweinidog fwy o fedrusrwydd i arwain y Llywodraeth a'r Tŷ nag efe.

Daeth ei oes hir a llafurus i ben ; cymmerodd anwyd trwm afael ynddo wrth gymmeryd awyr yn ei barc, mewn cerbyd agored, ar ddiwrnod oer ; ac ar y 18fed o Hydref, 1865, bu farw, yn un a phedwar ugain oed. Claddwyd ef yn Westminster Abbey, mewn anrhydedd mawr. Ymunai pob plaid fel eu gilydd i dalu parch ac urddas i'w enw a'i goffadwriaeth. Er ei holl golliadau, yr oedd yn ddyn yr oedd ei wlad yn falch o hono, ys dywedai Syr R. Peel am dano, ac y câr hi yn wastad ei anrhydeddu.

Fel dyn yr oedd Arglwydd Palmerston wedi ei fendithio â chyfansoddiad cryf, iachus, yn lled dal a

lluniaidd o ran ei berson, yn bendefig trwyadl yn ei wisg, ei foes, a'i ymddygiad, yn addurn i'r cylch uchel y tröai ynddo. Yr oedd o dymmer naturiol lon a bywiog, a haelfrydig. Anfynych iawn y gwelwyd ef yn colli ei dymmer dda ar un achlysur. Daliai yr ymosodiadau trymaf a chwerwaf heb chwerwi ac ymddigio, ac ni ddangosai nemawr byth ysbryd ymddial ar ei wrthwynebwr pan gaffai gyfleusdra. Y gwrthwynebwr penaf a thrymaf i'w fesurau yn y Tÿ am lawer o flynyddau ydoedd Richard Cobden, yr hwn a'i triniau lawer tro gyda llymder miniog. Trôdd ar Cobden yn bur drwm unwaith wrth amddiffyn ei hun. Pan gyfeiriodd un o'i gyfeillion at yr amgylchiad, gan sylwi ddarfod iddo drin Cobden yn bur galed, "Wel," eb efe, "ni wnaethum ddim ond yr hyn a wna pob Sais, taraw gan drymed ag a allo pan yn amddiffyn ei hun, yr hyn a wna Cobden â minnau etto, mi a wrantaf." Dywedai Cobden, yn ei gystudd diweddaf, am dano:—"Lord Palmerston is a very generous enemy after all." Yr oedd yr hen wladweinydd yn falch iawn o gael y cyfryw dystiolaeth anrhydeddus am dano o enau y cyfryw ddyn anrhydeddus. Yr oedd yn meddu ar ryw allu, neu rywbeth, a'i gwnelai yn anhawdd i neb ddigio wrtho, er ceisio ; ac os digid byddai raid maddeu iddo yn union drachefn.

Yr oedd ei gariad at ei wlad, ei Llywodraeth, a'i sefydliadau, yn nodedig. Yr oedd gwneyd enw Prydain a'i Llywodraeth yn ofn ac yn arswyd yn mysg y teyrnasoedd yn bwngc mawr ganddo, i wneyd dylanwad ei henw yn ddigon o ddiogelwch i iawnderau Sais yn mha wlad bynag yr ymdeithiai. Dadl-

euai lawer yn nhymmor blaenaf ei fywyd cyhoeddus dros gynnilddeb treulion y Llywodraeth, ac yn erbyn ymyraeth yn rhyfelgar âg achosion teyrnasoedd eraill yn eu cwerylon. Ond bu goruchwyliaeth dramor y rhan olaf o'i oes yn dreulfawr iawn i'r wlad; mynai gadw galluoedd byddinol a llyngesol cryfion ar law bob amser, a pharodd dreulio miliynau lawer ar amddiffynfeydd arforawl. Ei athrawiaeth ef oedd, mai y ffordd oreu i ddiogelu heddwch oedd bod yn barod bob amser i ryfel, y byddai i'r wybodaeth o hyny beri na anturiai un gallu tramor ymosod arnom. Os cynnygiai un gallu tramor ddim tebyg i sarhâd ar faner Prydain Fawr, byddai dwrn cauedig Palmerston yn ddyrchafedig uwch ei ben yn union; a bu agos iddo lawer tro ennyn tân rhyfel rhyngom â'n cymmydogion. Gweithiai ei ffordd allan rywfodd o bob trybini yr elai iddo heb orfod ymostwng i wneyd esgusawd drosto ei hun i neb.

Cyfiawnder âg ef ydyw cydnabod ei fod wedi dangos ei hun yn gyfaill i'r gorthrymedig yn gyffredinol. Yr oedd ei lais yn ddyrchafedig yn y senedd, ac yn ei gynnadleddau â'r llysoedd tramor hefyd o blaid achos y bobl orthrymedig, ac yn erbyn eu gorthrymwyr. Yr oedd mor gased gan benaduriaid trawsion Rwssia ac Awstria, Italy a Napoleon, am dano ag am y gŵr drwg; ac, yn wir, ofnent ef yn llawer mwy nag yr ofnent y gŵr hwnw, na neb arall. Yr oedd gwerinoedd y gwledydd hyny, o'r tu arall, yn ei dra fawrhau; ond siomwyd disgwyliadau Hungary ac Italy ynddo, fel y dangoswyd. Achubodd ben talaethau Protestanaidd Switzerland, pan oedd y rhai Pabaidd,

yn cael eu cynnorthwyo gan L. Philippe, yn myned i ymosod arnynt i'w dwyn yn gaeth i ewyllys y Babaeth. Parodd i L. Philippe dynu ei gorn ato yn fuan. Collodd liaws o bleidleisiau aelodau Pabyddol yr Iwerddon yn y Tŷ am iddo ddadgan mai Llywodraeth ei Sancteiddrwydd o Rufain oedd yr un waethaf a welsai y ddaear erioed.

Ymdrechodd yn hir ac egniol i ddileu y gaeth-fasnach felldigaid oddi ar y ddaear. Cadwai longau i wyllo y porthladdoedd yn Affrica, lle y dygid y fasnach yn mlaen yn lladradaidd gan y Portugäaid a'r Yspañiaid. Haerwyd lawer gwaith nad oedd ei fesurau a'i longau yn ateb un dyben ond gosod traul afreidiol ar y wlad, ond distawyd yr achwynion hyny am byth drwy dystiolaeth y cenhadwr a'r teithiwr Affricanaidd enwog, Dr. Livingstone, yr hwn a ddywed fod gweinyddiaeth rymus Arglwydd Palmerton wedi bod o wasanaeth annhraethadwy i'r achos, ac y gallasai fod wedi gwneyd llawer mwy pe y cawsai ei gefnogi gartref fel y dylasai.

Yr oedd yn ffyddlawn a dianwadal fel cyfaill. Safai hyd y carnau dros swyddogion ei Lywodraeth, yn gartrefol a thramor, pan fyddai taraw arnynt. Amddiffynai hwy bob amser, pa un bynag ai ar yr iawn ai heb fod felly y byddent; a diau iddo redeg yn rhy bell y ffordd hono droion, ac iddo daflu aden amddiffynol rai gweithiau dros bersonau a gweithred-iadau ag yr oedd cyfiawnder cyhoeddus yn galw am eu ceryddu. Ond, beth bynag, anrhydedd i'w goffadwriaeth am sefyll mor wrol a thalgryf wrth gefn



Mr. Stansfeld pan wnaeth y Torïaid eu hymosodiad haerllug a brwnt arno o herwydd ei gyfathrach â Mazzini, ac nid oedd yn foddllawn i dderbyn y swydd o'i law ef pan y mynai ei chyflwyno iddo. Ond wedi cryn betrusder, derbyniodd Palmerston ei ymddiswyddiad.

Haerid lawer gwaith nad oedd byth yn ddifrifol ar un achos, ei fod yn trin pob peth megys â blaenau ei fysedd. Ond credwn fod hyn yn gam âg ef. Yr oedd sirioldeb a bywiogrwydd ei dymmer gyda phob peth, y rhwyddineb â'r hwn yr ymdriniai â phob achos, yn peri i lawer feddwl felly am dano. Gallasai ei fod yn llawn mor, ac yn llawn mwy difrifol na llawer un a gyfrifid felly—dynion o dymmherau naturiol trymaidd, ac wynebau pruddaidd, ac heb feddu yr hydwythder athrylith i drin achosion ag a feddai ef. Byddai yn ei le yn y Tŷ ar ei funyd arferol yn wastad, ac ni ymadawai hyd nes byddai gwaith y dydd drosodd. Cerddai ar ei draed o'r Tŷ i'w dŷ ei hun, encyd o ffordd, bob amser ac ar bob tywydd, a phob awr o'r nos a'r boreu, hyd nes oedd yn hen ŵr pedwar ugain oed, a threuliai oriau wedi hyn gyda'i baprau a'i *despatches* yn aml cyn myned i orphwys. Yr oedd yn bur gymmedrol mewn bwyta ac yfed. Ar achlysur gwledd yn ei balas nid llawer o'i gymdeithas gai y gwahoddedigion—ymneillduai yn fuan at ei baprau a'i orchwylion swyddogol. Yr oedd dyn fel hyn yn ddyn difrifol, yn ddiâu. Yr oedd bywyd fel hyn yn fywyd difrifol, beth bynag.

Gall y bydd rhai yn barod i achwyn ein bod yn

## Arglwydd Palmerston.

131

cymmeryd golwg rhy ffafriol arno ; dichon hyny, ond gwell genym gyfeiliorni i'r ochr rhy dyner nag i'r ochr rhy arw.

Dyma ni yn darfod âg ef. Am ei olygiadau crefyddol ni pherthyn i ni ddyweyd dim. Rhuthrodd aml i ysgrifenydd yn y newyddiaduron a'r misolion Saesnig, ac ambell i bregethwr yn yr areithfa hefyd, yn o bell i'r tir hwn, yn y naill ochr a'r llall. Beth bynag, yr oedd yn dda iawn genym weled tystiolaeth Iarll Shaftesbury, yr hwn oedd yn gydnabyddus iawn o'i nodwedd personol, a'r hwn oedd yn gwylio uwch ben ei wely yn ei ddyddiau olaf, a'r hwn, yn ddiâu, oedd yn gwybod oddi ar ei brofiad personol beth yw crefydd efengylaidd ac ysbrydol. Dywed ef ei fod yn hyderu yn gryf i Arglwydd Palmerston farw yn y mwynhâd o'r tangnefedd sydd uwch law pob deall.

# William Williams,

o

## Bant-y-celyn.



DDARLLENYDD! yr ydym yn mhresennoldeb gŵr mawr. Gadewch i ni dalu gwarogaeth iddo. William Williams, o Bant-y-celyn; neu yn nhafodiaith arferedig y genedl, "Yr hen Williams." Y mae swynyddiaeth yn yr enw; cyfoded yr oes Gymreig bresennol, a'r oesau a ddeuant hefyd, ger bron pen-wyni, a pharchant wyneb yr henafgŵr anrhydeddus. Hwn, er ei fod yn hen, sydd o hyd yn ieuangc; er wedi marw a thewi, yn fyw ac yn llefaru etto; ac ieuangc a fydd, byw a llefaru a wna, tra byw crefydd ac iaith y Cymry. Y mae "yr hen Williams," yn lle heneiddio, yn myned yn hytrach yn ieuengach, ac elfenau bywyd fel yn gryfach ynddo, na phan oedd peiriannau y bywyd naturiol yn cyflawni eu priodol swyddau. Ei ddylanwad ar y Dywysogaeth a gryfhâ fwy-fwy gyda threigliad amser, a chynnyddiant gwymbodaeth a chrefydd efengylaidd yn y tir. Clywir ei leferydd yn adseinio bob Sabbath o gannoedd o addoldai yn Nghymru. Esgyna mawl cynulleidfaoedd y saint yn "arogl-darth peraid, aberth cymmeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist," bob tro y deuant at eu gilydd, yn ei syniadau a'i ymadroddion ef—syniadau a genhedlid yn ei fynwes gan olygiadau efengyl-

aidd eang a mawreddog ar ogoniant person a gwaith y Cyfryngwr, ac a ferwid yn ei galon gan dân myfyrdod a phrofiad, nes yr ymdorent allan yn llifeiriant anorchfygol o hyawdledd sanctaidd. Yn ngwres yr hylif hwn y cynnhesir ac y toddir calonau a serchiadau Cristionogion ein gwlad yn barhaus, a'u geneuau a foliannant Dduw eu hiachawdwriaeth â gwefusau llafar, yn ysbrydoliaeth eu pêr ganiedydd. Y mae pob pennill yn mron fel gwefr-beiriant wedi y llanwer ef â'r hylif trydanawl; a phan osoder hen dôn Gymreig yn gludiedydd (*conductor*), tery y trydaniad nerthol gynnulleidfa gyfan ar unwaith i lesmeirglwyf. Ar olwg arall, ei ganiadau ydynt gyffelyb i afonydd o ddyfroedd bywiol yn llifo drwy y wlad er ei dyfrhau a'i ffrwythloni. Llawer pererin blin gan y daith, ac ar ddiffoddi gan syched, a yfa o honynt, nes y dychwela ei ysbryd ato, ac yr êl i'w ffordd yn heinyf a llawen. I lawer enaid drylliog, dan argyhoeddiad o'i euogrwydd a'i drueni, y defnynant olew a gwin iachäol yr efengyl. Dyferir ei bennillion gan y fam i feddwl ei baban gyda llaeth ei bronau, ac nid anfynych y gwelir y bychan yn gollwng y fron, ac yn bloesgio allan:—

“Mae'r iachawdwriaeth fel y môr!”

Y maent, gyda hyny, fel “y gwin goreu,” yn myned i waered yn felus, ac yn peri i wefusau y Cristion a fyddo yn huno yn yr angau lefaru. Ar ganol adrodd un neu arall o'i bennillion nefolaidd ef y cymmerodd llawer enaid dedwydd ei hedfaniad i ogoniant oddi rhwng bryniau Cymru. Cymmerai yr Hybarch Christmas Evans un o honynt yn ffon dan ei law pan yn rhodio glÿn cysgod angau; a chan daraw yr

134 Williams, o Bant-y-celyn,

Iorddonen â hi nes yr ymwahanai y dyfroedd yma ac acw, aeth drwodd yn droedsych. A dyma hi:—

“O! Gyfiawnder pur trag’wyddol,  
O! Gyfiawnder maith di-drai;  
Rhaid i’m henaid noeth newynllyd,  
Gael yn fuan dy fwynhau:  
Rho dy wisg ddisgleirwen oleu  
I guddio’m noethni hyd y llawr,  
Fel nad ofnwyf mwy ymddangos  
Yna, o flaen dy orsedd fawr.”

Fel hyn y mae ysbrydoliaeth “yr hen Williams” yn gorphwys ar y wlad. Yn nesaf at y Beibl ei ganiadau ef ydynt brif gyfeillion Cristionogion efengylaidd y genedl. *Bu*, ac *y mae* yn parhau i fod, yn offeryn daioni, hyfrydwch, a mwynhâd meddyliol ac ysbrydol, fwy na all tafod ei draethu, na chalon ei ddychymygu; a *bydd* yn fwy-fwy felly, fel y cynnyddo chwaeth feddylgar, a chrefydd efengylaidd yn y wlad. Llawer o aberoedd o

“Gariad pur, yn ddaagrau melus iawn,”

a wylwyd ac a wylir yn sŵn peroriaeth nablau ei awenyddiaeth. Dyna, ddarllenydd, rhyw frâs linelliad o ardeb y gwrthddrych yr ydym am ei osod o’th flaen, a’th wahôdd gyda ni i ddal cymdeithas ddifyr ac adeiladol, gobeithiwn, âg ef dros ychydig.

Priodol i’n natur ydyw awyddfryd ymofyngar am wybod cymmaint a ellir o hanes gwrthddrych a wnai ei hunan yn anwyl i ni drwy ryw ddaioni neu hyfrydwch neillduol a fwynhäom trwyddo; a diofalwch ynghylch y cyfryw a ddynoda ansawdd nodwedd na byddai mewn un modd yn deilwng o ddynoliaeth.



Yr ydym, fel cenedl, wedi bod yn euog o esgeulusdra mawr yn hyn. Pa le y mae hanes y cedyrn a fu wŷr enwog gynt yn y Dywysogaeth? Dynion yr oedd gwreiddiolder eu meddyliau mor gyfoethog ag ydyw daear ein gwlad o fŵnau a metteloedd; eu galluoedd deallol mor gedyrn a'r mynyddoedd; bywiogrwydd eu dychymyg yn gyfartal i'w golygfeydd amrywiaethol; a'u hyawdledd areithyddol yn rhagori ar odwrdd ei llifeiriant pan yn ymfwrw i lawr dros ochrau ei chreigiau uchel-gribog. Ond hanes eu bywydau, lawer o honynt, pa le y mae? O'r gwagle tlawd hwn yn llenyddiaeth ein gwlad, ettyb yr adsain, *Pa le y mae?* Nid oes nemawr ddim i'w gael, ond yn unig yr ychydig a gedwid mewn traddodiad, ac nid yw y rhai hyn ond marwydos a fyddont agos wedi llwyr ddiffoddi erbyn yr oes nesaf.\* Ar y cyfan, ymddengys y Saeson yn fwy awyddus i gael a chadw coffadwriaeth am wroniaid Cymru na'r Cymry eu hunain. "Fy mrodyr, ni ddylai y pethau hyn fod felly."

Un tra hynod yn mysg "y cedyrn a fu wŷr enwog gynt" ydoedd yr arwr sydd genym dan sylw, a galarus ydyw na buasai genym hanesiaeth manylach a helaethach o'i fywyd. O'r ychydig sydd ar gael dodwn, yn gyntaf dim, rai detholion. †

"Ganwyd William Williams yn 1717, yn Cefn-y-coed, yn mhlwyf Llanfair-y-bryn, yn agos i Landdyfri,

---

\* Gwasanaethodd y Parch. T. Charles ei genedl yn dda yn hyn, fel pethau eraill, drwy gyhoeddi byr hanesion am amryw o enwogion ein cenedl yn y *Drysorfa*.

† *Trysorfa*. Cyfrol II., tudalen 44. Bala, argraphedig gan R. Saunderson.

swydd Gaerfyrddin. Ei rieni, John a Dorothy Williams, oeddynt yn proffesu crefydd gyda'r Ymneillduwyr, ac mewn gobaith cariad yn bobl dduwiol. Ei dad, John Williams, oedd amaethydd gonest a pharchus. Enw ei fam, yn ferch ieuangc, oedd Lewis. Yr oedd ei gŵr yn llawer hynach na hi, ac a fu farw pan ei fab William ond ieuangc; ond ei fam, Dorothy, a fu byw i fod yn 95ain oed, ac a fu farw ond saith mlynedd o flaen ei mab. Brawd hynaf ei dad a fedyddiwyd gan y Parch. Rees Prichard, ficer enwog a duwiol Llanddyfri. Wedi i'w dad farw, pan oedd ei fam ynghylch 50ain, bu hi byw yn weddw hyd ddydd ei marwolaeth. Efe oedd y pedwerydd o chwech o blant, a'r unig un a dyfodd i oedran gŵr o dri o feibion. Ewythr iddo, o du ei fam, pan oedd ef yn ieuangc, a adawodd etifeddiaeth weddus iddo ef a'i fam. Gorphenodd ei ddysg mewn ysgol yn Llwynllwyd, yn agos i'r Hay, yn sir Frycheiniog, dan addysg un Mr. Powell, gweinidog yr Ymneillduwyr, o Maes-yr-onen. Yr oedd yr athrofa hon yn dra enwog yn y dyddiau hyny. Ei fwriad ef oedd bod yn feddyg, ac efe a astudiodd physygywriaeth yn ddyfal, a bu o les i lawer hyd ddydd ei farwolaeth trwy ei gyfarwyddiadau meddygol. Ond galwodd yr Arglwydd ef drwy ras, a llwyr ymroddodd i waith y weinidogaeth. Wrth ddyfod adref o'r athrofa, A.D. 1738, cafodd ei alw wrth wrandaw ar Mr. Howel Harris yn traethu ei genadwri bwysig ar ol y gwasanaeth yn mynwent Talgarth."

Dyna gymmaint a gawn o'i hanes o ddydd ei enedigaeth hyd ddydd ei ad-enedigaeth—o'r pryd y

gadawodd y groth hyd pan y gadawodd yr athrofa. Trueni i febyd ac ieuengctid athrylith mor ysblenydd fyned fel hyn ar ddifangcoll. Dïau fod llawer o bethau cyssylltiedig âg ysgogiadau perchenog meddwl o'r fath alluoedd, ysbryd o'r fath angerddol fywiogrwydd, ag y profodd ei fod pan dorodd allan i'r golwg cyhoeddus—fod llawer o bethau, meddwn, yn ei hanes boreuol a fuasent werthfawr, addysgiadol, a difyrus, pe ar gael. Gallwn fod yn dra sicr am un a ddisgleiriodd mor dra hynod wedi ei dröedigaeth fod pethau hynod ynddo cyn hyny, oblegid yr un oedd y dyn y pryd hyny; ac ond odid, pe y cawsem olwg ar ei fuchedd foreuol, o'i ieuengctid hyd y dydd pan lewyrchodd y goleuni o'r nef ar ei feddwl, na buasai gogoniant y gras a ddaeth i'w gyfarfod ar y ffordd yn ei ddychweliad adref o'r athrofa yn ymddangos yn eglurach a hynotach i'n meddwl. Oddi wrth yr ychydig hanes bras a rhwyd-dyllog uchod, gallwn gasglu iddo gael dygiad crefyddol i fyny o'i febyd, oblegid fod ei dad a'i fam eill dau yn proffesu crefydd gyda'r Ymneillduwyr (yr Annibynwyr, y mae'n debygol), ac eill dau yn gyfiawn a duwiol ger bron Duw, yn ol argoelion. Naturiol ydyw i ni feddwl, gan hyny, a chan iddo hefyd gael ei addysgiant mewn athrofa a arolygid gan weinidog Ymneillduol, nad oedd, fel llawer o'i gyfoeswyr tywyll, yn elynol a rhagfarnllyd yn erbyn crefydd a chrefyddwyr. Ond nid oes genym ond gwneuthur casgliadau dan ein dwylaw am hyn. Gan hyny, ymattaliwn, a dychwelwn yn ol i fynwent Talgarth.

Ar ryw foreu (Sabbath, y mae'n debygol), yn y

flwyddyn 1738, dyna sain cloch Llan blwyfol, mewn pentref neillduedig yn sir Frycheiniog, yn gwahodd yr ardalwyr i ymgynnull ynghyd i'r gwasanaeth crefyddol. Ymgynnulla lliaws at eu gilydd. Yn eu mysg dacw ŵr ieuangc tuag un-ar-hugain oed, o gorph lluniaidd, a thaldra canolig, ac ymddygiad mwy boneddigaidd na'r cyffredin, yn myned i mewn i le yr addoliad. Telir sylw mwy na chyffredin iddo. Y mae naill ai yn ddyeithr yn y lle, neu y mae newydd ddychwelyd i blith cydnabyddion wedi cryn absennoldeb. Craffwch arno! y mae rhywbeth yn ei wynebpryd a dynodiant ei lygaid a bâr i chwi deimlo rhyw fwy o ddyddordeb ynddo nag mewn unrhyw ŵr ieuangc arall drwy yr holl gynnulleidfa; ond ni wyddoch yn iawn pa beth ydyw chwaith—rhywbeth ydyw na ellwch roddi cyfrif am dano, ac na ellwch chwaith help i chwi eich hunan wrtho. Pâr i chwi yn awr ac yn y man, drachefn a thrachefn, daflu eich llygad arno bron yn ddjarwybod i chwi eich hun. Dyma y gweinidog yn dyfod i mewn, a'r gwasanaeth yn myned i ddechreu. Ar hyn, wele ŵr canol oed, lled fŷr o gorpholaeth, o agwedd ddifrif-ddwys anghyffredinol, yn dyfod i'r lle. Y mae pob llygad yn y synagog yn canolbwyntio arno. Cynnhyrfa yr olwg arno wahanol deimladau yn y gynnulleidfa, y rhai a ddadguddiant eu hunain drwy lygaid a delweddau wynebpryd y naill a'r llall. Ei ymddangosiad a dery fath o syndod ac arswyd drwy y lle. Y sylw a'r teimladau rhyfeddol a gynnhyrfid fel hyn drwy ei ymddangosiad a ennyn gywreinrwydd y gŵr ieuangc y buom yn edrych arno, a gofyna yn wylaidd a distaw i'r agosaf ato, "Pwy yw y gŵr rhyfedd hwn sydd yn ennill y fath sylw

cyffredinol ato?" Yr ateb ydyw, "Dyna Howel Harris!" Y mae meddwl a llygad y gŵr ieuangc yn y fan yn cael eu hoelio wrtho. Clywsai bethau rhyfedd am dano, ond ni welsai ef o'r blaen. Dyma y dyn hynod oedd yn aflonyddu y byd, ac fel yn gyru dynion a chythreuliaid i gynddeiriogrwydd, yn awr o flaen ei lygaid. Edrycha arno gyda gradd o ofn a chryndod.

Dyna y gwasanaeth ar ben, rhedasid drwyddo mewn dull sychlyd a marwaidd. Arweinir y gynnull-eidfa allan gan y gweinidog; ä ef yn mlaen gydag un neu ddau o'i blwyfolion tua'r parson-dŷ, ond erys y gynnull-eidfa ar y fynwent, ac ymgasgla eraill o'r pentref a'r wlad oddi amgylch atynt. Erys y gŵr ieuangc hefyd ar ol. Yn mhen ychydig, dyma y gŵr a welsom gynnu yn dyfod i'r llan yn esgyn ar gareg fedd, a phob llygad wedi adsefydlu arno. Y mae bywiogrwydd anghyffredin yn gerfiedig ar lygad a gwynebpryd y gŵr ieuangc yn awr. Dyna genad y nef yn agoryd ei enau. Y mae ei lais fel sŵn taranau cryfion, neu adsain dyfroedd lawer; disgyna ei eiriau fel tân poeth ar y bobl. Newidia lliw eu wynebpryd gyda phob ymadrodd. Ai yr un bobl a welwn yn awr ar y fynwent ag a welsom ychydig funydau o'r blaen o fewn y muriau yma? Ië, yr un bobl gan mwyaf ydynt, ond nid yr un yw y pregethwr. "Y mae hwn yn llefaru fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Gafaela rhywbeth yn meddyliau a chydwybodau y dynion yn awr, a bâr i'r cryfaf ei galon frawychu, ac i'r gliniau cadarnaf guro yn erbyn eu gilydd. Y maent fel pe byddai y



nefoedd yn gwlawio tân a brwmstan am eu penau. Llenwir rhai o gynddaredd yn erbyn y pregethwr a'i athrawiaeth; eraill a lesmeiriant dan bangfeydd o argyhoeddiad cydwybod; eraill a lefant allan, "Pa beth a wnawn ni?" Y mae yn gyffro cyffredinol: ond pa le y mae y gŵr ieuangc dyddorgar hwnw? Dacw efe â'i wyneb wedi gwynlasu, a'i holl gorph yn ysgwyd gan gryndod a braw. Y mae yn wir ddelw o ddychryn. Disgwylia bob moment weled Mab y dyn yn dyfod ar gymmylau y nefoedd—aeth ryw saeth loyw lem oddi ar fŵa athrawiaeth y gŵr sydd ar y gareg fedd acw i'w galon. Y mae cleddyf dau-finiog wedi ei drywanu hyd wahanriad yr ysbryd a'r enaid. Y mae ganddo olwg wahanol arno ei hun yn awr i'r hyn a fu ganddo erioed o'r blaen. Mewn gair, y mae yn ddyn newydd! Daeth allan o'r fynwent y boreu hwnw wedi ei greu o'r newydd. Am y tro hwn, medd yr hanes, canodd fel y canlyn yn ei farwnad i Mr. Harris:—

"Dyma'r boreu, byth mi gofia,  
 Clywais innau lais y nef;  
 Daliwyd fi wrth wŷs oddi uchod,  
 Gan ei sŵn dychrynlyd ef;  
 Ac er crwydro y dyrus anial,  
 Ol a gwrthol di-leshâd,  
 Tra bo anadl yn fy ffroenau,  
 Mi a'i galwaf ef yn dad."

Ië, boreu i'w gofio byth oedd hwnw hefyd iddo ef, ac i Gymru oll yn wir o hyny allan. Disgynodd yr hâd ar un dernyn o dir y tro hwnw a gynnyrchodd ffrwyth ar ei ganfed. Pe na buasai i weinidog-

aeth Howel Harris fod yn offerynol i ddychwelyd un enaid ond y gŵr ieuangc hwn, buasai o fendith annhraethadwy i'r Dywysogaeth. Ond dyna y cwbl a gawn yn yr hanes am y tro—hanes y ddalfa; ond pa hyd y bu ynnddi heb ei ollwng i ryddid yr efengyl, ni ddywedir i ni. Pa gyhyd y bu yn y dymmestl cyn dyfod i gysgod y "Gŵr sydd megys yn ymguddfa rhag y gwynt;" pa faint o ddyfroedd chwyddedig a aeth dros ei enaid cyn iddo ganfod cilfach â glân iddi, nis gwyddom. Pa un ai yn gyffelyb i *Plenopax* neu *Fenusta* yn "*Theomemphus*," y naill ond tua hanner awr, a'r llall tua deg a hanner o oriau, ar ol eu hargyhoeddiad, cyn mwynhau tangnefedd yr efengyl; ynte fel *Theomemphus* ei hun, "ryw ddeuddeg lloer ac un" yn ymladd am ei fywyd:—

"Anobaith yn ei lethu, ac weithiau gobaith gwan  
Yn 'maflyd yn ei ysbryd, a'i godi'n llesg i'r lan,"

ynte pa fodd y bu, ni allwn hysbysu; ond un peth a wyddom, mor sicr ag iddo gael ei ddal "wrth y wŷs oddi uchod, gan ei sŵn dychrynlyd ef," iddo hefyd rywbryd gael ei ollwng yn rhydd o afaelion euogrwydd a llywodraeth ei bechodau, a dychrynfeydd argyhoeddiad o'i gyflwr—i'r geiriau sydd

"——— fel y gwin,  
Oll o mewn yn dwyn tangnefedd  
Ag sydd o anfeidrol rŷn,"

dreiddio yn llais distaw main i'w fewn yntau, a pheri i bob lleisiau eraill

"Ddistewi a myn'd yn fud,"

ac i'r tangnefedd hwnw sydd "uwch law pob deall"

ei feddiannu a'i lenwi. Y peth nesaf a ddywed yr hanes am dano ydyw:—

“Urddwyd ef yn ddiakon yn yr Eglwys Sefydledig, A.D. 1740, gan Nicholas Claget, esgob Tŷ Ddewi, i guradiaeth Llanwrtyd a Llanddewi, Abergwesin. Gwasanaethodd y guradiaeth am dair blynedd, a phregethodd gydag ond ychydig lwyddiant i bobl dywyll ac anfoesol iawn. Pan oedd ynghylch deuddeg-ar-hugain oed, priododd Mary Frances, brodor o Llanfynydd, ac wedi hyny a drigodd yn Llansawel. Bu Miss Frances gyda'r Parch. Griffith Jones, yn Llanddowror. Yr oedd yn ferch synwrol, dduwiol; ac a fu yn wraig addas, serchog, a chysurlawn iddo ef holl ddyddiau ei fywyd.

“Yr oedd gofal yr Arglwydd am dano yn ymddangos yn fawr yn y fath rôdd iddo â gwraig gall, brydferth, ddoeth, dduwiol, fwynaid, a serchog. Dywedai, gyda llawer o ddifyrwch, iddo gael ei roddi yn llys yr esgob pan oedd yn gwasanaethu Llanwrtyd am bedwar-ar-bymtheg o bechodau y bu yn euog o honynt; sef, am beidio rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio, a pheidio darllen rhai rhanau o'r gwasanaeth, a'r cyffelyb bethau bychain di-bwys. Y Parch. George Whitefield, yn benaf, a'i hannogodd i adael yr Eglwys, a myned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau. Yr oedd yn gwasanaethu ei eglwys o Cefn-y-coed, deuddeng milldir o Llanddewi, Abergwesin. Yn y dyddiau hyny, yr oedd yn cadw gweddi deuluaidd dair gwaith yn y dydd, ac yr oedd ei holl ymarweddiad yn syml ac yn dduwiol yn gyfattedbol i hyny. Ni

chafodd erioed ei gyflawn urddau, fel y dywedant. Pallodd yr esgob ei urddo o herwydd ei afreolaeth yn pregethu yn mhob man, heb law yn yr eglwysi yn y plwyfau yr oedd yn gweinidogaethu ynddynt. Nid oedd yn cymmeradwyo yr afreolaeth hwn yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynndo, yr oedd yn ei barnu, ag y gallasai fod yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwylllog; ond gall Duw ddwyn ei amcanion i ben drwy ffolineb dynion; ac hwyrach mai fel yr oedd yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni ei amcanion doeth Ef. Wedi gadael, neu gael ei droi allan—nis gwn pa un yn iawn—o'r Eglwys Sefydledig, daeth yn gydnabyddus â'r Parch. Daniel Rowlands, yr hwn a fyddai yn dyfod yn achlysurol i bregethu i gapel Ystradffin, yr hwn sydd yn sefyll yn y plwyf lle yr oedd efe yn byw ynndo. O hyny hyd ei farwolaeth parhâodd i deithio trwy holl Gymru fel efengylwr, i draethu gwirioneddau Duw i drigolion tywyll y dalaeth yn mhob man lle y caffai neb i'w wrandaw. Parhâodd i wneyd hyny dros ynghylch hanner can mlynedd. Byddai yn gyffredin yn myned yn fisol i Langeitho i gynnorthwyo Mr. Rowlands i gyfranu y sacrament o Swper yr Arglwydd i'r tyrfaoedd lliosog iawn a fyddai o bob parth o Gymru yn dyfod i gymmuno. Parhâodd y brawdgarwch anwylaf rhyngddynt tra y buont byw, fel y gellir canfod wrth y farwnad a gyfansoddodd i'r gŵr hwnw ychydig cyn iddo ef ei hun farw. Pregethodd dros bymtheng-mlynedd-ar-hugain yn nghapel Llanlluan, unwaith bob mis, ac yn Nghaio a Llansawel dros yr un amser unwaith yn y mis; ond pan ymwelai âg eglwysi Gwynedd, neu ryw dro maith yn y Deheudir.

Nid ydwyf yn gwybod am ddim amrywiaeth neillduol yn ystod ei fywyd; ond yr oedd yn myned rhagddo yn gysson yn y llwybr hwn o ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth yn mhlith Methodistiaid Cymru, a chynnorthwyai yn Llangeitho yn fisol hyd ddydd ei farwolaeth."

Rhaid i ni bellach droi yn ol i adolygu ychydig ar y dernyn uchod. Gall ei urddiad gan esgob yn ddiakon yn yr Eglwys Sefydledig, ac yntau wedi ei ddwyn i fyny mewn athrofa Ymneillduol, ac heb iddo fod ddim erioed yn y brifysgol, nac yn un athrofa Eglwysig, fod yn syndod i rai o'n darllenwyr. Pa fodd bynag, cafodd yr esgob achos i edifarhau yn fuan am ei amryfusedd y waith hon, oblegid ni bu y llwdn barus hwn o gorlan Ymneillduaeth ddim tair blynedd yn ei gynnefin newydd nad oedd wedi cyflawni pedwar-ar-bymtheg o bechodau! Cafodd ei arglwyddiaeth y drafferth o geisio ei ddysgyblu a gosod llin-dorch arno; ond ymddengys ei fod mor galed a gwrthnysig fel y difyrai ei hun ac eraill hefyd drwy adrodd ei bechodau ei hun, a llafur ofer yr esgob druan i'w ddiwygio. Pedwar-ar-bymtheg o bechodau! Rhestr ddychrynlyd! A'r pechadur yn sôn gyda difyrwch am danynt! Mwy dychrynlyd fyth! Pechodau o'r fath natur, hefyd, fel y traddodid ef i lys yr esgob i gael ei geryddu o'u plegid! Pa bethau oeddynt, ddarllenydd, debygit? Meddwdod, godineb, dilyn rhedegfeydd meirch, dawnsiau, cardiau, gwledd-oedd annuwiol, a'r cyffelyb? Nagê! Yr oedd degau o weinidogion Eglwysig i'w cael ag oeddynt yn arfer pethau felly, ond nid oedd llys yr esgob mwy na llys



Galio yn gofalu am ddim o'r pethau hyn. Yr oedd pechodau ein gwrthddrych o arliw tywyllach, ac yn llawer mwy ysgeler na'r pethau uchod. A dyma hwy—peidio a rhoddi arwydd y groes wrth fedyddio! gadael heibic rai darnau o wasanaeth y *Llyfr Gweddi Gyffredin*, &c. Och! och! Ië, ië, dyma y pechodau ofnadwy y bu yn euog o honynt. Beth fuasai troseddu rheolau a gorchymynion pendant yr Ysgrythyrau wrth y gwaith o redeg yn uniongyrchol fel hyn yn y gwrthwyneb i osodiadau pendant y *Llyfr Gweddi Gyffredin*. Yr ydym yn dychrynu wrth feddwl am y pechadur a gyflawnai bedwar-ar-bymtheg o bechodau fel hyn, ac yn neillduol pan ddywedir wrthym y soniai am danynt gyda difyrwch wedi hyny drwy ei oes. Ond cafodd yr esgob yntau gyfleusdra i roddi swmbwl yn nghnawd y bustach hwn, na fynai ei gynnefino â'r iau, drwy wrthod rhoddi ei gwbl urddau, fel y dywedant, iddo, "o herwydd ei afreolaeth (un o'r pedwar-pechod-ar-bymtheg ond odid) yn pregethu yn mhob man heb law yn yr eglwysi yn y plwyfau yr oedd yn gweinidogaethu ynddynt." Cymharwch am funyd ymddygiad yr esgob (ac esgobion yn gyffredin dan y cyffelyb amgylchiadau), â gorchymyn pendant "Bugail ac Esgob" eneidiau dynion i'w weinidogion ef. "Ewch i'r prif-ffyrdd a'r caeau, a chynnifer oll ag a gaffoch, cymmhellwch hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ." "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." "Nid felly," medd ein hesgob hwn wrth ei ordeiniedigion, "nac ewch i un man allan o'ch plwyf, neu eich plwyfau pennodol eich hunain; ac os ewch, cewch deimlo fy anfodlonrwydd." Ar ba un o'r

ddau esgob y dylid gwrandaw? Y mae gorchymyn y naill yn taraw yn uniongyrchol yn erbyn yr eiddo y llall. Dywedai apostol, dan amgylchiadau cyffelyb, "Ai cyfiawn yw ger bron Duw wrandaw arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw? bernwch chwi." "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."

Darfu "i'n heglwys, ar iawn a dwys ystyriau yn ei chymhell i hyny," yn ddiammheu, ac nid trwy "ddefosiwn anisbwyll," drefnu hanner bedydd Cristionogol, a hanner urddiad gweinidogaethol. Y drefn hon (yn gystal ag eraill o'i chyffelyb), "nid eiddo y gwerin ei happwyntio;" ac am hyny, ni ddylai neb o'r bobl "gymmeryd arnynt, na rhyfygu, na threfnu, na newid, un osodedigaeth gyhoeddus neu gyffredin o fewn eglwys Crist, ond y sawl a awdurdodir yn gyfreithlawn i hyny." Yr ydym, heb gymmeryd arnom ryfygu, trefnu, na newid yr osodedigaeth dan sylw, na chwaith "wneuthur rhuthrau rhychwyllt i'w herbyn," yn barod i ddadgan ein bod yn methu gwybod pa fodd y gall ddigwyddo yn amgen na bod hanner ad-enedigaeth, hanner olyniaeth apostolaidd, a hanner nefoedd, &c. Ni all hanner bedydd fod yn amgen na hanner ail-enedigaeth, na hanner urddiad yn amgen na hanner olyniaeth. Os ydynt, i ba beth y mae yr hanner arall da? Os nad ydynt, beth a ddaw o'r hanner bedyddiedig a fyddo marw felly yn hanner ail-anedig? Gallwn feddwl na chyrhaedda byth ragor na hanner y ffordd i'r nefoedd. Hwyrach y gallai awdwr *Y Flwyddyn Eglwysig* roddi goleuni ar y pwngc. Gwaith Puseyaid ac uchel-Eglwyswyr ydyw cyssoni ac egluro dirgeledigaethau dyfnion fel hyn, ac

nid ein gwaith ni. Gadawn ef iddynt, a dychwelwn.\* Hanner apostoliaethiad a gafodd Williams, druan! a hyny o herwydd fod gormod o ysbryd apostol ynddo. ac o ddelw apostol arno, gan yr elai allan, fel yr apostolion gynt, i bregethu yn mhob man. Gwrthodai y Panwr yn Mhandy Tŷ Ddewi orphen ei waith arno, ac yn hanner pan y cafodd fod.

Ond y mae yr ymadrodd nesaf yn yr hanes yn ein synu, ac yn ein gofidio. "Nid oedd yn cymmeradwyo yr afreolaeth hwn yn ei feddwl yn ol llaw dros ei holl fywyd. Gweithred fyrbwyll ynddo yr oedd yn ei barnu, ac y gallasai fod yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwyllog." Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn. Ai nid oedd yn cymmeradwyo ei ufudd-dod i orchymyn pendant ei Feistr Mawr? Yma, er ein holl bleidgarwch tuag at ein gwron, yr ydym bron yn cwmpo allan âg ef. Pa fodd yn y byd y gallasai anghymmeradwyo yr ymddygiad hwn fel byrbwylledd annoeth, ac y gallasai dybio y buasai yn fwy defnyddiol pe buasai yn fwy araf a phwyllog, pan oedd gorchymyn pendant ei Feistr nefol yn ei alw allan, a phan oedd Cymru yn dyddfufu gan newyn am fara y bywyd? Ai amser i dewi â sôn ydoedd y fath amser a hwn? Ai callach, doethach, a gwell ydoedd manwl ofalu am gadw a dilyn trefn, gosodiadau, ffurfiau, a chanonau, awdurdodau o sefydliad dynol,

---

\* Hyderwn y gwel y darlennydd nad ydyw y sylwadau uchod yn cyfeirio at y gweinidogion gwir efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig, oblegid nid ydynt hwy yn dal fod bedydd yn ail-eni, na bod olynid apostolaidd yn cael ei drosglwyddo trwy urddiad esgobawl.

pan oedd eneidiau o amgylch yn mhob man yn marw o eisieu gwybodaeth? Ha! nid oeddym yn barod i gyfarfod âg ymadroddion fel hyn. Disgwyliasem ei glywed yn gorfoleddu yn hwn yn fwy na'r deunaw pechodau eraill hyny—y buasai ei feddwl yn edrych yn ol arno gyda chymmeradwyaeth drwy ei oes. O'r tu allan i'r porth, ar fynwent Talgarth, y dychwelwyd ef trwy ras; a diau mai o'r tu allan i wersyll y grefydd wladol y mynasai yr Hwn a'i galwodd yno iddo fyned, "gan ddwyn ei waradwydd Ef." Pe buasai iddo ef, ac eraill o dadau y Diwygiad yn Nghymru, aros i wrandaw ar reswm cnawdol, ymgynghori â chig a gwaed, a thrigo o fewn cylch sefydlog, ni buasai Methodistiaid Calфинаidd i'w cael yn y dalaeth heddyw, na'r diwygiad y buont yn offerynol i'w gychwyn a'i daenu drwy y wlad erioed wedi cymmeryd lle. Ond pa fodd y gallasai yr hen dad hybarchus anghymmeradwyo yr ymddygiad hwn yn gysson â'i syniadau dadganedig ei hun mewn perthynas i'r un ymddygiad yn eraill? Am y Parch. Griffith Jones, periglor Llanddowror, y dywed yn ei farwnad i Howel Harris:—

"Gan nad oedd ei foreu ond tywyll,  
Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,  
Fe arswydodd fyn'd i'r meusydd,  
Ac i'r lleoedd nad oedd Llan."

Drachefn, am Mr. Harris:—

"Yntau, Howel, heb arddodiad  
Dwylaw dynion o un rhyw,  
Na chael cenad gan un esgob  
Ag sy'n llawer llai na Duw;

Fe bregethodd yr efengyl  
 A'i hanfeidrol ddwyfol 'stôr,  
 O derfynau Hafren dawel,  
 Obry i'r Gorllewin fôr."

*Tywyllwch a gwendid ffydd* Griffith Jones a'i cadwai heb fyned allan i'r "*meusydd, ac i'r lleoedd nad oedd Llan.*" Ond afreolaeth a byrbwylldra ynddo ef ei hun oedd gwneyd hyny. Gogoniant Howel Harris ydoedd iddo dori allan a phregethu yr efengyl o derfynau yr Hafren i fôr y Gorllewin, heb ofyn "cenað gan un esgob" i wneyd hyny, yr hyn beth y gwyddai yn dda na chawsai byth pe gofynasai. Ond byrbwylledd beius ynddo ef ydoedd iddo fyned allan felly, a pheidio gofalu am ryngu bodd yr esgob. Mr. Charles, yn ei sylw ar hyn, a ddywed:—"Ond gall Duw ddwyn ei amcanion i ben trwy ffolineb dynion; ac hwyrach mai fel yr oedd yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni Ei amcanion doeth Ef." Os felly yr oedd yn fwyaf addas i gyflawni Ei amcanion Ef, dywedwn ninnau mai felly oedd addasaf, doethaf, a goreu iddo yntau wneyd ynte ar bob cyfrif. "Nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth;" felly nid trwy ewyllys y cnawd, a thrwy yr hyn a ystyria rheswm dynol yn ddoethineb a gweddeidd-dra, y daeth un diwygiad i'r byd erioed. Yr oedd Pedr yn gwneyd yn fyrbwyll ac anweddaidd iawn yn marn hyd yn oed yr Iuddewon ag oeddynt Gristionogion, yn ei waith yn myned at y Cenhedloedd i dŷ Cornelius; ac nid dim llai na gweledigaeth o'r nef a'i perswadiai ef ei hun o weddusdra y peth. I gychwyn a dwyn yn mlaen bob diwygiad y mae yr Arglwydd yn trefnu ac yn



goruwch-lywodraethu amgylchiadau i ddyfod i wasgu yr offerynau etholedig ganddo i'r gwaith i ymaflyd ynddo, bron yn ddiarwybod, ac weithiau bron heb yn waethaf iddynt eu hunain. "Hudaist fi, a mi a hudwyd," medd Jeremiah, "cryfach oeddit na mi, a gorchfygaist." Ymadroddion a allai pob gwir ddiwygiwr yn mron eu cymmhwysu ato ei hun.

Arosasom yn hwy ar y mater hwn nag oeddym yn fwriadu; gadawn ef bellach; ond cyn i ni fyned yn mlaen, rhaid i ni ysgwyd dwylaw mewn adgymmodiad wedi yr ychydig ymrafael a fu rhyngom, ac addawn na bydd i ni ymryson â'n gilydd ar y ffordd ond hyny. Yn ei farwnad i Howel Harris darfu iddo yntau unwaith gwympto allan âg ef yn mherthynas i'r ymraniad a gymmerasai le rhyngddo a'i frodyr, a'i waith yn adeiladu yr ysbytty grefyddol yn Nhrefecca:—

"Pa'm y treuliaist ti dy ddyddiau  
 I wneuthur rhyw fonachdy fawr,  
 Pan y tynodd Harri frenin  
 Fwy na mil o'r rhai'n i lawr?  
 Dïau buasit hwy dy ddyddiau,  
 A melusach fuasai 'nghân,  
 Pe treuliasit dy holl amser  
 Yn nghwmpeini'r defaid mân.

"Ond mae pawb yn maddeu heddyw—

\* \* \* \*

"Na 'scrifener mwy ei bechod,  
 Na choffhæer am ei fai,

Croeswyd llyfrau'r nef yn hollol—  
Pa'm caiff rhagfarn dyn barhau?"

Wel, ni soniwn am yr amryfusedd mwyach. Wedi gadael yr Eglwys Sefydledig, neu gael ei droi allan (ni wyddai ysgrifenydd ei hanes pa un), daeth i gydnabyddiaeth â'r hen seraph tanlyd, Daniel Rowlands, o Langeitho, a pharasant i gyd-lafurio mewn cariad ac anwyldeb mawr o hyny hyd ddiwedd eu hoes.

“Y Gymdeithasfa gyntaf yn mhlith Methodistiaid Cymru (medd yr hanes), a gynnaliwyd yn nhŷ Jeffrey Dafydd, o'r Rhiwiau, yn mhlwyf Llanddeusant, swydd Gaerfyrddin. Yr oedd yn breŷennol yn y cyfarfod hwn Mr. Howel Harris, y Parch. Daniel Rowlands, y Parch. W. Williams, a dau neu dri o gynghorwyr. Dywedir i Mr. Harris, mewn cymmanfa foreu wedi hyn, annog pawb ag oedd yno i gyfansoddi ychydig o brydyddiaeth, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi dawn prydyddiaeth i un o honynt, a phwy oedd hwnw. Felly gwnaethant! Ac wedi iddynt i gyd ddarllen eu cyfansoddiadau, penderfynwyd yn gyttûn mai Mr. W. Williams a gafodd y dawn godidog hwn; ac annogodd Mr. Harris, a phawb eraill, iddo ei harferyd er gogoniant Duw, a lles i'w eglwys.”

Hanes arall a ddywed ddarfod i Mr. Harris dori allan, wedi i bob un o'r brodyr ddarllen ei gyfansoddiad, a dywedyd:—“Williams pïau'r canu.” Yma etto ni allwn ymattal heb ysgoi am funyd oddi ar ein

llwybr uniongyrch, i ddyweyd gair neu ddau yn mherthynas i Mr. Harris. Ymddengys i ni nad ydyw coffadwriaeth y gŵr hwn erioed wedi cael cyfiawnder gan Gristionogion Cymru. Hwyrach nad oes un o dadau y diwygiad yn ein gwlad ag y mae hi o dan gymmaint o rwymedigaethau i anrhydeddu ei goffadwriaeth ag efe. Efe oedd y cyntaf a dorodd yr iâ yn yr oes hono, gan roddi ei einioes yn ei law, a throï allan i bob man; yn ddiystyr o hen ffurfiau, dygiad i fyny rheolaidd, ac ordeiniad esgobawl, ymaflodd yn y llen ddudew o dywyllwch oedd yn cysgodi y tir, ac wedi ei wisgo â nerth o'r uchelder, rhwygodd hi yn ddwy, nes yr ymdywalltodd ffrwd o oleuni i mewn ar y wlad. Dilynwyd iddo ef oedd y lleill, "yn ol y gras a roddwyd iddo, megys pen saer celfydd," efe a osododd i lawr sylfaen y diwygiad, a daeth y lleill yn gyd-weithwyr grymus a ffyddlawn i oruwch-adeiladu. Yr oedd wedi ei gyfaddasu yn hynod at y gwaith o ysgwyd a deffroi gwlad o ddyinion.

"Can's trwmgwsg oedd fel diluw yn llanw'n lân,  
Yn y dydd cyhoeddodd Howel i fod Nine'n myn'd  
ar dân."

Yr oedd nid yn unig yn ŵr o ysbryd gwrolfrydig, a di-droi-yn-ol, ond, hefyd, fel yr ymddengys oddi wrth y crybwyllion am dano gyda'i frodyr yn y cymmanfaoedd, yn ŵr doeth, â'i lygaid yn ei ben. Meddai gymmhwysderau nid yn unig i dori y safle i'r adeilad, ond i fod hefyd yn gyfarwyddwr yn nygiad yr adeiladaeth yn mlaen—yn ŵr galluog mewn cynghor, yu gystal ag mewn gweithred. Yr annogaeth i'r brodyr i gyfansoddi emynau erbyn y gymmanfa nesaf

ydoedd "*a happy thought*," chwedl y Sais. Oni buasai yr annogaeth hwnw, hwyrach na chawsai Cymru ei bendithio â chaniadau ei "hen Williams." Gallai nad oedd ef ei hun erioed cyn hyn wedi meddwl am y llwybr hwn o wasanaethu ei Dduw a'i bobl, a gallai na buasai byth chwaith yn meddwl am hynny oni buasai yr annogaeth hwnw. Yr ymadrodd tarawgar hwnw, hefyd, o eiddo Mr. Harris:— "Williams piau'r canu," wedi darlleniad y cyfansoddiadau, a brawf fod Mr. Harris yn ŵr o farn a chwaeth. I'r annogaeth cyntaf, a'r gefnogaeth ganlynol, fel moddion offerynol, yr ydym yn ddyledus, ond odid, am holl gynnyrchion digymmhar ein bardd. Bu Mr. Harris fel hyn yn offeryn i'w ddwyn o dywyllwch i oleuni, ac hefyd i dynu ei enaid allan, fel y dylifodd afonydd o ddwfr bywiol o'i groth ef. Da genym fod y Methodistiaid wedi prynu ac adgyweirio yr hen "Fynachlog fawr" a adeiladid ganddo i fod yn feddiant i'r enwad, ac at ei wasanaeth i feithrin gwŷr ieuaingc at waith y weinidogaeth. Awgrymem yn wylaidd mai teilwng fyddai i'r athraw parchus a'r myfyrwyr dan ei ofal yn Nhrefecca feddwl am ryw gynllun er anrhydeddu coffadwriaeth mor dra haeddiannol a'r eiddo Mr. Harris. Codir colofnau uchel er coffadwriaeth am rai a wnaethant eu hunain yn hynod ar faes y gwaed; a sonir yn awr yn Lloegr am golofnau coffadwriaethol i Watts, a Bunyan, ac eraill. Pa ham y byddwn ni yn Nghymru yn fwy hwyrfydig nag un genedl i ddwyn tystiolaeth er anrhydedd i goffadwriaethau y rhai y mynai Duw eu hanrhydeddu drwy eu codi a'u defnyddio mor dra hynod i fendithio y wlad? Diau pe y cymmerai yr athraw a'r myfyrwyr yn

Nhrefecca y peth mewn llaw, a gosod rhyw gynllun i'r perwyl ger bron y wlad, na byddai Methodistiaid, a chyfeillion crefyddol o enwadau eraill, yn ol o gefnogi a chynnorthwyo. Y mae llawer o wroniaid yr oes ddiweddaf yn dra theilwng; ond yn ein bryd ni, Harris ddylai gael y flaenoriaeth.

Ond rhaid i ni dynu yn mlaen, er y teimlwn yn anewyllysgar iawn, rhag i ni drethu amynedd y darllenydd yn rhy drwm. Yn yr ymraniad gofidus a dorodd allan rhwng Harris a Rowlands gadawodd Williams ei dad (Harris), a glynodd wrth ei gyfaill (Rowlands). Barnent hwy fod Harris yn gŵyro at Sabeliaeth, ac yn arfer ymadroddion ammhriodol am farwolaeth y Cyfryngwr; megys, "fod Duw wedi dioddet a marw," &c. Ymddengys i'r ymraniad hwn effeithio yn niweidiol iawn ar grefydd yn gyffredinol; diffoddodd dân y diwygiad, a rhwygodd yr eglwysi ieuaingc ar hyd y wlad yn chwilfriw. Y mae yn hynod yn hanes pob diwygiad, agos, fel y mae yn fuan wedi ei gychwyniad yn cael ei lethu â'r aflwydd o ymraniad. Anghyttunodd blaenoriaid y diwygiad cyntaf erioed yn mysg y Cenhedloedd, er eu bod yn apostolion, a "bu cymmaint cynnhwrf rhyngddynt fel yr ymadawsant oddi wrth eu gilydd." Anghyttunodd tadau y diwygiad Protestanaidd ar y Cyfandir â'u gilydd, fel yr ymadawodd Luther a Zuinglius yn hollol y naill â'r llall; felly Whitefield a Wesley yn Lloegr, a Harris a Rowlands yn Nghymru. Y cynnhwrf a barodd ymraniad rhwng Paul a Barnabas ydoedd fater personol, ynghylch dyn, neu ddau ddyn. Mynai Barnabas gymmeryd Marc, ei nai, fab chwaer,



gyda hwynt, "ond ni welai Paul yn addas gymmeryd hwnw," ond dewisai Silas yn gydymaith. Yr ymraniad rhwng tadau y diwygiad Protestanaidd ydoedd yn nghylch y sacrament o Swper yr Arglwydd. Yr oedd peth o surdoes traws-sylweddiad yr Eglwys Babaidd wedi ei ddwyn gan Luther yn nghŵr ei wisg allan o honi, a mawr y drwg a wnaeth. Whitefield a Wesley a anghyttunent ar "y pum pwngc," a Harris a Rowlands a ymrysonent ynghylch geiriau, hwyrach, yn fwy na dim arall. Ond y "mae pawb o'r brodyr" hyn heddyw yn "holl-iach a chyttŷn," ac "heb neb yn tynu'n groes." Gweled yr oeddynt y pryd hyn "mewn drych—mewn dammeg," ond yn awr "wynebyn-wyneb." Ond rhaid i ni frâs-gamu yn mlaen.

Am dano fel pregethwr, dywedir:—

"Yr oedd ei ddoniau areithawl yn helaeth, ei bregethau yn efengylaidd, yn brofiadol, ac yn felus—yn chwilio i mewn i gau athrawiaethau a gau brofiadau, ac yn gwahaniaethu yn fanwl rhwng gau a gwir ysbryd. Yr oedd ei ddychymyg yn gryf, ei lygad yn graff a threiddgar, a llawer o ddylanwadau nefol ar ei ysbryd wrth weinidogaethu yn gyhoeddus, ac yn ei ymddiddanion â dynion am fater eu heneidiau yn y cymdeithasau neillduol." Dywedai Iarlles Huntingdon am dano, *nad oedd gan Gymru un gwr mwy, ac ystyried pob peth, i ymffrostio ynddo.* Ar ei dymuniad hi cyfansoddodd lyfr bychan o hymnau yn Saesneg; teitl hwnw ydyw, "*Gloria in Excelsis*" ("Gogoniant yn y goruchafion"). Cyfansoddodd lyfr bychan arall o emynau yn Saesneg, a elwir "*Hosannah to the Son of David.*"

Y disgrifiad o hono fel pregethwr sydd yn gyfryw ag a ddisgwyliasem. Y dystiolaeth am ei bregethau a gyfatteba yn gymmhwys i'r pregethau a esyd ef yn ngenau *Evangelius* yn "*Theomemphus*." Os cyfansoddai ac os traddodai ei bregethau ei hun yn gyffelyb i'r rhai hyny, yr oeddynt yn wir yn efengylaidd a melus, yn ireiddiol a dylanwadol, "fel gwlyth gwlaw ar îrwellt, ac fel cawodydd ar laswellt." Clywsom y dibynai lawer ar yr "hwyl" wrth draddodi, a hawdd genym gredu hyny. Adroddid i ni chwedl am ymddiddan a fu rhyngddo unwaith â'i gyd-lafurwr hybarchus, Mr. Peter Williams, ynghylch pregethu. "Am danat ti, Peter," meddai wrth ei gyfaill, "gelli fyned trwyddi yn burion, pe byddai yr Ysbryd Glân yn America, ond ni allaf fi wneyd dim yn y byd o honi, os na bydd ef yn fy ymyl." Clywsom lawer gan rai a'i cofient yn dda am ei graffder neillduol yn y cymdeithasau eglwysig i chwalu at wreiddiau cyflyrau proffeswyr, ac i ddwyn i'r goleu ddirgeloedd y galon; ac y mae y dawn a'r craffder yma i'w gweled yn nodedig yn yr ymddiddan rhwng *Dr. Alethius* a *Theomemphus* yn y llyfr hwnw.

"Nid llawer (medd yr hanes), a oddefodd o erledigaethau o herwydd crefydd. Adroddai yn aml am un tro a fu arno yn rhyw le yn Ngwynedd. Yr oedd wedi ei gyhoeddi i bregethu mewn tafarn-dŷ. Ar yr amser gosodedig, daeth gŵr bonedig a bygylwyr gydag ef i'w erlid. Y tafarnwr a'i gwisgodd â'i ddillad ei hun, er iddo gael diangc yn an-adnabyddus iddynt. Wedi iddo ddyfod i'w plith, heb neb yn ei ammheu, daeth yr Ysgrythyr hono

gyda'r fath effaith i'w feddwl, 'Pwy bynag a'm gwado i ger bron dynion,' &c., fel y gorfu iddo fyned yn ei ol, a gwisgo ei ddillad ei hun, a daeth felly i'w plith. Ymosodwyd arno yn fuan, ond y tafarnwr a'i hachubodd. Y mae yr hanes hwn yn dangos tynerwch ei gydwybod, ei ffyddlondeb dros ei Arglwydd, a gofal Duw am ei bobl."

Peth rhyfedd oedd iddo ddiangc cystal rhag erledigaeth yn yr oes hono, ac yntau yn arfer teithio cymmaint drwy Gymru oll; yn hyn yr oedd yn eithriad i'w gyd-lafurwyr yn gyffredin. Gallai fod ei awen yn dipyn o gysgod iddo. Yr oedd ofn y beirdd yn fawr o flaen llygaid y Dywysogaeth yn y dyddiau hyny. Yr oedd ar offeiriaid erlidgar ei amser fil waith mwy o ofn Twm o'r Nant nag oedd arnynt o ofn Duw; a diau i'w awen ffraethlem ef roddi genfa yn mhen llawer o honynt er eu hattal i ddynesu at lawer pregethwr truan i'w erlid a'i faeddu. Hwyt-hwy oedd y blaenoriaid dan Satan yn yr holl erlid a fu ar grefydd yn Nghymru yn yr oes ddiweddaf; ac awen y bardd o'r Nant, yn benaf, hwyrach, a fu y llif ddanneddog a fu yn offerynol i lifo ymaith y cynn hyn.

Yr ydym, cyn cymmeryd ein hymadawiad âg ef y waith hon, dan rwymau i grybwyll am dano fel awdwr, oblegid yn y nodwedd hwn, yn benaf oll, y teimlwn ni yn yr oes hon ddyddordeb ynddo. Y llyfr cyntaf a gyhoeddodd oedd casgliad o hymnau, a elwir "*Haleluia*." Aeth hwn drwy dri argraphiad olynol mewn byr amser. Yn nesaf, cyhoeddodd yr arwr-

gân orchestol, *Golwg ar deyrnas Crist*. Cyfieithodd a chyhoeddodd bregeth Mr. Ebenezer Erskine, ar *Sicrwydd Ffydd*; wedi hyny y "*Pantheologia*;" "*Theomemphus*." Yn 1762 argraphodd y llyfr hymnau a elwir *Y Mor o Wydr*, yr hwn a aeth drwy bump o argraphiadau yn fuan. Yn 1768, argraphodd lyfr rhyddieithol, a elwir *Tri Wyr o'r Aipht a Sodom*, yn yr hwn y darlunia yn fanwl ac yn fywiog ddull bucheddiad a marwolaeth tri dyn; sef, y cybydd, yr afradlawn, a ffyddlawn; sef, dyn gwir dduwiol, dan yr enwau Lladin, *Avarus*, *Prodigalius*, a *Fidelius*. Yn yr un flwyddyn, hefyd, argraphodd y llyfr a elwir *Crocodil afon yr Aipht*, yn darlunio cenfigen yn ei natur wenwynig a'i heffeithiau niweidiol yn mhlith proffeswyr yn benaf. Cyhoeddodd hefyd yn ganlynol i hyn draethodau byrion, dan yr enwau "*Ductor Nuptiarum*," "*Martha Philoper*," a "*Philo Evangelius*;" *Ffarwel weledig*, &c.; "*Haleluia*," yr ail ran; *Drws Society Profiad*, ac ynghylch deugain o farwnadau.

Ychydig ond odid o'i draethodau rhyddiaethol sydd yn awr ar gael. Ni welsom ni erioed o honynt ond hanes y *Tri Wyr o'r Aipht a Sodom*, a "*Ductor Nuptiarum*." Pe cymmerai rhyw un arno i gyhoeddi ei holl weithiau gyda'u gilydd, teilyngai, a hyderwn y cai, gefnogaeth ddiolchus gan ein cydwladwyr.

"Wedi treulio," meddai Mr. Charles, "oes hirfaith, lafurus, a defnyddiol yn eglwys Dduw, yn yr amser godidocaf ar grefydd yn Nghymru hyd yn hyn, am a wyddom, bu farw yn Pant-y-celyn, yn mhlwyf

Llanfair-y-bryn, yn y 74ain flwyddyn o'i oed. Yr afiechyd o ba un y bu farw oedd y graianwst, yr hwn oedd yn ei flino amryw flynyddoedd o'r blaen. Ysgrifennodd farwnad Mr. Rowlands ynghylch pum mis cyn ei farwolaeth. Y geiriau diweddfaf yn hono a fynega oreu—medd ei fab, y Parch. J. Williams—ei brofiad yn ei ddyddiau olaf:—

' Etto er ei lyffetheiriau,  
 Sydd yn rhwymo'r corph ynghyd,  
 Mae y nefoedd fawr yn agos,  
 Rhwygwyd y cymmylau i gyd;  
 Mae fy ysbryd am gartrefu,  
 Gyda'r dorf aneirif fawr  
 O rai cyntaf-anedigion  
 Y sydd yn y nef yn awr.'

Bu farw Ionawr 11eg, 1791, yn 74ain oed, ac a gladdwyd yn yr ochr ddwyreiniol yn mynwent Llanfair-y-bryn. Yr oedd tyrfa liosog iawn yn ei gladdedigaeth, a phregethodd William Lloyd, Ysw., o Henllan, Caio, yn enwog, yn ol ei arfer, i'r dyrfa. Canasant yn orfoleddus yr holl ffordd i'r Llan," meddai yr hanes, a diammheu,

" Yn arwyl y bardd, a pha odlau cymmhwysach?  
 Dilynid ei elor â'i odlau ei hun."

Rhoddwyd careg fedd arno, a'r argraph ganlynol arni yn Saesneg, a'r pennill diweddfaf o "*Theomemphus*" yn Gymraeg:—

" Er coffadwriaeth i'r diweddar Barch. W. Williams, o Bant-y-celyn, yn y plwyf hwn, awdwr amrywiol draethodau mewn prydyddiaeth a rhydd-



iaeth. Disgwyl yma seren ddydd yr adgyfodiad cyntaf, pan wrth sŵn udgorn yr archangel yr adfywia y llwch cysglyd, ac y llyngcir angeu ei hun mewn buddugoliaeth. Llafuriodd yn ngwinllan yr efengyl dros hanner can mlynedd, ac a barhâodd yn ei ymdrechïadau er ei llwyddiant, yn gystal ag wrth bregethu, ac ysgrifeniadau. Ac i'w lawenydd anhraethadwy, gwelodd ei heffeithiau yn helaethu, a'r gallu yn ymddangos yn iachawdwriaeth miloedd.

“Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid, ac heb boen, Mae 'n canu o flaen yr orsedd, ogoniant Duw a'r Oen, Y 'nghanol myrdd myrddiynau, yn caru oll heb drai, Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau.”

“Fel hyn,” medd Mr. Charles, “y gorphenodd y gŵr enwog hwn ei yrfa lafurus. Yr oedd yn ei ieuengctid yn ŵr hardd, bywiog, o'r maintioli cyffredin; ei dymmherau oeddynt yn boethlyd, ond yn gyffredinol yr oedd yn dirion ac yn hawddgar tuag at bawb. Wrth roddi pob peth ynddo at eu gilydd, yr oedd yn un o'r dynion mwyaf ei ddoniau, ei barch, a'i ddefnyddioldeb yn ei oes. Yr oedd yn meddu doniau prydyddol, wedi eu rhoddi yn naturiol a helaeth iddo gan yr Arglwydd.

“Ehedai yn aml ar adenydd cryfion iawn, sydd yn ei gario yn odidog ac yn uchel. Aberth mawr y groes yw sylwedd a phwngc penaf ei holl ysgrifeniadau; a thra y byddo cariad at y gwrthddrych mawr hwnw yn nghalonau y Cymry, bydd ei waith yn gymmeradwy yn eu plith—yn neillduol ei hymnau.

“Nid astudiodd nemawr ar gynghanedd brydyddol y Cymry, nac ar gadw purdeb iaith, ond ehedai ar awel nefol, a chymmerai y geiriau nesaf at law, a chwbl ddeallus i'r werin yn gyffredin, y rhai a hoffant ei ganiadau yn ddirfawr. Er nad oedd yn ganmoladwy ynddo i esgeuluso purdeb yr iaith Gymraeg yn gymmaint, etto yn ei iaith gyffredin y mae yn ddeallus i bawb, ac yn dwyn ein meddyliau a'n calonau gyda grym a gogoniant ei faterion a'i ehediadau.

“Effeithiodd ei hymnau gyfnewidiad neillduol ar agwedd crefydd yn mhlith y Cymry, a'r addoliad cyhoeddus yn eu cyfarfodydd. Y mae rhai pennillion yn ei hymnau fel marwor tanllyd, yn poethi ac yn tanio yr holl nwydau wrth eu canu, ac yn peri eu dyblu yn arnl, nes y byddont yn gwaeddi ac yn llawen o orfoledd. Y mae yr effeithiau cryfion hyn yn brawf neillduol o rym yr achos sydd yn eu peri.

“Pregethau Mr. Daniel Rowlands a chaniadau Mr. William Williams a wnaethant yr oes yr oeddynt yn byw ynddi yn fwy nodedig na nemawr o oesoedd a fu ar Gymru erioed. Y pedwar peth canlynol ydynt yn ymddangos yn nodedig ynddo; sef, grym a helaethrwydd ei ddoniau naturiol, ei ddiwydrwydd mawr yn eu defnyddio nos a dydd, a'r graddau helaeth iawn a fwynhaodd ei hun o ddylanwadau yr Ysbryd Glân yn ei waith, a'r fendith fawr oedd ar y bobl trwyddo.”

Yr ydym yn hollol gydsynio â barn Iarles

Huntington a Mr. Charles am dano; sef, *ac ystyried a doddi pob peth at eu gilydd ynndo, na feddai Cymru yr un gŵr mwy i ymffrostio o hono, a'i fod yn un o'r dynion mwyaf ei ddoniau a'i ddefnyddioldeb yn ei oes.* “Y dystiolaeth hon sydd wir.” Ymffrostia Cymru yn gyfiawn hefyd, ynndo. Tueddir ni i fyned gam yn mhellach na'r “arglwyddes etholedig” a Mr. Charles, a hōni uchafiaeth iddo ar holl gedyrn ei oes, a doddi pob peth at eu gilydd, er y dichon fod rhai o honynt a ragorai arno mewn rhai pethau. Gŵr a fedrai ysgwyd teimladau cenedl gyfan o bobl ar unwaith, ac sydd yn parhau o hyd i wneyd hyny yn fwy nag un o'i gyd-oeswyr, sydd yn teilyngu ei osod yn nghadair y Tachmoniad yn benaeth cedyrn ei ddyddiau. Y mae hyawdledd areithyddol digymmhar Rowlands, o Langeitho, bron a myned erbyn hyn i ebargofiant, tra y mae yr eiddo ef mor fywiol ac effeithiol ag erioed. “Nid astudiodd nemawr ar gynghanedd brydyddol y Cymry,” medd Mr. Charles. Y mae hyny yn eithaf gwir, ac ni buasai o nemawr ddyben iddo geisio gwneyd hyny chwaith. Ni fuasai waeth ceisio rhwymo “yr unicorn a'i did mewn rych,” na cheisio gosod ei awen ef i dynu yn rhesi y pedwar-mesur-ar-hugain. Ni allasai Dafydd ab Edmwent byth gael ganddi “lyfnu y dolydd” ar ei ol ef yn yr offer hono, mwy nag y gallasai Job gael gan yr unicorn wneyd hyny. Asen wyllt ydoedd, a chwarddasai am ben lliaws tref o feirdd “wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain” ped fuasent yn rhedeg ar ei hol, ac yn galw arni. Nid ydym yn teimlo un radd yn ofidus oblegid hyn. “Ni ofalodd chwaith am gadw purdeb iaith,” medd ei hanesydd; y mae hyn etto yn bur wir, a drwg genym

hyn. Buasai ei ganiadau yn fwy derbyniol a chymmeradwy i bob chwaeth goeth, pe buasent wedi eu nithio â gwyntyll ac â gogr gofal a dyhëwyd er puro a gloywi yr iaith. Ond y fath ydoedd yscil ei athrylith hudoliaethus fel y mae yr hyawdledd a'r effaith weithiau yn cael yn hytrach eu mwyhau drwy hyd yn oed *wallau* yr ieithyddiaeth! Caniadau William Williams, o Bant-y-celyn, ac areithyddiaeth William Williams, o'r Wern, ydynt yn dwyn cyffelybrwydd mawr i'w gilydd yn hyn, fel mewn amryw bethau eraill. Etto, *gwall* ydoedd yn y ddau; a pheth, fel y dywed Mr. Charles, nad oedd *ganmoladwy*. Er hyn oll, ymgadwai yn bur ofalus yn gyffredin o fewn cylch y mesur y canai arno. Anfynych iawn y gwelir llinell rhy hir na rhy fêr ganddo. Y gwall hwn o dôr mesur a wna emynau melusion Mrs. Anne Griffiths yn anghymmalog ac anystwyth, lawer o honynt, ac a bâr anfantais i'r datgeiniaid. Y mae rhai, hyd yn oed o bencampwyr y pedwar-mesur-ar-hugain, yn hynod o ddi-lywodraeth gyda'r mesurau rhyddion—yn gyffelyb i feirch porthiannus pan ollyngir hwynt ar goibr, hwy a godant eu cynffonau, ac a brangiant ymaith dros wrychoedd a chloddiau modd na byddo dal arnynt. Rhêd pennillion Williams yn esmwyth a naturiol o fewn cylch priodol ei fesur; anaml y ceir llinell nad ydyw yn gorwedd yn ei gwely yn dawel. Ond gan y bwriadwn fyned yn mlaen etto i sylwi ar deithi ei gynnyrchion awenyddol, gadawn y mater hwn yn bresennol.

Bu iddo ddau fab, William a John, a phedair o ferched. Bu ei fab hynaf, William, yn gurad mewn

lle a elwir Truro, yn Cornwall, dros amryw flynyddau. Ai yno y bu farw nis gwyddom. John, yr ieuengaf, a fu byw a marw yn Pant-y-celyn. Yr oedd ef yn ŵr tra dysgedig a duwiol, ac yn bregethwr cymmeradwy gyda'r Methodistiaid. Yr oedd yn meddu ar gyfran go helaeth o dda y byd hwn, ac yn dra haelionus at bob achos da, ac i dlodion ei ardal.

—————:o:—————

PENNOD II.

*“Golwg ar Deyrnas Crist.”*

Wedi cryn betrusder meddwl ynghylch pa gŵr o'r maes toreithiog y byddai fwyaf priodol i ni ddechreu medi, ac wedi bod o honom am dro megys â'n cryman ar ein braich, fel amaethwr amser cynhauaf yn amgylchynu ei faes gwenith er gweled pa ffordd y byddo mwyaf cymmhwys a deheuig i'w dori, daethom i'r penderfyniad i ddisgyn ar yr arwrgân benigamp a ddynodir uwch ben yr erthygl hon—y benaf o orchestion awenyddol ein bardd.

Cyn i ni ddechreu medi (gan i ni ddigwydd cymmeryd gafael yn y gymmhariaeth), caniateir i ni ychydig amser i hogi ein cryman, mewn trefn o ragymbarotoi. Cyn y gallwn fyned yn mlaen yn ewyllysgar at ein gwaith priodol, rhaid i ni gael taflu oddi ar ein meddwl y gradd o anfoddlonrwydd a orphwysa arno tuag at feirdd, a beirniaid barddoniaeth Gymreig. Prin erioed y cafodd y bardd o Bant-y-



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 165

celyn ei arddel ganddynt yn mysg meibion Tydain, na'i gyfansoddiadau eu rhestru yn mhlith cynnyrchion yr awen. Cofnodid enwau beirdd, cynfeirdd, a gogynfeirdd, o Goronwy Owain i fyny hyd Taliesin, ac Aneurin Gwawdrydd, ac yn ol oddi yno i waered drachefn a thrachefn ganddynt, a dodid dyfyniadau o'u gweithiau fel enghreifftiau o gampuswaith lawer gwaith; ond ni anrhydeddid enw "yr hen Williams" â lle yn eu plith. Ni soniwyd gair am dano yn meirniadaeth dra rhagorol Gwallter Mechain ar farddoniaeth Gymreig yn y *Gwyliedydd* gynt. Ni chymmerodd Ieuan Glan Geirionydd arno y gwyddai am ei enw a'i waith, yn ei ddyheiriad grymus yn erbyn y mesurau caethion yn yr un cyhoeddiad, pan y crybwylla am Mr. Davies, Castell Hywel, a Mr. J. Parry, o Lanelian, Hugh Morris, ac eraill, a gyfansoddasant yn ardderchog ar y mesurau rhyddion. Gwilym Caledfryn, yn ei *Ddrych Barddonol* haeddglodus, a dala deyrnged barchus a theilwng iddo ar ychydig eiriau. Efe ydyw yr unig un o'n prif-feirdd,\* hyd y gallwn gofio, a wnaï âg ef y cyfiawnder o'i gyd-nabod fel y prif gyfansoddwr emynau. Ond nyni a anturiwn fyned gam yn mhellach cyn y darfyddom âg ef y waith hon. Ond awn rhagom.

Y mae pob gweithiwr, o'r mwyaf hyd y lleiaf, pob celfyddwr o ba grefft bynag y byddo, yn ymhyfrydu

---

\* Brutus, yn y *Lleuad*, ac yn ddiweddarach yn yr *Haul*, a Mr. J. Mills, yn y *Beirniadur*, a wnaethant sylwadau gwychion dros ben ar rai o'i weithiau; ond nid ym arddelwnt hwy eu hunain yn feirdd. At y beirdd-feirniaid y cyfeiriem ni.

yn ei weithiau, yn canfod y fath brydferthwch a dymunoldeb yn ei waith anwyl ei hun, a ddyry iddo fawr bleser a hunan-foddiant, a disgwylia i eraill hefyd deimlo yr un dyddordeb ynddo. Nid anfynych y digwydd mai y gweithydd neu y cyfansoddydd mwyaf trwsogl a bongleraidd fydd yn gweled mwyaf o ogoniant yn ei gynnyrchion. Cofus genym am grydd, o'r fath fwyaf anghelfydd a gydiodd erioed mewn mynawyd, wedi y gorphenai wneuthur rhywbeth ar enw esgid, a'i gosodai yn nghanol rhês o esgidiau o wneuthuriad ei gyd-weithwyr, ac yna a safai dros hir amser ar y cyfer, i hõni a dadleu mai ei esgid ef oedd yr harddaf ei llun a'i gwneuthuriad o honynt oll. Perswadiai ei hunan i gredu yn ddilys mai felly yr oedd yn bod, a chodai y gred hon awyddfryd ynddo i frysio gorphen esgid arall. Hon, pa fodd bynag, ydyw un o elfenau bywyd gweithgarwch y natur ddynol yn y byd hwn. Dinystrier hon, lladder yr eiddgedd (reddfol, hwyrach, y gellid ei galw) yma yn y fynwes ddynol yn gyffredinol, ac arafa olwynion cerbydau athrylith a chelfyddyd yn y fan; teyrnasa difrawder a diofalwch i farwolaeth cynnydd a diwygiad yn mhob cangen o lafur. "Hyn a ddaw oddi wrth Arglwydd y lluoedd, yr hwn sydd ryfedd yn ei gynghor, ac ardderchog yn ei waith." Edrychai y Gweithydd anfeidrol ei hun ar orchwyl pob dydd o'r grëad, a "gwelai mai da oedd." Dygai y gwaith yn mlaen mewn perffeithrwydd a gogoniant, y naill ddydd ar ol y llall, nes ei gwbl orphen, a'i goroni yn nghrëadigaeth dyn, yr hwn a ddygai i mewn fel yr unig greadur yn y dalaeth ddaearol o'i ymherodraeth a allai gyd-fwynhau âg ef ei hun, ynghyd â "holl

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 167

feibion Duw" yn y nefolion leoedd, y dyddordeb a deimlid wrth glywed "sêr y boreu yn cyd-ganu" ar orpheniad y gwaith gogoneddus. "Yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd." Dododd y Crëwr anfeidrol ddoeth a da alluoedd i, a thuedd yn y dyn a grëwyd ganddo ar ei lun a'i ddelw i'w efelychu ef ei hun i ryw radd yn ei weithredoedd; ac er ei gadw yn llawn ar waith, trefnodd fod iddo gael y fath hyfrydwch meddwl ynddo a wrthbwysai yr holl boen, y myfyriaeth, y pryder, a'r draul y gelwir arno eu dwyn yn y cyflawniad o hono.

Y mae gan bob gweithydd yn gyffredin ei brif hoff-waith. Edrycha yr athronydd ar ryw un o'i ddarganfyddion fel yr hon yn benaf y disgwylia anfarwoldeb i'w enw oddi wrthi. Yr un modd y peiriannydd, yr ysgrifenydd, a'r bardd. "Hyn *hefyd* a ddaw oddi wrth Arglwydd y lluoedd." Dangosai Ef ei fod yn edrych ar greadigaeth dyn fel y benaf o'i weithredoedd crëawl. "Da iawn oedd"—ac ar iachawdwriaeth dyn, trwy Iesu Grist, fel y benaf o ryfeddodau ei gariad a'i ras. "Eithr y mae Duw yn canmawl ei gariad tuag atom...a nyni etto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni." Drwy y ddwy hyn ynghyd y gwna iddo ei hun "enw ac arwydd tragywyddol, yr hwn ni thorir ymaith." Bydd yr olaf byth yn destyn syndod a chlodforedd holl fodau deallol nef y nef yn oes oesoedd. Digwydda weithiau na bydd eraill o'r un farn a'r awdwr ei hun am deilyngdod yr hyn a ystyrir ganddo ei brif orchest. Mynai Milton fod ei "*Wynfa Adennilledig*" ("*Paradise Regained*"), yn rhagori ar ei "Goll

Gwynfa" (*"Paradise Lost"*), ond ni chafodd odid neb i gyttuno âg ef yn hyn. Barn unleisiol ei feirniaid a'i ddarllenyddion o'i ddyddiau ef hyd y dyddiau hyn ydyw, fod yr olaf yn annhraethol ragorach cyfansoddiad na'r flaenaf. *Coll Gwynfa* a fÿn y byd anrhydeddu âg anfarwoldeb, a chydag ef y trosglwyddir enw Milton i waered i oesoedd diwedd-araf amser. O ran ei *Wynfa Adennilledig* cawsai y bardd, er ei bleidgarwch ef ei hun iddi, ei restru yn mhlith yr ail-raddolion yn unig, os caniateid iddo le yn y radd hono, tra y mae *Coll Gwynfa* wedi ei ddyrchafu i'r gadair, a'i osod yn dywysog beirdd yr oesoedd. Y bardd Cymreig, yntau, wrth adolygu ei gyfansoddiadau, a edrychai gyda mwy o hoffder ar ei *Otwg ar Deyrnas Crist* nag ar un o'r lleill. Hwn a ystyriai fel ei brif gampwaith. Cymmerasai fwy o drafferth i'w gyfansoddi, a mwy o ofal a dyhewyd i'w ddiwygio a'i goethi nag a gymmerai gydag un dernyn arall o'i waith. Ymddengys fod y bardd Cymreig yn well beirniad ar ei waith ei hun na'r bardd Saesnig. Cyttunir yn gyffredinol âg ef mai y *Gotwg ar Deyrnas Crist* yw y benaf a'r rhagoraf o'i gyfansoddiadau. Yr ydym, bellach, yn barod i agor lleni yr olygfa ger bron ein darllenwyr, ac i'w gwahodd i edrych ar y darluniau ysblenydd a ddadblygir i'w sylw.

Dosberthir y gân i chwech o bennodau, a'r pennodau i amrywiol adraniadau. Cynnwysiad y bennod gyntaf ydyw "Rhoddiad y deyrnas i Grist, neu Crist yn bob peth yn yr arfaeth—cyfammod y prynedigaeth rhwng y Tad a'r Mab yn nhragwyddol-

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 169

deb," &c. Yr ail, "Crist yn gosod i fyny ei deyrnas, neu Crist yn bob peth yn y greadigaeth—lle y rhoddir golwg ar greadigaeth y nef a'r ddaear, yr elfenau, y creaduriaid, coedydd, a llyisiau; ac yn olaf, dyn—y cwbl trwy Grist, ac er ei fwyn." Y drydedd, "Crist yn achub ei deyrnas yn y gwrthryfel cyffredin—neu, Crist yn bob peth yn addewid Eden." Y bedwaredd, "Crist yn llywodraethu ei deyrnas—neu, Crist yn bob peth yn rhagluniaeth. Y bummed, "Llyfr *statute* y deyrnas—neu, Crist yn bob peth yn y Beibl." Y chweched, "Teyrnas neillduol Crist—neu, Crist yn bob peth yn iachawdwriaeth ei saint—lle y traethir ar ei swyddau fel prophwyd, offeiriad, a brenin." Ac yn olaf, "Ar y farn, a rhoddiad i fyny y deyrnas i Dduw a'r Tad, fel y byddo Duw oll yn oll."

Dyma y fath ydyw cylcheden (*framework*) y gân. Ymaflyd yn y fath destyn mawreddog, yn cynnwys y fath amrywiaeth o faterion, a'r rhai hyny y mwyaf pwysig a fuont erioed, neu a fyddant byth, yn wrth-ddrychau myfyrdod dynion ac angylion ydoedd, yn ddiâu, yn anturiaeth orchestol. Cynnyrchu cân deilwng o'r fath destyn, hefyd, a raid fod yn un o orchestion penaf anturiaethau awenyddol. I lenwi y gylcheden uchod rhaid i'r gân fod, nid yn unig yn gyfangorph cryno o dduwinyddiaeth, ond rhaid iddi gynnwys ser-draith, elfydd-draith, daear-draith, môr-draith, mil-draith, a llysieu-draith, i ryw fesur; ac felly y mae. Buasai cynnyg cân dlawd a gwael ar destyn mor oruchel yn sarhâd annioddefol ar holl ddeiliaid y deyrnas y cenid iddi, ac yn anwiredd i'w gosci gan y beirniaid â'r ceryddon trymaf a allasai yr ysgrif-bin eu



gweinyddu. Haeddasai y fath anturiaethwr rhyfygus ei ddwrddio a'i fflangellu am ei drahâ, er esiampl i bob un o'i gyffelyb rhag llaw i ochelyd y cyffelyb amryfusedd.

Wedi i ni edrych ar osodiad i lawr gynseiliau yr adeiladaeth, a sefyll ychydig ar ei chyfer, fel y dysgyblion gynt ar gyfer y deml, i'w harolygu, buan y symmudir ein pryder, ac y'n boddlonir nad gwagymhônwr bongleraidd a rhyfygus a ymaflodd yn y gwaith hwn, ond y meddai yr hwn a osododd i lawr sail y tŵr alluoedd, moddion, a medr i'w adeiladu a'i orphen yn drefnus. Neu, a newid y dröelleb, fod y llaw hono a weithiodd y gylched, ac a dynodd y braslinellau ar y llieninlen, yn ddigon celfyddgar i'w llenwi i fyny yn olygus a phrydferth. Er gwneuthur hyn, yr oedd rhaid i'r awen gyrchu ei lliwiau o ystorfeydd creadigaeth a rhagluniaeth, a'r dadguddiad dwyfol, a thynu yn helaeth hefyd o adnoddau (*resources*) ei dyfalion a'i chrëadon ei hun. Yn mlaenaf oll, cymmera lusern dadguddiad yn ei llaw, a threiddia i "ddyfnder tragwyddoldeb" cyn yr oesoedd, i syllu ar ryfeddol ddirgelion arfaeth "yr hwn sydd yn gwneuthur pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun." Wedi hyny, traetha fawrion weithredoedd y grëad—llefara am aneirif fydoedd o faintioli ofnadwy a osodwyd i "amgylchynu yn mru" yr awyr—y ddaear a'i di-rif raddau o greaduriaid—y môr a'i dylwyth lliosog yntau. Dringa i fyny i goedwig Lebanon, ac arolyga uchelder ei gedrwydd. Disgyna fel gwenynen ar flodau a llysiau y maes, gan sugno mêl i'w chwch o bob un o honynt. Wedi i ni unwaith fyned i

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 171

gyrhaedd y dylanwad, yr ydym yn colli pob meddiant arnom ein hunain—cipir ni ymaith ar unwaith i uchelderau y nefoedd ar aden awen ein bardd; dygir ni i olwg llengoedd o heuloedd, y rhai a gylchynir bob un gan liaws o blanedau yn chwyrndeithio o'u hamgylch gydag anamgyffredadwy gyflymder—sêr cynffonog yn moelystota yn eu gyrfaeodd hir-grynon ar äangfaes di-derfynau y wybr. Yn y fan cawn ein hunain yn ol ar y ddaear; arweinir ni drwy anialwch heibio i anneddau y llew, y teigr, a'r behemoth, a bwystfilod eraill lawer—yna i'r goedwig, lle y newid-iwn rüadau gwylltfilod am felusgerdd blethedig ac amrywiaethog myrdd o adar. Disgynwn drachefn i'r môr, a rhodiwn yn nghilfachau y dyfnder, drwy fröydd anhygyrch y môr-farch a'r môr-gi, ac o'r holl “ymlusgiaid heb rifedi, bwystfilod bychain a mawrion” sydd yn preswyllo y fro “fawr lydan” hono, nid oes un yn dda ganddo ein gweled ond

“Y dolphin cymmwynasgar,  
Caruaidd iawn i ddyn,”

medd yr awen wrthym. Ond yr ydym yn teimlo yn ddiogel a dedwydd yn mhob man, oblegid yr ydym o hyd dan ddwyfol noded. Y mae yr Hwn oedd gydag Efe, “pan barotôdd efe y nefoedd, a phan osododd Efe gylch ar wyneb y dyfnder,” yn wastad yn bresennol gyda ni, ac yn bob peth yn mhob peth, yn mhob man. Efe yw Alpha ac Omega y cyfan. Gwylia a rheola ysgogiadau yr holl fydoedd, a'r holl greaduriaid, o derfynau eithaf y nefoedd uchod hyd gilfachau pellaf y dyfnder isod. Ond, Calfaria a'r groes ydyw canolbwngc a gorphwysfan yr awen. Cyfeiria yma o bob man i gymmeryd ei hanadl a'i

gorphwysiad. Cenfydd ac adnebydd ei llygad eryraidd yr ardd, y bryn, a'r groes, pan wedi ymgodi i eithafion y nefoedd fry, neu wedi ymsoddi i waelodion y dyfnder obry, a medr ei ffordd yn unionsyth yno o bob man. Ar ddiwedd ei lafurwaith, ymddengys y bardd fel yn lluddedig gan syched a blinder; ac nid rhyfedd, ag ystyried ei deithiau a mawredd ei anturiaethau. Cwyna yn gyffelyb i Samson gynt, wedi ei lafur caled yn ymladd â mil o Philistiaid, ac yn eu lladd â gên asyn:—

“ A raid i minnau drengu o eisieu dyfroedd clir?  
 'Rwyf bron llewygu'n tramwy y dyrus anial dir;  
 Dwg fi i'r dyfroedd tawel, porfaoedd gleision mawr,  
 Lle mae y rhai lluddedig yn dodî'u penau i lawr.”

Wel, ni a'i gadawn ef ynte i orweddian a gorphwysu yn y “porfeydd gleision mawr” ar lan y dyfroedd tawel, tra fyddom ninnau yn myned yn ol, gan gymmeryd golwg hamddenol a phwyllus ar y gwrth-ddrychau a basiem ar ein gwibdaith orwylltiog.

Gyda golwg ar y cyfansoddiad, dewisodd un o'r mesurau rhwyddaf, symlaf, a mwyaf di-addurn a allai feddwl am dano i ganu arno. Hwyrach iddo wneuthur y dewisiad goreu ar y cyfan. Y mae y wisg yn gweddu yn dda i'w awen ef yn gyffredin; nid yw yn ymddangos fel yn rhy drom iddo pan eheda i'r wybrenau, nac yn rhy rydd-laes na thên chwaith pan yn rhedeg dyffrynoedd, ac yn dringo creigiau a mynyddoedd y ddaear. Ond etto, meddyliem y buasai newid y wisg (y mesur) yn awr a phryd arall yn fantais fawr. Buasai newidiad achlysurol y

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 173

mesurau yn rhoddi amrywiaeth hyfryd ac adfywiol i'r darllenydd. Y mae cân hirfaith ar yr un mesur, ac araeth hirfaith yn yr un doniad, o'r dechreu i'r diwedd, yn flinderus i'r natur. Yr ydym yn blino yn fuan wrth deithio trwy wlad äang wastad, lle nad oes na bryn, na chlogwyn, na glyn i amrywiaethu ac i ysgafnhau yr olygfa. Gwastadrwydd ac unrhywiaeth golygfa y wlad oddeutu Caergrawnt a barai y fath flinder i ysbryd yr enwog Robert Hall, fel y tybiai y buasai yn achos o fyrhau ei oes oni symmudai. Y mae yr un modd yn yr achos dan sylw. *Coll Gwynfa*, a llawer o brif orchestion y beirdd Saesneg, ydynt edafedd gwastad un-gaingc, wedi eu nyddu ar dröell y mesur di-odl (*blank verse*), neu fel y galwai ein bardd o Bant-y-celyn hi, "y gân benrydd." Gwedda hyn braidd yn well i'r bardd Saesneg, am fod cyfattebol rwydd rhwng ei gân ag agwedd arwynebol ei wlad. Disgwylir i gyfansoddiad y bardd Cymreig yntau ddwyn delw ei fro gynnhenid, a bod ynddi amrywiaethau cyferbyniol i'w mynyddau, a'i glynau, a'i dyffrynoedd. Nid ydym mewn un modd yn bleidiol i arosiad y pedwar-mesur-ar-hugain yn ffurflywodraeth barddoniaeth Gymreig; ond i'r gwrthwyneb, ardystiwn yn erbyn parhâd y gyfraith hon fel iau ar wàrau dysgyblion yr awen ar gyfrif gor-gaethder y rheolau. Ond etto, y mae cryn lawer o farn a chwaeth athronyddol yn ganfyddedig yn ffurfiad y cyfangorph hwnw o fesurau ar gyfrif y mawr amrywiaeth—amrywiaeth graddau a ffurfiau yn gystal a rhif. Y mae yn olwg i'r llygad ar awdl gyfansoddedig arnynt, rywbeth yn gyffelyb i olwg gwyneb ein gwlad hoffusaf. Addefwn hefyd fod rhai o'r mesurau yn dra rhagorol, a sain eu

cynghaneddion yn felus odiaeth, pan fyddo gwir fab yr awen wedi bod yn eu plethu. Ond gellid ffurfio y gân ar fesurau rhyddion yr un mor adfywiol i'r llygad a'r glust drwy eu hamrywio ynddi. Y mae newid y mesur hefyd yn ysgafnhâd adfywiol i'r bardd ei hun wrth gyfansoddi. Diareb yn mysg gweithwyr yw, "fod newid gwaith-cystal a gorphwys;" y mae newid y dull o weithio yr un modd. Dyn, wrth gludo pren trwm, a'i newidia o'r naill ysgwydd i'r llall, ac a'i dwg felly i ben ei yrfa yn gynt, a llawer mwy di-boen iddo ei hun, na phe cedwid ef ganddo ar yr un ysgwydd o hyd. Y mae "naturaeth ei hun" yn dysgu i ni lawer o wersi pe yr edrychem ac y gwrandawem arni.

Ond bellach, agorwn y pyrth i'ch gollwng i mewn, ddarllenwyr hynaws! Yr olygfa gyntaf a gewch fydd, "Crist yn gosod i fyny ei deyrnas." Wel, sefwch, edrychwch, gwrandewch:—

"Ei fysedd ef a grëodd, hyd fyth yr haeddai'r clod,  
Y ddaear fawr drwmlwythog, a'r nefoedd fawr ei rhôd;  
Y brynïau a'r môr anesmwyth, y nef ac uffern drist,  
A swm yr holl greadigaeth o'r bron yw Iesu Grist.

Duw!—helpa'm henaïd egwan i ddringo fry i'r lan,  
A rho-fy nhraed sy'n crynu i sefyll ar ryw fan  
Uwch bàneu mwya'r ddaear, a rho spienddrych mawr,  
I wel'd fy Iesu'n gosod sylfaeni'r byd i lawr,

I wel'd fel yr anadlodd y nefoedd wrth dd'weyd '*Bydd,*'  
O'i air yn d'od angylion fel heb rifedi sydd;  
Pob llun a gradd a doniau, bob swyddan yn y nef,  
Yn cael eu bôd mewn munyd wrth ei orchymyn Ef.



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 175

Maintioli'r haul a'r lleuad, a'r bydoedd sydd uwch ben,  
Rifedi swnd y moroedd yn chwareu yn y nen;  
Lled, hyd, a maint eu troion, 'nghyd â'u haneirif ri',  
A'r llengoedd anweledig o honynt sydd i ni:

Fel crëodd y Messia hwy âg aneirif stôr,  
Creaduriaid ar y ddaear, creaduriaid yn y môr;  
Pysg, hediaid, ac ymlusgiaid, bwystfilod bob yr un,  
O uchder nen i'r dyfnder, yn ola' i gyd y dyn.

Am hyny oll mi ganaf, ond y mae'n ormod gwaith  
Yn llwyr i neb creadur i dra'gwyddoldeb maith;  
Yn d' allu 'mlaen y rhedaf, ac yn dy allu y mae  
Rhyw gymmhorth mawr diderfyn i'r holl luddedig rai."

Dyma y bardd wedi ei sefydlu "ar ryw fan uwch  
bànau ucha'r ddaear," yn mbell goruwch "ysgythredd  
y graig a'r lle cadarn," lle yr ymgartrefa yr eryr. Y  
mae yn cymmeryd ei "spïenddrych mawr," ac yn  
gloywi ei wydrau, yn edrych trwyddo i'r eithafion di-  
ddiwedd sydd ganddo i'w cyfarchwilio. Y mae ei  
lygad yn manwl olygu ei destyn. Y mae yn *crynu*—  
yn petruso yn yr olwg ar fawredd ei anturiaeth; ond  
yn fuan yn ymroddi iddi—etto teimla ei fod yn  
ormod gwaith i ddyn nac angel; ar hyn ymeifl yn y  
cadernid tragywyddol ei hun am gymmhorth—yna y  
mae y traed oeddynt yn *crynu* gynnau yn dechreu  
*rhedeg* yn ddiysgog a gwisgi:—

"Gyda gogoniant rhyfedd, anfonwyd Iesu i lawr,  
O fynwes y Tad nefol, lle'r ydoedd ef yn awr;  
I greu ei helaeth deyrnas, bur, gysson a chyttûn,  
Er clod di-drangc di-derfyn i'r Tad ac iddo ei hun.

176      **Williams, o Bant-y-celyn,**

' Mae'r amser yn addfedu,' 'be fe'r Jehofah mawr,  
' I osod sylfaen gadarn y netoedd faith a'r llawr ;  
Mae oriau'r nef i fyny, mae'r funyd bron ger llaw,  
I wneuthur oll bwrpaswyd yn nhrag'wyddoldeb draw.'

Yn y cyfamser yma, Tywysog nefoedd faith,  
Ddechreuodd osod allan ynghylch y gorchwyl maith ;  
Ei wregys ydoedd-gallu, a'i goron ddisglaer wen  
Oedd ddwyfol wych-fawrhydi, yn gorwedd ar ei ben.

Doethineb annherfynol yn t'wynu ar ei wedd,  
A chariad anfesuroi yn ymgymmysgu â hedd ;  
Holl ddoniau'r Tad trag'wyddol fel gwisg ddiwniad un,  
Uwch medr tafod draethu oddi amgylch iddo ei hun.

Mewn cwmmwl fe farchogodd y cerbyd tanllyd clir,  
At wagle nad oedd etto na daear, môr, na thir ;  
Ond t'wyllwch yn teyrnasu, yn fagddu fawr erioed,  
Heb unrhyw beth o sylwedd oll wedi cael ei bôd.

Fesurau uwch amgyffred o furiau pur y nef,  
Nas gellir byth eu mesur gan neb ond ganddo ef ;  
Gynnifer un o bossibl o lewyrch nefoedd wen,  
Ag sydd o oleuadau yn hongian uwch ein pen.

Ar fin y gwagle yma fel un ar gefnfôr draeth,  
Yn ngolwg lle'r adeilad, ymorphwys ronyn wnaeth ;  
I ganfod y dyfnderoedd difesur anferth iawn,  
Diderfyn, megys moroedd o dywyllwch dudew'n llawn.

Ac yno fe agorodd ei enau sanctaidd pur,  
'Be fe, 'Boed y defnyddiau i greu y môr a'r tir' ---

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 177

A phrin y gair ddaeth allan, nes parod oedd yn awr  
Bob amryw beth oedd eisieu i greu y nef a llawr.

Ac erbyn hyn 'roedd tryblith (*chaos*) defnyddiau maith  
eu stŵr,

Yn ymderfysgu â'u gilydd—tân, awyr, daear, dŵr ;  
Pob un am lwyr reoli—tywyllwch, goleuni, gwres,  
Rhew mawr, a gwynt ystormus, ac oerni crâs a thês.

A therfysg trwy holl anian, heb elfen yn ei lle,  
'R elfenau uwcha'n isaf, 'r elfenau nesa' i'r ne'  
'Mhen gronyn yn y dyfnder ; ac eilwaith yn y man,  
Tan rwygo o'u blaen y cyfan, yn codi fyny i'r lan."

Er mwyn pob peth, ddarllenwyr, sefwch draw !

"Yrŵan, tân berwedig, gwynt yn ei chwythu yn mlaen,  
Ac yn y man y dyfroedd yn cwmpo ar y tân ;  
Ond cyn pen hanner munyd, y ddae'r yn rhwygo o'r  
dŵr,  
Nes gwneuthur cyn creadigaeth ryw anghymmharol  
stŵr.

Fel yn tebygu weithiau i fŵg oedd tryblith oll,  
Ac weithiau i fôr o ddyfroedd i'r tân yn myn'd ar goll ;  
Un pryd i darth a thonau, neu gorwynt llidiog llym,  
Bryd arall i ryw greigydd yn syrthio yn eu grym.

Ond, Iesu a ddistawodd y cynnhwrf yma i gyd,  
Yr hyn oedd o un natur osododd ef ynghyd ;  
I'w le ei hun y trefnodd, ac felly rhoddodd fôd  
O ddyfnder maith ei allu i'r cyfan sydd erioed.

178 Williams, o Bant-y-celyn,

'Distewch, gynddeiriog donau, a heddwch ddyfnder  
trwy,'

'Be'r Brenin Hollalluog, 'ac na therfysgwch mwy ;'  
Ac yna fe farchogodd, ar aden cerub hy',  
Yn ei ogoniant dwyfol yn mlaen i'r dyfnder du.

Torfeydd! torfeydd aneirif! o feibion gwynion gwawr,  
Dilyn'sant ef dan ganu, i'r dywell nos i lawr ;  
I weled gallu'u Brenin yn rhoi ar unwaith fôd,  
A genedigaeth newydd i fydoedd na fu erioed.

Ac yna yn ei gerbyd dwyfol a safodd obry lawr,  
Yn nyfnder tryblith distaw, can's distaw oedd yn awr ;  
Pob elfen yn clustfeinio y lleiaf air o'i ben,  
Yn foddllawn at ufudd-dod i Frenin mawr y nen."

"Pob elfen yn clustfeinio"—llinell uwch law  
clod.

"Yn nyfnder tryblith tywyll, nid tywyll iddo Ef,  
Wna uffern ddu, pe mynai, mor oleu wen â'r nef ;  
Mesurodd gylch y sylfaen, pob globyn yn gyttûn,  
Adeilad o'r fath gwmpas, uwch law dychymyg dyn.

Ac yno adeiladodd y cyfan oll i gyd,  
Yn union 'nol y cynllun ag ydoedd yn ei fryd ;  
Dim rhagor oe'nt na phedair tros ben saith ugain awr,  
Tra bu E'n gwneyd yn berffaith ei greadigaeth fawr."

Ac felly yn mlaen—ond rhaid ymattal, er bod y  
brofedigaeth i barhau yn gref iawn. Disgrifir i ni  
saerniaeth y nefoedd fawr, yr haul, y lleuad, a'r sêr,

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 179

a'r holl lu ysblenydd o wahanol faint a graddau, a dangosir hwynt yn cyflymu yn eu gyrfaoedd, gan chwareu a dawnsio ar wyneb y ffurfafen—rhai yn codi, rhai yn machlud, eraill ar ganol eu gyrfa, a hyny mewn cylch-gyfnewidiad parhaus ; dibena gyda'r haul, ac oddi yno disgyna y bardd i gymmeryd ei anadl, fel y rhag-grybwyllasom :—

“ Er maint digred ei thanllwyth, er cymmaint yw ei gwres,

'Lawr ar y ddaear isod, ond llawer mwy yn nes ;  
Mwy nerth y gwres a'r goleu sy'n nghalon Iesu Grist,  
Pan roddai ei fywyd gwirion dros bechaduriaid trist.

Disgleirdeb hardd ei berson, sy'n bena' o fewn i'r llen,  
A red mewn t'rawiad amrant i waered is y nen ;  
Nes g'leuo pob rhyw gongl dywylla erioed a gaed,  
Yn nghalon y pechadur sy'n gorwedd wrth ei draed.”

Wedi ychydig o anadliadau gweddi am i'r pel- ydrau hyn dywynu i mewn i'w galon i oleuo ei thywyllwch a thoddi ei chaledwch, adeinia ymaith fel eryr drachefn, ac yn ddiattreg yr ydym yn cael ein hunain gydag ef yn eithafion y cysawd heulaidd, yn trin gwregysau Iau a modrwyau Sadwrn ; ac yn y diwedd yn ol â ni i'r ddaear, drwy ei moroedd a thros ei mynyddoedd—a chawn gipolwg ar ei theulu gorliosog o greaduriaid, i aros hamdden arall i gymmeryd golwg fanylach, a sicrheir i ni nad oes

“ Un gwyfyn yn y pared, gwybedyn yn y nen,  
Na phlyfyn bach yn 'hedeg, neu'n nofio uwch ein pen ;



180 Williams, o Bant-y-celyn,

Môrgrugyn yn y twmpath, gwenynen yn y cwch,  
Na feddant adnabyddiaeth o'u gilydd oll i'r trwch."

Diweddglöir y cyfan mewn mawl-gân felus i'r  
Crëwr anfeidrol am ei gariad anghymmharol yn ym-  
ostwng i wisgo cnawd, a marw dros waith ei  
ddwylaw :—

"De'wch yma, edrychwch arno, a grëodd hyn i gyd,  
Yn gwisgo cnawd am dano, fel ninnau yn y byd ;  
Erlidiwyd i dir Soan yn faban gyda'i fam,  
Ni chafodd ond cystuddiau yn nyddiau'i oes bob cam.

Newynodd fel caem fwyta o bren y bywyd gwiw,  
Sy'n tyfu fry yn nghanol paradwys newydd Duw ;  
Sychedodd fel caem yfed, a hyny fyth yn rhad,  
Win newydd ar y gwaddod yn nheyrnas fawr ein  
Tad."

Yr olygfa nesaf yw crëadigaeth dyn—ei gorph, ei  
enaid, ei synwrau, ei alluoedd, ei ogoniant, a'i  
ddedwyddwch, gyda'i gymmhar priodasol yn Eden  
ardd, yn derbyn gwarogaeth ac ufudd-dod yr holl  
grëaduriaid ; a dyma'r holl waith wedi ei orphen, ei  
berffeithio, a'i fendithio :—

"Ac yna'r Crëwr addfwyn esgynodd gyda'i lu,  
Yn gynt nag 'heda meddwl, o'r ddae'r i'r nefoedd fry ;  
I wel'd pa olwg hyfryd oddi ar yr orsedd fawr,  
Oedd ar a wnaeth ei fysedd mewn awyr, tir, a llawr."

Yna egyr yr "Anthem Grëadigol:"—

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 181

"Y nef, y ddae'r a'r wybren, y sêr i gyd o'r bron,  
Yn adsain, yn clustfeinio, yn synu'r ennyd hon ;  
Can' miliwn o delynau mewn cydsain gyrch ynghyd,  
Yn canu anthem newydd am grëadigaeth byd.

'Agorwch byrth trag'wyddol,' 'be'r auredd gôr yn hy',  
'Dyrchefwch chwithau'ch penau, hen ddrysau'r  
nefoedd fry ;  
Rho'wch ffordd, rho'wch mewn munydyn, i'r Crëwr  
mawr ei ddawn,  
Fe wnaeth yr oll bwrpaswyd yn ogoneddus iawn.'

Ac yna'r pyrth trag'wyddol agor'sant fel y wawr,  
'Ro'i lle i'r T'wysog cadarn i fyn'd i'r nefoedd fawr ;  
Wedi gorphenu'r cwbl o waith ei ddwyllaw'n llyn,  
A chyda'i Dad eisteddodd—y seithfed nos oedd hyn."

Yna cedwir y Sabbath cyntaf a dedwyddaf  
erioed, seinia holl offerynau cerddoriaeth nef y nef  
mewn cydsain hyfryd, gymmysgedig "â rhyw filiynau  
o Jafodau fel y tân:"—

"Gan ddyweyd, 'Anfeidrol ydwyt, fath fyd a wnaeth  
dy law,  
Nid pell o borth y nefoedd, yn glir fe welir draw—  
Megys rhyw nefoedd arall, gan hardded yw ei llun,  
A'i brenin yn ei chanol, yr ardderchocaf ddyn.

Draw yn yr awyr deneu, a myrddiwn mil o sêr,  
Yn crogi fel wrth edef, o ddeutu iddi'n dêr ;  
Trigfanau maith o bossibl, Ti'n unig w'yr pa bryd,  
I rai o'r cenedlaethau a enir yn y byd.'

182      Williams, o Bant-y-celyn,

Fel yma y canasant mewn hyfryd gaingc ynghyd,  
Ac adsain eu caniadau yn crynu'r nef i gyd ;  
A thyna'r Sabbath cyntaf a gadwodd nef ei hun,  
Fe'i cadwyd yn Mharadwys, pryd hyny gan y dyn."

Ond ar derfyniad "Anthem y Grëadigaeth,"  
rhaid i'r bardd gael gan holl luoedd anian etto  
chwareu eu bysedd ar dannau telyn iachawdwriaeth  
dyn :—

"Am hyny bob creadur, wel torwch allan gân,  
O'r mwyaf eu maintioli hyd at y lleiaf mân ;  
Cyhoeddwch gyda'ch gilydd, yn llawen, nid yn drist,  
Glod maith, di-drai, di-derfyn, daioni Iesu Grist.

Chwi bryfaid, Ef clodforwch, sy'n isel ar y llawr,  
I lwch y ddaear atoch daeth y Messia mawr ;  
Ymlusgiaid, O ! dyrchefwch soniarus gân o'r trwch,  
Bu Iesu dri diwrnod yn gorwedd yn y llwch.

Chwi adar ar yr adain, sy'n chwareu uwch ein pen,  
Rho'wch eich telynau'n barod o glod i Frenin nen ;  
Holl goedydd yr anialwch, O ! curwch ddwyllaw 'nghyç,  
Rhyfeddod iddo farw, ac E'n Grëawdwr byd.

Anadled yr awelon, murmured pob rhyw nant,  
Ryw sŵn soniarus hyfryd, fel bysedd byw ar dant ;  
I'r hwn ei hun sy'n ffynnon o ddwfr y bywyd pur,  
Ac yn anadlu o'i ysbryd gysuron gloyw clir.

Fellt, fflamiwch ei anrhydedd—daranau, seiniwch chwi,  
Ei glod tra fyddo'r moroedd yn rhuo maes ei fri ;

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 183

Chwi ddefaid mân a geifr, cwblhewch yr anthem hyn,  
Fel oen dan law y cneifiwr, bu ar Galfaria fryn.

Ti, ffynnon y goleuni, ymgryma lawr dy ben,  
I haul mil mwy ei lewyrch disgleiriol yn y nen ;  
D'wed yn dy dro di-derfyn am glod a mawl fath un,  
Sy â'i belydr cysurus yn g'leuo enaid dyn.

Angylion, arch-angylion, O ! cyd-foliennwch ef,  
A dysgwch ei foliannu ef hefyd nef y nef ;  
Chwi welsoch anfeidroldeb ei air a'i ryfedd rym,  
Pan welsoch natur äang yn tarddu maes o ddim.

Mil mwy oedd eich rhyfeddod yn Gethsemane'n awr,  
Wel'd chwÿs a gwaed yn ddafnau yn syrthio ar y  
llawr,  
Pwys bai hiliogaeth Adda yn gwasgu i lawr yn dÿn,  
Yr hwn a rôdd eich bywyd ryw oesau maith cyn hyn.

Ond dyn yn enwedigol—ïe, dyn, clodfod ef,  
Mewn haleluia ddyblyg, o'r ddaear gron i'r nef,  
Can's tros y dyn 'mestynodd ef ar y croesbren mawr,  
A thros y dyn gorweddodd yn ngwaelod bedd i lawr.

Beth bynag y gwahaniaeth rhwng graddau yn y byd,  
Can's iawn di-dderbyn-wyneb oedd trosom ni i gyd,  
Am hyn, frenhinoedd, cwmpwch o'ch gorseddfeydd i  
lawr,  
Sy'n ifori o'r drutaf, i addoli'r Brenin mawr.

Chwi dlodion cystuddiedig, di-gysur, byth na thewch,  
Ond byddwch bellach lawen, drachefen llawenhewch ;

184      Williams, o Bant-y-celyn,

Dewisodd yntau dlodi, a gwawd ac angeu du,  
Fel y byddech chwi'n frenhinoedd yn y wybrenau fry.

Chwi henaint sy'n ymgrymu dan bwys blynyddau hir,  
Yn rhedeg gyda'r angeu tua'r anghofus dir,  
Crist unig, pwyswch arno, craig eich eneidiau trist;  
A'r gair diwedda' dd'wedoch, Boed mawl i Iesu Grist.

A'r cynta' dd'wedoch chwithau, fabanod egwein,  
prudd,  
F'o clod i enw Iesu, a dechreu gyda'r dydd ;  
Parhewch hyd byth i'w foli, dewiswch ef yn rhan,  
Er mwyn i chwi gynnyddu daeth ef yn faban gwan."

Byddai gwneuthur araeth neu draethawd i osod allan ragorol oleuni yr haul i ddynion sydd â llygaid yn eu penau i'w weled a'i fwynhau, neu i haeru fod mawreddigrwydd yn nhwrf y daran, yn wasanaeth hollol afreidiol a pherffaith ffol. Dywed yr haul a'r daran yn well am danynt eu hunain nag y dichon i neb arall ddywedyd. Gwaeth nag ofer fyddai i ninnau sefyll ar y fath ddernyn a hwn yna mewn canmoliad iddo ; teui sydd oreu. Ond ni allwn lai na chyfeirio at y penpill a esyd y melld, y taranau, y môr, a'r defaid, a'r geifr, i gyd-anthemu mawl. Y mae hwn, dybygem ni, yn anghymmharol. Cofus genym unwaith ddal sylw ar nifer o ddefaid, ar dymmestl o fellt a tharanau, yn cael eu dwys gynhyrfu pan ymdorodd taran ddychrynllud uwch eu penau ; rhoddent naid frawychus ar unwaith, gan redeg at eu gilydd ; daliai pob un ei saig yn ei genau, gan wrandaw ar leferydd y daran mewn syfrdandod



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 185

arswydlawn ; wedi iddynt ddistewi, llyngcai pob un ei chilfochiad o ymborth, a rhoddai frefiad neu ddwy fel i gyfarch eu gilydd ar eu gwardigaeth ; yna, ymwasgarent, ac ymollyngent i bori fel o'r blaen. Os oddi ar sylw o'r cyffelyb ddigwyddiad y cyssylltid brefdoniad y defaid a'r geifr, a thwrf y daran, a rhüad y môr, gan y bardd yn y pennill, y mae yn enghraifft nodedig o *dri phrif anhebgor awen*, yn ol yr hen "Drioedd Cymreig"—"*Llygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder a faidd gyd-fyned âg anian.*" Ond os dyfais yr athrylith, ac nid effaith sylw ydoedd, y mae y pennill yn ei phrofi yn dywysoges o wir fonedd, a'i theilyngdod i gael ei gosod yn y rhestr flaenaf gyda'r eiddo y beirdd coronog, y tu hwnt i ammheuaeth. Ni allasai dim fod yn fwy annisgwyladwy na galw ar y defaid mân a'r geifr i gwblhau yr anthem a ddechreuid gan y daran a'r môr, ac ni allai dim fod yn brydferthach. Caiff y môr gymmeryd yr isaf-dôn (*bass*), y daran y canol-donau (*tenor a counter*), y defaid mân a'r geifr yr uchel-dôn (*treble*). Ac ni bydd dim anghydgordiad yn y gerddoriaeth—cerddoriaeth anian ei hunan ydyw.

Y detholiad nesaf a roddwn allan o'r drydedd bennod—"Crist yn achub ei deyrnas yn y gwrthryfel cyffredin." Dyma wregys-lwynau y greadigaeth yn llacio, ac ar ymddattod—tân melldith a digofaint ar ymdywallt yn afonydd dinystriol i ysu anian oll. Ond:—

" Rhedodd y Messia i mewn i gyfyng le,  
Rhwngeuog ddyn y safodd fel hyn â Brenin Ne',

186      **Williams, o Bant-y-celyn,**

Fe brynai'r greadigaeth oedd wedi myn'd ar goll,  
Ac aeth ei hun yn 'tiffedd o honi oll yn oll.

A natur äang ydoedd yn awr yn myn'd yn fflam,  
Attaliwyd a diffoddyd er mwyn y gwaed di-nam,  
Dywalltid ar Galfaria rhwng daear gron a ne',  
Gan ei unig Fab a'i 'tiffedd osodwyd yn ei lle.

Ac fe ga'dd pob creadur, o'r mwya' i'r lleia' un,  
Drwy addaw o'r Iesu farw fod yn ei le ei hun ;  
Y greadigaeth äang i bara'n ddi-wahân,  
Yn yr un dull a threfen ag ydoedd hi o'r blaen.

Ca'dd hediaid genad ganu o fewn y wybren fawr,  
Ymlusgiaid ymddifyru, a hilio hyd y llawr ;  
'Nifeiliaid a bwystfilod, ac ymborth iddynt stôr,  
A'r pysgod chwareu a neidio o fewn i'r dwfn fôr.

Ac oll sy'n awr yn sefyll yn gyfan yn y gwaed,  
Trwy eitha' poen i'r Iesu, i ni yn eitha' rhad ;  
Gwaed brynodd y gre'digaeth, dyn aethai'n lân ar  
goll,  
Ac yn y gwaed mae'n sefyll yr awrhon oll yn oll.

Ni allai'r heulwen gerdded led troed o'r awyr lâs,  
Na seren gron na phlaned a'u troion fyn'd i maes ;  
Ni allai *Arcturus* rodio cylch pôl y gogledd pell,  
Oni b'ai fod yr Iesu yn ben cyfammod gwell.

Ni thyfai gwellt y ddaear, ni chwypai gwllith yr  
haf,  
Ni welid pren yn deilio, nac un blodeuyn braf ;

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 187

Ni chwythai'r deheu tawel un awel ddydd na nos,  
I ddatgloi'r ddae'r glöedig, oni b'ai gwaed y groes.

Ni allai'r 'fonydd redeg, na'r bryniau sicra'u sail  
I sefyll ar eu gwadnau, oni b'ai Adda'r ail,  
Ni chodai'r môr ei donau, ni chariai longau'r un,  
Fe sychai'i ddwfr i fyny, oni b'ai Fab y dyn.

Ni all'sai'r ddae'r gwmpasog ar ei throsolion droi,  
Hi gawsai ei diddymu, neu hithau fuasai'n ffoi ;  
Neu ynte, cawsai'i llogi yn ulw hyd ei sail  
Pan gwmpodd Adda cynta', oni buasai Adda'r  
ail.

Ni buasai'n uffern dywyll yn poeni ond dau ddyn,  
Ni chawsai'r nefoedd oleu i drigo ynndi'r un ;  
Holl drefn y greadigaeth, a'i harddwch gwychai'i  
maes,  
Oll fuasai'n myn'd yn ofer oni buasai cymmod gras.

Diolched byd lliosog o'r bron i gyd i ti,  
Am addaw'n gynnar farw ar fynydd Calfari,  
Can's ynot maent yn sefyll, a thi yw eu parhâd,  
Colofnau'r greadigaeth yn unig yw dy waed !"

Wedi hyn arweinir ni i sefyll gyferbyn â'r olwyn hono sydd "â'i chantau yn gyfuch ag y maent yn ofnadwy—a'i gwedd a'i gwaith fel pe byddai olwyn yn nghanol olwyn, ac yn llawn llygaid oddi amgylch, ac ysbryd y peth byw yn nghanol yr olwynion"—nerth a dylanwad y Goruwchrëolwr tragwyddol yn ysgogi ac yn rheoli pob ysgogiad.

188      **Williams, o Bant-y-celyn,**

Wedi ychydig ragymadroddiad, medd y bardd:—

“Dechreuaf ganu’n gyntaf am ei ragluniaeth fawr,  
Ar dorf ddi-rif o hediaid sy’n chwareu uwch y llawr;  
Fel mae’n gofalu am danynt, a than ei aden ef  
Y nytha pob aderyn sy’n trigo yn y nef.”

Ac wedi olrhain ei gofal am y côr asgellog, dilynir yn mlaen at y tylwythau eraill o greaduriaid—ac yn olaf, ei goruwch ofal am, a’i charedigrwydd i’r dyn anniolchgar, yr hwn, er maint ei euogrwydd, yw megys canolbwynt ei gweithrediadau—“Ond yn enwedig y ffyddloniaid.”

Yn y bennod nesaf ymdeithia drwy holl faes yr Ysgrythyrau—Moses, a’r prophwydi, a’r Salmau, y cysgodau, y seremonïau, yr aberthau, a’r prophwydoliaethau, a Christ yn sylwedd yr oll. Y Testament Newydd—hanes bywyd, gweinidogaeth, gwyrthiau, marwolaeth, ac aberth y Cyfryngwr; a gosodiad i fyny ei deyrnas efengylaidd ar y ddaear. Y rhai y rhaid i ni eu gadael, gan y pallai amser a lle i ni roddi detholion o honynt. A’r un modd y pennodau eraill ar “Deyrnasiad Crist yn ei Saint,” “Y farn, a rhoddiad i fyny y deyrnas,” &c. Gwasanaetha y detholion a roddasom y dyben o amlygu nodwedd a theilyngdod y gân.

Cyn ei gadael, chwenychem wneuthur rhai sylwadau pellach ar ei theithi. A gadael allan o ystyriaeth y gwallau ieithyddol, ni phetruswn hōni ei chystadledd â phrif orchestion awenyddiaeth annwyfol-edig yr oesoedd. O ran ei chorph (ei chynlluniad),

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 189

cyd-osodiad ei haelodau, a gweddus-der ystûm ei chymmalau a'i chyssylltiadau, y mae yn brydferth a hardd dros ben. Yn ein bryd ni, ni allasai fod yn well. Y mae yr esgeiriau oll ogyhyd, fel nad oes na llesgedd na chloffni i'w ganfod.\* Ac am ei henaidd (y meddylddrychau), y mae nerth bywyd angerddol ynddo. Er fod peth tebygolrwydd ynddi i *Goll Gwynfa*, y mae y gwahaniaeth rhwng y ddwy yn fawr hefyd. Y mae gallu dychymybol y bardd Saesneg yn fwy o grëwr na'r eiddo y bardd Cymreig. Nid yw yr olaf mor öofn ac anturiaethus a'r blaenaf. Ond i'r graddau y gollynga y ffrwyn iddo, y mae mor gryf a bywiog a'r llall. Y meddylddrychau ydynt yn llawn mor danlyd a hedegog; ond y mae yr athrylith a rêd ynddynt o ryw ansawdd wahanol. Pâr athrylith Milton i ni ymgrymu yn wylaidd ger ei bron—drwy ei mawrhydi awdurdodol rhaid i chwi syrthio i lawr o'i blaen, boddllawn neu anfoddlawn. Yr eiddo Williams a'ch hud-ddena â rhywbeth sydd yn ei gwedd a'i llais na ellwch roddi cyfrif am dano pa beth ydyw; ond *rhywbeth* ydyw, ac y mae yn *rhywbeth*. Adnebydd y glust ei llais hi yn nghanol lleisiau mil o awenyddion; dodai ei hargraphnôd ar bob llinell yn mron, fel nad yw braidd yn ddichonadwy ei lladrata na'i dynwarded, heb i'r lleidr a'r ffugiwr fod yn y perygl mwyaf o gael ei ddal. Milton a'ch syna yn aruthrol, nes y byddo holl flew eich cnawd yn sefyll; cyfyd ddrychiolaethau ger eich bron a bâr i ofn ac arswyd ymaflyd yn eich cnawd a'ch esgyrn, neu, os o natur hyfryd y byddant, a barant i'ch mynwes

---

\* Sylwer ar ddsbarthiad y pennodau, &c.



chwyddo o ddyddordeb. Williams a estyna ei law drwy ryw dwll, ac a gyffyrdda â holl dannau eich ym-sgaroedd—gŷr eich calon i losgi ynoch yn ddiarwybod i chwi. Ni allwn ddarllen *Coll Gwynfa* heb gael ein cynnhyrfu a'n cyffroi braidd tu hwnt i'r hyn a all natur ei oddef; ond nid tasg anhawdd i ni fyddai ei darllen o'i dechreu i'w diwedd heb ollwng gym-maint a dyferyn o ddagrau. Eithr wrth ddarllen *Golwg ar Deyrnas Crist*, trwy ein dagrau yn unig y gallwn fyned yn y blaen. Ac os yn ei ddarllen yn uchel i gylch o gyfeillion a allont gyd-fwynhau y wledd, rhwystra y wylo y tafod yn fynych i acènu yn llawn a chroyw. Bu yn gywilydd genym drosom ein hunain oblegid hyn rai prydiau, ond ni feddem help; trechai yr athrylith ni, tröai y deigr-lestri â'u gwyneb i waered, a'r defnynau heillt-loywon a redent allan.

Hwyrach na chyfeiliornem pe dywedem fod y ddwy gân dan sylw—*Coll Gwynfa* a *Golwg ar Deyrnas Crist*—yn ddelweddau o ansoddion gwahan-iaethol y ddwy oes, yn gystal a'r eiddo y ddau fardd. Oes y meddyliau dwfn-wreiddiol—yr ysbryd ymrodd-gar, cadarn fel craig, diysgog ac anhyblyg fel deri Basan—oes y Puritaniaid oedd oes Milton; ac y mae y meddwl a'r ysbryd yma yn rhedeg drwy y gân. Ei gyd-oeswyr ef oeddynt Phylip Nye, Dr. Owen, Howe, Baxter, Vane, Hampden, a llu o'r cyffelyb gedymr di-hefelydd. Yr oedd nerth y taranau cryfion yn eu meddyliau, eu hysbryd, eu gweinidogaeth, a'u gweith redoedd. O'r tu arall, oes y "telynorion yn canu ar eu telynau" oedd oes Williams. Yr oedd ei doniau, a dylanwad ei gweinidogaeth, fel "gwres eglur ar

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 191

lysiau, fel niwl gwllith yn ngwres cynhauaf." Yn ei ddyddiau ef y blodeuodd Whitefield, a Wesley, a nifer o gyd-lafurwyr yn Lloegr, a Daniel Rowlands, a lliaws o'i gyffelyb yn Nghymru; ac y mae ei gân dan sylw (a'i ganiadau eraill) yn dwyn y ddelw yma. Y mae *Coll Gwynfa* a *Golwg ar Deyrnas Crist* yn fath o gôf-golofnau o nodweddau ac amgylchiadau y ddwy oes.

Yn ei thuedd ymarferol a'i defnyddioldeb cyffredinol, anturiwn roddi y flaenoriaeth i'r gân Gymreig ar yr un Saesneg. Dr. Campbell, yn ei waith gorchestol a elwir "*The Martyr of Erromanga*," a fyn ddyrchafu clod a theilyngdod cân fugeiliol Hesiod uwch law arwrgerdd "*Ihadol*" Homer, ar gyfrif tuedd ymarferol ragorach y flaenaf. Tuedda cân Hesiod i feithrin ysbryd llafur, diwydrwydd, a thuedd i amaethu a diwyllio tir ac anifeiliaid yn ei ddarllenwyr. "*Iliad*" Homer a duedda i feithrin ysbryd gwaedlyd rhyfel yn mhawb a'i darlleso. Wrth ddarllen *Coll Gwynfa* Milton, yr olwg a roddir ar ryfeddol alluoedd, cyfrwysder, dyfeisiau, dichellion, medrusrwydd, malais, ystyfnigrwydd anhyblyg, a chynddaredd ofnadwy yr archangel syrthiedig, ydyw yr hyn a'ch tery fwyaf yn mron o ddim. Ni ellwch lai na sŷn-edmygu y creadur, tra yn echrydu rhag ei ysbryd a'i nodwedd. Yn *Ngolwg ar Deyrnas Crist*, gogoniant Emmanuel sydd o hyd ger bron ein llygaid. Yr ydym yn barhaus yn rhodio yn nghanol goleuni a gwres Haul y Cyfiawnder. Pa le bynag o'i lywodraeth y'n harweinir, ac am ba ran bynag o'i waith y sonir, ni chawn byth amser i'w anghofio ef—cedwir ef yn ein golwg bob

cam. Defnyddir y gwaith i ddangos y gweithydd, ac i ddadgan ei ogoniant; a gwaith ei fysedd a'i ddoethineb mewn creadigaeth a rhagluniaeth a wasanaetha i osod allan "ogoniant mwy ofnadwy" gwaith ei ras yn iachawdwriaeth dyn, nes ydym yn colli gogoniant y blaenaf yn rhagorol ogoniant yr olaf. Gwneir creadigaeth a rhagluniaeth yn drostan i ddyrchafu Crist croeshoeliedig arni. Wrth adael y ddwy gân gyferbyniedig, dywedwn:—Cân Milton a chwydda'n dychymyg; cân Williams a chwydda'n serchiadau. Cân Milton a'n syna yn aruthr; cân Williams a'n todda yn hyfryd. Cân Milton a'n cipia megys drwy drais; cân Williams a'n dena o'n gwirfodd. Yn y flaenaf y mae mwyaf o'r ddaeargryn; ond yn yr olaf y mae mwyaf o'r llef ddistaw fain. Y flaenaf a'n cyffrôa ac a'n hysgydwa fwyaf; ond yr olaf a bair i ni blygu ein gwyneb yn ein mantell.

Yr hyn sydd yn dolurio y llygaid, ac yn merwino y glust ydyw yr ymadroddion estronol ac isel a gyfarfyddwn yn fynych; y maent fel gwybed meirw yn enaint yr apothecari. Trueni ydyw fod y fath eiriau a *ffito, resolvo, presento, capabl, sentense, scêm, striff, trust, &c.*, yn anurddo wyneb y gân, pan y mae ein hen iaith mor gyfoethog o eiriau llathr a sathredig i gyflwyno meddwl y naill a'r llall. Y mae y geiriau *ffito, resolvo, presento*, a'r cyffelyb, yn fastarddiaid anolygus dros ben—corph Saesnig a chynffon Gymreig wrtho. Anurddiant arall ydyw, fod yr un odliadau yn cael eu tra mynychu, nes y maent yn myned yn ddiflas. Cymmyla hyn lawer ar wychedd y gân, a lleihâ ei grym effeithiol i raddau helaeth.

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 193

Torir esgyrn, a dadgymmelir geiriau weithiau hefyd yn erwinol; ac y mae golwg resynus i'w gweled ar ambell druan-air, megys *ca'd* (cafwyd), *ca'th* (caeth), *'rio'd* (erioed), *gwa'd* (gwaed), &c. Y mae ein bardd yn troseddu yn arswydus hefyd yn erbyn iawnderau grammadeg a chystrawen mewn amryw o'i bennillion. Cyfiawnder a alwai arnom grybwyll y pethau hyn. Nid yw doddi *tad* a *gwaed*, *tân* a *blaen*, &c., i gyd-odli ond trosedd bychan yn ein bryd ni mewn cymmhar-iaeth i ddryllio y gair i gadw cyd-seiniaeth yr odliad— y mae *aelod* gair yn fwy ei werth na *bywyd* odliad. Teimlem, wrth edrych ar ambell dudalen, megys pe buasem mewn ysbytty filwraidd, yn nghanol clwyfed-igion wedi brwydr dost; ambell air wedi ei archolli yn ei ben, arall yn ei ymysgaroedd, ac arall wedi colli clûn neu goes; at yr arferiad anghyfreithlawn o'r sill-goll yr ydym o hyd yn cyfeirio, a'r enghreifftiau hyny yn unig y dymunem weled eu trwsio a'u cyfanu. Weithiau, hefyd, rhêd ein hawdwr i'r ochr eithafol arall, a dyry aelod gormodol i air, a hyny fyth er mwyn yr odliad. Ysgrifena y gair *bath*, er enghraifft, yn *baeth*, er cyd-odli â *gwnaeth*; yn lle tori crimog *gwnaeth* yn *gwna'th*, fel yr arfera fynychaf. Y geiriau a welwn fel hyn weithiau yn y gân ydynt rywbeth yn anghenfilaidd, yn debyg i law y byddo chwech o fysedd arni, yr hyn a'i gwna yn anhyferth yr olwg arni. Diofalwch y bardd, yn benaf, a barai amryw o'r anafau hyn. Y mae ugeiniau o bennillion yn y gân yn y rhai y mae yr iaith buraf a symlaf wedi ei chordeddu yn ddestlus dros ben. Gwelir amryw o'r cyfryw yn y detholion a roddasom. Gosodir y meddyliau cryfaf allan yn y geiriau cryfaf, wedi eu

trefnu a'u cyd-gyssylltu yn y modd goreu. "Darnau ydynt y byddai yn rhyfyg yn neb osod ei fwyell arnynt," fel y dywed awdwr y *Drych Barddonol*.

Dylem, hwyrach, ddywedyd gair neu ddau cyn terfynu am dduwinyddiaeth y gân. A'i hystyried ar y cyfan gyda'i gilydd, ni phetrusem ei galw yn *jêr duwinyddiaeth iachus*; etto, yr ydym yn cyfarfod âg ambell syniad na allwn ei lyngcu, ac âg ambell ymadrodd nad ydyw yn ymddangos yn gwbl rasol, yn ein tyb ni. Meddyliem, hefyd, fod rhai pennillion yn milwrio braidd yn erbyn eu gilydd weithiau, o ran y golygiadau athrawiaethol a gynnwysant. Y mae ynddi rai pennillion a foddhäent Galfiniad go uchel, ac eraill a foddhäent archwaeth yr Arminiad—ni allai yr un o'r ddau frawd fwyta y llyfr i gyd. Er mai dysgybl Ioan (Calfin) oedd yr awdwr, mewn gwirionedd, ymddengys yn y gân hon yn fynych fel pe buasai wedi llwyr anghofio Iago ac Ioan (James Arminius a John Calfin), ac yn gollwng ei hunan i'w destyn, ac i draethu ei syniadau arno fel yr ymgodent yn ddelweddu ger bron ei feddwl. Am yr hyn a hönir fwy nag unwaith, fod Crist yn archoffeiriad yn ol urdd Aaron ar y ddaear, ac yn ol urdd Melchisedec yn y nefoedd—yr ydym yn ei golygu yn athrawiaeth apostolaidd yn y llythyr at yr Hebrëaid, lle dywed Paul mai "offeiriad arall" oedd Crist, "yn ol urdd Melchisedec, ac nas gelwid ef yn ol urdd Aaron;" ac yn myned yn mlaen i ddangos "mai o lwyth Juda y cododd ein Harglwydd ni, am yr hwn lwyth ni ddywedodd Moses ddim tuag at offeiriadaeth." Nis gallwn, chwaith, gymmeradwyo y golygiad y bydd y



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 195

Cyfryngwr yn ymddiosg o'i swyddau a'i waith fel Cyfryngwr wedi y rhoddo efe y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad.

“'R holl swyddau a gymmerodd fel Prynwr mawr y byd  
A ddiosg fy Iachawdwr oddi wrtho'n awr i gyd.”

Etto:—

“'T raid bellach wrth Gyfryngwr fod byth rhwng Duw a dyn.”

Os golygai ein hawdwr yn yr ymadroddion uchod y bydd y Gwardwr yn llwyr ymddiosg o'i gymmeriad a'i swyddau cyfryngol, yn mhellach na rhoddi i fyny y dull presennol o'u gweinyddu—y bydd yn rhoddi i fyny *deyrnasu*, pan y rhoddo i fyny y *deyrnas*—yr ydym yn hollol anghyttuno âg ef. Wrth roddi i fyny y deyrnas yr ydym yn golygu mai meddwl yr apostol ydyw, y bydd yr oruchwyliaeth yn newid—goruchwyliaeth a gweinyddiad newydd yn cael ei gosod i fyny; ac ar newidiad yr oruchwyliaeth, y bydd i'r Gwardwr roddi ei gyfrif i fyny megys gwas y Tad, pan y rhydd adolygiad cyhoeddus o'i holl waith, yn nygiad oddi amgylch oruchwyliaethau rhagluniaeth a gras mewn amser. Ynddo a thrwyddo ef fel Cyfryngwr y bydd y gwardedigion yn ymgynabod â Duw byth. Bydd yn Archoffeiriad mawr y deml fry, i flaenori yn ei gwasanaeth; yn Frenin i lywodraethu teyrnas gogoniant, fel y mae yn awr yn llywodraethu teyrnas gras a rhagluniaeth; ac yn Brophwyd a Bugail, i arwain y brynedigol dyrfa at ffynnonau o ddwfr bywiol, i agor dirgeledigaethau hanfod a chynghor y Duwdod

iddynt, yn oes oesoedd. Ond gwell i ni droi yn ol, oblegid yr ydym yn nesâu i dir dyeithr iawn. “Dyma wybodaeth ry ryfedd i ni; uchel yw, ni fedrwn oddi wrthi.” A gallai ei bod yn rhy uchel i seintiau ac angylion y nef yn bresennol i allu amgyffred ond ychydig iawn am dani. Gwareder ni rhag rhyfygus ruthro i dir yr arswydai angel nesâu ato, a llefaru yn hŷf am bethau y dewisai ef dewi mewn gwylder uwch eu pen.

—————:o:—————

PENNOD III.

—————

“*Theomemphus.*”

Wedi i ni ffurfio cydnabyddiaeth agosach â *Theomemphus* nag a wnaethem o'r blaen, mewn trefn i osod delweddau ei nodwedd ger bron ein darllenywyr, braidd nad oedd yn edifar genym ddarfod i ni osod coron rhagoriaeth ar ben *Golwg ar Deyrnas Crist*. Meddyliem unwaith wrandaw o honom yn rhy fyrbwyll ar lais eu tad, yr hwn, fel Joseph gynt, wrth ddwyn ei feibion Manasse ac Ephraim at ei dad i'w bendithio, a'u cyflwynai gan gymmeryd *Golwg ar y Deyrnas* yn ei law aswy tua'r llaw ddeheu, fel y dodem hono ar ei ben ef, a *Theomemphus* yn ei law ddeheu, fel y dodem ein llaw aswy ar ei ben yntau. A wnaethom yn iawn ai peidio sydd braidd yn ammheus genym; ond “yr hyn a ysgrifenyd a 'sgrifenyd.” Bendithiasom y cyfansoddiad ar y *Deyrnas*, a bendigedig a bendithiol hefyd ydyw, ac a fydd. Y mae

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 197

genym hefyd fendith yn ngweddill i *Theomemphus*; ac yr ydym yn awr yn barod i osod ein dwylaw ar ei ben, a'i thraddodi.

Am *Theomemphus*, dywedai yr awdwr iddo "ddylifo o'i ben mal y dylifa ei wê o fol y pryf copyn," ac na chostiodd ei gyfansoddi iddo hanner y myfyrdod a'r llafur a gymmerasai gyda *Golwg ar Deyrnas Crist*. Dyna un rheswm, yn ddiâu, pa ham yr edrychai bob amser gyda mwy o hoffder ar yr olaf nag ar y blaenaf. Cofus genym chwedl a glywsom pan yn bur ieuangc, ddarfod i gyfaill mewn ymddiddan âg ef unwaith ofyn iddo, pa ham y soniai bob amser gyda mwy o ddyddordeb am *Golwg ar Deyrnas Crist* nag y gwnai am *Theomemphus*? Ac mai ei ateb oedd, "Chwi a wyddoch fod y fam yn teimlo mwy o serch tuag at y plentyn y bu galetaf arni wrth ei ymddwyn, nag a deimla at yr un arall o'i phlant." Y mae hon, yn ddiâu, yn reddf neu briodoledd a red drwy y greadigaeth anianyddol a dealltwriaethol. Hoffder yr iâr o'i chywion sydd gyfartal i'r ymryd, y penyd, a'r ymgystuddiant yr ymgwyfwna iddynt i ymddwyn ar eu dëoriad. Yr estrys, yr hon a âd ei hwyau yn y tywod, i'w dëor gan wres yr haul, "sydd galed wrth ei chywion, fel pe na byddent eiddo hi." O holl greaduriaid y maes nid oes un yn llydnu gyda chymmaint poen a'r ewig, ac nid oes yr un o honynt mor dra hoff o'u llydnod ag ydyw hi. Cyfeiria yr Ysgrhythyr at y ddwy ffaith. At y flaenaf y cyfeiria y Salmydd pan ddywed, "Llef yr Arglwydd (y daran) a wna i'r ewigod lydnu;" sef, y mae sŵn y daran yn gynnorthwyol iddynt. A chyfeiria y prophwyd

Jeremiah at yr olaf, pan ddywed, gyda phwysnôd arbenig, er dangos mawredd y wasgfa yr oedd gwlad Judah o dani o herwydd sychder—"Ië, yr ewig hefyd a lydnodd yn y maes, ac a'i gadawodd, am nad oedd gwellt." Sylwa yr Iachawdwr ar weithrediadau y briodoledd yn nammegion y ddafad gyfrgolledig a'r mab afradlawn. Llawenhâ y bugail fwy am y ddafad gyfrgolledig, wedi iddo ei chael, "nag am yr onid un pum' ugain nid aethent ar ddisperod," ar gyfrif y pryder a'r drafferth a gawsai gyda hi. Llawenhâ a gorfoledda y tad, ar ddychweliad ei fab ieuengaf afradlawn adref o'r wlad bell, yn fwy o lawer nag ar ddyfodiad ei fab hynaf at y tŷ o'r maes lle y buasai yn aredig; a phan ddigiai hwnw oblegid hyny, amddiffyna ei hun trwy ddywedyd, "Yr wyt ti bob amser gyda mi"—a "rhaid oedd llawenychu a gorfoleddu, oblegid dy frawd hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn, ac a fu golledig ac a gafwyd." Y mae yr un modd yn y byd dealltwriaethol—y cyfansoddiad neu y dyfeisiant a gostio i'r awdwr fwyaf o lafur a phryder gydag ef fydd yr un y teimla byth fwyaf o ddyddordeb ynddo ond odid, ac y mŷn i eraill ei fawrygu fwyaf hefyd. Ni allwn droi yn ol heb ddilyn naturiaeth ar hyd y llinell hon at ei ffynnonell, ei Thad anfeidrol ei hun. Efe, yn ddiâu, a osododd ynddi y tueddfryd hwn, ac y mae rhywbeth sydd brydferth a hawddgar ynddo, fel pob peth arall o'i waith Ef. Ac yn mhellach, y mae argraphnôd o'i ddelw Ef ei hun i'w weled yma hefyd. Pa sawl gwaith yr ardystia ei Air fod yn hoff ganddo drugared—yr unig briodoledd hono yn ei hanfod ogoneddus a alwai am aberth a thraul anfeidrol i'w harddangos

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 199

a'i gweinyddu? I'r fath anwyldeb ac agosrwydd ato ei hun y derbynia ac y dyrchafa y dyrfa brynedigol o ddynolryw, y rhai trwy "waed yr ammod" a ollyngir "o'r pydew heb ddwfr ynddo."

Ond yr ydym wedi myned yn mhell ar grwydr oddi wrth *Theomemphus*. Bellach ni a ddychwelwn, ac ni chiliwn mwyach oddi ar ein llwybr tua'r tu deheu na thua'r tu aswy.

Cyfranoga *Theomemphus* yn helaeth o ysbryd a theithi *Golwg ar Deyrnas Crist*. Yr un yw mesur y gân, a gwelir yr un gwallau a rhagoriaethau ynddi ag yn y llall. Ond mater ac ansawdd y ddwy ydynt dra gwahanol. Rhêd yr un athrylith awenyddol yn hollol drwyddynt, ond arall a gwahanol yw y ffrydle. Yn *Ngolwg ar Deyrnas Crist* cawn ein hawdwr yn efelychu John Milton; ac yn *Theomemphus*, yn efelychu John Bunyan; ond yn mhob un yn Williams, o Bant-y-celyn. Yn y gân flaenaf y mae yn athronydd anianyddol; yn yr olaf, yn athronydd meddyliol; ac yn y ddwy fel eu gilydd, yn athronydd Cristionogol. Wrth ganu ar "Deyrnas Crist" traetha am arfaeth, creadigaeth, rhagluniaeth, ac iachawdwriaeth Duw; ond yn *Theomemphus* gesyd allan weithrediadau pechod a gras yn enaid dyn. Y groes, er hyny, yw canolbwynt y ddwy. Yn y flaenaf y mae athrawiaeth y groes mewn golyg-ddysg (*theory*) yn benaf; yn yr olaf dangosir hi yn fwy yn ei gwaith, ei dylanwad, a'i heffeithiolaeth.

Cyfansoddiad darfelyddol o'r un natur ac amcan



a *Thaith y Pererin*, gan Bunyan, ydyw *Theomemphus*, fel yr awgrymwyd yn barod, ond ei fod ar gân. Cynnwysa ugain o bennodau—rhy faith fyddai doddi yma grynodedb o'u sylwedd, fel y mae o flaen pob pennod yn y llyfr. Dodwn yn unig dalfyriad o'r cynnwysiad, er gosod math o fraslinelliad o'r gwaith ger bron ein darllenwyr. Rhoddir yn gyntaf hanes mebyd ac ieuengctid *Theomemphus*, a'i fuchedd cyn ei dröedigaeth; yna, ei argyhoeddiad dan bregeth *Boanerges*, ynghyd â nifer o'i gymdeithion—gau-athrawon yn ei dawelu â gau heddwch—ail bregeth *Boanerges* yn ei ail drywanu—ei ofnau a'i helyntion mewdol—yn methu cael tawelwch drwy athrawiaethau sychlyd a chnawdol y gau-athrawon—*Evangelius* yn pregethu yr efengyl—effeithiau y bregeth ar *Theomemphus*—yr heddwch a'r gorfoledd a brofodd yn fuan wedi hyny—ei gynnydd mewn gwybodaeth, profiad, a defnyddioldeb crefyddol—ei demtasiynau, gwrthgiliadau, ac adferiadau—yn caru *Philomela*—*Dr. Aletheius* yn ei holi ac yn ei geryddu—ei brofedigaeth lem, a'i ymadawiad â *Philomela*—malais *Iratius* tuag ato—yn priodi *Philomela*, a'i dywydd blin wedi hyny—ei ymdrech yn erbyn hudoliaeth *Jezebel* (*Antinomiaeth*)—ei ddadl ag *Academicus*—angeu yn ei gyfarfod—*Theomemphus* yn terfysgu, ac yn y diwedd yn marw mewn tangnefedd a gorfoledd—ei ysgrifen-fedd.

Anaf, dybygem ni, ar y gân ydyw na buasai yn cyfyngu ei gwrthddrych o fewn cylch gwlad ac oes. Gogoniant ffug-hanesiaeth ydyw ei bod yn dwyn cymmaint o ddelw ffaith ag a fyddo bossibl. *Hanes*



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 201

*Robinson Crusoe*, gan Daniel Defoe, sydd gyfansoddiad dihefelydd ar y cyfrif hwn. Ni all un darlennydd o'r llyfr hynod hwnw ymgadw heb gael ei ddirgel weithio i'r gred ei fod yn wirionedd, er gwybod yn amgen cyn dechreu; a sylwai un beirniad yn ddiweddar y rhaid fod Defoe ei hun yn cael ei effeithio felly wrth ei ysgrifenu. Y mae *Theomemphus* yn y gwrthwyneb yn hyn. Argyhoeddir y darlennydd yn y fan mai ffug-hanesiaeth ydyw, a thŷr hyny y swyn ar unwaith—ettyl ei gydymdeimlad â'r gwrthddrych, a lleiheir drwy hyny y dyddordeb yn fawr. Ni wyddis yn y byd pa bryd y ganwyd *Theomemphus*, medd hanesydd ei fywyd; ond dywed mai "yn nhiroedd Nod," yn rhywle; ac mai "Hittes ac Amoriad" oedd ei fam a'i dad. Dywed iddo grwydro drwy yr Aipht a Sodom, a Thyrus a Sidon, a chant o fanau, gan hau hadau melldith a thrueni y ffordd y cerddai. Deuai yn benrhyswr mewn annuwioldeb a phechod yn mhob lle. Dysgai ffyrdd newyddion o bechu i bechaduriaid pob gwlad yr ymwelai â hi, a dyfeisiodd lawer o bechodau newyddion na buasai sôn am danynt cyn ei amser ef. Trwythodd ei hunan yn ffosydd pob anwiredd a ffeidd-dra, a chlododd ar ei ben bob euogrwydd dichonadwy i greadur. Yr ydym yn ei gael gyda Pharaoh yn erlid ar ol Israel i'r Môr Coch, ond diangodd rywfodd heb ei fodd. Yn mhen cannoedd o flynyddoedd wedi hyny yr ydym yn ei gyfarfod yn llys Belsassar yn Babilon, ac "efe oedd y cyntaf un, o lestri teml Seion, a feddwodd ar y gwin." Diangodd â'i fywyd yn ysglyfaeth ganddo oddi yno hefyd. Yn mhen cannoedd o flynyddoedd drachefn ni a'i cyfarfyddwn yn y fintai o lofruddion a anfonodd Herod

frenin i ladd plant Bethlehem, ac wedi hyny yn plethu y goron ddrain i'w doddi ar ben Iachawdwr y byd; ac eilwaith y mae prif amgylchiadau ei fywyd yn ei osod allan fel brodor o Gymru, ac yn oesi tua chanol y ddeunawfed ganrif. Y mae yr holl ddisgrifion yn nerthol a chynnhyrfus dros ben, ond bod y ddychymyg yn wamal ac yn wylltiog erwinol, yn hyrddio *Theomemphus* o'i blaen drwy holl oesau a gwledydd y byd, ac yn ei wneuthur yr anghenfil mwyaf ofnadwy mewn drygioni. Da fuasai ei chenglu, ei ffrwyno, a'i dysgyblu, yn lle ei gollwng i brangcio fel hyn. Dychymyg gref, dan feistrolaeth a llywyddiad barn a chwaeth, sydd brydferth a golygus, fel "harddfarch yn y rhyfel;" ond pan ollynger hi iddi ei hun, hi a "ddinystria y march a'r marchog," fel yr estrys pan ymgyfyd yn uchel.

Wedi dilyn *Theomemphus* i bob man, a thrwy bob pydew o ddrygioni, i berffeithio y darlun, dywedir:—

"Fe flinai yma ac acw, i aros yno'n hwy,  
 Fe chwiliai am ryw ardal lle cai bleserau mwy;  
 'D oedd dyn, na diawl, na phechod, y'nghyd pe  
   buasent gant,  
 Yn abl dofi ei nwydau, yn abl llanw ei chwant.

Yn mhob rhyw afradlondeb, ni roddodd un mwynhâd  
 Lonyddwch i ei ysbryd, ar fôr, mewn tref, na gwlad;  
 Er cael pob nwyd ei rhyddid, pob blys i lanw ar  
   go'dd  
 'D oedd *Theomemphus* etto un gronyn wrth ei fodd.

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 203

Ond etto trwy bob pleser yn eitha' ei rwysg, a'i rod,  
Fe ofnai fe rai prydiau am amser oedd i dd'od;  
'R oedd angeu du dychrynlyd, a Barnwr mawr y ne',  
O'i anfodd yn ymlusgo i mewn i'w feddwl e'.

'R oedd fflamau poeth y pydew di-waelod dwfwn  
mawr,  
I'w gôf yn dirgel redeg bryd arall ac yn awr;  
Ond nis caent aros yno, fe'i gyrai hwynt i ma's,  
Trwy loddest fawr a medd'dod, a chymdeithasau câs.

Ond pan 'r oedd wedi methu cael dim pleserau'n  
llawn,  
Na dim parhâd i'r pleser benthyciol fyth yn iawn;  
Efe feddyliodd unwaith droi 'i olwg tua'r ne',  
Heb wybod mai'r Jehofa rodd hyny ynddo fe."

Ond wedi hyny ymgyndynodd, ymgaledodd, ac ymgynddeiriogodd mewn pechod a drygioni yn fwy nag erioed. Trôdd yn erlidiwr creulonach na Saul o Tarsus. Torasai diwygiad crefyddol allan yn yr ardal yr oedd *Theomemphus* yn byw y pryd hwn, a llawer o'i gyfoedion a'i gymdeithion mewn drygioni oeddynt yn gadael eu ffyrdd, ac yn dyfod yn greaduriaid newydd. Gyrodd hyn *Theomemphus* yn saith mwy cynddeiriog nag o'r blaen. Ond, "lle yr amlhäodd pechod y rhagor amlhäodd gras." Y mae yn awr ar fin cyfnod pwysicaf ei fywyd:—

"Ond ar ryw un diwrnod, yn hwnw trôdd y rhod,  
Ni welodd *Theomemphus* ddydd tebyg iddo erio'd;  
Pan oedd ef yn y boreu yn marchog yn ei lid,  
A mil o weithrediadau cynddeiriog yn ei fryd. >

Yn meddwl rhoi mewn carchar bob un a dd'wedai air,  
 Yn gyhoedd neu yn ddirgel dros Fab y Forwyn Fair,  
 Yn meddwl lladd a llosgi bob un o honynt hwy,  
 A dd'wedai fod maddeuant trwy rinwedd marwol  
 glwy'.

Ond cyn cael dim o'i feddwl, na dyfod gair o'i ben,  
 Fe deimlai'r ddae'r yn crynu ; fe welai'n duo'r nen,  
 Fe lidiodd y cymmylau yn un cynddeiriog dân,  
 Fe dduodd haul y nefoedd, do ganol dydd o'i flaen.

Fe grynodd *Theomemphus*, fe gurai 'i liniau 'nghyd,  
 Y funyd gyntaf credodd oedd hon am ddiwedd byd ;  
 Fe ofnodd fod y felldith haeddiannol wedi d'od,  
 Och'neidiodd na buasai'n awr heb ei eni erio'd."

Beth oedd, ond *Boanerges* fel angel cadarn  
 mewn rhwysg a gallu mawr yn disgyn megys o'r  
 nefoedd, â chenadwri danllyd ganddo i'w thraddodi  
 wrth bechaduriaid y ddaear. Y mae mawreddigrwydd  
 y disgrifiad yn ysblenydd anghymmharol—yr olygfa a  
 ddarlunir yn ofnadwy danllyd—nid rhyfedd i *Theo-*  
*memphus* frawychu a chrynu, er mor dalgryf a chaled  
 galon ydoedd. Ddarllenyddion! os nad yw eich  
 gwynau yn gryfion iawn, cynghorem chwi i gilio o'r  
 neilldu, neu osod gorchudd ar eich wynebaw, oblegid  
 yn wir y mae yr olygfa yn arswydlawn dros ben!—

"Ac yna *Boanerges* agorodd ei enau pur,  
 Rhwng daear ddudew dywell a nefoedd oleu glir ;  
 Mil oedd o glustiau'n gwrandaw, a *Theomemph* yn un,  
 Ac ofn yn ei galon, a chryndod yn ei lin.



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 205

Uwch coryn mynydd *Sina*, yn uchel fyny fry,  
Ar aden cwmwl gwibiog, mewn awyr dywell ddu ;  
Lle clywai gwlad o ddynion, lle y dadseiniai'r Nef,  
Mewn eithaf godidawgrwydd 'r oedd ei sefyllfa ef.

Ei lais oedd fel taranau amrywiol iawn ynghyd,  
Neu fel yr udgorn olaf a ddeffry feirw'r byd ;  
Yn creu rhyw arswyd rhyfedd trwy'r ddaear faith a'r Nef,  
A miloedd yn llewygu wrth sŵn ei eiriau ef."

Yna canlyna ei bregeth, yr hon drwyddi oll sydd yn feltt ac yn daranau, yn gorwynt ac yn genllysg, yn gwibio, yn rhuo, yn rhuthro, ac yn ymdywallt, nes ydyw y trueiniaid sydd o dan y gawod yn brawychu ac yn llewygu gan ddychrynfeydd. Ond dywedir ddarfod i amryw o gymdeithion anystyriol a halogedig *Theomemphus* ddal y bregeth yn galed a di-arswyd, tra y daliwyd eraill gan ddwys a dwfn argyhoeddiad, y rhai a ddygid yn fuan i orfoleddu yn y mwynhâd o dangnefedd yr efengyl. Ond am *Theomemphus*, bu ef fisoedd a blynyddoedd rai yn rhwym yn nghaethiwed ofnau a dychrynfeydd cydwybod.

Rhy faith fyddai i ni ei ddilyn drwy yr holl amgylchiadau y dygir ef wedi hyn ; pregeth *Seducus*, a'r effeithiau o honi arno—ail bregeth *Boanerges*, a'i heffeithiau hithau—pregethau *Orthocephalus* a *Schematicus*, *Arbitrius Liber*, a'u gwahanol effeithiau hwythau ar *Theomemphus* ac eraill.

Braidd na feddyliem fod agwedd foesol ac ysbrydol Cymru o flaen meddwl yr awdwr yn y

rhanau hyn o'r gân. Y mae dull ac ansawdd gweinidogaeth *Boanerges* o'r un ddelw a'r eiddo Howel Harris, ac eraill o dadau y diwygiad. Pregeth *Seducus* sydd wir bortread o'r athrawiaeth esmwyth, weniethus, a dinystriol, a bregethid yn gyffredinol y pryd hyny. *Orthocephalus* sydd bregethwr uniongred, ond hunanol, anffaeledig, ffrostgar, a chan syched ag ysglodyn. *Schematicus* sydd gyffelyb iddo—gwaith hwn ydyw condemnio fel cyfeiliornadau heresiol egwyddorion ac athrawiaeth pawb ond yr eiddo ei hun; a darlithio ar yr "arfaeth" yn ddi-ddiwedd, a hyny oddi wrth yr un testyn "dros drigain Sul ac un!" *Arbitrius Liber* a bregetha yr athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy weithredoedd. Y mae y disgrifiad a roddir o'r athrawon a'r gwahanol athrawiaethau yn ddynodol a chraff iawn—y disgrifiad o'r dylanwad a gaffai eu gwrandawriad ar amryw fath o ddynion a phroffeswyr o grefydd, yn dra phriodol a chywir. Yn y dylanwad a gaffent ar feddwl *Theomemphus*, dangosir y fath feddyginiaeth wrthodedig a di-ffaith yw athrawiaethau sychlyd cnawd a deddf i enaid drylliedig dan wir argyhoeddiad o drueni ei gyflwr. Hanes *Athemelion* ac *Abasis* a ddangosant y mawr berygl o bwysu ar deimladau a thymherau yn lle bywyd a sylwedd crefydd. Hanes galarus, ond cywir, cannoedd lawer o broffeswyr gwresog, a gobeithiol yr olwg arnynt am dymmor, a welwyd yn Nghymru, ydyw:—Y creigle yn derbyn y Gair trwy lawenydd, yn eginu yn ebrwydd, ac yn wyneb y brofedigaeth yn gwywo yn ebrwydd drachefn.

Ei "guro yn nhrigfa dreigiau, a thoi drosto â

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 207

chysgod angeu," a gafodd *Theomemphus* druan am hir ysbaid. Wyllo, ocheneidio, a rhüo gan aflonyddwch ei galon, yw ei waith ddydd a nos. Metha ei enaid trallodedig gael gorphwysdra nac esmwythdra yn un man. Nid ydyw dysgeidiaeth benrhydd *Seducus*, gweinidogaeth sychlyd *Orthocephalus*, darlithiau poethlyd *Schematicus*, ac athrawiaeth ddeddfol *Arbitrius Liber*, yn dygymmod dim oll â'i glwyf ef. O'r diwedd, dyma genad o ladmerydd yn ymddangos!

"Fel hyn, a *Theomemphus* mewn myfyr wrtho ei hun,  
Heb gaffael naws cyfrwyddyd, na chysur gan un dyn ;  
A'i drigfan er ys dyddiau o fewn y ddinas wiw,  
*Theopolis* gyfenwir, sy â'i phlant yn 'mofyn Duw.

Ond ar ryw un diwrnod, y cyntaf un o'r saith,  
Pan oedd pawb wedi gadael gorchwylion bydol waith ;  
Boreuddydd disglaer hyfryd, cyn codi'r heulwen lon,  
Sy'n gwneyd i'r llysiâu chwerthin 'r hyd wyneb daear gron.

Fe welai gwmwl disglaer yn d'od o'r dwyrain draw,  
A'i oleu yn tywyllu yr heulwen maes o law ;  
Fe welai'r haul fel lleuad yn äang pell y nef,  
A'r cwmwl goleu'n hedeg tuag at ei ddinas ef.

Fe welai angel cadarn—nid angel oedd, ond dyn—  
Yn nesu yn agosach, bob munyd ato ei hun ;  
A'i wyneb fel y wawrddydd, yn creu math o hedd,  
Yn nghalon *Theomemphus* wrth edrych ar ei wedd.

208      Williams, o Bant-y-celyn,

Fe *Evangelius* ydoedd, yn wastad mae e'n dwyn,  
Newyddion teg a hyfryd, nefolaidd tawel mwyn ;  
Newyddion o lawenydd i rhei'ny sydd yn drist,  
Newyddion rhad i ddynion trwy angeu Iesu Grist.

Fe gasglodd *Theopolis* ei phlant o'r bron i gyd,  
I wrandaw y newyddion, a seliwyd cyn bod byd ;  
Er lled y dorf aneirif prin iawn oedd yno un,  
Am glywed gair o heddwch fel *Theomemph* ei hun.

Ac yna fe ddadseiniodd fel udgorn aur i maes,  
Ogoniant bryn Calfaria, holl egwyddorion gras ;  
A thorf o gwmpas iddo tu aswy a thu de,  
Angylion, arch-angylion disgleiriaf yn y ne'."

Yma y canlyn bregeth faith, efengylaidd, ac  
anghymmharol *Evangelius*. Byddai ei doddi oll i  
lawr yma yn myned â gormod o le ; gan hyny,  
dodwn ychydig bigion:—

"Gwrandewch am hyny newydd tra'gwyddol ei barhâd,  
A seiliwyd ac a seliwyd mewn dwyfol ddynol wa'd ;  
Trugaredd fel y moroedd o galon Duw ei hun,  
Yn llifo'n annherfynol at wael syrthiedig ddyn.

Newyddion o lawenydd orch'mynwyd roi ar led,  
Can' gwynfyd ar ol gwynfyd fydd fyth i'r sawl a'u cred,  
Newyddion rhad i ddynion, i Dduw newyddion drud,  
Myfyrdod hen y Duwdod cyn gosod sylfaen byd.

Disgwyliad patriarchiaid o'r diwedd ddaeth i ben,  
Y mwyaf bwngc o'r arfaeth drag'wyddol uwch y nen ;

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 209

Fe brynwyd dyn syrthiedig âg anfesurool bris,  
Gwaed calon Duw ei hunan !—was'naethai dim yn is.

'R wyf finnau'n awr yn genad oddi wrth frenhinllys  
Ner,  
Yr Orsedd sydd filiynau fesurau uwch y ser,  
I alw'r nef a'r ddaear yn dyst maddeuant rhad,  
Maddeuant diammodol i gredo yn y gwa'd.

\* \* \* \*

Mae ynddo nerth di-derfyn, doethineb mawr yn rhad,  
Deng miliwn o rinweddau yn rhagor yn y gwa'd,  
Mae ynddo bob rhyw angen sydd ar bechadur gwan,  
Tan filoedd o ammheuon i godi ei ben i'r lan.

Mae mil o addewidion o fewn y Llyfr mawr,  
Oll yn dyferu manna, a hyfryd fyrr i lawr;  
Y maent hwy'n perthyn iti, y maent hwy oll yn rhad,  
Eu sylfaen a'u cyflawniad sydd yn y dwyfol wa'd.

'R efengyl wy'n bregethu, nid yw hi ddim ond hyn,  
Mynegi'r weithred ryfedd wnawd ar Galfaria fryn;  
Cyhoeddi'r addewidion, cyhoeddi'r marwol glwy',  
A diwedd llygredigaeth i'r sawl a gredo mwy.

Nac edrych ar ammodau fyth fyth o'th fewn dy hun,  
Trwy gredu daw ammodau, mae gras wrth gredu  
'nglŷn,  
Y funyd gynta' y credost yw'r funyd byddi byw,  
Wrth gredu yn Nghrist yn unig cai wel'd gogoniant  
Duw.



210      Williams, o Bant-y-celyn,

Nid credu yw fod genyt ryw drugain nôd ac un  
Amrywiol o rasmusau rhagorol ynot dy hun ;  
Ond credu yw dy weled yn eisieu oll i gyd,  
A'th eisieu yn peri it' bwysu ar Brynwr mawr y byd.

Dy eisieu yn peri it' redeg at yr addewid rad,  
Dy eisieu yn peri it' olchi dy enaid yn y gwa'd ;  
Dy dlodi annherfynol yn peri it' fyn'd yn hy',  
A doed hi fel y delo, o flaen yr Orsedd fry.

\*           \*           \*           \*

O Iachawdwriaeth gyflawn! anfeidrol led a hyd,  
Mae'n fwy na'r nef ei hunan, mae'n llawer mwy na'r  
byd ;  
Mae'n drysor anchwiliadwy o berlau drud eu bri,  
'D oes dim yn gymmhar iddi sydd ar ein daear ni.

O enw ardderchocaf yw enw marwol glwy' !  
Caniadau arch-angylion a fydd fath enw mwy ;  
Bydd yr anfeidrol ddyfais o brynedigaeth dyn,  
Gan raddau filoedd yno yn cael ei chanu yn un.

O! angeu'r groes ti haeddit ryw lawer fwy o glod,  
Nag allodd tafod dynion ei roddi iti erio'd !  
O gariad anchwiliadwy ! O anorchfygol ras !  
Hwn ydyw'r lle 'mddangosaist ti gynta' erio'd i  
ma's.

Bechadur, gwel E'n sefyll yn llonydd ar y groes,  
Clyw'r griddfan sy'n ei enaid tan ddyfnder angeu  
loes ;

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 211

O! gwrandaw ar ei riddfan, mae pob ochenaid ddrud,  
Yn floedd yn nghlustiau'r nefoedd am faddeu beiau'r  
byd!

Gwêl ar y croesbren acw gyfiawnder mawr y ne',  
Doethineb a thrugaredd yn gorwedd mewn un lle ;  
A chariad anfesuroi yn awr i gyd yn un,  
Fel afon fawr lifeiriol yn rhedeg at y dyn !

Nis cafodd ond y bustl i yfed ar y groes,  
Y finegr a'r wermod pan tan y chwerwaf loes,  
Fe gaiff y sawl a gredo y llô pasgedig rhad,  
Ac yfed gwin puredig o fewn i dŷ eu Tad.

Tywalltodd ei enaid allan i ergyd marwol friw,  
Fel byddai ei hâd crediniol fyth fythoedd i gael  
byw ;  
Aeth tan y baich anorphen ei hunan ar y pren,  
I'w dynu oddi ar ysgwyddau rhai gerddent tua'r  
nen.

Ac yna adgyfododd yn ogoneddus iawn,  
Daeth boreu teg a hyfryd, 'n ol stormus ddu bryd-  
nawn ;  
Y gadwen fawr a dorodd ar wawr y trydydd dydd,  
Fe gongcrodd angeu ei hunan, o'r carchar daeth yn  
rhydd.

I fyny daeth o Edom, â'i wisg yn goch ei lliw,  
Nis gall'sai un creadur mewn cadwen gadw Duw ;  
Fe dorodd rym yr angeu, agorodd ddrysau'r bedd,  
Palmantodd ffordd o'r ddaear yn awr i ganol hedd.

Y mae ef heddyw'n eistedd ar orsedd ddisglaer fawr,  
Yn gweled gylch o gwmpas y cyfan ar y llawr ;  
Ei hun yn llywodraethu Gehennah fawr a'r nef,  
A therfyn eitha'r ddaear sy tan ei ofal ef.

Dewch bellach, bechaduriaid, nas gwelodd oleu'r  
dydd,  
Mewn carchar tywyll pygddu rai etto sydd yn nghudd ;  
Fe gododd haul o'r diwedd yn ddisglaer y prydawn,  
A egyr eich amrantau i wel'd yn eglur iawn.

Crynowch eich holl achwynion, y mwyaf sydd i'w  
cael,  
Cewch yma ddigon digon i'w hatteb oll yn hael ;  
'D oes dim ond edrych yma, mae edrych yn iachau,  
Mae edrych yn sancteiddio, mae edrych yn mwynhau.

\* \* \* \*

'N ol traethu'r athrawiaethau hyfrydaf hyn ynghyd,  
A llawer iawn yn rhagor, nag ellir gofio i gyd ;  
Gorphenodd *Evangelius*, ac yna'r nef o'i bron  
Dywynodd ei hwynebpryd yn ddisglaer ac yn llon.

Ac yntau a ddechreuodd, ynghyd â'i nefol lu,  
Ei siwrnai mewn munydyn trwy'r awyr ddisglaer fry,  
Angylion a cherubiaid mewn un soniarus dôn,  
Yn canu'r anthem hyfryd am gongwest gwaed yr  
Oen.

Telynau aur yn dadsain eu hyfryd sŵn i ma's,  
A'u *heco* yn ehedeg trwy'r awyr deneu lân ;

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 213

Nes cyrhaedd y caniadau o entrych eitha'r ne',  
Mewn anghynnefin bleser o gŵr i gŵr o'r dre.

Yn ŵyl fe gadwyd heddyw, gŵyl o anghynnefin flas,  
Yn goffadwriaeth hyfryd o waredigol ras ;  
Fel gw lith fe gwmpodd bywyd ar ol y bregeth hon,  
Nes darfu i blant y ddinas i ganu oll o'r bron."

Ond rhaid i ni ymattal bellach. Pregethau *Boanerges* ac *Evangelius* a ellir eu golygu, fel y sylwyd, fel esiampl deg o'r weinidogaeth a effeithiodd y diwygiad ag ydoedd yn nerthol weithio yn Nghymru yn yr amser y cyfansoddodd *Theomemphus*. Y mae o bwys a gwerth i ni, gan hyny, geisio ymofyn beth oedd ei gwir nodweddau. Meddyliem mai dirgelwch ei nerth ydyw ei symledd a'i diweirdeb—bendith a melldith, angeu ac einioes, yn cael eu gosod ger bron yr enaid yn ddihoced a di-orchudd. Deddf ac efengyl yn cael eu dwyn adref yn uniongyrch at gyflwr y colledig yn y modd mwyaf diffuant a di-rodres. Yn mhregethau *Boanerges* y mae y gyfraith yn myned allan gydag awdurdod a nerth i ddeffro, dal, ac euogfarnu y troseddwr. Ymeifl ei gallu ysbrydol yn ei holl enaid, a barna feddyliau a bwriadau ei galon. Saif fel cerub disglaer, a'i gleddyf tanllyd yn ei law, a chaua i fyny ffordd pren y bywyd o flaen yr euog, gan lechedenu melldithion a damned-igaeth yn ei wyneb os cynnygia ddynesâu. Yn mhregeth *Evangelius*, o'r tu arall, y mae

“Hedd yn rhedeg o Galfaria  
Fel yr afon tan y groes.”

Yma, ac yma yn unig, y gwahoddir yr euog colledig i

“edrych, a dim ond edrych, i gael bywyd a thangnefedd.” Ni adewir iddo amser i ddiwygio nac ymbarotoi, i chwilio am ras nac ammod, ond derbyn maddeuant ac iachawdwriaeth rad a llawn, yn euog, aflan, a damniol, fel y mae. “Cred yn unig” ydyw iaith y weinidogaeth wrtho; a sicrheir iddo y bydd i gredu symmud ei faich a’i ofnau, cynnyrchu pob gras a rhinwedd yn ei enaid, a pheri i holl “ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist er gogoniant a moliant i Dduw,” dyfu yn ei fywyd. Gweinidogaeth seml, gyfeiriol, ddi-seremoni, ddi-gwmpas, a hynod o apostolaidd ei hysbryd a’i delw ydoedd; ac am hyny, yr oedd nerthoedd yn gweithio ynddi. Ni adawai funyd o heddwch i bechadur ar dir difrawder a diofalwch; ymlidiai ef â mell t a tharanau oddi ar dir deddfoldeb, ysgubai ei chorwyntoedd a’i chenllysg ei noddfeydd celwydd; ar fynydd Seion yn unig y dangosai ymwarded a diogelwch iddo. Ymdorodd ac ymlifeiriodd yr athrawiaeth hon fel “afon bur o ddwfr y bywyd, disglær fel grisial,” trwy Gymru dlawd, nes gwneuthur ei “hanialwch fel Eden, a’i diffaethwch fel gardd yr Arglwydd.” Clywid ynddi lawenydd, a hyfrydwch, diolch, a llais cân, yn lle rhüad dreigiau, a bwystfilod, a chrygleisiau dylluanod ac adar y nos, fel o’r blaen. Weinidogion a phregethwyr Cymru! caniatewch i ni ofyn, Ai dyna dôn gyffredinol gweinidogaeth y dyddiau hyn? A beidiodd yr “aur coeth da” a newid, a thywyllu graddau wedi y dyddiau hyn? A ddarfu i ysbryd *Orthocephalus* a *Schematicus* beidio a nychu ysbryd *Boanerges* ac *Evangelius* i ryw fesur? Ai ni ddarfu i beth o surdoes egwyddorion y blaenaf lefeinio rhyw gymmaint



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 215

ar weinidogaeth yr oes hon? A ymgadwodd yr areithfäoedd yn llwyr rhag tuedd sarhaus yr athrawon hyny—y naill i euogfarnu y llall, ac i hõni bob un iddo ei hunan yr anrhydedd o osod allan yr athrawiaeth iachus, ac felly fagu ysbryd y pwngc a'r blaidd ar draul nychu ysbryd edifeirwch a ffydd yn y gwrandawyr? Ai nid oes braidd fwy o'r cecraeth a'r cyndyn-ddadleu, a ddisgrifia ein hawdwr fel cynrychion gweinidogaeth y ddau bregethwr llawn-selog blaenaf, wedi bod yn Nghymru y blynyddoedd diweddaf, nag o'r clwyfo, y lladd, a'r bywhau, a ganlynai weinidogaeth y ddau olaf? Y mae y mater yn deilwng o sylw ac ymfyniad dwys; ac os ceir fod y pethau hyn felly, carther allan yr hen lefain o'n hareithfäoedd, fel y byddo y weinidogaeth yn does newydd, yr adferer iddi wefus bur, ac fel y byddo ein barnwyr megys cynt, a'n cynghorwyr megys yn y dechreuad; yna gallwn ddisgwyl gweled yr unrhyw ddylanwadau.

Gadawsom *Evangelius* a'i fintai yn esgyn tua'r nefoedd, a phlant dinas *Theopolis* yn canu dan effeithiau ei bregeth. Ond pa beth a ddaeth o *Theomemphus*? Y mae efe etto, druan wr, yn ei gadwynau, er iddo gael ei symmud i raddau o'r pydew erchyll yr oedd ynddo o'r blaen:—

“Ond *Theomemph* oedd etto heb gael ei lwyr ryddhau,  
Yn methu cym'ryd cysur, yn methu llawenhau;  
Er iddo gael awelon, rhyw brawf o nefol dân,  
Na chafodd ef eu tebyg hwy etto erioed o'r bla'n.”

216 Williams, o Bant-y-celyn,

Wedi gwrandaw y bregeth, aeth i goedwig wrtho  
ei hunan i fyfyrion a gweddio, ac yno yr oedd ei enaid  
yn faes ymdrechion egniol rhwng ofnau a gobeithion,  
anghrediniaeth a dymuniadau:—

“Pan oedd e'n rhodio'n ddistaw mewn myfyr wrtho'i  
hun,  
Mewn coedwig ar lan afon, heb yn ei weled ddyn.

Fe waeddodd ar ei liniau fel yma tua'r ne',  
Ochenaid 'n ol ochenaid yn codi ynddo fe,  
Fel ton 'n ol ton yn dyfod o'i galon drom i'r làn,  
Anghredu yn gwneyd ei ysbryd yn eiddil iawn a gwan.

Nes gwasgu o gyfyngderau ei enaid llesg i'r llawr,  
Mor ddwfn pe byddai bossibl a gwaelod uffern fawr;

\* \* \* \*

Ond pan na's gall'sai ddioddef, dioddef dim yn hwy,  
Gan wres a phoen di-gymmhar ei argyhoeddiadol  
glwy';  
Danfonwyd gair i waered, fe dâl ei gofio ef,  
Gair oedd yn fwy na'r ddaear, gair oedd yn well na'r  
nef.

Rhaid oedd ei gael neu farw, hwn oedd y gair mewn  
pryd,  
'Ha fab, mae'th holl aflendid 'n awr wedi 'i faddeu i  
gyd ;  
Mae Aberth wedi 'i gaffael, fe gafwyd perffaith iawn,  
Am bob rhyw fai fu ynot, fe roddwyd taliad llawn.'

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 217

Fe glywai awel beraidd cyn i'r addewid dd'od,  
Yn ysgog ar y goedwig, yn chwareu brig y co'd;  
Yr aer yn ymgynnhyrfu, a rhyw nefolaidd stŵr  
Yn cyffro'n dawel hyfryd ar wyneb glâs y dŵr.

Ac yna daeth tawelwch o'i fewn o nefol ryw,  
'Be *Theomemph*, 'Rhyw arwydd o'r nef yw hyn gan  
Dduw ;  
Fe ddaw, fe ddaw 'mhen 'chydig, 'mhen 'chydig bach  
fe ddaw,  
Wrth hyn ddisgynodd arnaf, mi wn ei fod ger llaw.'

Ac erbyn a llefaru daeth nerthoedd nefoedd fawr,  
Fel afon gref lifeiriol i'w galon ef i lawr ;

\* \* \* \*

I'r nef fe godai 'i lygaid ; sef, hen drigfanau llid,  
Ond moroedd mawr o gariad oedd yno'n awr i  
gyd.

Fe synodd, fe ryfeddodd (be fe), fe drôdd y rhôd,  
Trôdd ofnau yn gysuron perffeithiaf fu erio'd ;  
Yn mhlith pob rhyfeddodau, hwn yw yr uwcha'i  
ryw,  
Caiff *Theomemphus* aflan feddiannu nefoedd Duw.

Fy Nuw! Fy Nhad! Fy Iesu! Boed clôd i'th enw  
byth,  
Doed dynion i dy foli fel rhif y boreu wlith ;  
O! na b'ai gwellt y ddaear oll yn delynu aur,  
I ganu i'r Hwn a anwyd yn Methl'em gynt o Fair.

218      **Williams, o Bant-y-celyn,**

O! na allwn innau waeddi i gwmwl uwcha'r nef,  
Nes clywo'r Indiaid duon trwy'r awyr lân fy llef;  
A gyru sŵn maddeuant, sŵn iachawdwriaeth ddrud,  
O wynt i wynt i'r nefoedd, o bôl i bôl i'r byd."

Ac felly yn mlaen. Dyna fe wedi ei godi i'r lan  
o'r "pydew erchyll, allan o'r clai tomlyd—ei draed ar  
graig, a chân newydd o foliant yn ei enau;" ac y

"Mae'n dyweyd tra ar y ddaear, y cofia am yr awr  
Daeth nerth y nef i waered i dori ei gadwen fawr;  
Ni rêd fyth o'i feddyliau pa beth yw enw'r dydd,  
'N ol blwyddau maith o garchar, y rhoed ei draed yn  
rhydd.

Y cyfnewidiad brofodd sy'n peri iddo ef,  
I garu'r man o'r wybr 'r oedd heulwen fawr y nef;  
Mae'n caru'r gwynt, a'r awel, mae'n caru'r afon ddŵr,  
Feddyliodd fod mewn cynnhwrf pan clywodd ef y stŵr.

Ac enw newydd ganddo'n awr ar y weirloedd sydd,  
Hwn yw *Jehofa Jireh*, man tynodd Duw fi'n rhydd;  
Yn mynydd Duw y gwelir, pan êl hi'n gyfyng iawn,  
Y moddion wedi pallu, y waredigaeth lawn."

Yr amser a ballai i ni ei ddilyn gam a cham wedi  
hyn trwy ei wahanol helyntion a'i dywydd ysbrydol—  
ei gysuron a'i drallodion, ei brofedigaethau, ei gwymp-  
iadau, ei adferiadau, lle y manwl olrheinir gweithred-  
iadau gras a llygredd—yr hen ddyn a'r dyn newydd  
yn enaid credadyn—ac y dengys yr awdwr gydna-  
byddiaeth graff â phla y galon, a helaeth adnabydd-

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 219

iaeth o brofiad efengylaidd. Y mae *Dr. Aletheius*, wrth holi *Theomemphus*, yn ei chwilio i'r byw, ac megys â llusernau a dywynent eu goleuni i holl ystafelloedd ei galon. Daw *Theomemphus*, pa fodd bynag, drwy ei brawf dwys yn ddiangol; a rhydd ei atebion berffaith foddlonrwydd i'w holydd manwl; a gollynga ef ymaith dan ei fendithio, a dywedyd "Duw yn rhwydd" wrtho.

Dywed yr awdwr yn ei ragymadrodd ddarfod iddo olrhain *Theomemphus* drwy liaws o beryglon a phrofedigaethau, y rhai nad aethai Bunyan dduwiol a'i bererin ef trwyddynt: ac iddo fanylu ac ymhelaethu yn neillduol ar ei garwriaeth â *Philomela*, gan y golygai mai y cyfryw amgylchiad yw y mwyaf profedigaethus o gwbl i broffeswyr ieuaingc, yn yr hwn y maent yn y perygl mwyaf o golli ysbryd crefyddol, a gwneuthur llong-ddrylliad o'u ffydd a'u proffes. Bu agos i *Theomemphus* golli ei dræd yn yr amgylchiad hwn. Wedi i *Dr. Aletheius* ei holi eilwaith ar y mater, a chael allan ei hanes, ceryddodd ef yn llym, yr hyn a fu yn foddion i'w adferu, ond costiodd ei ymadawiad â *Philomela* yr ymdrech a'r gofid caletaf iddo. Wedi cael yr oruchafiaeth ar ei serchiadau cnawdol, canodd gân ymadawiad â *Philomela*, yr hon sydd lawn o'r syniadau mwyaf cynnhyrfus:—

"Nis gall swynion *Philomela*  
Ddim i demtio'm henaid mwy;  
Ac nid ofna' wedd yr wyneb,  
Ganwaith roddodd i mi glwy';



**Williams, o Bant-y-celyn,**

Ce's o'r diwedd fuddugoliaeth,  
 Buddugoliaeth werthfawr lawn,  
 Hi ddechreuodd yn y boreu,  
 Hi berffeithiwyd y prydawn.

Buost gwmwl dudew tywyll  
 Ganwaith rhyngof fi a'r ne',  
 'Nawr ce's wrthddrych fil o weithiau,  
 Sydd hawddgarach yn dy le ;  
 Duw a thithau fu'n y glorian,  
 Gynt yn taflo, ond yn awr,  
 Enw hyfryd fy Iachawdwr,  
 Sydd yn pwyso hyd y llawr.

A'i gymdeithas ef yn unig,  
 Yw fy nhrysor heddyw i gyd,  
 Ac a bwysa fil o weithiau,  
 Gwmni merched glana'r byd ;  
 Gwel'd ei wedd ond tros funydyn,  
 Teimlo'i gariad lai nag awr,  
 Bwysa gariad *Philomela*  
 Oesoedd yn y glorian fawr.

\* \* \* \*

Ni wna'th degwch mwy im' niwed  
 Os oes tegwch yn dy wedd,  
 'Rwyf yn portreädu'th wyneb,  
 Fel bydd obry yn y bedd ;  
 D' enaid gwerthfawr yw fy nghyfaill,  
 Lle mae gras, y trysor drud,  
 Mi gaf gwmni hwnw filiwn  
 O fesurau uwch y byd.

ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 221

Bydd di briod, bydd di weddw,  
Bydd yn briod yn y man,  
A boed saith o wŷr 'n olynol  
Gael dy degwch bryd i'w rhan ;  
Mi ni fyddaf un o honynt,  
Ni fydd arnaf chwant i fod,  
Tan awdurdod y fath bleser,  
Tra fo seren ar y rhôd.

Tyred bellach, *Philomela*,  
Nid oes niwed i mi fod  
Yn dy gwmi bob amserau,  
Ce's fy mhechod dan fy nhro'd ;  
Rho dy law a thyred allan,  
Rhodiwn yn ddi-niwed iawn,  
Rhwng y beddau tan fyfyrio  
O foreuddydd hyd brydnawn.

Ni eisteddwn ar y meirw,  
A chwedleuwn am yr awr  
Byddwn ninnau yno'n gorwedd  
Rhwng y graian mân i lawr ;  
Canwn hymn i D'wysog heddwch,  
Soniwn am ei farwol glwy',  
Ymadawn heb natur gofid,  
P' un a gaffom gwrddydd mwy."

\* \* \* \*

Ond trwy bob dyrysni, cyrhaeddodd *Theomem-  
phus* ben ei daith helbulus o'r diwedd. Llawer croes,  
a chystudd, a gelyn, a'i cyfarfu wedi iddo gael ei droed

yn rhydd o faglau *Philomela*. Mynych yr ydym yn ei weled megys “wedi ei fwrw i lawr, ond heb ei ddyfetha; mewn cyfyng-gynghor, ond nid yn ddiobaith; yn gystuddiol, ond nid mewn ing; megys wedi ei geryddu, ond heb ei ladd.” I roddi terfyn ar ei holl drallodau, daeth y gelyn diweddaf i ymosod arno yn lled annisgwyladwy:—

“Pan oedd yr haul yn t’w’nu yn hyfryd un prydawn,  
A’r llysiâu’n rhoddi allan aroglau peraidd iawn;  
Y meusydd yn wyrddleision, a’r coed yn llawn o  
ddail,  
A natur ar ei gilydd yn chwerthin bob yn ail.

A *Theomemph* yn eistedd yn dawel wrtho’i hun,  
Mewn myfyr sŷn am ddechreu a diwedd siwrnai dyn,”

pwy ruthrodd arno yn ddisymwth ond angeu! gan ddangos ei wedd, a bostio ei awdurdod ofnadwy. Wedi dal ei dir yn ddewr, a hërio galluoedd angeu dros dro, y mae nerth a gwrolder *Theomemphus* yn pallu; ond wedi hir ymdrech, y mae yn cael ei anadl drachefn, ac yn gadael y byd dan ganu:—

“Ni che’s ond gwaetha’ uffern, ni che’s ond gwaetha’r  
byd,  
Cha’i ond dy waetha’ dithau, O! angeu glâs ynghyd;  
Mi lechaf yn y ddaear, caiff llwch at lwch i fyn’d,  
Ond, angeu, ti gei wybod fod Iesu i mi’n ffrynd.”

Fel y mae yn myned ddyfnach ddyfnach i’r dwfr,  
clywn ei lais bloesg yn parablu yn ddistaw:—

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 223

“Mae'r anadl byr yn darfod, mae'm hysbryd yn  
llesgâu,  
Mae natur gref yn methu, mae angeu yn nesâu;  
'Rwy'n ceisio craffu'm llygaid ar hyfryd waed y groes,  
Dal f' enaid afael arno yn nyfnder angeu loes.”

Fel hyn y bu farw *Theomemphus*, â'i droed ar  
ben angeu! “Yn fwy na chongcwerwr, trwy yr hwn  
a'i carodd;” gorchfygodd “trwy waed yr Oen;” hun-  
odd mewn tangnefedd, â'i lygaid yn gweled iachawdwr-  
iaeth Duw. Dodwyd ei gorph yn y ddaear, a'r  
ysgrifen ganlynol ar ei fedd:—

“Wel dyma'r dyn a garwyd, a gånwyd yn y gwa'd,  
Deng miliwn lawn o feiau faddeuwyd iddo'n rhad;  
Ei dynu wnawd o'r danllwyth, ac yntau'n myn'd i lawr,  
Fe gadwyd hwn o uffern, mae e' yn y nef yn awr.

Mi gaf fy nghorph i fyny, fel fy Anwylyd cu,  
Heb nwydau drwg byth mwyach i'm blino fel y bu;  
'Does dyn wŷr is yr wybr ddedwydded yw fy lle,  
Ac nis gall dyn ddychymygu dim am bleserau'r ne'.

Heb saeth, heb fraw, heb ofn, heb ofid, ac heb boen,  
Mae'n canu o flaen yr orsedd ogoniant Duw a'r Oen;  
Yn nghanol myrdd myrddiynau, mae'n hyfryd  
lawenhau,  
Yr anthem ydyw cariad, a chariad i barhau.”

Wel, cysga—cysga dithau hen bererin gwych,  
wedi dy daith drafferthus a blinderus; bydd priddellau  
y dyffryn yn felus i ti mwyach, i orphwys ac ymddad-

flino hyd y boreu y cai dy gorph gwael i fyny wedi ei gyfnewid i'r "un ffurf a'i gorph gogoneddus ef." Ffarwel, *Theomemphus* hawddgar, ffarwel! Bydded fyw dy goffadwriaeth, ac na fydded farw byth yn Nghymru. Dymunem weled hanes dy fywyd yn nwyllaw holl feibion a merched Seion yn y Dywysogaeth, ac iddo argraphu dy ysbryd a'th ddelw ar galon pob un o honynt, fel y llanwer ein heglwysi â dy fath. Amen, ac Amen.

Wedi i ni fel yna frâs-ddilyn *Theomemphus* drwy wahanol amgylchiadau ei oes, a'i hebrwng drwy yr Iorddonen i dir y bywyd, a doddi ei gorph i orphwys "mewn gwir ddiogel obaith o adgyfodiad i fuchedd dragwyddol," rhaid i ni derfynu ar ychydig eiriau mewn perthynas i elfenau y cyfansoddiad a fu o dan ein sylw. Crybwyllasom rai pethau eisoes a ddigwyddent yn achlysurol yn ein ffordd wrth ymdaith o honom drwy y gwaith, fel nad ydyw yn angenrheidiol i ni chwanegu llawer etto.

Y brif elfen yn ansawdd y gân hon, fel eraill o ganiadau Williams, ydyw y feistrolaeth a geidw ar ein teimladau. Y dyn a allo ei darllen neu ei gwrandaw heb deimlo dim o effeithiolaeth ei swyn, braidd na haerem y rhaid fod y cyfryw o ryw rywogaeth arall o fodolion, wedi ei draws-ffurfio ar lun a delw dyn. Anaml y ceisia athrylith awenyddol Williams ein brawychu â drychiolaethau arswydawn; hoffach ganddi hi ganu caniadau cariad. Gwir y gall weithiau ehedeg "uwch coryn mynydd Sinai, ar aden cwmwl gwibiog mewn awyr dywell ddu," a chymmysgu



## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 225

tân a brwmstan, a mellt, a tharanau; ond gwell ganddi ysgwyd ei hesgyll rhwng erchwynion bwa tangnefedd ar fynydd Seion, yr hwn a ffurfir gan belydrau Haul y Cyfiawnder yn tywynu ar y gwllith a ddisgyna ar y mynydd hwnw. Nid yw yn ymddangos fel yn ei helpen a'i hawyr briodol pan yn cymmeryd ei safle ar y "mynydd teimladwy sydd yn llosgi gan dân a thymmestl;" y mae yno, fel Moses, y llarieiddiaf o feibion dynion, "yn ofni ac yn crynu." Ond pan y saif ar fynydd Garizim, i efengylu tangnefedd, ac i gyhoeddi y fendith, mor weddaidd yw ei thraed. Trais ar ei natur braidd ydyw iddi geisio cynnrychioli *Boanerges*, i saethu mellt a rhüo taranau ar fynyddoedd Ebal a Sinai; ond pan y cynnrychiola *Evangelius* ar fynyddoedd Seion a Chalfaria, y mae gartref yn ei hawyr ei hunan, ac yn gwisgo ei gwir nodwedd. Denu, toddi, ennill, swyno â'r "llef ddistaw fain," yw ei chynnefin a'i phriodol waith.

Ond nid dyna yw ei hunig briodoledd. Tra yn gwresogi ac yn tanio, y mae hefyd yn llewyrchu ac yn goleuo. Cafodd athronyddion allan i sicrwydd fod pelydrau y gwres a phelydrau y goleuni a saethant o gorph yr haul yn amrywiol oddi wrth eu gilydd, fel y dichon y naill hanfodi ar wahân oddi wrth y llall. Y mae ambell i athrylith ddynol yn gyffelyb i'r lleuad, yr hon a adlewyrcha oleuni, ond ni ddyry ddim gwres. Rhydd yr awduron hyn, meibion y lleuad, radd o oleuni a mwynhâd dealltwriaethol i'w darllenyddion, tra y gadawant y galon i rynu dan eu dylanwad. Ond mab yr haul oedd Williams; saethai gwres a goleuni allan o gorph ei athrylith ef. Tra y mae dealltwriaeth

yn cael ei hyfforddi a'i oleuo, y mae y galon hefyd yn cael ei thwymno a'i thoddi. Y ddwy briodoledd hyn ynghyd ydynt anhebgor i wir farddoniaeth. Caniad lawn o synwyr ac athrawiaeth, ond amddifad o serchogrwydd a theimpladaeth, nid yw amgen na math o sylwedd oerllyd heb fywyd ynddo. Ac o'r tu arall, un lawn o deimlad a bywiogrwydd, ac amddifad o addysg a gwybodaeth, nid yw ond math o fywyd di-ansawdd, heb na ffurf na dyben iddo. Y mae *Theomemphus* yn rhagori, fel y sylwasom, yn ei wres; ac y mae hefyd yn gyflawn o addysg ac athrawiaeth.

Yn gyssylltiedig â hyn, drachefn, y mae ei athrawiaeth o duedd ymarferol ragorol—yn fwy o duedd ymarferol na *Golwg ar Deyrnas Crist*. Y mae ynddo wirioneddau priodol *i*, a chyfeiriol *at* bob cyflwr ac amgylchiadau. Ni all y difraw, a'r anystyriol, a'r cyndyn, ei ddarllen heb deimlo fod ei gyflwr truenus yn cael ei osod o flaen ei wyneb. Yr argyhoeddedig a'r pryderus ynghylch iachawdwriaeth ei enaid a'i caiff yn disgrifio ei brofiad a'i deimlad, ac arweinir ef at y "balm sydd yn Gilëad." Y babanod, a'r rhai bach yn Nghrist, a gânt eu porthi â llaeth cyfaddas i'w harchwaeth a'u cylla hwythau. Y Cristion profedigaethus a helbulus gan dymmhestloedd temtasiynau a gaiff yma gordial adfywiol, addysg, a chyfarwyddyd gwerthfawr. Y credadyn buddugoliaethus ar uchel-fanau maes profiad efengylaidd a gaiff yn *Theomemphus*, yn ei ddyddiau hapusaf, gydymaith o'r un ysbryd a theimplad ag ef. Athrawon a gweinidogion y Gair a allant ei ddarllen er mawr fuddioldeb iddynt eu hunain, er gochelyd athrawiaeth,

## ei Gyfansoddiadau a'i Athrylith. 227

ysbryd, a nodwedd yr athrawon a feiir ynddo, a'u cynhyrfu i ymdebygoli i'r rhai canmoladwy; ac hefyd er awchlymu a minio eu hysbrydoedd yn ngwirioneddau mawrion yr efengyl.

Proffeswyr ieuaingc, yn neillduol, a gânt ynddo gynghorion, rhybuddion, ac addysg fuddiol. Ond ni fynem ganmawl *Theomemphus* yn mhob peth yn amgylchiadau ei ymadawiad â *Philomela*, na'i osod fel esiampl i un gŵr ieuangc crefyddol i'w ddilyn a ddichon fyned etto, fel yr aeth llaweroedd o'r blaen, i'r unrhyw brofedigaeth. O ran dim sydd yn ymddangos i'r gwrthwyneb yn yr adroddiad o'r amgylchiad, gwnaeth *Theomemphus* ei benderfyniad i ymadael â *Philomela* heb wneuthur un cais i'w pherswadio hi i ddyfod o'r un feddwl ag ef; a gallasai, drwy hyny, wneuthur anghyfiawnder o'r mwyaf â hi, a thori archoll anfeddyginiaethol yn ei theimladau. Bu y canlyniadau mwyaf gofidus i amgylchiad fel hwn lawer gwaith. Llawer calon a waedwyd i farwolaeth yn y modd yma, a chysur a defnyddioldeb llawer Cristion a gymylwyd am ei oes; ac nid bychan y trallod a achosodd i lawer eglwys. Dichon yr esgeuluswyd yn ormodol o lawer y ddyledswydd o rybuddio a chynghori dysgyblion ieuaingc ar y mater pwysig hwn; a hyny a'n cymmhellai i wneuthur y crybwyllion hyn, gan ei fod yn dyfod yn deg yn ein ffordd.

Peth arall y'n tueddir i achwyn arno braidd ydyw, gwaith *Theomemphus* yn gwahodd ei hen gariad-ferch i ddyfod allan yn ei fraich i rodiana, ac

yntau wedi tori ei gyfrinach â hi. Dywed y gallent rodio gyda'u gilydd "yn ddiniwed iawn, o foreuddydd hyd brydnawn," "rhwng y beddau." Er mai lle go oerlyd i deimladau i rodio ydyw "rhwng y beddau," etto, "hawdd cynneu tân mewn hen aelwyd;" nid ydyw hyn amgen na chwareu â'r brofedigaeth, a themtio temtasiwn. Ymddengys hyn i ni yn fwy o ryw fath o boeth-wendid crefyddol nag o wir ddoethineb a deall da; ac ni ryfeddem, dan y fath amgylchiad, i serchiadau natur orthrechu penderfyniadau cryfaf y meddwl, ac i'r pleidiau gael eu trochi yn ddyfnach nag o'r blaen yn mhwill y brofedigaeth. Gyda y crybwyllion hyn, yr ydym yn gadael *Theo-memphus*, dan ei daer gymmhell i sylw ein cyd-wladwyr.

————:o:————

#### PENNOD IV.

Buasai yn annhegwch ynom i adael yr emynau, beth bynag, yn ddi-sylw, gan mai drwyddynt hwy, yn benaf, y mae ein caniedydd hoff yn llefaru wrthym, ac yn adnabyddus i ni. Ar ryw olwg, nid oes angen dywedyd nemawr ddim am danynt; nid rhaid iddynt, megys i rai, wrth lythyrau canmoliaeth yn Nghymru. Digon o brawf fod eu teilyngdod yn cael ei werth-fawrogi yn ddyladwy ydyw yr arferiad cyffredinol a wneir o honynt yn ein cynnulleidfaoedd. Ennillasant a sefydlasant eu gorseddfa bellach yn nghyssegr yr addoliad Cymreig. Yma, yn nesaf at beraidd "ganiedydd Israel," eistedda peraidd ganiedydd y Cymry. Morgan Rhys, Ann Griffith, Edward Jones,

Maes-y-plwm; Benjamin Francis, T. Williams, Bethesda, a T. Williams, o Res-y-cae, ydynt, yn ddiau, yn sêr disglaer yn ffurfafen ein caniadaeth gyssegredig; ond yr "hen Williams" yw yr haul. Efe yw tywysog y maes, a rhaid i ysgubau y brodyr hyny oll ymgrymu ger bron ei ysgub ef.

Prawf di-ymwad o wir fonedd cynneddfau awenyddiaeth ydyw ei galluogaeth i swyno teimladau pob gradd a dosbarth o gymdeithas fel eu gilydd—fod y dealltwriaeth cryfaf, y meddyliau mwyaf caboledig, ynghyd â'r werin-dorf ddi-sym l yn gyffredinol, yn gallu cyd-fwynhau a chyd-wledda ar ei chynnyrchion. Tery athrylith emynau Williams y galon ddynol fel y cyfryw, nes y cyd-ddychlama teimlad yr athronydd uchelgoeth a theimlad y bugail gwledig o dan ddylanwad ei gwefriad. Tywysogion mewn dysg a doniau, a phob gradd oddi yno i waered hyd at y weddw ddi-nôd yn ei bwthyn neillduedig, a gyd-addefant ei rhîn. Clust dyner-foneddigaidd yr ysgolhaig, a chlust annysgybledig y gwerinwr isel, a'u cydfendithiant hi "pan glywant ei geiriau, canys melus ydynt." Pair sain ei hacênion i'r llygad a belydra gan ddealltwriaeth ac hyawdledd, ac i'r llygad mwyaf hwydrwm ac amddifad o ddynodiant meddyliol, i gyd-ollwng y deigr yn dros eu hamranta. Dewi Wyn fawr o Eifion a dystiai, pe buasai iddo ef gael ei gau i fyny yn yr ystafell oeraf, ar y noson oeraf o'r gauaf, heb dân yn agos ato, ac iddo ddarllen caniadau Williams, o Bant-y-celyn, y cedwid ef yn chwys dyferol i gyd drosto drwy gydol y nos! Y fath dystiolaeth o enau un o brif gedyrn yr oesoedd mewn



athrylith a gwreiddiolder dawn a meddwl, a lefara gyfrolau.

Y mae llawer o wahaniaeth rhwng natur y mwynhâd a brofir gan feddwl coeth a diwylliedig a'r mwynhâd a deimla y meddwl anghyfarwydd, er i ffynnonell gynnyrchiol y mwynhâd fod yr unrhyw. Gwêl y blaenaf brydferthwch, a theimla ei ddealltwriaeth ef rym y meddylddrych, a bydd ganddo ddirnadaeth o hono yn ei feddwl, tra nad yw yr olaf yn alluog i roddi un cyfrif pa ham ac o herwydd pa beth y cynnyrhyd ei deimladau. Tery trydaniad y gwefr-beiriant yr athronydd a'r gwerinwr fel eu gilydd yn union ; ond y mae y ddirnadaeth sydd gan y naill ragor y llall am yr achos a'r peth sydd yn achosi, yn dra gwahanol. Yr un yn hollol yw yr effaith ynddi ei hun ar y ddau ; ond yr effaith hono a *deimlodd* yn unig a erys ar feddwl un, tra y mae gan y llall syniad *deallol* am ryfeddol ddirgelwch yr achos, a'r gweithrediad o honi.

Y mae yn wir y dichon i'r Cristion mwyaf di-syml a di-ddysg, wrth ganu a phyngcio yr hymnau a'r odlau ysbrydol hyn yn ei galon, fwynhau hyfrydwch na ddichon yr un coethaf ei chwaeth a'i athrylith, ar na byddo yn Gristion, ei fwynhau, gan mai profiadau, ofnau, gobeithion, ammheuon, ffydd, hyder, hiraeth, a llawenydd y Cristion a osodir allan mewn llawer-oedd o honynt. Er hyny, byddai dyrchafu a phuro y chwaeth feddyliol, cryfhau ac eangu y ddealltwriaeth, a meithriniad ysbryd gwybodaeth ac iawn farn lenyddol, yn gynnydd dirfawr ar fwynhâd Cristion-

ogol, ac felly yn fantais werthfawr i Gristionogion yn gyffredinol.

Cenir a mwynheir emynau Williams er budd ysbrydol gan gannoedd o Gristionogion yn Nghymru, y rhai nad oes ganddynt nemawr i ddim dirnadaeth yn eu dealltwriaeth a'u barn am eu rhagoriaethau cynnhenid. Amcanwn yn bresennol estyn gradd o gynnorthwy i'r cyfryw i wireddoli grym y syniadau yn eu meddyliau. Er mwyn hyn yma, dodwn yn mlaenaf rai enghreifftiau o'r pennillion mwyaf arferedig yn ein cynulleidfaoedd, na chanfyddir ond gan ychydig ond odid ragorol brydferthwch y syniadau a gynnwysant. Dyma un:—

“ Marchog Iesu yn llwyddiannus,  
Gwisg dy gleddyf ar dy glun ;  
Ni all daear dy wrthsefyll,  
Chwaith nag uffern fawr ei hun ;  
Mae dy enw mor ardderchog,  
Pob rhyw elyn gilia draw ;  
Mae rhyw arswyd drwy'r greadigaeth,  
Pan y byddi di ger llaw !”

Annichonadwy cyfleu syniadau mwy goruchel mewn ymadroddion mwy detholedig. Y mae y meddyllyddrych a'r iaith yn cyd-weddu yn brydferth. Yr aelodau ydynt luniaidd, y safiad yn hardd, yr holl esgeiriau yn ogyhyd, a'r cerddediad yn fawreddig ac ÷ofn. Cymmerid y meddyllyddrych allan o *Salm* xlv., yn ddiâu, ond nid yw hyn yn lleihau yr orchest o'i gyfansoddi. Mawreddigrwydd a chryfder y darluniad, priodoldeb a nertholrwydd y dyfaliad, ydynt ragor-

iaethau cynnhenid y cyfansoddiad hwn. Pan ddodir ef allan mewn cywair, a chydag aceniad priodol, y mae fel yn llawenyachu yn ei gryfder, yn ymdaith yn amllder ei rym, nes y byddo teimladau cynnulleidfa gyfan yn gorfod talu gwarogaeth i'w fawrhydi. Dengys y cadarn yn dyfod allan ar ei harddfarch yn nydd y frwydr—"daear, ac uffern fawr ei hun," ynghyd â "phob rhyw elyn," yn ffoi o'i flaen wrth sŵn carnau ei farch, tingiad ei glêdd, a sain ei enw; ac arswyd yn cerdded "drwy yr holl greadigaeth" ar ei ddynesiad. Dyma *veni, vidi, vici*, mewn gwirionedd.

Gosoder y pennill seinbêr toddedig canlynol etto yn gyferbyniol iddo:—

"O! llefara, addfwyn Iesu,  
Mae dy eiriau fel y gwin,  
Oll yn dwyn i mewn dangnefedd  
Ag sydd o anfeidrol rin;  
Mae holl leisiau'r greadigaeth,  
Holl ddeniadau cnawd a byd,  
Wrth dy lais hyfrydaf, tawel,  
Yn distewi a myn'd yn fud."

"Pwy a ddywedasai i Abraham y rhoisai Sarah sugn i blant?" Pwy a ddisgwyliasai glywed y Cadarn, a daflai ddaear ac uffern a'r holl greadigaeth i lesmeirio mewn arswyd ger bron ei fawredd ofnadwy, yn llefaru geiriau "fel y gwin?"—y buasai i lais yr hwn y parai disgleirdeb ei gleddyf ac ardderchogrwydd ei enw i "bob gelyn gilio draw," "ddwyn tangnefedd o anfeidrol rîn" i fynwesau ofnus, a pheri i holl leisiau anian, a "deniadau cnawd a byd, ddistewi a myn'd

yn fud," drwy effeithiolaeth ei oslef "hyfrydaf dawel?" Wrth ganu y blaenaf yr ydym yn addoli mawrhydi anfeidrol y Gwaredwr; yn yr olaf, ni a felus ryfeddwn ei raslonrwydd annherfynol. Syniadau y cyntaf a'n llanwant â gwylder ac ofn parchedig, yn yr olwg ar y rhyfelwr nerthol a chadarn, yr hwn y mae "ei ddeheu-law yn dysgu pethau ofnadwy iddo;" yr eiddo y diweddaf a'n llanwant â hyder a dyddanwch, yn yr olwg ar addfwynder a lledneisrwydd yr hwn y "tywalltwyd gras ar ei wefusau." Ond och! fel y llurgynir ac y merthyrir y pennillion hyn a'u cyffelyb yn fynych drwy y dull bongleraid, marwaidd, a di-archwaeth o'u doddi allan! Teimlem ysfa ar ein calon lawer tro i redeg at ambell bregethwr a'i lindagu, a churo ei ben yn erbyn y pared yn dda gyda hyny, o herwydd ei ddull anghelfydd ac aflafar yn doddi y fath bennillion allan i'r gynnulleidfa i'w canu. Y mae rhai fel pe byddent yn ymwneyd o bwrpas i gymmylu a chuddio gogoniant yr emynau o olwg y gynnulleidfa, drwy y modd oerllyd a musgrell y traethant hwy. Yr un dôn a'r un dull sydd ganddynt i draddodi pob math ar bennill. Dodant y ddau a nodwyd allan yn hollol yn yr un llais ac aceniad, a'r rhai hyny yn eithaf ammhriodol i bob un o honynt. Ni bu nemawr ddim yn fwy poenus i'n teimladau na chlywed pennillion sychlyd, di-enaidd, a di-ansawdd, heb na mawl na gweddi, nac un o elfenau addoli ynddynt, yn cael eu doddi allan i'w canu mewn addoliad cyhoeddus, ynghyd â'r dull aiferw o draddodi pennillion da a theilwng. Dyna ein hesgusawd dros ollwng y ffrwyn i'n teimladau fel yna. O ddifrif calon, cynnygiem fod i'n gwŷr ieuaingc yn ein

hathrofäau gael eu gwarsio yn dda yn y gangen bwysig hon o ddysgeidiaeth, er dysgyblu a choethi eu chwaeth mewn caniadaeth grefyddol, fel y detholont emynau teilwng i'w gosod yn ngeneuau ein cynnull-eidfaoedd, ac y dysgont, fel Paul, "adnabod grym y llais," ac fel yr offeiriaid hyny gynt, i "osod allan y synwyr," y meddwl, a'r ysbryd, wrth eu doddi allan. Rhoddir math o orfod ar ein cynulleidfaoedd yn fynych i gyflwyno "aberth ffyliaid" i'w Creawdwr, drwy yr emynau ffolion a ddodir yn eu geneuau i'w canu, a theflir emynau yn cynnwys yr ystyriaethau mwyaf dyrchafedig a thanllyd arnynt yn aml hefyd fel darnau o iâ, drwy y dull oer-farwol a ddynodwyd o'u hadroddi, nes y bydd meddyliau y bobl yn cael eu fferu a'u rhynu, yn lle eu bywiocau a'u gwresogi.

Ond i ddychwelyd. Gellid dethol niferoedd lliosog o bennillion o'r un ansawdd a theilyngdod a'r ddau a goffâwyd ; ond caiff y rhai canlynol yn unig, y rhai ydynt o'r un ddelw ac ysbryd a'r olaf, wasanaethu ein hamcan presennol:—

"Iesu, difyrwch f' enaid drud  
Yw edrych ar dy wedd,  
Ac mae llyth'renau d' enw pur  
Yn fywyd ac yn hedd.

A than dy aden dawel bur  
'R wyf yn dymuno byw,  
Heb ymbleseru fyth mewn dim  
Ond cariad at fy Nuw.



Dymunwn yma dreulio'm hoes,  
O foreu hyd brydnawn ;  
I.le cawn i wylo cariad pur  
Yn ddagrau melus iawn."

Mor syml a di-addurn yw yr iaith yn y pennillion uchod ; ac ar yr un pryd, mor ddiwair a choeth ydyw ! Mor fwyn-doddedig yw y syniadau, ac mor brydferth a hardd yn eu gwisg ydynt ! Cnapiau crynion o fanna, fel hâd coriander, o liw bdeliwm, â'u blâs fel afrllad o fêl, ydynt. Mor bell oddi wrthynt ydyw pob naws cymmhengoegaidd ! "Wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn," sydd anghymmharol mewn tlysni a melusder. Y maent fel dammeg yn ngenau ffyliaid, pan eu dodir allan gan y tylwyth y cyfeiriwyd atynt ; clywsom hwynt yn cael eu hanurddo yn ddychrynlyd lawer gwaith. Buasai y dull rywbeth yn briodol pe yn lle "Iesu, difyrwch f' enaid drud," &c., y geiriau canlynol a adroddasid:—

"Behemoth, tarw, buwch, a llô,  
A llewpard brych, a brain ;  
Y ci a'r llwynog cyfrwys, brwnt,  
A chwilod câs, a chwain."

Ond pan eu dodir allan gyda thôn ac aceniad priodol, swynant deimladau y gynnulleidfa i rywbeth tebyg i ysbryd y syniadau efengylaidd a gynnwysant. Agorant ffynnonau iachawdwriaeth, o'r rhai y dylifa ffrydiau o ddyfroedd bywiol i ddisychedu a diwallu angenrheidiau a dymuniadau enaid blinedig a llesg. Gosodir allan wrthddrych ag y mae edrych arno yn

236 Williams, o Bant-y-celyn,

ddifyrwch i enaid, llythyrenau ei enw yn fywyd iddo— ei “aden dawel bur” yn gysgod i’w ddiogelu, lle y dedwydda ei hunan drwy “wylo cariad pur yn ddagrau melus iawn,” o “foreu hyd brydnawn” ei oes.

Un rheswm am ryfeddol effeithioldeb emynau Williams ydyw, eu bod yn llefaru iaith natur gyda’r fath symledd pur a di-addurn. Y maent yn hudo cydymdeimlad ein natur gyda hwynt yn ddiarwybod i ni. Bydd y galon yn toddi, a’r llygad yn gollwng ei ddeigryn heb yn wybod iddynt eu hunain, yn nghymdeithas ei ganiadau. Pa un bynag ai hiraeth, ai ammheuaeth, ai ofn, ai hyder, ai llawenydd a osodir allan, rhaid i ni gyd-gyfranogi yn y teimlad, gan mor gywir y mae delweddau wynebpryd pob un o’r teimladau hyn yn cael eu portreädu megys o flaen ein meddwl. Nid yw byth yn llefaru mewn tafodiaith galed, neu iaith ddyfnach nag a ddealla y llafurwr anghyfarwydd, ac ni allai yr athraw uchel-ddysg chwaith wneuthur cyfnewidiad er gwell yn iaith a dull-wedd llaweroedd o’i emynau.

Ond mawr ddirgelwch eu nerth ydyw eu hysbryd efengylaidd. Hwn sydd yn rhoddi anadl bywyd anfarwol ynddynt. Dangosant, nid yn unig “lygad yn gweled anian, calon yn teimlo anian, a glewder a faidd gyd-fyned âg anian,” ond hefyd, lygad yn *gweled* yr *efengyl*, calon yn *teimlo* yr *efengyl*, a glewder a faidd *gyd-fyned â’r efengyl*. Gwna wrthddrychau ac elfenau anian yn llaw-forwynion i wasanaethu yr efengyl. Rhai o’n beirdd, Dafydd ab Gwilym yn neillduol, a’u tröant i wasanaethu digrifwch ac ysmaldod. *Cywydd*

*yr Eira*, a'r cyffelyb, a ddangosant yr athrylith fwyaf bywiog, ond y mae ei hysbryd a'i nodwedd yn wammal a choeg-ddigrifol. Y mae hyn yn ddiraddiad ar fonedd a phurdeb anian, oblegid nid yw hi byth yn goeg-ysmala; er ei bod yn siriol, y mae bob amser yn symlaidd. Ni throsedda Williams byth yn ei herbyn yn y wedd hon, er, fel y cawn achlysur i sylwi etto, ei fod yn euog ambell waith o'i threisio mewn modd arall.

Peth arall cynnorthwyol i'w heffeithioldeb ydyw absenoldeb cynghanedd. Meddyliau cryfion, a syniadau dyrchafedig, wedi eu gwisgo mewn cynghanedd gywrain ac ystwyth, ydynt brydferth a tharawgar dros ben mewn cywydd, neu awdl gyfansoddedig ar y goreuon o'r mesurau caethion; ond ni wedda gormod o ymgais am gynghanedd mewn emynau cynnulleid-faol. Y mae Edward Jones, Maes-y-plwm, yn rhyfeddol ddedwydd yn ei gynghaneddion; y mae sŵn y gynghanedd i'w glywed yn clecian ac yn tingcian yn mhob llinell; ac er nad yw y bardd yn ymddangos fel pe byddai mewn gorchest i gynnyrchu y cyfryw, y mae sŵn yr efydd a'r symbal yn lleihau yr effaith i gryn raddau. Efe, yn ddiâu, yw y dedwyddaf o'r holl odlwyr cynghaneddol; parabla ei gynghaneddion ef yn rhwydd a chroyw, yn naturiol a di-drafferth, tra y mae rhai eraill yn rhedeg ar draws pob cloddiau ar ol y gynghanedd, nes ydynt yn mron tori eu gwynt, ac yn dyheu am dani, ac etto yn methu cael ond prin afael yn ei chynffon yn aml; a bydd ei sain mor aflafar a hen gloch y llan wedi crecio!—bloesg fydd ei lleferydd, a chloff ei cherddediad. Deallodd

238 Williams, o Bant-y-celyn,

Williams athroniaeth emynau yn well ; ni wnaeth yr ymgais lleiaf at gyd-gordiad geiriau mewn cynghanedd ; cyd-odliad a mesuriad yn unig gofalai ef am danynt ; a'r canlyniad a brawf iddo wneuthur yn ei le.

Dodwn y pennillion canlynol fel enghreifftiau i brofi ein haeriad o rym ac effeithioldeb ei ddull yn portreädu gwahanol deimladau a dymuniadau y Cristion:—

“ Fy enaid llesg sy'n llwfrhau,  
Gan fy nhrachwantau sy'n parhau,  
A'm beiau maith yn llaesu dim ;  
O! p'le mae effaith dwyfol waed,  
Y Balm o Gilead ry' iachâd,  
Ac dÿr y nwydau mwya'u grym ?

O! p'le mae'r manna perffaith gwir,  
A'r dyfroedd tawel sanctaidd pur ?  
Mae'm syched, Arglwydd, yn parhau ;  
'R wy'n methu tynu dÿr yn awr,  
Fy anghrediniaeth sy mor fawr,  
Agor y graig, 'r wy' bron llesghau.

'R wy' oll yn friw, 'r wy' oll yn wan,  
A neb ond ti a'm deil i'r lan,  
Dy hunan, 'r wyt yn fwy na'r byd ;  
Yr olwg leia' ar dy wedd  
Sy'n drech nag angeu, trech na'r bedd,  
Dy hunan, wy'n ddymuno i gyd.

ei Emynau a'i Ganiadau. 239

Pwy a chwennychai fyw'n y byd,  
Sy'n dwyll, sy'n drafferth trwyddo i gyd?  
Mil mwy ei ofid nag ei flas ;  
Yn lladd o hyd, heb byth fywhau,  
A'i groesau trymion yn parhau ;  
O ! am drigfanau nefol ras.

Trwy darth a niwl, mi wela'r fan  
Ddymunai'm henaid gael i'w ran ;  
Ardaloedd gras, ardaloedd hedd—  
Y wlad mae cariad pur di-drai  
Fel afon yn ei dyfrhau,  
Tu hwnt i angeu du a'r bedd.

Anghenus wyf, bechadur gwan,  
Am hyn 'r wy'n tynu tua'r lan,  
Yn gweled digon gan fy Nuw ;  
Trysorau, pe cawn eu mwynhau,  
A laddai 'ngofid, laddai 'ngwae,  
Ac a'm gwnai'n llawen tra fawn byw."

Wel, pa galon a all attal ei thosturi a'i chydym-  
deimlad â'r truan tlawd a gofidus? Y mae fel Job  
yn tywallt ei gwynfanau "fel dyfroedd"—mewn  
"cyfyng-gynghor, ond nid yn ddi-obaith"—"brefa  
fel yr hŷdd am yr afonydd dyfroedd," ond y mae yn  
dyfod i'w golwg o'r diwedd, ac yn tynu tuag  
atynt.

Gwrandewch etto ar lais ffydd a hyder y  
credadyn helbulus :—



## Williams, o Bant-y-celyn,

"Nid yw'r holl greadigaeth äang,  
 Daear, awyr, dŵr a môr,  
 'Nghyd â'u llwythau maith di-derfyn,  
 'Nghyd â'u hannherfynol stôr,  
 Ond dy weision gyda'u gilydd,  
 Fel y mynost, felly maen'  
 Ac hwy drônt, er pob gwrth'nebydd,  
 I fyn'd â'th enw yn y blaen.

Ti wnai'r hyn fo'n wenwyn perffaith,  
 Rai amserau i wella clwy';  
 Ti wnai i'r eli goreu gafwyd,  
 Rai amserau, i glwyfo mwy ;  
 Ti wnai i haf, a pharch, a gwynfyd,  
 Losgi'r llysiâu gan y gwres ;  
 Ti wnai i rew a chystudd diried,  
 I fyn'd â mi i'r nef yn nes.

Tân dry'n ddŵr, a dŵr dry'n wenfflam,  
 Os d' ewyllys iddynt bair ;  
 Gwnai i'r morfil mawr ysgyrniog,  
 I lesmeirio wrth dy air ;  
 Beth yw mhechod it' ond gwyfyn,  
 Er ei rüad, er ei rym,  
 Gwna, fe gwyp, ond wrth dy amnaid,  
 Ni raid i ti ddywedyd dim.

Croes a chystudd gaiff ei guro,  
 A llawenydd, a mwynhau—  
 Fe gaiff cosp, ac fe gaiff cerydd  
 Rwystro i'w deyrnas ef barhau ;

Fe ddiwreiddir hen adeilad,  
Gadarn, nerthol, maes o law ;  
Y mae bŷs trag'wyddol allu  
Tan ei wadn, yma a thraw.

Gwena arna'i, Tywysog Bywyd,  
Yna gwged arna'i 'r byd ;  
Ynot f' enaid sy'n ymddiried,  
Uwch law meibion Adda i gyd ;  
Rho addewid byddi gydaf,  
Unrhyw rwystr îs y nef,  
Doed o'r ddaear, neu o uffern,  
Ofna'i ddim o hono ef."

Etto :—

" Mae fy enaid yn ehedeg,  
Ar adenydd ysgeifn ffydd ;  
Ac yn syllu trwy'r äangder  
Uchel, maith, at bethau fydd ;  
'N awr mi wela',  
Wlad o hedd yn agoshau.

Rhwng cymmylau duon, tywyll,  
Gwelaf draw yr hyfryd wlad,  
Mae fy ffydd yn llefain allan,  
'Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad !'  
Digon, digon,  
Mi anghofia'm poen a'm gwae.

Gwêl tu hwnt i fyrdd o oesoedd,  
Gwêl hapusrwydd maith y nef

## Williams, o Bant-y-celyn,

Edrych ddeng mil etto yn mhellach,  
 Digyfnwid fyth yw Ef ;  
 Trag'wyddoldeb,  
 Hwn sy'n eiddo im' fy hun.

'R wyf yn edrych ar y cwbl  
 Ag sydd yn y bydoedd draw,  
 Pethau fu yn bethau agos,  
 Pethau fu yn bethau ddaw ;  
 Môr di-waelod,  
 O bleserau ddaeth i'm rhan.

Nid oes terfyn ar fy ngobaith,  
 Cyrhaedd mae yn mlaen o hyd ;  
 Gyda'r Duwdod mae'n cyd-redeg,  
 Dyddiau'r ddau sy'n un ynghyd ;  
 Annherfynol,  
 Ydyw fy llawenydd mwy.

Beth wy' gwaeth pe llyngcai'r moroedd  
 Ddaear äang yn eu croth ?  
 Beth wy' gwaeth pe d'ai gwaelodion  
 Dyfnder mawr yn berffaith noeth ?  
 Beth yw colli,  
 Môr a daear, ond cael Duw ?

Mae fy nghred yn ymafaelu  
 Yn y storom, am y tir ;  
 Y mae'r cefnfôr hyll mewn undeb,  
 Heddyw, â'r baradwys bur ;  
 Dewch yn öofn,  
 Tir y bywyd, dacw fe !

'R wyf fi ar y cefnfôr garw,  
 Yn anturio edrych draw ;  
 Ac o gefn y dòn yn canfod  
 Tir y bywyd pell ger llaw ;  
 Mewn addewid,  
 'R wyf mor agos at y wlad.

Nef yw meddiant yr angylion,  
 Daear ydyw meddiant dyn ;  
 Ond fe ddarfu'm ffydd i wneuthur  
 Nef a daear fawr yn un ;  
 'R wyf yn hòni,  
 Hawl i'r oll sydd gan fy Nuw.

Mae fy enaid yn ehedeg,  
 Ac yn dringo fyny fry ;  
 Mae fy esgyrn yn ymdrwsio  
 I lechu yn y ddaear ddu ;  
 Mi ddo'n gryno,  
 Etto 'nghyd ryw ddydd a ddaw."

Etto unwaith dan y pen hwn:—

"'R wyf yn dechreu profi eisoes  
 Beraroglau'r gwledydd draw,  
 Gyda'r awel deneu'n hedeg,  
 Dïau fod y tir ger llaw ;  
 Dere'r tir dymunol hyfryd!  
 Dere ardal lawn ddi-drai,  
 Dy bleserau o bob rhywiau,  
 Gâd im' bellach eu mwynhau!"

Pan oedd Columbus a'i gyd-fordwywyr yn hwylio mewn ymchwil am y Cyfandir gorllewinol, ac wedi bod ar y cefnfôr mawr anadnabyddus dros lawer o wythnosau, a misoedd rai, ac ar roddi i fyny yr ymchwil mewn anobaith, tybiai un o'r morwyr ei fod yn aroglu llyisiau, yr hwn a gludid gan y gwynt yn chwythu oddi ar y tir. Gwnai hyn yn adnabyddus i'w gyd-forwyr, a dyna lle yr oeddynt yn sawrio ac yn ffroeni, nes y tybient oll yr un peth, ac y llanwyd eu meddyliau â gobaith ac â llawenydd. Yn fuan, daeth y tir dymunol hwn i'r golwg, a haws dychymygu na disgrifio eu teimladau ar yr amgylchiad. Tebygol mai y digwyddiad hwnw a roddodd i'r bardd y meddylldrych dyrchafedig a phrydferth a gynnwysir yn y pennill di-gymmhar uchod. Llygad yn gweled a chalon yn credu ac yn dymuno tir y bywyd oedd gan ffydd y Cristion yn y pennillion blaenorol, ond yma y mae ganddi ffroen yn aroglu ei flodau oddi ar ganol y cefnfôr, cyn cyrhaedd i'w olwg; ac wrth brofi ei beraroglau, y mae yr enaid ar dân o lawenydd, ac fel morwyr Columbus yn ymestyn mewn dymuniadau am ei weled a'i fwynhau:—

“Dere 'r tir dymunol hyfryd!”

Gallasem dan y pen hwn yn hawdd chwanegu ugeiniau o ddetholion llawn mor ardderchog a'r rhai a ddodasom, ond rhaid ymattal.

Yn y pennillion canlynol disgrifir yn y modd mwyaf bywiog a chynnhyrfiol, helyntion enaid argyhoeddedig yn ymdrechu am ei fywyd—yn addunedu,



ac yn tori addunedau—yn suddo i'r dyfnder, i fin uffern, ac i safn angeu, ac yn cael ei winllanoedd o'r fan hono, a dyffryn Achor yn ddrws gobaith, &c.:—

“ Saith o weithiau ol a gwrthol  
Torais dy orch'mynion glân,  
Saith adduned fawr a wnaethum  
I ymgadw rhag y tân;  
Yn y dyfnder cefais gyntaf  
Wel'd dy wyneb gwridog gwyn,  
Oni buasai fflam euogrwydd,  
'Ddaethwn byth i Seion fryn.

Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,  
Fe wnaeth t'w'llwch dudew'r nos,  
Im' roi naid trwy ddyledswyddau,  
Cael neu golli, at y groes;  
Ar fin uffern ce's y nefoedd,  
Yn safn angeu cefais fyw,  
Yn nharanau mynydd Sinai  
Gynta' des i gwrdd â Duw.

Mellt a th'ranau, mŵg a chenllysg  
Oedd euogrwydd imi'r pryd  
Profais fod maddeuant pechod  
Fil o weithiau'n well na'r byd;  
Gwna i mi gofio'r oriau hyny,  
Oriau fy mhriodas y'n,  
Pan ddaeth Crëwr nef a daear  
A'r pechadur gwaela'n un.”

Yn yr un canlynol cyflëir y meddylddrych

246 Williams, o Bant-y-celyn,

mwyaf cadarngryf a barddonol, yn nghanol yr adroddiad mwyaf syml a di-addurn :—

“ Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,  
A'r eilunod pena' erioed ;  
*Mi'ch tyngheda' yn ngwydd y nefoedd*  
*Na ddilynoch ol fy nhroed !*  
Myn'd 'rwy'n llwm tua thir y bywyd,  
Ffon yn unig yn fy llaw,  
Af yn mlaen trwy yr Iorddonen,  
Mae 'nghyfeillion anwyl draw.”

Dyna y pererin yn cymmeryd ei draed fel Jacob gynt, yn canu yn iach i bawb ac i bob peth ; ac wrth gychwyn, yn tynghedu y rhai a fynent ei berswadio i aros, na ddilynent ac na rwystrent ef—dywed i ba le y mae wedi rhoddi ei fryd ar fyned, a hobia yn mlaen tuag yno wrth ei ffon gynted ag y gallo. Y tynghedu yn ngwydd y nefoedd a dŷr allan fel taran gref yn ddisymwth, pan nad oes neb yn disgwyl am dani ; ar ol iddi fyned heibio, llonydda pob peth ar unwaith drachefn, ac ä y pererin yn mlaen yn syml a di-niwed ddigon, i sôn am ei ffon, ei daith, a'i gyfeillion anwyl draw.

Ond *person, dioddefaint, haeddiant, a gogoniant y Cyfryngwr, a'r iachawdwriaeth trwyddo*, yw y prif destyn. Dyma gartref yr awen gyssegredig hon. Yma y mae yn cynnull ynghyd holl nerthoedd ei hysbryd—ei henaid, a chwbl sydd ynnddi, i ddisgrifio a chlodfori. Pentyra ar eu gilydd-yr ymadroddion mwyaf nerthol a bywiog, ynghyd â'r cymmharïaethau

cryfaf, i ddisgrifio a chanmawl. Dychwela at y testyn drachefn a thrachefn, a metha yn lân a boddio ei hunan bob tro. Rhag chwyddo yr ysgrif hon i feithder gormodol, ni roddwn ond ychydig o enghreifftiau:—

“Yr hoelion geirwon caled, gynt a'i trywanodd E',  
Sy'n awr yn dal y nefoedd gwmpasog yn ei lle ;  
Mae gobaith meibion dynion yn llifo oll i gyd  
Oddi wrth yr awr trywanwyd Crëawdwr mawr y  
byd.

Pe unwaith y darfyddai awdurdod Calfari,  
Darfyddai pob cysuron ar unwaith genyf fi ;  
O bawb yn sicr byddwn y truenusaf ddyn,  
Fe lyngcai'r bedd dychrynlyd fi'n fuan iddo'i hun.

Y baich oedd annioddefol i'r cryfa' o ddynolryw,  
Ga'dd orwedd yn ofnadwy ar ysgwydd gref fy Nuw ;  
Cyfiawnder oedd yn gofyn, am bechod dinacâd,  
Y swm anfeidrol dalwyd trwy eitha' chwys a gwaed.

Y mynydd mawr anfeidrol a gym'rodd Ef i gyd,  
Oddi ar ysgwyddau gweinion yr euog aflan fyd ;  
Pan welai'r greadigaeth i fod y baich mor fawr,  
Fe guddiodd nef ei hwyneb, fe grynodd yntau'r llawr.

Pe buasai fil o fydoedd yn cael eu prynu 'nghyd  
A'r cyfryw bris, buasent yn llawer iawn rhy ddrud ;  
'D oes angel fyth, na seraph, na cherub o un rhyw  
I'r filfed ran all dd'wedyd mor werthfawr gwaed fy  
Nuw.

248      **Williams, o Bant-y-celyn,**

O! deffro di, fy nghalon, myfyria farwol loes,  
'D oes arall ddim a'th ddeffry, onis deffry angeu'r  
groes;

O dan y groes y torodd afonydd mawrion dydd,  
Yn troi tywyllwch dudew yn awr yn hanner dydd.

Cyfiawnder amddiffynwyd—a chariad yn dy glwy',  
A rhagor nag amddiffyn 'n awr fe'u dyrchafwyd hwy;  
O! weithred o ryfeddod! dirgelwch cadw dyn,  
Nid arall all'sai 'i chefnu, yn unig Duw ei hun.

Mae'r fath feddyliau mawrion yn codi'm hysbryd  
gwan,

O wâr pob peth creedig, yn uchel iawn i'r lan;  
Yn prisio aur ac arian, y perlau mwyaf drud,  
Ger bron cyfiawnder dwyfol, yn sorod câs i gyd.

'N ol edrych ar ol edrych, o gwmpas i mi mae  
Rhyw fyrdd o ryfeddodau newyddion yn parhau;  
Pan b'wy'n rhyfeddu unpeth, peth arall ddaw i  
'mryd—

O! iachawdwriaeth rasol, rhyfeddol wyt i gyd!

Bendithion ar fendithion, trysorau angeu loes,  
Grawnsypiau mawrion aeddfed yn hongian ar y  
groes,

Sydd yn cwmpasu'm henaid, rhinweddau mawr eu  
grym,

A minnau yn eu canol yn methu dywedyd dim.

Mi welaf yn ei fywyd y ffordd i'r nefoedd fry,  
Ac yn ei angeu 'r taliad a roddwyd tros of fi;

Yn ei esgyniad gwelaf drigfanau pur y nef,  
A'r wledd drag'wyddol berffaith gaf yn ei gwmni Ef."

Etto:—

"Dacw'r hoelion geirwon llymion,  
Wedi'u curo'n awr i dre ;  
Dacw'r bicell yn trywanu  
I mewn o dan ei ystlys E';  
Dacw boen, addfwyn Oen,  
Yn rhoi'r nefoedd dewi sôn.

'N awr mi glywa'r gair 'Gorphenwyd,'  
Gorphen iachawdwriaeth wir !  
Ac mi wela'r gwaed yn hidlo  
Tros ei ruddiau sanctaidd pur !  
Wele'r nef, gadarn gref,  
Yn tywyllu wrth ei lef.

Minnau bellach a obeithiaf,  
Gobaith ag all estyn f' oes—  
Gobaith wedi ei sylfaenu,  
Ar och'neidiau pur y groes ;  
Dyma wlad, caf iachâd,  
A chaf gyflawn wir ryddhâd.

Dwyfol waed, a dwyfol boenau,  
Haeddiant ydoedd hwn mor ddrud,  
Ac oedd dafn bach o hono  
'N abl ddigon brynu byd,  
A phe b'ai maint ei fai,  
Ganmil trymach nag y mae.



Bod Creawdwr nef yn dioddef  
 Rôdd anfeidrol werth a rhin,  
 Yn mhob gwŷn, yn mhob ochenaid,  
 O ddioddefaint Mab y dyn,  
 Nid yw llid euogrwydd byd,  
 Ddim i bwysu'i haeddiant drud.

Yma tardd cyfiawnder allan,  
 Fel rhyw ddiluw mawr di-drai,  
 Ac er golchi miloedd ynddo  
 Nid yw'r dyfroedd ronyn llai;  
 Gwaed fy Nuw, unig yw,  
 Trech na'r beiau dua'u lliw."

Drachefn:—

"Wel f' enaid cerdd y ffordd yn hy',  
 Yn union tua Seion fry,  
 A chadw'th lygad ar y nôd ;  
 Calfaria fryn, lle gweli'r groes,  
 A'i haberth arni tan ei loes,  
 Rhyfeddod mwya'r nef erioed.

Mae'r bryn yn uchel, uchel iawn,  
 A'r aberth drud yn eglur iawn,  
 Fel gallo'r dwyrain bell a'r de,  
 Y dynion lle mae'r dywyll nos,  
 Er t'w'llled, edrych tua'r groes,  
 A gweled ei drywanu E'.

Fe all yr Indiaid pella' gaed,  
 I wel'd yr hoelion yn ei draed,  
 A gwel'd ei ben yn crymu i lawr ;

Fe ylch y pellenigion hyn  
Yn ganaid fel yr eira gwyn,  
Oddi wrth eu beiau fach a mawr.

'D oes un aflendid, unrhyw fai,  
Nad yw ei haeddiant yn glanhau,  
Pechodau dua' glywyd sôn,  
A foddir yn yr afon fawr  
Mewn amryw liwiau ddaeth i lawr,  
O ystlys addfwyn nefol Oen."

Unwaith etto :—

" Pechod yma, cariad acw,  
Fu yno yn y glorian fawr ;  
Ac er trymed oedd y pechod,  
Cariad bwysodd hyd y llawr ;  
Gair 'Gorphenwyd,'  
Wnaeth i'r glorian bwysig droi.

Haeddiant Duwdod, o'i gymmharu  
Yn erbyn uffern fawr o'r bron ;  
Dafn o'r gwaed sy'n ganmil trymach  
Nag aflendid dudew hon ;  
Gw'radwyddiadau,  
Duw rydd iawn am feiau'r byd !

Fe ddistawa myrdd o ellyllon,  
Fe ddistawa'r ddeddf ger bron ;  
Fe ddistawa pur gyfiawnder  
Sy'n ymddial cweryl hon,  
Cyntaf enwir,  
Sillaf prin am waed y groes."

“Wele, aeth ein nant yn afon, a’n hafon yn fôr.” Ni fwriadem fod hanner gan feithed wrth ddechreu dethol a dyfynu; ond wedi myned unwaith i gyrhaedd dylanwad y swyn, anhawdd iawn ydyw ymryddhau o hono. Ugeiniau a channoedd lawer o’r cyffelyb bennillion a ymrithrient ger ein bron, ac a’n temtient i’w tros-ysgrifio; a bu raid i ni, o’r diwedd, erfyn arnynt i droi eu llygaid oddi wrthym, canys gorchfygent ni.

Y disgrifiadau o ogoniant a dedwyddwch y nefoedd, a roddir yma a thraw yn yr emynau, ydynt yn mhlith y goreuon; ond rhaid eu gadael, onid ê deun dan gerydd, o herwydd meithder, a hyny yn gyfiawn. Rhaid i ni adael heibio hefyd ei amrywiol ganiadau a’i farwnadau, heb sylwi yn neillduol arnynt. Rhêd yr un ysbryd ac athrylith drwyddynt oll. Cyfansoddodd un dernyn o gerdd ddi-odl (*blank verse*), yr hon a eilw ef “Cân Benrhydd.” Dernyn tra gorchestol yw hwnw, a thrueni na buasai wedi cyfansoddi mwy ar y mesur hwn. Y mae mwy o gyd-darawiad dawn, athrylith, ac ysbryd, rhyngddo â’r eiddo y chwilfrydig Cowper nag un arall o’r beirdd Saesnig; a mwy o hyn i’w weled, fe allai, yn y “Gân Benrhydd” nag yn ei gyfansoddiadau eraill.

Ond fel y cawsom achos i achwyn, wrth sylwi ar y cyfansoddiadau eraill, oblegid geiriau isel, estronol, a bastarddaidd, felly y mae genym etto. Y llwynogod bychain hyn ydynt i’w canfod yn fynych yn difwyno y gwinllanoedd, neu fel y gwybed meirw yn enaint yr apothecari. Gwaith da fyddai hidlo yr enaint, eu dal,

a'u dēol ymaith. Gellid yn hawdd wneyd hyn heb newid dim ar yr ystyr. Gwell genym ni air Saesneg pur ddiledryw na rhyw fastardd—rhyw Ddic Sion Dafydd o air, hanner Sais, hanner Cymro—megys *ffito, resolvo, waito, ffeinto, ffeindo, &c.* Fel mae goreu y modd, yn y pennillion gwaelf a gwanaf y digwyddant fynychaf; ac nid gwiw gwadu, cyfarfyddir â nifer mawr o rai gwaelfion a gweinion yma a thraw—llawer yn bur anystwyth eu cymmalau, a hynod afluniaidd eu hesgeiriau. Gellid meddwl mai rhwng cwsg ac effro yr oedd y bardd pan yn eu cyfansoddi, pryd na wyddai nemawr ragor rhwng y naill iaith, na'r naill air a'r llall. Ond ambell waith, canfyddir y bastarddair yn frycheuyn du ar wyneb y pennill prydferthaf a melusaf, ac yr ydym yn ddicach wrtho yno o'r hanner na phan gyfarfyddom âg ef mewn hanner cant o bennillion na bydd genym gyfrif o honynt. Dan yr amgylchiad hwn, tueddir ni i ofyn i'r erthyl, "Y cyfaill, pa fodd y daethost ti i mewn yma?"

Trosedda yn erwin yn erbyn natur weithiau, trwy fod yn hŷf a threisiol arni, a cheisio llusgo ei gwrthddrychau a'i helfenau i wneuthur cymmharïaethau o honynt na bydd y priodoldeb na'r cyssondeb lleiaf ynddynt. Y mae ammhriodoldeb ac anghyssonderau y disgrifion yn y pennillion canlynol yn wrthun iawn:—

"Mi wnaethum degan gynt o'r byd,  
I gael arogl hwn o hyd—  
Pan cododd haul o'r dwyrain draw,  
Yn ddistaw gwywodd yn fy llaw.

254 Williams, o Bant-y-celyn,

Ni chara'i mo'i deganau mwy,  
 Pryd rheitia darfod y maent hwy,  
 'D oes yma lysiau o un rhyw,  
 A ddalia llid digofaint Duw.

Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw,  
 Aroglaf ef tra byddwyf byw"—

*Arogli* tegan:—a *thegan* yn gwywo! Wel, wfft! Pe gwnaethai *bwysi* o'r byd, yn lle tegan, a dyweyd iddo arogl hwnw, ac iddo wywo yn ei law, buasai y gymmhariaeth yn briodol. Ystyr briodol tegan ydyw, peth i'w rodli yn llaw plentyn iddo i *chwareu* âg ef, nid i'w *arogli*. Eilwaith—dywedyd nad oes yn y byd lysiau o un rhyw a ddalia dân digofaint Duw sydd yn wendid dirfawr. Yn ddiâu, yr oedd rhyw awr wan ar goryn yr awen pan lefarai fel hyn. Drachefn—"Fy nhegan mwy fydd Iesu gwiw." Gwaeth fyth! Pe dywedasai *fy mhwyisi*, buasai priodoldeb a phrydferthwch yn y pennill, a buasai ganddo awdurdod Cân y Caniadau dros arfer y gymmhariaeth—"Fy anwylyd sydd i mi yn bwysi myrr," &c. Ond gwneyd tegan o'r Gwardwr sydd drosedd yn erbyn pob gweddeidd-dra.

Etto:—

"Y byd 'rwy' ynddo sydd yn llawn  
 O ryw fwystfilod rheibus iawn;  
 Amrywiol ryw, im' wastad sy  
 I'm denu oddi wrth fy Mhriod cu."

A glywodd neb erioed y fath beth? Bwystfilod



rheibus yn denu! Dychrynu a llarpio pawb a phob peth a wna bwystfilod rheibus hyd y gallant; ni chlywsom erioed am danynt yn denu o'r blaen. Pe dodasid *hudoliaethau cyfrwys iawn*, yn lle y *bwystfilod rheibus*, buasai pob peth yn dda.

Etto:—

“Mae'm siwrnai drwy'r anialwch maith,  
Mae'r *tide* a'r tonau ar ein taith.”

Yn y môr y mae *tide* a thonau, nid yn yr anialwch.

Gellid lliosogi enghreifftiau o gyffelyb amryfusedd, ond ymattaliwn. Pan y mae yr awen yn effro, ac yn ymroi ati, mor fedrus, bywiog, a phrydferth y pletha ei geiriau, ac mor briodol a hardd y cyd-gordedda ei chymmhariaethau? Sylwer, er enghraifft, ar y gân ar “Dwyll y Byd:”—

“Megys llestr hen a drylliog ydyw'r byd ar fôr  
tymmhestlog,  
Pleser ydyw edrych arno, ond peryglus iawn bod  
ynddo;  
Os daw un i maes o'r tonau ar ystyllen friwlyd deneu,  
Fe glyw stŵr ar y dŵr, dwndwr yn angeu,  
Draw yn mhell gan ryw fyrddiynau, aeth yn iach i'r  
llestr gynneu.

Beth rhaid cymmaint poen a gofid wrth a bery ond  
awr o ennyd?  
A phe meddem aur yr India, perl Brazil, a sidan  
Persia;

256 Williams, o Bant-y-celyn,

Dyma'r man diwedda 'i henw, 'pridd i'r pridd, a lludw  
i'r lludw;'

Dyma fe yn ei le gerwin yn gorwedd,  
Dyma 'i oed mewn byd o wagedd, diarwybod daeth ei  
ddiwedd.

A raid i henaint sydd yn darfod, ac yn hongian wrth  
y beddrod,  
Fel hen goedydd yru 'u gwreiddiau ddyfnach ddyfn-  
ach rhwng y creigiau,  
Caru'r ddaear yn anwylach, fel b'ont ati'n myn'd yn  
nesach ;

Dwylaw hyn, gweinion gwyn, crinion yn crynu,  
Etto'n daer yn ymafaelu am yr hyn sy' yn eu nychu !

Rhwymo'r awyr lân a'i gasglu, beth yw ceisio'r byd  
ond hyny ?  
'Chydig iawn ar ddyd sy'n eisieu, a thros 'chydig o  
flynyddau,  
Pa mor gynted rhaid im' ado'r lludw llwyd sy'n awr  
yn eiddo !

Yr hwn a ges, er mawr les, gan anian dros  
ennyd,  
Pan galwo hi y mae'n rhaid symmud, a rhoi'm lludw  
iddi hefyd.

Dyddiau'm mebyd sydd yn treulio, cyn cael synwyr a  
myn'd heibio,  
A phan delom brisio amserau, prynu deall trwy  
brofiadau,  
Dechreu caffael allwedd bywyd, dawn a rheswm,  
rhinwedd hefyd ;

Yno mae anghau'n glau, yn dadrys ei ddrysau,  
Gwneuthur ffordd ddinag, ddiammheu, fyn'd i mewn  
idd' i'w 'stafellau."

Wel, dyma ni yn awr yn darfod âg ef yn y modd hwn! Gwnaethom ein goreu i godi côf-golofn deilwng i enw ac athrylith yr hen seraph, yr hwn, trwy ras Duw, a wasanaethodd ei genhedlaeth—ie, genhedlaethau—mor ffyddlawm ac effeithiol. Pa mor bell y llwyddasom yn yr amcan sydd yn beth i'n darllenwyr ei benderfynu. Gwnaethem yn well pe buasai yn ein gallu. Gwyddom ein bod yn mhell yn ol o ateb i deilyngdod ein gwrthddrych. Ond os bydd i'n llafur hwn ateb y dyben o gyfeirio meddyliau ein hieuengctyd ac eraill i chwilio a myfyrio mwy ar ei ganiadau, fel y cenhedler ac y meithriner eu hysbryd ynddynt, byddwn ni yn cael ein gwynfyd.

Un gair etto, a dyna ni wedi darfod. Crybwyllasom yn ein sylwadau ar hanes ei fywyd fod dwy ferch iddo yn aros hyd yr awr hon (1847), ac yn aelodau eglwysig gyda'r Annibynwyr. Nid ammhriodol, nac annyddorol i'n darllenwyr fyddai hysbysu yn mhellach fod or-wyr iddo yn weinidog perthynol i'r un enwad yn Trefgarn, sir Benfro—yr hwn a ordeiniwyd i gydweinigogaethu yno â'r Parch. J. Griffith, o fewn corph y flwyddyn ddiweddaf (1846), os nad ydym yn camgymeryd. Cyfranoged yn helaeth o ysbryd a doniau ei hen-daïd enwog a pharchedig. Ac na phalled i Williams, o Bant-y-celyn, wr i sefyll ger bron yr Arglwydd yn dragywydd. Amen byth.

Wedi i ni ddarfod fel hyn â'r peraidd ganiedydd a'r pêr ganiadau, caniatäer i ni fÿr gyfarch y dosbarth parchus hwnw, ein cantorion cynnulleidfäol. Gantorion mwynion, "pe profem ni air wrthych, a fyddai blin genych?" Cymmerasom ein rhyddid eisoes i roddi gwers ar ddodi emynau allan i'w canu; ac yn awr, anturiwn gymmeryd ein rhyddid etto i draethu ein syniadau ar y cantorion a'r gantoriaeth Gymreig yn gyffredinol. Y mae canu mawl yn rhan arbenig o addoliad dwyfol dan bob goruchwyliaeth, ac y mae y modd y cyflawnir y rhan hon o'r pwys mwyaf. Diau fod y canu yn arogl bywyd neu farwolaeth i ysbryd addoli yn mhob cynnulleidfa, yn ol fel y byddo yn cael ei ddwyn yn mlaen ynddi. Cynnorthwya weinidogaeth y Gair, neu ynte saif ar ffordd ei llwyddiant. Tuedda i gynnyrchu a maethu adfywiad crefyddol, neu i'w attal a'i ladd. Ail ennynwyd tân y diwygiad, a ddechreuid trwy weinidogaeth Harris a Rowlands, trwy ganu rhai o emynau Williams. Yr oedd y tân sanctaidd wedi ei anhuddo yn yr ymrafael annedwydd a gymmerasai le rhwng y ddau flaenaf. Y golomen nefol megys wedi ei gyru i hedeg oddi ar gangen y pregethu a ddisgynodd ar gangen y canu. Cododd megys oddi ar yr areithfa, a disgynodd ar y corau; a llawer gwaith wedi hyny y disgynodd ei dylanwad holl-effeithiol ar gynnulleidfäoedd y saint tra yn canu mawl. Y mae swydd yr hwn sydd yn blaenori y canu mewn cynnulleidfa yn un bwysig iawn, yn ddiâu. Gofyna lawer o ddoethineb yn netholiad tôn gymmh wys i'r geiriau a genir, ac i'r amgylchiad a'r teimlad y byddo y gynnulleidfa ynddo ar y pryd. Gwelwyd cynnulleidfa lawer tro, wedi ei

gweithio i deimladau toddedig a drylliog ar oedfa nerthol, yn cael ei thafu ar unwaith i deimladau hollol wahanol gan y dôn a genid ar y diwedd. Golchid ymaith yr holl deimladau crefyddol a difrifol, megys â dyfroedd y *lethe*, oddi ar galonau y bobl, ac ni wŷr neb iachawdwriaeth pa sawl enaid anfarwol a luddiwyd yn y modd yma. Geiriau priodol i'w canu, a thôn briodol arnynt, a fuasai yn tueddu i ddwfnhau yr argraphiadau a wnaethid eisoes ar feddyliau y gwrandawyr.

Y mae gan bob gwlad a chenedl ei harferion, ei defodau, a'i chwaeth briodol ei hun; ac felly y mae gan y genedl Gymreig ei chwaeth gerddorol neillduol. Ni ddygymydd tonau gwylltion ysgafn-seiniol âg archwaeth gyffredinol y genedl. Sain trydaraid, colomenaid, hiraethus—sŵn lleddf, toddedig, ydyw y gerddoriaeth a dery ei theimladau yn fwyaf—prawf o hyn ydyw fod yr hen donau Cymreig agos oll o'r ansawdd yma. Merwino y glust Gymreig a wna sain y gerddoriaeth a ddisgyna arni yn rhy fynych weithiau, fe allai. Yr hen donau hyny, a genid gan ein tadau gyda'r fath nerth a blâs nes y byddai eu heneidiau yn tanio, hwyrach nad oedd nemawr ddim celfyddyd yn eu canu, ond yr oedd natur ac ysbryd ei lonaid. Ni fynem ar un cyfrif ddywedyd dim yn erbyn canu celfyddgar; ond ni fynem, o'r tu arall, chwaith, golli naturioldeb ac ysbryd y peth er mwyn celfyddyd, ond mynem gadw a diogelu pob un o'honynt. Y mae ein henaid wedi bod yn "blysio yr aeddfed ffrwyth cyntaf" lawer gwaith; sef, yr hen donau a glywsom gan ein tadau yn ein mebyd, ac y




gwelsom gynnulleidfa lawer tro yn gwyro fel cae o wenith o flaen yr awel wrth eu canu; ond y rhai, y mae arnom ofn, a ddisgynasant i'r bedd gyda'r tadau hyny: ond y mae ar law ein cantorion eu hadgyfodi os mynant. Dealler, hefyd, nad ydym yn gwrthwynebu tonau newyddion, fel y cyfryw; ond mynem gael ein cerddoriaeth eglwysig yn gyfryw a gydweddo â'r archwaeth a'r teimlad cenedlaethol—bod i'n cyfansoddwyr a'n cantorion, y naill wrth gyfansoddi, a'r lleill wrth ddethol y tonau, i gadw hyn o flaen eu meddwl, a bod gradd dda o'r hen donau yn cael eu harfer, er mwyn y cynulleidfaoedd yn gyffredinol, y rhai na allant uno eu lleisiau mewn mawl drwy ganu y rhai newyddion. Ewyllysiem weled alltudio o'n cyssegr holl donau y *ffal di dal* a'r *ffidl di di* fel rhai anghydweddol â symledd efengyl ac addoliad dwyfol. Pob peth a dueddai at ysgafnder a digrifwch ni ddylai gael ei arfer na'i oddef yn nghynteddau crefydd. Y mae tonau o'r fath hyn fel mŵg i lygaid, a finegr i ddannedd Cristionogion Cymru. Y mae lliaws o donau gorfoleddus i'w cael yn ngwaith y prif gyfansoddwyr, hen a diweddar (a gall ein cyfansoddwyr chwanegu at eu nifer etto), y cyfryw ag ydynt yn dra addas i'w canu mewn addoliad; canys y mae gwahaniaeth mawr rhwng tôn orfoleddus a thôn ddigrif, cymmaint felly yn y *swm* ag sydd o ragoriaeth rhwng *ystyr* cân orfoleddus a cân ddigrif.

Diffyg arall ar effeithiolaeth ein canu ydyw ei ffurfioldeb. Y mae pob peth yn myned yn sych a di-effaith pan elo yn ffurfiol. Ymddengys fod gogwydd yr oes bresennol yn drwm iawn i'r agwedd hon gyda

phob peth. Pan oedd nerth a melusder anghyffredin yn y canu cynnulleidfäol yn Nghymru gynt, yr oedd ffurfioldeb yn beth dyeithr iddo. Pan gaffai y gynnulleidfa flas neillduol ar unrhyw emyn, daliai ei gafael ynndo, gan ddyblu drachefn a thrachefn y llinellau hyny a wresogent ei theimlad. Aeth hyn yn ddefod ac arferiad, y mae'n wir; ond codai yn hollol oddi ar deimlad gwresog yr addolwyr, ac nid er mwyn cadw y ddefod a'r ffurf o'r peth. Collid y teimlad hwn agos yn hollol gyda newidiad y tonau, ac ni chlywir odid byth ddyblu y gân yn bresennol, oddi gerth y ddwy linell olaf o'r pennill olaf o'r emyn, a hyny fynychaf o herwydd ffurf a defod. Clywodd Ioan dyrfa brynedigol y nef yn canu; ac nid annhebyg ydoedd i ganu yr hen Gymry gynt:—"Ac eilwaith y dywedasant, Aleluia."

Gyda chymmhell yr ystyriaethau uchod i sylw ein cantorion eglwysig, yr ydym yn terfynu.



\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_


\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_









192, 214.

